Utrecht University Library
Partner in Science
Universiteit Utrecht

# Y Dreflan : ei phobl a'i phethau

https://hdl.handle.net/1874/380765

# Y DREFLAN

STRAEON Y PENTAN

VAN HAMEL
478

E DONATIONE

A. G. van HAMEL

PROFESSORIS
ORDINARII IN
ACADEMIA
RHENO-TRAIECTINA
1923—1946

3614

A Grant Hames

UNIVERSITEITSBIBLIOTHEEK UTRECHT
3928 9545

3614

# Y DREFLAN:

## EI PHOBL A'I PHETHAU.

1867

W II f Owe 5
-1

# Y DREFLAN:

## EI PHOBL

## A'I PHETHAU.

GAN

DANIEL OWEN,

YR WYDDGRUG.

Instituut voor
Keltische taal—en letterkunde
der Rijksuniversiteit te Utrecht

WREXHAM:

CYHOEDDEDIG GAN HUGHES AND SON, 56, HOPE STREET.

UNIVERSITEITS BIBLIOTHEEK UTRECHT
Instituut voor
Keltische taal- en letterkunde
der Rijksuniversiteit te Utrecht

# RHAGYMADRODD.

---

Nid rhaid dywedyd beth yw ansawdd a chynnwysiad y cyfansoddiad hwn, a deitlir Y Dreflan, wrth neb sydd wedi darllen y Drysorfa, cylchgrwn misol y Methodistiaid Calfinaidd, am y ddwy flynedd diweddaf (1879 a 1880). Wrth i'r pennodau ddyfod allan o fis i fis, ennillasant sylw cyffredinol a chanmoliaeth uchel. Ac yn awr, oddiar annogiad lliaws o gyfeillion yr Awdwr, gyda pharodrwydd y Cyhoeddwyr oddiar ddeall "llais y wlad," fel y dywedir, wele y cyfan yn dyfod allan yn un llyfr, yr hyn a rydd fantais i lawer weled y gwaith o'r newydd, ac i'r lleill a'i darllensant yn y gwahanol rifynau gael y cyfan yn hylaw gyda'u gilydd.

Yr oedd yn dda iawn genyf weled fy nghymydog a'm cyfaill, Mr. D. Owen, yn gollwng allan ffrwd ei ddawn trwy ysgrifenu yn y modd hwn, yn enwedig gan fod ei wendid corfforol wedi peri iddo roddi heibio am yr amser y gwaith cyhoeddus o bregethu, yn yr hyn yr oedd yn ddefnyddiol a chymeradwy iawn. Ac y mae ei lwyddiant gyda ei ysgrifell eisoes yn ei orchymyn, mi a dybygwn, i fyned ymlaen eto yn y dull y dengys ynddo gymaint o dalent a medr.

Dichon fod rhyw ychydig nifer o bobl dda yn meithrin gwrthwynebiad i ddwyn allan wirioneddau crefyddol mewn ffordd o adroddiadau neu ystoriau, megys y ceir yma. Ond os rhydd y cyfryw ddarlleniad trwyadl i'r Dreflan, hwy a welant nad oes ynddi ddim yn annaturiol neu yn anghymeradwy, megys y mae mewn llawer o

ffug-chwedlau; ac yn y llyfr hwn, hefyd, cyflwynir lliaws o wersi daionus i rai nad ânt i edrych am danynt mewn pregethau, traethodau, ac esboniadau. Gwelir fod yr Awdwr yn sylwedydd craff ar y natur ddynol, ac ar gymdeithas grefyddol yn gyffredinol, fel, er nad oedd yn portreiadu unrhyw bersonau neillduol, fod ei ddesgrifiadau mor naturiol â phe buasai yn rhoddi hanes gwrthddrychau byw oedd o flaen ei lygaid. Yn wir, derbyniais fel Golygydd y DRYSORFA lythyr difrifol, ymha un y dywedai yr ysgrifenydd ei fod yn deall fod y cymeriadau a bortreiedid yn y DREFLAN wedi eu cymeryd o'r plwyf yr oedd efe yn byw ynddo, ac felly fod yr Awdwr "yn ceisio pardduo un o'r llanerchau mwyaf moesol a chrefyddol" yn ein gwlad, a'i waith o'r herwydd yn "sothach enllibgar," tra yr oedd y plwyf a nodid, a'r wlad o'i amgylch, yn hollol ddyeithr i'n cyfaill. Wrth ddarllen y llythyr achwyngar hwn nis gallaswn lai na meddwl am eiriau Solomon, "Megys mewn dwfr y mae wyneb yn ateb i wyneb, felly y mae calon dyn i ddyn;" ac fel hyn rhaid fod y DREFLAN yn darlunio egwyddorion a theimladau sydd yn gyffredin i ddynolryw mewn byd ac eglwys.

Gallaf ddyweyd, ar ddiwedd hyn o ragymadrodd, y siomir fi yn fawr os na bydd y llyfr hwn yn cael ei dderbyn yn groesawus gan fy nghydgenedl ac yn enwedig gan Fethodistiaid Cymru yn dra chyffredinol.

ROGER EDWARDS.

YR WYDDGRUG,
*Awst* 18, 1881.

# CYNNWYSIAD.


| Pennod. | | Tudal. |
|---|---|---|
| I. | Rhagarweiniad | 1 |
| II. | Yr Hen Weinidog a'r Bugail | 6 |
| III. | "John Aelod Jones" | 12 |
| IV. | Y Cyfarfod Misol | 18 |
| V. | Ismael | 26 |
| VI. | Cyflog Gweithiwr | 37 |
| VII. | Dewis y Bugail | 42 |
| VIII. | Becca Prys | 49 |
| IX. | Llais yr Ysbryd | 58 |
| X. | Ismael eto | 65 |
| XI. | Yr Argraffiadau Cyntaf | 76 |
| XII. | Mr. Smart | 87 |
| XIII. | O'r Cartrefle at Wely Angeu | 97 |
| XIV. | Jim | 107 |
| XV. | Cynghor Benjamin Prys | 119 |
| XVI. | Golygfa Nosol | 130 |
| XVII. | Sefydlu y Bugail | 143 |

| Pennod. | | Tudal. |
|---|---|---|
| XVIII. | Mr. Jeremiah Jenkins .. .. .. | 151 |
| XIX. | Crynodeb .. .. .. .. .. .. | 162 |
| XX. | Jeremiah Jenkins yn eisiau.. .. .. | 175 |
| XXI. | Yr Ymweliad Olaf a Benjamin Prys .. | 187 |
| XXII. | Miss Pugh .. .. .. .. .. | 197 |
| XXIII. | Ismael unwaith eto .. .. .. .. | 206 |
| XXIV. | Yr Afradlawn .. .. .. .. .. | 219 |
| XXV. | Diweddglo .. .. .. .. .. .. | 226 |

# *Y Dreflan: ei Phobl a'i Phethau.*

## PENNOD I.

### RHAGARWEINIAD.

NA feddylied y darllenydd am fynyd mai rhyw bentref anmhoblog a dinôd ydyw y Dreflan; oblegid pe felly, prin y byddai yn werth i mi ysgrifenu, nac iddo yntau ddarllen, dim o'i hanes. Y mae yn ein Treflan o chwech i saith mil o drigolion, er y dywed y rhai a ddeuant o Liverpool a Manchester yma eu bod yn dyfod i'r "wlad;" a phan ânt yn ôl, maent yn dyweyd eu bod yn myned i'r "dref." Gyda llaw, mae clywed Dic-Sion-Dafyddion o'r trefydd mawrion yn siarad fel hyn yn fy mlino nid ychydig. Ni fynwn i er dim iddynt wybod hyny; ond y mae arnaf ofn eu bod yn gwybod, onidê ni byddent mor ofalus am arfer yr un ymadroddion bob amser.

Gwir nad oes genym yr un arglwydd esgob yma; ond y mae genym ficer sydd yn meddwl ei hunan cystal ag esgob, ac y mae hyny yn ateb yr un dyben yn union. Mae gan y ficer hefyd Eglwys fawr a gorwych, ynglŷn â'r hon y mae genyf gryn lawer o adgofion pan o dan yr hen oruchwyliaeth. Cyn dechreuad yr Ysgolion Prydeinig yn y Dreflan, yr oedd yn rhaid i mi fyned i'r Eglwys o leiaf unwaith bob Sabboth, neu ynte orfod goddef triniaeth yr "*hold out*" ddydd Llun y bore. Yr wyf yn cofio yn dda am lawer awr y bu raid i mi ei threulio yn yr hen

Eglwys o fewn i'r eisteddleoedd dyfnion, o ba le yr oedd yn anmhosibl bron i mi weled y Person o herwydd bychander fy maintioli a dyfnder y sêdd, nac ychwaith ddeall ond ychydig o'r hyn a ddywedai efe. Yn wir, nid oeddwn yn gofalu rhyw lawer beth a ddywedai y gŵr eglwysig, canys fy mhryder mawr i fyddai gallu edrych yn ddifrifol pan fyddai yr "hen ffoniwr," fel y gelwid ef gan y plant, yn myned heibio, yr hwn a gerddai yn ol a blaen ar hyd yr Eglwys yn ystod yr holl wasanaeth càn ddystawed â chath, a gwïalen gref yn ei law, gweinyddu yr hon ar ein penau a'n hysgwyddau oedd yn fforddio dirfawr ddifyrwch iddo, goeliem ni. Yn y cyfnod hwnw ar fy oes, yr oeddwn yn teimlo rhyw barchedigaeth mawr i'r adeilad henafol a gwych, ac yr oedd rhyw ddirgelwch ac ofnadwyaeth i mi ynglŷn â llawer o bethau perthynol iddi. Un o ba rai oedd yr organ a'r ddynes ddall oedd yn ei chware, a buaswn yn teimlo arswyd pe buasai y Person neu yr ysgolfeistr yn gorchymyn i mi fyned tu ol i'r wahanlen yn yr oriel lle yr oedd trigle yr holl ddirgelwch hwn. Meddiannwn yr un teimladau ynglŷn â'r clochdŷ anferth, yn yr hwn y coeliwn fod ysbrydion ac ellyllon yn cartrefu; ac nid allwn lai nag edmygu dewrder y dyn a fyddai yn agor clo y drws mawr yn nhywyllwch a thrymder y gauaf, ac yn myned i mewn i ganu y gloch wyth. Yn fy mhlentynrwydd, bum yn holi fy hunan lawer gwaith pa un ai tlodi fu yn achos fod ffenestri yr hen Eglwys wedi eu gwneyd i fyny o fân ddarnau o wydrau o wahanol liwiau, ai ynte a oedd hyny yn amlygu rhyw amcan? Yn fy ngwiriondeb hefyd, bum yn rhyfeddu fod Mr. Hughes y Person yn goddef i Thomas Walters y clochydd ei watwar o hyd; a dysgwyliwn yn barhâus ei weled yn cael ei droi allan o'r Eglwys. Y penderfyniad y daethum iddo oedd fod yr hen ŵr yn dechre dyrysu, a bod Mr. Hughes a'r gynnulleidfa yn cyd-ddwyn âg ef. Wedi cyrhaedd oedran addfetach, a gallu darllen ychydig, treuliais lawer awr i sillebu yr argraffiadau ar barwydydd yr Eglwys, lle yr oedd Phillip Phillip, Yswain, wedi gadael hyn a hyn i'r tlodion tra y

rhedai y dwfr. a bum yn rhyfeddu a fuasai efe, tybed, yn gadael y fath swm pe buasai yn gwybod mor frwnt yr oedd yr "hen ffoniwr" wrthym ni y plant? Cwestiwn arall a ofynwn oedd, Pwy oedd yn gofalu am yr arian hyn? Cefais achlysur i ofyn yr un cwestiwn wedi cyrhaedd oedran gŵr Er i mi adael yr hen fam mor fuan ag yr agorwyd Ysgol Frydeinig yn ein Treflan, rhaid i mi addef fy ngwendid, mai anaml y byddaf yn clywed clychau yr hen Eglwys heb i'r holl ofergoelion a'r adgofion hyn, a lliaws o rai tebyg, ddyfod i'm meddwl.

Ond i ddychwelyd. Mae y ficer yn ŵr tewdrwm, yn Eglwyswr o'r Eglwyswyr, ac yn myned hyd ei linyn mewn defodaeth. Mae ganddo ddau giwrad · un yn Sais pur, ond wedi dysgu *methu* siarad Cymraeg. Cymro glân ydyw y llall, a mab i flaenor gyda'r "Hen Gorff" yn Sir Aberteifi. Neillduolrwydd mawr y ciwrad o'r De ydyw, ei fod yn orzelog yn erbyn Ymneillduwyr. Mae yn dda genyf ddadgan fod y tri gŵr Eglwysig yn ddilychwin o ran eu cymeriadau, ac yn gweithio yn ddifefl. Mae gan y ficer ddau warden, dynion da a zelog am edrych ar ol amgylchiadau allanol yr Eglwys ar y Sabboth; ac y mae y naill yn ystod yr wythnos yn gofalu am ddisychedu dynion, ac y mae y llall yn gofalu am yr *harriers*. Rhag i'r clochydd feddwl fy mod wedi ei anghofio, y mae yntau yn ŵr corffol a diniwed. Crydd ydyw wrth natur, ac wedi ei ddwyn i fyny gyda'r Methodistiaid; ond o herwydd rhyw resymau, digonol ganddo ef ei hun, dros y caffai well gwrandawiad i'r erfyniad yn y pader sydd yn cyfeirio at y bara beunyddiol, efe a ymadawodd â'r "Hen Gorff," ac a wnaeth ei gartref yn yr Eglwys Sefydledig, ymha le y mae yn awr yn llenwi y swydd anrhydeddus y cyfeiriwyd ati eisoes, fel olynydd i'r hen Thomas Walters

Nid anenwog ydyw y Methodistiaid yn ein Treflan. Mae ganddynt fwy nag un capel yma, ac eglwysi cryfion anghenrheidiau ysbrydol pa rai a oruchwylir gan fugail, a byddin o flaenoriaid. Mae y bugail yn ŵr ieuanc dysgedig a galluog, ac yn bregethwr da. O leiaf, felly y

dywed ei edmygwyr; ond dywed eraill ei fod yn pregethu yn rhy draethodol, ac mai gwell ganddynt hwy fyddai bugail na fuasai mewn athrofa. Heblaw hyn, mae yr eraill hyny yn meddwl ei fod yn cael gormod o gyflog; ond yr un pryd, hwy a ymunent i wneyd tysteb iddo pe byddai yn meddwl am ymadael. Mae rhai yn barnu y gwnai efe fwy o les pe byddai yn ymweled mwy â'r aelodau; ond tybia eraill y byddai yn well iddo aros mwy yn ei fyfyrgell na cholma hyd y tai fel y gwna yn awr. Mae gwyneb llwyd y bugail, pa fodd bynag, yn dangos yn eglur naill ai ei fod yn gwneyd ei ddyledswydd yn ol ei allu, ac uwchlaw ei allu, neu nad ydyw yn gwybod dim am ormodedd ymborth. Yn perthyn i'r achos Methodistaidd y mae pregethwr hefyd, yr hwn a edmygir yn fawr gan y teulu gwrthfugeiliol; canys y mae efe yn ffarmwr, yn siopwr, yn *general dealer*, yn gasglwr trethi, ac yn pregethu rhwng cromfachau, ac felly, dybygid, yn dyfod i fyny yn gyflawn â'r cynghor ysbrydoledig i beidio ymrwystro gyda negeseuau y bywyd hwn.

Er fod yma ddyfroedd lawer, ychydig mewn cymhariaeth ydyw nifer ein brodyr y Bedyddwyr; ac nid ydwyf yn gwybod am reswm i'w roddi am hyn, os nad ydyw yn un anianyddol, sef ein sefyllfa dra gogleddol. Ond mae yr ychydig sydd o honynt yn gweithio yn dda. Mae ein brodyr Annibynol a Wesleyaidd yn fwy pentecostaidd mewn un ystyr, beth bynag, na'r enwadau eraill, yn gymaint a'u bod yn pregethu mewn mwy nag un iaith yn ein Treflan. Mae gweinidog yr eglwys Annibynol Gymreig yn ŵr craff a galluog, ac y mae hefyd yn fardd ac eisteddfodwr. Perthyna i'w eglwys ef bregethwr cynnorthwyol; dyn bychan, eiddil, a llais hynod o fain ganddo. Adnabyddir ef yn y Dywysogaeth a'r America wrth y ffugenw barddol *Llew Rhuog*. Prif arbenigrwydd gweinidog yr eglwys Seisonig ydyw ei fod bob amser yn gwisgo yspectol oddigerth pan fydd yn darllen, a'i fod hefyd yn gwisgo het *jim crow*, a llodrau o liw goleu ar y Sabboth. Mae cryn debygolrwydd rhwng y ddau weinidog Wesleyaidd o ran eu personau a'u gwisgiad. Maent

bob amser yn daclus a thrwsiadus, ac heb fod yn ddyeithr i awduriaeth Meistri Glenfield & Co. Ychydig y maent yn ymwneyd âg unrhyw symudiad cyhoeddus a chyffredinol yn ein Treflan; ond y mae hyny o herwydd y cyflawnder mawr o waith sydd yn eu breichiau, dybygid, ac am mai dwy neu dair blynedd a fydd eu harosiad eithaf yma. Y maent yn weithwyr diwyd yn mhlaid yr achos da, yn zelog dros yr athrawiaeth a'r cyfundeb, ac un o honynt yn ddirwestwr gweithgar. Tra yr ydwyf yn ysgrifenu, y mae yr Offeiriad Pabaidd yn myned heibio yn ddystaw, ac yn ymddangos fel pe na byddai yn cymeryd sylw o neb byw bedyddiol, ond dilys, frawd, dy fod dithau yn gweithio yn dy ffordd dy hun lawn cymaint â neb a enwyd genyf.

Ond er yr holl ddarpariaethau a'r cyfleusderau sydd genym gogyfer âg efengyleiddio ein Treflan, er yr holl ymdrech a'r gwrthymdrech, er yr holl weddïo a'r cynghori, y mae yma eto gannoedd na wyddant fwy am yr efengyl nag am y peth dyeithraf yn y byd Mae yma ystrydoedd cefn, tywyll a budron, lle y mae tlodi, trueni, a drygioni yn cartrefu ac yn adgenedlu eu hunain y naill flwyddyn ar ol y llall. Mae yma ugeiniau yn gwario pob ceiniog a allant gael gafael arni yn y tafarnau, a'u gwragedd a'u plant yn rhynu gan anwyd, ac yn gwynlasu gan eisieu ymborth. Ewch ymlaen, frodyr y gwahanol enwadau! Mae gwaith anferth heb ei wneyd; a pha bwys ydyw gan bwy y troir y pechadur o gyfeiliorni ei ffordd am y troir ef?

Y mae yn y Dreflan ddigon o fyrddau i ddodrefnu palas lled helaeth. Mae yma Fwrdd Lleol, yn gyfansoddedig o ddeuddeg neu ychwaneg o ddynion wedi llwyddo tipyn yn y byd, ac yn cyfarfod â'u gilydd y dydd Mawrth cyntaf o bob mis, i edrych yn ddoeth ar eu gilydd, ac i gyfarch eu gilydd yn foesgar, ac i gadw heintiau niweidiol draw o'r Dreflan heb gymhorth gweddi na Rhagluniaeth, ac i benodi gwellianau mor agos ag y gallont at eu preswylfeydd eu hunain, ac i benderfynu pa faint fydd y dreth, ac i gadw ar delerau da â'r *Reporter* er mwyn iddo gywiro eu gramadeg cyn i'w cynghoriaethau ymddangos

yn y newyddiadur lleol. Mae yma Fwrdd Ysgol, yn cael ei gyfansoddi o ddynion parchus yn cynnyrchioli dwy blaid, sef yr Eglwyswyr a'r Ymneillduwyr. Gosodwyd yr Eglwyswyr ar y Bwrdd i edrych ar ol yr Ymneillduwyr, rhag iddynt gael gormod o'u ffordd eu hunain. Gosodwyd yr Ymneillduwyr ar y Bwrdd yr un modd i edrych ar ol yr Eglwyswyr. Ond pa waeth? mae y *street Arab* yn cael addysg, a'i osod ar ben y ffordd, a bydd ryw ddiwrnod o bosibl mor ddefnyddiol â chystal ysgolaig â neb sydd ar y Bwrdd. Mae y Bwrdd hwn wedi gwneyd dirfawr les yn barod, ac y mae llawer ci bach du yn gwella yn ei olwg bob dydd wrth gael y briwsion sydd yn syrthio oddiarno. Ond yr amser a ballai i mi son am yr holl fyrddau, a'r cwmniau, a'r clybiau, ac yn enwedig y cymeriadau sydd yn ein Treflan, amryw o'r rhai diweddaf addeuant o dan sylw cyn diwedd yr hanes hwn.

---

## PENNOD II.

### YR HEN WEINIDOG A'R BUGAIL.

PE gallai rhywun ddyweyd beth ydyw cynnwys y ddau air bach, "cadw *seiat*," yn eu cysylltiad â Methodistiaeth Cymru, byddai wedi dyweyd, mi a gredaf, y naill hanner o hanes gwirioneddol y Cyfundeb. Mae yn wir mai y pulpud a'r Ysgol Sabbothol sydd yn taraw y meddwl gyntaf fel nodweddau arbenigol yr achos; a diammheu mai â hwynt-hwy yn gyffredin y cysylltir ei ddechreuad, ei gynnydd, a'i barhâd; ond y mae ei fywyd mewnol ac ysbrydol yn ddinag i'w gysylltu â'r cyfarfod eglwysig. Cyntedd y Cenedloedd ydyw y blaenaf; ond y cysegr sancteiddiolaf ydyw yr olaf. Yma y mae y saint yn un, o flaen arch y cyfammod yn mhresennoldeb Duw, yn arllwys eu teimladau a'u profiadau i'w gilydd;

ac yma y cynhyrfir, y maethir, ac yr addfedir y teimlad crefyddol. Mae y cyfarfod eglwysig yn foddion arbenig i ddyfnhâu yr argraffiadau a wnaed eisoes ar feddyliau y saint trwy y pulpud a'r Ysgol Sabbothol, ac i'w nerthu i ymladd y frwydr ysbrydol, ac i ymwneyd â'r byd heb ymlygru ynddo.

Paham na chyhoeddir hanes y *societies?* Mae rhai o honynt yn werth eu cyhoeddi. Dywedir mai y pethau goreu a ddywed dyn yn ei fywyd ydyw y pethau a ddywed oddiar gynhyrfiad y foment; a diammheu genyf mai yn nghyfeillachau neillduol y saint y dywedwyd rhai o'r pethau goreu a ddywedwyd erioed ynglŷn â chrefydd. Pwy a wna eu casglu yn llyfr? "Gemau y *seiat*"—dyna ddrychfeddwl i'r dyn cymhwys i'r gwaith; ac y mae yn rhaid iddo frysio, canys y mae miloedd o'r pethau goreu a ddywedwyd erioed wedi myned eisoes ar ddifancoll.

Mae y ddawn i "gadw seiat" yn ddawn ar ei phen ei hun; ac nid pob blaenor, ac yn wir nid pob pregethwr, sydd yn meddu ar y ddawn hon. Hawdd iawn ydyw *treulio* seiat, ond gorchwyl anhawdd ydyw ei *chadw* yn hen ystyr y gair. Mae yn gofyn graddau helaeth o dduwioldeb a threiddgarwch ysbrydol, a gallu i gynnyrchu a chydymdeimlo â'r teimlad crefyddol yn ei wahanol ffurfiau ac agweddau; a du fydd y diwrnod yn hanes Methodistiaeth pan y collir y ddawn hon o'n heglwysi. Byddai yr hen bobl yn parotoi llawer ar gyfer y cyfarfod eglwysig, ac yn dysgwyl llawer oddiwrtho. A nodweddir ein cyfarfodydd eglwysig â'r un peth yn ein dyddiau ni? Mae y cwestiwn yn un pwysig.

Nid rhyfedd fod brodyr yr "Hen Gapel" yn y Dreflan mewn tipyn o bryder beth a ddeuai o'r cyfarfod eglwysig, pan gludwyd Mr. Williams, eu hen weinidog, at ei dadau. Wrth i mi ei alw yn "weinidog," na feddylied y darllenydd ei fod yn was cyflogedig i'r eglwys. Na, gan rai o'r tu allan i'w eglwys ei hun, yr hon a dderbyniodd y rhan fwyaf o'i lafur, y cafodd ef y teitl "gweinidog." Yn gyffelyb fel y rhoddir teitlau o'r America i ysgoleigion y wlad hon, felly am Mr. Williams: gan estroniad, mewn cym-

hariaeth, y cafodd yntau ei deitlo yn weinidog. Ond na feddylied neb fy mod yn awgrymu fod y gymhariaeth yn cario ddim ymhellach. Yr oedd Mr. Williams, *fel* gweinidog yr "Hen Gapel," wedi bedyddio a phriodi y rhan fwyaf o'r aelodau—wedi cynnrychioli yr eglwys ymhob cylch—wedi rhoddi ei bresennoldeb a'i wasanaeth yn ddifwlch yn ei holl gyfarfodydd, ac wedi ennill parch a serch yr eglwys yn gyffredinol; ac eto ni ddychymygodd neb am dalu iddo am ei wasanaeth mwy nag am dalu i'r dyn yn y lleuad am gario y baich drain. Gyda golwg ar Mr. Williams ei hun, ni fynasai er dim ofyn am gyflog, er fod ynddo ymwybyddiaeth dystaw, o herwydd ei gydnabyddiaeth damweiniol âg ysgrifeniadau Mr Paul, nad oedd yn anhaeddiannol o hono. Pa fodd bynag, gofalodd Rhagluniaeth am roddi iddo ddigon, a mwy na digon, o ddâ y byd hwn; a chyn i'r eglwys sylweddoli ei wir werth, yr oedd yr hen frawd duwiol a thalentog ar ei wely angeu, yn mwynhâu holl gysuron gwir grefydd oes lafurus, a chydwybod ddirwystr; a thrwy iddo fod yn "gyfrwys," yr oedd ei gyflog wedi ei *datio forward*—ys dywed y trafaelwyr—gan yr Hwn yr oedd i gael ei wysio i'w bresennoldeb ymhen ychydig fynydau. Nid yn fuan yr anghofiaf ddydd ei gladdedigaeth. Mae yn hen sylw nas gŵyr dyn werth iechyd nes ei golli, ac y mae y sylw yr un mor wir am ddyn da: nid ydym yn gwybod ei werth nes iddo ein gadael. Ac mor rhyfedd ydyw y ffaith—y dangosir mwy o barch gwirioneddol a didwyll i esgyrn dyn nag a ddangoswyd iddo ef ei hun yn ystod ei holl oes. Mae yna ryw ymwybyddiaeth ynom fod pob dyn da, fel Joseph, wedi rhoddi "gorchymyn am ei esgyrn," yr hwn orchymyn sydd yn gysegredig, ac anufuddhâu iddo a fyddai yn annuwioldeb. Yr oedd pigion "gwahanol enwadau" y gymydogaeth yn y cynhebrwng, ïe, hyd yn nôd y ciwrad Deheuol, a'r ciwrad arall, a'r ficer, a phawb fel eu gilydd yn arddangos y parch a'r tristwch mwyaf.

Ymhlith y rhai oedd yn bresennol, yr oedd hen flaenor —y blaenor hynaf yn wir yn yr "Hen Gapel"—o'r enw

Benjamin Prŷs. Gŵr duwiol ac ysgrythyrol iawn ydoedd ef; ac yr oedd efe yn cofio Mr Williams yn llanc ieuanc glân yn dechreu pregethu. Yr oedd wedi byw y rhan fwyaf o'i oes o dan ei weinidogaeth; ac ni chymerai ei berswadio nad oedd Mr. Williams yn un o'r dynion mwyaf yn y byd. Yr oedd yr hen frawd, er ys rhai misoedd bellach, o herwydd henaint, llesgedd, a'r gymalwst, yn analluog i fyned i'r moddion ond anfynych; ond er fod diwrnod yr angladd yn oer ac ystormus, nid allai na henaint na chymalwst gadw yr hen Fenjamin yn y tŷ y diwrnod hwnw. Yr oedd yr olwg arno yn ddyddorus —gwir *type* o hen Gymro gonest. Gwisgai glôs a *leggins* llwydion, gwasgod o ystwff cartref, côb lâs, cadach India wedi ei droi yn ddwbl am ei wddf, a het â chantel mawr iddi a choryn isel. Pwysai ar ei ddwyffon, ac edrychai yn gynhyrfus anghyffredin. Nid ymddangosai ei fod yn adnabod nac yn cymeryd sylw o neb oedd yn y claddedigaeth; a diau fod ei feddyliau gydag ysbryd ei hen gyfaill ymhell tu hwnt i'r gorwel draw! Gwelais amryw yn myned ato i ysgwyd llaw âg ef, ac i'w longyfarch am ei fod yn alluog i ddyfod allan ar y fath dywydd; ond pan y gwnai gais i'w hateb, yr oedd ei galon yn neidio i'w wddf, a'i ên yn myned i grynu yn ddirfawr; a'r unig atebiad a gaent a fyddai edrychiad dyeithr trwy ei lygaid meinion, gloewon, a gwlybion, a chlamp o ddeigryn yn treiglo i lawr y ddwy rych o bobtu ei drwyn Rhufeinig. Rhoddaswn lawer am gael darlun o hono pan yr oedd, wedi tynu ei het, a dadguddio ei ben moel patrïarchaidd, yn edrych yn galed ar gauad derw arch y cyfaill oedd anwylaf ganddo, tra yr oedd brawd o weinidog yn gweddïo wrth ddrws y tŷ cyn "cychwyn y corff." Ond pe cawsid ef, ni buasai yn cyfleu yr ochenaid a ollyngodd ar derfyn y weddi, yr hon a yrodd iâs o hiraeth trwy galon pawb oeddynt yn bresennol.

Yr oedd tipyn o ffordd o'r tŷ i'r fynwent; a chan fod y rhai oedd yn dwyn yr elor yn cerdded yn lled gyflym, a Benjamin Prŷs yn hynod o fethiantus, methodd a chanlyn yr orymdaith er ceisio ei oreu; a gadäwyd ef encyd o

ffordd ar ol, ac anghofiwyd ef. Yr oedd calon llawer un yn gwaedu o'r rhai oedd yn edrych trwy y ffenestri ar y cynhebrwng yn myned heibio, wrth weled yr hen ŵr yn ymladd â'i wendid, ac mor benderfynol o gael gweled y diwedd. Pan gyrhaeddodd yr Eglwys, yr oedd y ficer wedi myned dros hanner y gwasanaeth; ac ar ei ddyfodiad i mewn, teimlodd ambell un euogrwydd yn ei gydwybod o herwydd esgeuluso ac anghofio cyfaill penaf yr ymadawedig, a hyny o bosibl am ei fod yn dlawd. Pan aethpwyd at y bedd, gwnaed lle i'r hen Fenjamin i weled yr hyn oedd farwol o'i gyfaill yn cael ei roi yn ei hir gartref. Diôsgodd yntau ei ben drachefn, a phwysai eilwaith ar ei ddwyffon. Yr oedd pawb bron erbyn hyn wedi anghofio Mr. Williams yn yr olwg ar dristwch a ffyddlondeb Benjamin Prŷs. Efe oedd yr olaf i adael y bedd, a chydag anhawsder mawr y cafwyd ganddo ei adael o gwbl. Yr oedd yr hen ŵr wedi trethu cymaint ar ei nerth, fel y bu raid i rai o'r cyfeillion ei gludo gartref mewn cerbyd; a hwn oedd y tro ólaf i Benjamin Prŷs fod yn mynwent y llan yn fyw; ond nid hwn ydyw y tro olaf y bydd yn dyfod ger bron yn yr hanes hwn.

Beth a ddaw o'r cyfarfod eglwysig? oedd gofyniad pawb ar ol marwolaeth Mr. Williams. Yr oedd efe er ys llawer o flynyddoedd wedi arfer llywyddu y seiat ei hun; ac er ei fod yn feunyddiol yn taer gymhell y swyddogion i gymeryd rhan arweiniol ynddi, anfynych y gwnai neb oddigerth Benjamin Prŷs; ac yr oedd yntau bellach wedi myned i ormod oedran a methiantwch i ddysgwyl llawer oddiwrtho. Nid oedd y blaenoriaid wedi ymarfer â chadw y seiat, ac yr oedd yn gwestiwn mawr ganddynt hwy eu hunain, a chan bawb, a oeddynt yn meddu ar y ddawn. Yr oedd Mr. Smart yn ŵr rhagorol gyda'r llyfrau a'r cyhoeddiadau; ond nid oedd ganddo ddawn i wneyd ddim yn gyhoeddus. Yr oedd Mr. Phillips yn ddyn galluog ac o gryn ddylanwad; ond yr oedd efe yn *nervous*, neu yn credu ei fod felly, yr hyn sydd yn dyfod i'r un peth. Yr oedd Mr. Howells wedi ei ddonio yn fawr i siarad ar y casgliad; ond pan elai i ddyweyd ar rywbeth arall, teimlai pawb ei fod

allan o'i gylch. Edrychid ar Mr. Bevan fel dyn o gymeriad uchel, ac efe ydoedd yr ymadroddwr penaf; ond nid oedd ganddo ffordd i drin pobl; ac anfynych y cyfodai i siarad heb friwo rhywun, er yn anfwriadol. Cymaint ag a allai Mr. Prysor, y pregethwr, drachefn, oedd myn'd i seiat y "capel newydd" yn awr ac yn y man. Bu yr eglwys yn llafurio o dan yr anhawsderau hyn am gryn amser, a phawb yn myned i deimlo fwyfwy y golled yr oeddynt wedi ei chael yn marwolaeth Mr. Williams.

Ymhen y rhawg, mewn "cyfarfod brodyr," awgrymodd un brawd ieuanc, yr hwn oedd yn *assistant* mewn masnachdŷ brethynwr, "Onid dymunol a fyddai i ni gael bugail?" ac attegodd ei awgrymiad gyda rhesymau anatebadwy yn ei dyb ef; ac fel diweddglo dywedodd, "Dyna fy meddwl *i*." Dilynwyd yr awgrymiad â dystawrwydd. Yn y man dygodd Mr. Smart ei *Ddyddiadur* o'i logell a dywedodd, "Beth a wnawn o'r pum' mlynedd o gyhoeddiadau dynion da sydd yn y llyfr yma?" Dywedodd Mr. Phillips fod y mater yn gofyn ystyriaeth ddifrifol, ac fod perygl iddynt gael eu harwain i brofedigaeth. Dywedodd Mr. Howells mai prin yr oedd y casgliadau yn dyfod i fyny â'r treuliadau yn bresennol, ac os gelwid bugail y byddai yn rhaid chwyddo y casgliad yn fawr iawn. Dywedodd Mr. Bevan y buasai y cynnygiad am gael bugail yn dyfod yn well oddiwrth un o'r swyddogion, neu ynte oddiwrth un hynach a mwy profiadol na'r "brawd" a awgrymodd y peth. Gwnaeth y sylw hwn i'r "brawd" wrido at fôn ei wallt. Pa fodd bynag, wedi peth ymdrafodaeth, penderfynwyd cymeryd y pwnc i ystyriaeth, a'i osod yn "deg" o flaen yr eglwys. Cawn weled yn y benod nesaf beth a ddywedodd yr eglwys.

## PENNOD III.

### "JOHN AELOD JONES."

MAE cryn gyfatebiaeth, os nad tebygolrwydd, rhwng gwaith eglwys yn myned i alw bugail â gwaith dyn yn myned i ddewis gwraig. Yn y ddau amgylchiad, y pwnc mawr a ddylid ei gymeryd i ystyriaeth ydyw, a oes gwir anghenrheidrwydd am y cysylltiad newydd, ac hefyd a ydyw y moddion yn ddigonol i gadw y cysylltiad i fyny yn anrhydeddus. Mae ambell i ŵr ieuanc â'i amgylchiadau yn gyfryw nad oes un anghenrheidrwydd penodol ar y pryd arno am iddo briodi, gan fod ganddo gartref cysurus, ac, hwyrach, fam a chwiorydd i ofalu am dano. Ond ryw ddiwrnod, y mae yn gweled rhyw feinwen deg, ac yn y fan yn syrthio mewn cariad â hi, a chan fod priodi yn arferiad y wlad, y mae yntau yn myned i'r cysylltiad priodasol. Felly y bydd ambell eglwys yn gwneyd, dichon nad oes anghenrheidrwydd neillduol arni am fugail, ond y mae hwn a hwn yn bregethwr ag y mae hi yn ei edmygu yn fawr, ac y mae gan eglwysi eraill fugeiliaid, a phaham nad hithau? Nid hon ydoedd sefyllfa eglwys "yr Hen Gapel" yn y Dreflan

Bydd ambell ddynsawd arall âg angen gwirioneddol arno am wraig, ond y mae ar yr un pryd yn ymwybodol nad oes ganddo fodd i'w chadw fel y dylai hi gael ei chadw; ac eto mewn dygn anystyriaeth y mae efe yn rhyfygu priodi, ac yn cael ei hunan ar fyr amser mewn profedigaeth a thlodi, ac yn gorfod syrthio yn ol ar gymhorth plwyfol. Felly, yn awr a phryd arall, y gwelir ambell eglwys yn galw un i'w bugeilio heb un rhagolwg sylweddol am ei gyflog, ac yn gorfod yn fuan iawn myned at y *relieving officer* perthynol i'r *union district* Methodistaidd, i grefu am gymhorth i wneyd ei gyflog i fyny. Nid hon, ychwaith, ydoedd sefyllfa eglwys yr "Hen Gapel."

Yr ydys weithiau hefyd yn gweled engreifftiau o un wedi bod yn trigiannu yn yr un tŷ â meinwen, ac wedi ffurfio cyfeillgarwch mawr â hi am lawer o flynyddoedd, ac eto heb fwriadu i bethau fyned ymhellach. Ond wedi byw yn ddigon hir felly gyda eu gilydd, ac iddo yntau dderbyn llawer iawn o gymwynasau a charedigrwydd oddiar ei llaw, ac, hwyrach, i'r siarad fyned ar hyd a lled y wlad fod "rhywbeth rhyngyn' nhw," pan ddaw efe i ystyried fod yn hen bryd iddo feddwl am briodi, mae yn gweled na fyddai yn gyfiawn â'i gyfeilles iddo feddwl am neb arall yn wraig; ac y mae yn teimlo mai ei ddyledswydd ydyw, os goddef y darllenydd yr ymadrodd—*popio'r* cwestiwn; ac, wrth gwrs, ni bydd ganddi hithau yr un gwrthwynebiad. Hon a *ddylasai* fod sefyllfa eglwys "yr Hen Gapel."

Mae ambell ŵr arall wedi arfer byw hefo ei fam nes myned i dipyn o oedran, ac heb feddwl erioed yn ddifrifol am briodi o gwbl tra yr oedd ei fam yn fyw, er fod ganddo foddion i hyny, gan fod yr hen wreigan dda yn wastad ac yn ddifwlch wedi arfer gofalu am dano, ac wedi bod ymhob modd yn ymgeledd gymhwys iddo. Ond wedi marw ei fam, mae y creadur truan yn teimlo ei hunan yn unig yn y byd, ac yn hollol analluog i ofalu am dano ei hun, ac yn gorfod dyfod i'r penderfyniad y bydd yn rhaid iddo gael gwraig; ond pa fodd i fyned o gwmpas y gwaith nis gŵyr, ac nid anfynych yn yr amgylchiadau hyn y bydd yn gofyn cyfarwyddyd gan rywun mwy profiadol. *Hon ydoedd sefyllfa eglwys yr Hen Gapel.* Yr oedd yr ymadawedig Mr. Williams wedi arfer ei phorthi â bwyd ysbrydol, ac wedi ei meithrin yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd, a hithau wedi arfer ymddibynu arno am ymgeledd a chyfarwyddyd, ac am bobpeth a ellid yn rhesymol ei ddysgwyl oddiwrtho. Ond pan aeth ef i lawr i'r glyn, yr oedd yr eglwys yn teimlo yn hollol amddifad a diswcr, ac yn fwy felly o herwydd i Mr. Williams gael ei gymeryd ymaith yn lled ddirybudd.

Gan mai Mr. Bevan, fel yr awgrymwyd yn barod, oedd yr ymadroddwr penaf, iddo ef yr ymddiriedwyd y gwaith

o ddwyn ymlaen y cynnygiad am gael bugail, a'i osod yn deg o flaen yr eglwys. Nid y siaradwyr mwyaf ydynt y siaradwyr goreu bob amser; ac yr oedd Mr. Bevan yn engraifft ragorol o hyn. Yr oedd efe yn llefarwr rhwydd a llithrig, ac yn gallu cyfleu ei feddwl yn naturiol a thaclus; ond yn hyn o beth yr oedd yn rhy debyg i Mrs. Partington, yr hon a dystiai na byddai hi byth yn agor ei safn heb roi ei throed ynddi! Pa fodd bynag, yr oedd angel gwarcheidiol Mr. Bevan wrth ei benelin y tro hwn, ac aeth trwy ei orchwyl yn ddidramgwydd i bawb oddigerth mewn un engraifft—ar fynyd yr oedd ei angel yn hepian o bosibl—pan y mynodd Mr. Bevan gael ailadrodd ei ofid na buasai y cynnygiad hwn wedi deillio oddiwrth rywun hynach a mwy profiadol, yr hyn a barodd i bawb edrych ar yr *assistant* yn *shop* y brethynwr, ac a barodd iddo yntau borphori yn ddwysach nag y gwnaethai yn flaenorol o dan effaith yr un sylw.

Cafodd y cynnygiad am gael bugail, serch hyny, y fath dderbyniad cyffredinol gan yr eglwys nes synu yr holl flaenoriaid yn aruthrol, yn enwedig Mr. Phillips y blaenor *nervous*; ac yr oedd yn llawen iawn ganddynt, meddent hwy, weled y fath barodrwydd yn y frawdoliaeth i ymgymeryd â'r cyfrifoldeb. A thystiai Mr. Bevan ar y diwedd, ei fod, wrth ystyried mai y gŵr ieuanc John Jones oedd wedi cynnyg y peth, yn gorfod cyfaddef gwirionedd yr hen ddywediad fod perl weithiau i'w gael yn ngenau llyffant, yr hyn a wnaeth i'r "gŵr ieuanc" eilwaith dybied fod y sedd yr oedd yn eistedd arni ar dân.

Y cyntaf i godi ar ei draed i gefnogi y cynnygiad ydoedd Mr. Peter Pugh, gŵr da arno, calon-gynhes, cymydogol a haelfrydig dros ben. Yn wir, yr oedd y gŵr da hwn—am yr hwn y bydd genyf lawer eto i'w ddyweyd—yn cario ei haelfrydedd i eithafion weithiau; ac fe gydolyga y darllenydd â mi yn hyn pan ddywedaf mai gydag anhawsder mawr y byddai ei deulu, ar adeg y Nadolig, yn gallu ei berswadio i beidio anrhegu y creadur rhochlyd yn y cut yn nghŵr y buarth â *plum pudding*; a chredid

yn aml, er yr holl wrthwynebiad, ei fod yn cario allan yn ddirgel ei fwriadau da yn hyn. Addawai Mr. Pugh dreblu ei gyfraniadau, os byddai anghen, tuag at gael galw gŵr i'w bugeilio; ac nid oedd neb yn ei ammheu. Siaradodd amryw yn yr un cyfeiriad a Mr. Pugh; ac, yn wir, ni ddangoswyd un gwrthwynebiad gan neb oddigerth Mr. Jeremiah Jenkins yr hwn, yn ol tystiolaeth un oedd yn eistedd yn ei ymyl, càn gynted ag y clywodd son am fugail, a wthiodd ei law y foment hono i logell ei lodrau, i sicrhâu ei hun fod ei bwrs yn ddiogel, ac, er mwyn gwneyd hyny yn sicrach fyth, a'i symudodd i logell frest ei wasgod. Wedi gwneyd hyn, anadlodd yn fwy rhydd, a dywedodd—nad oedd efe yn gweled yr eglwysi oedd â bugeiliaid ganddynt yn llwyddo mwy nag eglwysi oedd hebddynt, ac mai doethach lawer, yn ei feddwl ef, a fuasai dewis ychwaneg o flaenoriaid, ac hefyd fod ganddynt ddigon o le i roi eu harian ymysg y tlodion. Hyn a ddywedodd efe nid am fod arno ofal am y tlodion. I dori yr hanes yn fyr, penderfynwyd, gan fod y Cyfarfod Misol i gael ei gynnal ymhen ychydig o wythnosau yn y Dreflan, i osod y mater ger ei fron, a gofyn ei gyfarwyddyd yn yr achos.

Prin y gwyddai y gŵr ieuanc, John Jones, ar draed pwy yr oedd yn cerdded gartref y noson hono, gan faint ei lawenydd fod ei gynnygiad ef wedi cael y fath dderbyniad, er gwaethaf geiriau cas Mr. Bevan. Preswyliai yn yr un masnachdŷ âg ef egwyddorwas o'r enw Walter, yr hwn oedd gryn lawer yn ieuengach nag ef, a'r hwn hefyd a sylwodd càn gynted ag y daeth John i'r tŷ fod rhywbeth rhyfedd wedi cymeryd lle, gan nad oedd yn bosibl bron gael gair o'i enau; ac er gwneyd llawer cais at hyny, parhâu i edrych yn synfyfyriol a wnai John. Dysgwyliai Walter, pa fodd bynag, gael gwybod y cwbl wedi myned i'r ystafell wely, i'r hon yr aethant yn llawer cynnarach y noswaith hono nag arferol. Ar eu mynediad i mewn i'r ystafell, synwyd Walter yn ddirfawr gan waith John yn cymeryd cadair ac yn gosod ei hunan i eistedd o flaen y bwrdd gwisgo, gan dynu allan o'i logell

bapyr a phin ysgrifenu ac inc; a gofynodd y blaenaf yn wylaidd,

"Be wyt ti'n myn'd i neyd, John?"

"Y *chi*, os gweli di yn dda; dydw i ddim am ychwaneg o'r ti a'r tithe hefo fi," ebe John.

Yr oedd Walter erbyn hyn yn sicr fod John wedi cael ffrae â'i feistr, a'i fod yn myn'd i roi *notice* iddo; ac ebe fe—

"Wel, be ydach ch'i yn myn'd i neyd ynte?"


"Yr ydw i yn myn'd i neyd peth na fedri di mo'i neyd o," ebe John, braidd yn orchestol.

Tarawodd hyn Walter â mudandod am foment; ond yn y man meiddiodd ofyn iddo eilwaith,

"Be ydi hyny, John?"

"Yr ydw i yn myn'd i gysfenu i'r wasg, peth na fedri di na dy dad mo'i neyd, ac yr ydw i'n deyd wrthat ti am fyn'd i dy wely yn reit ddystaw, a pheidio moddro i, achos pan mae dyn yn myn'd i gysfenu i'r wasg rhaid iddo gael llonydd."

Agorodd Walter ei enau, nid i lefaru y tro hwn, ond i ryfeddu; ac ymddangosai fel pe buasai wedi rhewi wrth lawr yr ystafell gan faint ei syndod; ac yno y buasai hyd yn awr am a wn i oni buasai i John roddi edrychiad bygythiol ac awgrymiadol arno, yr hyn a barodd i Walter druan lechian i'w wely càn ddystawed â llygoden. Nid oedd ganddo un dirnadaeth beth oedd "gysfenu i'r wasg;" ond yr oedd yn credu ei fod yn rhywbeth ofnadwy, ac yn rhywbeth hefyd a barai i John fod yn fuan yn Aelod Seneddol, neu ynte gyflawni hunanladdiad. Pa un nis gwyddai. Ofnai Walter syrthio i gysgu rhag y buasai yn chwyrnu, a thrwy hyny beri aflonyddwch i John "gysfenu i'r wasg." Yn awr ac yn y man anturiai gyfodi ei ben ac edrych yn lladradaidd dros ymylon y cynfasau; a phob tro y gwnai hyn canfyddai John â'i ddau benelin ar y bwrdd, ac yn gwasgu ei ben rhwng ei ddwylaw, ac yn ymddangos fel pe buasai mewn gwewyr. Ond er ei holl wyliadwriaeth, syrthiodd Walter i sefyllfa freuddwydiol rhwng cwsg ac effro, ymha un y gwelai heddgeidwad yn



John Aelod Jones yn 'gysfenu i'r wasg. t.d. 16.

dyfod i gyrchu John i'r carchar; eithr nid allai wneyd allan ei drosedd ond ei fod yn rhywbeth erchyll mewn cysylltiad â "gysfenu i'r wasg." Bryd arall, gwelai ef mewn cerbyd gorwych, a gweision lifrai o'i amgylch, a phawb yn tynu eu hetiau iddo. Ac felly y treuliodd Walter y noswaith nes deffro yn y bore, a chanfod John yn cysgu yn drwm wrth ei ochr.

Yn y newyddiadur yr wythnos wedi hyn, ymddangosodd y paragraph canlynol: "*Y Dreflan*—Mewn cyfarfod eglwysig a gynnaliwyd nos Iau diweddaf yn yr 'Hen Gapel,' penderfynwyd gofyn cyfarwyddyd y Cyfarfod Misol nesaf gyda golwg ar alw pregethwr i fugeilio yr eglwys.—*Aelod.*"

Byddai desgrifio ystâd meddwl John rhwng y noswaith y cyfansoddwyd y llinellau uchod a'r dydd yr ymddangosodd yn y newyddiadur, yn orchwyl caled. Ni fu wythnos erioed mor faith yn ei olwg. Hwn ydoedd y cais cyntaf o'i eiddo at lenora, a theimlai ei fod yn gyfnod pwysig yn hanes ei fywyd. Gyda chalon guredig a llaw grynedig yr agorodd y papyryn oedd i gynnwys ei "ysgrif;" a bu agos iddo lesmeirio pan y syrthiodd ei lygad ar "*Y Dreflan.*" Ië, dyna lle yr oedd mewn print, air am air yn union fel yr oedd wedi ei anfon, oddigerth pump o gyfnewidiadau ieithyddol, ac ychydig wahaniaeth yn y sillebiaeth. Yr oedd llwybr ei fywyd bellach wedi ei farcio; teimlai ei hunan wedi myned i mewn i'r byd llenyddol. Dysgwyliai i bawb a ddeuai i'r *shop* son rhywbeth am yr "ysgrif;" ond nid oedd neb yn gwneyd; ac yr oedd yn gorfod penderfynu fod chwaeth at ddarllen yn isel iawn yn y Dreflan.

Adeiladodd John lawer castell yn yr awyr y diwrnod hwnw; ond yr oedd yn teimlo yn sicr fod un adeilad ar sylfeini safadwy, sef y byddai John Jones ryw ddiwrnod yn llenor enwog, ac yn cael ei edmygu gan filoedd, a'i weithoedd o bosibl yn cael eu cyfieithu i ieithoedd y Cyfandir. Ysywaeth, yr oedd un rhwystr mawr ar ffordd ei enwogrwydd, sef cyffredinedd ei enw. Yr oedd hyn yn anffawd fawr; a gallai gyfrif deuddeg o leiaf o'r un enw âg

ef yn y Dreflan; ac yr oedd yn rhaid na ddychymygodd ei rieni erioed iddo ennill yr enwogrwydd yr oedd *am* ei ennill, e onidê ni fuasent yn rhoi enw mor gyffredin arno. Ond cofiai, er ei gysur, mai nid efe ydoedd yr unig un oedd wedi gorfod wynebu yr anffawd hon. Gallai enwi dwsin o weinidogion enwog oeddynt wedi gorfod edrych yn llygad yr un anhawsder, ac wedi gorfod hefyd gael enw rhwng y John a'r Jones. Pe buasent wedi ymfoddloni ar yr enw John Jones yn unig, ni buasai neb yn gwybod dim am danynt; felly yr oedd yn rhaid mai i'r enw canol yr oeddynt yn ddyledus am eu holl enwogrwydd! Dos dithau a gwna yr un modd, meddai llef ei ymwybyddiaeth o'i fewn. Yn wir, ystyriai fod ganddo ffugenw eisoes, sef "Aelod." Nid oedd yn hoffi hwn yn rhy dda; ond pe buasai yn dewis enw arall, buasai raid iddo aberthu yr enwogrwydd yr oedd yr enw hwnw wedi ei ennill iddo yn barod—na, ni fedrai ddygymmod â'r meddwl. Cymerodd bin ac inc, ac ysgrifenodd ef mor debyg ag y gallai i argraff, er mwyn cael gweled sut y buasai yr enw yn edrych mewn print:—"John Aelod Jones." Yr oedd yn meddwl ei fod yn edrych yn dda; ond sut y buasai yn swnio, tybed? Aeth i'r ardd, a dywedodd yr enw yn uchel; ac, wele, yr oedd yn ateb y dyben! "Dyma," ebe fe, "yr enw yr adwaenir fi wrtho o hyn allan—'JOHN AELOD JONES.'"

## PENNOD IV.

### Y CYFARFOD MISOL.

DYWEDAIS yn y bennod o'r blaen fod y Cyfarfod Misol i gael ei gynnal yn y Dreflan; ac er nad hwn oedd y cyntaf na'r diweddaf a gynnaliwyd yno, hwn ydoedd y cyntaf, er nad yr olaf, i'r ysgrifenydd fod


ynddo. Oddiar yr ystyriaeth hon, o bosibl na chydddyga y darllenydd â mi yn rhoi desgrifiad byr o'r sefydliad hynafol a pharchus hwn, a'r argraff a wnaeth ar fy meddwl ar y pryd. Rhag i'r darllenydd hynaws ammheu ei gywirdeb, dymunwn iddo gofio mai desgrifio yr ydwyf y Cyfarfod Misol yno ryw ddeg neu ddeuddeng mlynedd yn ol, ac felly na fyddai, o bosibl, yn ddarluniad cywir o'r hyn ydyw yn bresennol.

Edrychid ymlaen at y cyfarfod hwn gyda dyddordeb neillduol, er oddiar deimladau gwahanol. Yr oedd yn chwith gan lawer o gyfeillion y Dreflan feddwl am gyfarfod o fath yn y byd ynglŷn â Methodistiaeth yno heb fod eu hen weinidog, Mr. Williams, yn llywydd arno; ar yr un pryd, yr oedd y cais oedd i gael ei ddwyn ymlaen am gael gŵr i lenwi ei le fel gweinidog yn lliniaru i ryw raddau y teimlad hiraethus ar ei ol ef. Yr oedd cyfraniadau yr eglwys tuag at ddwyn traul y cyfarfod wedi bod yn haelionus dros ben, a phawb yn awyddus i wneyd eu goreu oddigerth Mr. Jeremiah Jenkins. Yr oedd efe yn credu mai bob tri mis y dylesid cynnal y Cyfarfod *Misol*, yr hyn oedd yn fy adgofio yn rymus am y wraig a fynai berswadio ei chymydoges i *whitewashio* ei thŷ yn felyn! Pe buasid yn cynnal y cyfarfod bob tri mis, buasai Jeremiah yn cyfranu tuag ato; ond hyd hyny nis gwnai. Nid am ei fod yn gybyddlyd yr oedd yn gwrthod cyfranu, ond i ddangos ei egwyddorion (?). Ond aethpwyd ymlaen gyda'r parotoadau yn rhagorol heb help Jeremiah druan. Yr oedd Mrs. Price wedi rhoddi *round of beef* yn yr heli er ys dyddiau, ac wedi dwyn y cyllyll a'r ffyrc allan o'u llochesau, a pheri iddynt ddysgleirio nes y gwelech eich llun ynddynt. Wrth fyned heibio, goddefer i mi adrodd y bum yn meddwl yn fynych fod rhywbeth hynod o nodweddiadol o Fethodistiaeth Gymreig mewn *round of beef*—rhywbeth ag sydd yn arddangos cadernid a bywioliaeth dda, ac felly yn dra mynegiannol, yn gystal a chymhwys, ar fwrdd Cyfarfod Misol a Sasiwn.

Bore dydd Llun, y cyfarfod a ddaeth; a gwelid cryn brysurdeb yn ac oddeutu ysgoldŷ yr Hen Gapel; y

apron chwiorydd mewn ffedogau gwynion ac â gwynebau siriol yn myned i fewn ac allan yn gyflym i barotoi y te a'r coffi, y bara ac ymenyn, a'r caws, ar gyfer y dyeithriaid. Yn sefyllian oddeutu yr ysgoldŷ yr oedd tŵr o fechgynos —egin Methodistiaeth ddyfodol y Dreflan—yn dysgwyl yn bryderus am gael marchogaeth ceffylau y pregethwyr i Ty'nllan. Yr oedd yn amlwg fod y gwŷr traed a ddeuent i'r cyfarfod yn sefyll yn isel yn meddwl y Jehuaid ieuainc hyn; a chymerodd llawer dadl frwd le rhyngddynt pa un a oedd y brawd hwn ac arall yn "'gethwr" ai peidio. Os na byddai gan y brawd geffyl, byddai yn cael ei roddi i lawr gan y beirniaid craff hyn naill ai fel blaenor neu ynte fel "'gethwr sal." Y pwnc mawr ynglŷn â'r Cyfarfod Misol gan y Methodistiaid ieuainc hyn oedd cael *race* i Dy'nllan; ond nid oes anghen dyweyd nad oedd dim perygl i'r pedwarcarnolion a yrid ganddynt redeg â hwynt ymaith, canys yr oedd yr ysgrubliaid hyny, fel yr enwad yr oeddynt yn ei gynnrychioli, yn *slow and sure;* a phe dygwyddasai i gorn y cŵn hela seinio ar y ffordd, nid oedd raid ofni iddynt godi eu clustiau ac anghofio i bwy yr oeddynt yn perthyn, na'r achlysur yr oeddynt wedi dyfod y bore hwnw o'i blegid.

Deuai y brodyr i mewn *drib drab*, fel y dywedir, a hyny, mae yn ymddangos, o anghenrheidrwydd; oblegid nid y cwestiwn oedd pa bryd yr oeddynt yn cyrhaedd y Dreflan, ond o ba le yr oeddynt wedi cychwyn; hyny ydyw, mewn geiriau eraill, y cwestiwn ollbwysig a ofynid y naill gan y llall oedd, "Pa le yr oeddych chwi ddoe?" Yr wyf yn cofio yn dda fod ynof deimlad o wir dosturi dros y rhan fwyaf o bregethwyr a ddeuent i'r Cyfarfod Misol hwn. Yr oedd y tywydd yn hyfryd a hafaidd, ac eto ymddangosent bron i gyd fel rhai wedi cael anwyd trwm, oblegid gwisgent gotiau uchaf trymion a *mufflers* tewion. Wrth borth yr ysgoldŷ, yr oedd ein cyfaill twymgalon, Mr. Peter Pugh, heb yr un het am ei ben, yn gwylio yn ddyfal am ddyfodiad pob dyeithryn; a chan gynted ag y canfyddai un, elai i'w gyfarfod, a chydiai yn glôs yn ei fraich, gan ei orfodi ymron i



"Slow and Sure." t.d. 20.

fyned i gael "tamed," i'r hyn, fel rheol, yr ufuddhâi y brawd dyeithr, gan gymeryd yr arlwy *heb dynu ei het*, yn enwedig os byddai yn bregethwr, a hyny, wrth gwrs, rhag iddo gael anwyd. Yr oedd lle i feddwl fod *ofn cael anwyd* yn hunllef mawr pregethwr; ac felly cymerwn yn ganiataol mai dyna yr unig reswm am yr arferiad rhy gyffredin o fwyta ac yfed arlwyaeth y Cyfarfodydd Misol heb ddiosg y pen. Nid oedd heb tebyg i Mr. Pugh am ddeall anghenrheidiau a dymuniadau y dyeithriaid. Os methai eu perswadio i gymeryd "tamed," edrychai y foment hono yn myw eu llygaid, a rhoddai ei fraich am fraich y brawd dyeithr, a phwyntiai â'i fys mewn modd *confidential* at dŷ William Jones, a dywedai yn ddystaw, "Ewch i gael *'belled*, ynte."

Wrth sylwi ar y dyeithriaid yn yr ysgoldŷ, ac yn gyplau yma ac acw yn muarth y capel, yr oeddwn fel y bechgyn y cyfeiriwyd atynt, yn teimlo anhawsder i benderfynu pwy oedd yn bregethwr a phwy oedd yn flaenor. Gwisgai ambell i bregethwr mor debyg i flaenor, ac ambell flaenor mor debyg i bregethwr, ac felly yn *dovetailio* cymaint i'w gilydd, fel mai gorchwyl anhawdd oedd i newyddian benderfynu i ba urdd yr oedd y naill a'r llall yn perthyn. Cafodd un brawd, y gwyddwn yn dda mai pregethwr ydoedd, ei roi i lawr gan y bechgyn fel blaenor, a hyny yn unig o herwydd ei wisg; ac os yw y brawd hwnw eto yn fyw, ac heb arwydd tröedigaeth ar ei ddyn oddiallan, ac yn debyg o ddarllen y llinellau hyn, dymunwn iddo gael y fendith drwyddynt. Gwisgai efe lodrau o liw goleu, a chob gwta; ac yr oedd ei wasgod yn agor yn isel; ac oni buasai fod llarp mawr o grys gwlanen lliwiedig yn y golwg, buaswn yn tybied mai i gynnulliad pur annhebyg i Gwrdd Misol yr oedd yn meddwl ei fod yn cychwyn y bore hwnw. Yr oedd ganddo goler bapyr am ei wddf, ond yr oedd hono wedi ei chuddio bron i gyd gan farf ddu fras, a gwallt a ddylasai fod wedi ei gynauafa er y Cyfarfod Misol chwarterol blaenorol. Pe gallasai ei het siarad. gallasai hi roddi hanes y Cyfarfodydd Misol blaenorol am bedair

neu bum' mlynedd, o leiaf. Mewn gair, yr oedd golwg mor anefengylaidd, os nad anwaraidd, ar y dynsawd hwn, fel os na ofynwyd cyhoeddiad iddo y dydd hwnw, nad oedd hyny ond ei haeddiant llawn. Ni buaswn yn meiddio rhoddi y desgrifiad hwn oni buasai fod y "gwrthddrych a nodir" yn ŵr lled ieuanc y pryd hwnw. Gwisgai ambell i flaenor, o'r ochr arall, mor debyg i bregethwr, ac edrychai mor lanwaith a deallgar, fel na buaswn yn petruso gofyn cyhoeddiad iddo ar unwaith, pe buasai yr awdurdod genyf ar y pryd. "Sut y byddwch yn gallu gwahaniaethu rhwng pregethwr a blaenor heblaw wrth eu gwisg?" gofynwn i Mr. Pugh. "'Does dim byd hawsach, wel di," ebe yntau. "A weli di y twr acw ymhen draw buarth y capel? Edrycha di, yrwan, ar y brawd acw yn myned â'i *Ddyddiadur* yn ei law at y brawd arall: mi elli fod yn siŵr mai blaenor ydi hwnyna. A weli di y brawd arall yn ymddangos mor ddidaro, ac yn gwrthod edrych ar y llyfr? Dyna bregethwr. Mewn geiriau eraill," ebe Mr. Pugh, "pan weli di frawd yn cymeryd yr ochr ymosodol, blaenor ydi hwnw; ond os gweli di frawd ar yr ochr amddiffynol, dyna bregethwr i ti." Er fod rheol Mr. Pugh yn hynod ddarnodiadol, eto ni chefais hi bob amser yn gywir.

Pan darawodd y cloc un ar ddeg, gwelwn ddyn heb fod yn ieuanc nac yn hen iawn, gwridgoch a chorffol, ond yn berffaith heinyf ar ei droed, nid yn cerdded ond yn ysgythru o'r ysgoldŷ i'r capel. Yr oedd ei hoewder a'i lygaid tanbaid yn dyweyd yn amlwg, "*Business, business*, frodyr!" Deng mynyd wedi un ar ddeg, yr oedd tri gwasanaeth yn cael eu cynnal ar unwaith: un yn y capel, un yn nhŷ William Jones, ac un yn muarth y capel, lle y gwelid twr yma ac acw â'u llyfrau yn eu dwylaw fel pe buasent yn cadw cyfarfod darllen yn yr awyr agored. Llwyddodd Mr. Pugh, pa fodd bynag, i berswadio y ddau ddosbarth a enwyd olaf i roi i mewn i'r gwasnanaeth yn y capel. Wedi i mi fyned i'r cyfarfod, un o'r pethau cyntaf y dymunaswn gael eglurhâd arno oedd, pa ddeddf oedd yn rhoddi trwydded i'r sêdd fawr, ac yn penderfynu ar yr

to top

agosrwydd neu'r pellder yr oedd hwn a'r llall i gymeryd ei eisteddle? Yr hyn a barodd i mi feddwl am hyn oedd gweled dau nad oeddynt ond cymharol ieuanc, y rhai a ddaethent yn ddiweddar i Sîr y Dreflan o Siroedd eraill, dan yr enw o fugeiliaid, yn eistedd yn y sêdd fawr, tra yr oedd amryw o hen bregethwyr y Sîr encyd oddiwrthi. Deallais yn ddilynol nad oedd yr un reol bendant ar hyn, ond fod y cwbl yn cael ei adael i duedd neillduol neu i synwyr da y dyn ei hun.

Naturiol oedd i gyfarfod y bore gael ei dreulio i "ymddyddan â swyddogion y lle am hanes yr achos, a'u profiad crefyddol" Cafwyd y blaenaf yn gryno a thaclus gan Mr. Bevan, a *buasid* yn cael yr olaf hefyd yn helaeth ac effeithiol oni buasai fod Benjamin Prŷs yn methu rhoi ei bresennoldeb o herwydd llesgedd. Yr oedd y cyfeillion yn trydar o herwydd colli Mr. Williams; a gwnaed sylwadau hynod o deimladol ac annogaethol yn ngwyneb eu colled gan amryw o'r brodyr dyeithr Llawenhäwyd y cyfarfod yn fawr pan hysbysodd Mr. Bevan fod yr eglwys yn dymuno cael caniatâd a chyfarwyddyd y cyfarfod gyda golwg ar alw brawd o bregethwr i'w bugeilio

Càn gynted ag y gwnaed hyn yn hysbys, neidiodd un o'r ddau y cyfeiriwyd atynt yn y sêdd fawr ar ei draed i longyfarch yr eglwys, am ei doethineb, &c., a chyn iddo ef braidd eistedd i lawr, yr oedd y bugail ieuanc arall ar ei draed yn siarad yn yr un cyfeiriad. Nid oedd y cyfarfod, pa fodd bynag, yn ymddangos yn rhoi llawer o bwys ar yr hyn a ddywedai y brodyr parod hyn. Ar eu hol hwy cyfododd hen weinidog—nid bugail cydnabyddedig—i siarad, a gwnaeth sylwadau digon call ac annogaethol, ond ei fod, dybygid, yn cymeryd gormod o amser i'w dyweyd. Yr oeddwn yn hoffi ei sylwadau yn fawr, ond fy mod yn ofni ei fod yn defnyddio rhywbeth nid annhebyg i'r hyn y cyfeirir ato yn yr ail bennod o brophwydoliaeth Jeremïah. Gosodai efe bwys mawr ar i'r eglwys ddewis gŵr o'i Sîr ei hunan, gan ddyweyd fod amryw yn ymrithio i'w feddwl ar y pryd fel rhai hynod o gymhwys i'r lle a'r gwaith, er na wnai eu henwi.

Ar gymhelliad y llywydd, siaradodd gweinidog arall, y' hwn hefyd oedd fugail; dyn pell oddiwrth gael ei alw yn hen ŵr, er fod ei goryn yn foel. Yr oedd rhywbeth dymunol iawn yn' yr olwg ar y gŵr hwn. Anaml. y siaradai; ond yr oedd pobpeth a dywedai i'r pwrpas. Dywedwyd wrthyf ar ol hyn mai ei unig fai oedd ei fod braidd yn dueddol i dorri ei gyhoeddiadau, neu i roddi mwy nag un cyhoeddiad am yr un Sabboth. Nid yn fuan yr anghofiaf sylwadau brawd parchus o flaenor, yr hwn, ysywaeth, erbyn heddyw, nid yw. Nid allwn lai nag edmygu ei ddyn oddiallan. Yr oedd ei farf, ddu y pryd hwnw, a llaes, yn rhoddi ymddangosiad milwrol ac awdurdodol arno, ac yr oedd ei lais yn cyfateb i hyny yn hollol. Er ei fod y rhan fynychaf yn gwisgo gwydryn ar un llygad, yr oedd ei olygon mor dreiddgar nes y byddwn yn ofni iddynt wneyd tyllau trwof Ond wedi i mi ymgydnabyddu âg ef mewn blynyddoedd ar ol hyn, cefais ef yn un o'r dynion mwyaf hynaws a thirion a welswn erioed. Yn ei ddydd gwnaeth fwy nag odid i neb sydd yn fyw tuag at dyrchafu a pherffeithio y wasg Gymreig; a pha beth bynag a ddywedai yr oedd yn cael gwrandawiad, nid yn unig yn y Cyfarfod Misol ond mewn cylchoedd uwch. Nid hir y bum yn y cyfarfod heb ddeall mai y gŵr corffol, heinyf ar ei droed, y cyfeiriais ato o'r blaen, ydoedd *genius* y cyfarfod. Meddai gryn lawer o'r hyn a elwir yn *wit*, a gallu i ddywedyd yr hyn oedd eisieu ei ddywedyd. Yr oedd efe mor debyg i Mr. Williams, y diweddar weinidog, fel mai nid rhyfedd fod swyddogion y lle yn derbyn pob gair a ddywedai fel ysgrythyr. Cymerai ef fantais, oddiar benderfyniad yr eglwys i alw bugail, i annog eglwysi eraill i ddilyn ei hesiampl. Wedi i hwn a'r llall ddyweyd eu meddyliau, ac wedi i ddau frawd gael eu penodi i gynnorthwyo yr eglwys i gario allan ei phenderfyniad i weithrediad, gwelwyd drws y capel yn agor yn araf deg; ac yn ddilynol canfyddid pen parchus Mr. Pugh yn gwneyd ei ymddangosiad. "Foneddigion," ebe efe, "goddefwch air: mae'r cinio yn barod!" Pa un ai cynnwys yr hysbysiad hwn, neu ynte ei ffurf, a barodd i bawb wenu, nid wyf yn

cymeryd arnaf benderfynu; ond dygwyd cyfarfod y bore i derfyniad buan ar ol hyn. Gwelid yn amlwg garedigrwydd a meddylgarwch cyfeillion y Dreflan yn y ciniaw rhagorol oedd wedi ei ddarparu. Yr oedd yno gyflawnder o'r cigfwyd y cyfeiriwyd ato yn barod, a digonedd o bytatws, gyda'r peth tebycaf a ellid ei gael ar y tymmor hwnw ar y flwyddyn i'r hyn a roddodd yr olwg raenus a theg ar Daniel a'i gyfeillion gynt yn Babilon. Synai Mr. Pugh fod llawer o'r cyfeillion yn bwyta càn lleied, heb gofio mai rhyw ddwy awr a hanner oedd er pan fuasent wrth y gwaith pleserus hwnw yn flaenorol. Wrth gerdded yn ol a blaen, yr oeddwn yn clywed yr hen gwestiwn yn dal yn ei flas, "Pa le yr oeddych chwi ddoe?"

Gorphenasid mor llwyr y gwaith o roi a derbyn a galw yn ol gyhoeddiadau, fel y gallwyd dechre y cyfarfod am ddau o'r gloch yn lled brydlawn; ond elai fy mhennod yn rhy faith, heblaw fy mod yn ammheus a fyddai o ddyddordeb cyffredinol, pe sylwn ar yr holl waith a wnaed yn y cyfarfod hwn. Cefais fy argyhoeddi fod gwaith, a gwaith mawr, yn cael ei wneyd yn y Cyfarfod Misol, a bod y sefydliad yn un ag sydd yn dwyn oddiamgylch lawer o ddaioni nad all y rhai sydd o'r tu allan synio yn briodol am dano. Goddefer i mi ddyweyd, pa fodd bynag, nad allaswn lai na sylwi fod rhywrai yno, fel ymhob cyfarfod, yn siarad gormod, ac eraill ry ychydig. Yr oedd y ddau y pwyntiais atynt o'r blaen yn y sêdd fawr, yn fy marn ostyngedig i, ar eu traed yn rhy aml, ac yn ymddangos fel pe buasent mewn cynghrair â'u gilydd, ac mai nid y lleiaf ymhlith eu hamcanion oedd rhoi ergydion i rai o'r hen weinidogion. Càn gynted ag y byddai un wedi eistedd i lawr, byddai y llall ar ei wadnau; ac nid allwn yn fy myw lai na meddwl am yr hinfynegydd a welir weithiau mewn ambell dŷ, ac a elwir yn "Siôn a Siân." Gwyddys pan fydd *Siôn* allan y bydd *Siân* i fewn, a *vice versa.* Ond yr oedd hyn o wahaniaeth yn y gymhariaeth: ceid "Siôn a Siân" yn mynegu neu ragfynegu y tywydd, tra nad oedd y ddau frawd a grybwyllwyd yn fynegol o ddim oll. Pan oedd y cyfarfod yn myned ymlaen yn ei gy

nghoriaethau, yr oedd Mr. Bevan a Mr. Phillips yn myned yn ddystaw oddiamgylch at bob un yn bersonol, i ymofyn eu pleidlais gyda golwg ar gymeryd gwely y noson hono. Yr oedd rhai am aros, eraill am fyned adref, a rhai yn anmhenderfynol. Ond sylwais ar ychydig o'r dosbarth olaf, wedi clywed cyhoeddi pwy oedd i bregethu, yn cael eu hennill drosodd yn ebrwydd at y rhai oedd am fyned adref. Er nad oedd ond gweinidogion y Sir yn cymeryd rhan gyhoeddus yn y cyfarfod, hyfryd yw gallu adrodd fod y weinidogaeth mewn grym mawr, ac arddeliad amlwg ar y gwirionedd.

## PENNOD V.

### ISMAEL.

A YDYW y lle mawr yr wyf wedi ei roddi i Fethodistiaeth yn yr hanes hwn wedi arwain y darllenydd i feddwl mai Methodistiaid ydyw pawb o drigolion y Dreflan? Os ydyw, yr wyf yn euog o fod wedi ei gamarwain yn fawr, ac i'r dyben o dynu ymaith yr argraff gyfeiliornus, yr wyf yn bwriadu yn y bennod hon ei ddwyn i gydnabyddiaeth â chymeriad y cydolyga efe â mi nad ydyw yn edmygwr mawr o John Calvin, nac yn ddilynwr zelog i Charles o'r Bala. Nid am fod cysylltiad anghenrheidiol rhwng y cymeriad crybwylledig â'r hanes hwn yn bresennol, a phaham y rhaid i gysylltiad fod? Nid wyf fi wedi addaw hanes cysylltiol a chyfrodeddol; ac ni waeth i mi ddyweyd yn y fan hon, y bydd fy null o fyned ymlaen yn debyg i ddull Spot, y ci bach yma, yr hwn sydd yn gorwedd ar yr aelwyd ac yn cymeryd arno gysgu. Pan fydd Spot yn dyfod gyda mi i roi tro, ni bydd efe byth yn cerdded nac yn rhedeg yn unionsyth; na, bydd weithiau yr ochr yma, ac weith-

iau yr ochr acw; weithiau yn rhedeg i lawr y groesffordd, bryd arall yn myned dros y clawdd; edrycha yn syn at un peth, a chyfartha at y peth arall; ond gofala yn wastad am ddyfod yn ei ol. Ac y mae mwy o natur a barddoniaeth, goeliaf fi, yn null Spot o deithio nag yn null creadur fel y camel, yr hwn sydd yn dal ei ben i fyny o hyd, ac fel pe byddai yn edrych am derfyn ei daith bob cam. O leiaf, dull Spot a fabwysiadaf fi, serch i mi trwy hyny deithio llawer yn ofer.

Mae yn debyg mai ychydig o argraff y mae diwrnod braf a hafaidd yn ei wneyd ar feddwl dyn. Mae diwrnodau felly yn bethau mor gyffredin yn nhymmor yr haf, fel nad ydyw yr argraff a wnant ond arwynebol iawn. Ond pe yr elai dyn i sugno ei gof, a cheisio galw yn ol ryw ddiwrnodiau nodedig o hyfryd a balmaidd, oni chysylltai efe hwynt â'r dydd Sabboth? Pa un ai dychymyg plentynaidd ai ffaith ydyw hyn, fod y Sabboth yn meddu ar fwy o dynerwch a swyn na holl ddyddiau yr wythnos, nis gwn; ond y mae yr argraff ar fy meddwl er yn blentyn fod natur, ar y dydd hwnw, fel y bydd dynion yn gyffredin, yn ceisio ymdrwsio tipyn mwy nag ar un diwrnod arall. Ai am fod genym fwy o hamdden i edrych o'n cwmpas, neu ynte ai am fod cysylltiadau y dydd, a'n llwyrymattaliad oddiwrth bob gwaith, yn ein gosod mewn gwell tymher, y gwnaed yr argraff ar ein meddwl? Pa fodd bynag, y Sabboth oedd y diwrnod hwnw. Yr oeddym yn dyfod allan o'r oedfa'r bore, lle yr oeddym newydd glywed pregeth ragorol ar weithgarwch crefyddol, a'n dyledswydd i wneyd rhywbeth dros deyrnas y Gwaredwr. Yr wyf yn cofio yn dda fod yr haul yn tywynu yn hyfryd, a'r awel yn deneu ac yn llefn, a phobpeth yn gwisgo y fath swyn a llarieidd-dra, a'r Creawdwr mawr yn arddangos y fath ddaioni, fel pe nas cymerasai neb ei enw yn ofer, ac na chyflawnasid yr un pechod yn ei erbyn erioed! A oedd y dyrfa liosog, drwsiadus, a pharchus a ddylifent allan o'r capel y bore hwn yn meddwl rhywbeth am y nifer mawr o'n cyd-drefwyr, na fynychent dŷ addoliad unwaith yn y

flwyddyn? A oeddynt yn teimlo eu bod wedi gwneyd eu dyledswydd wrth ddyfod i'r capel? A oedd y ciniaw rhagorol yr oeddynt yn myned i'w fwynhâu yn eu gwahanol fanau wedi peri iddynt anghofio yn llwyr y creaduriaid diddarbod, diymgeledd, diofal a di-Dduw, a breswylient ein hystrydoedd cefn a'n buarthau?

Yr *oedd* yno un, pa fodd bynag, yn y gynnulleidfa fawr ag yr oedd y bobl hyn yn cael rhyw gymaint o le yn ei feddwl; a thra yr oeddwn yn ymwthio trwy y dyrfa, teimlwn ei law ar fy ysgwydd, ac, fel pe buasai yn cyfrif pedwar, yn dyweyd wrthyf, "Chwarter—wedi—un—cofia!"

"O'r gore, Mr. Pugh," atebais, canys yr oeddwn yn gwybod beth yr oedd yn cyfeirio ato. O Peter Pugh! ai onid mwy plesurus o lawer, gan fod genyt dŷ mor gysurus, ac esmwythfeinciau mor glustogaidd, a fyddai i ti, ar ol ciniaw, fyned i orweddian a chymeryd cyntun, yn hytrach na blino dy feddwl ynghylch cael rhywrai o'r newydd i'r Ysgol Sabbothol? Pa raid sydd arnat ti i fyned i chwilio y prif-ffyrdd a'r caeau a'r buarthau, a bod wrthi o'r naill beth i'r llall o fore Sabboth hyd yr hwyr, nes y byddi yn teimlo yn fwy blinedig ar ddiwedd y dydd hwnw nag un dydd arall, tra y mae dy gydaelodau crefyddol yn ei chymeryd yn ddigon tawel, a rhai o honynt yn edrych i lawr arnat gyda thipyn o ddirmyg? Ai cyfeiliorni yr wyt? Mae yn rhaid mai ïe, neu ynte rhaid ydyw eu bod hwy yn cyfeiliorni.

Am chwarter wedi un, yr oedd fy nghyfaill zelog ac ymroddgar wrth fy nrws yn galw am danaf; ac nid gwiw oedd i mi gynnyg unrhyw esgus dros beidio myned gydag ef. "Gad i ni roi tro i lawr Buarth Jenkins, i edrych beth welwn ni," ebe efe. Gelwid y rhan hon o'r Dreflan yn Fuarth Jenkins am mai Mr. Jeremiah Jenkins, yr hwn, y mae fy narllenwyr eisoes yn gydnabyddus âg ef, ydoedd perchenogydd y rhan fwyaf o'r cabanod anolygus a digysur a gyfansoddent y lle. Prin y buasai gŵr dyeithr yn gwybod fod y fath le yn ein Treflan;

ac nid oedd y naill hanner o'r preswylwyr cyffredin yn cofio fod y fath gymydogaeth mewn bodolaeth oddigerth ar adeg etholiad seneddol. Ar yr adeg hono byddai Loveall Goodman, Yswain, yn cofio am dani, ac yn anfon ei oruchwyliwr i siarad yn dirión â'r preswylwyr, fel y gallai, trwy addewidion teg a mwyneidddra digyffelyb, eu troi allan o'u tyllau i restru eu pleidlais dros ei ddyn dewisedig, megys y byddai, ar adegau eraill, yn anfon ei *ferret* i droi y cwningod allan at ei wasanaeth a'i bleser. Er fy mod wedi fy ngeni a'm magu yn y Dreflan, a bod y fynedfa i Fuarth Jenkins yn troi allan o'r brif heol, rhaid i mi addef fod y rhan hon mor ddyeithr i mi â Deheubarth Affrica. Ond gwyddwn trwy draddodiad fod yno lawer o drigolion a chyfleusderau i lettŷa dyeithriaid. Cawswn brawf o'r blaenaf lawer gwaith wrth ganfod esiamplau o'r tylwyth a breswylient y lle yn sefyllian yn ngenau y fynedfa, y rhai, oddiwrth yr olwg arnynt, a dyweyd y lleiaf, nad oeddynt yn anrhydedd i'r natur ddynol; ac fel prawf o'r peth olaf, clywswn "Charles Dinbych" yn dyweyd mai yno y byddai ef yn gwneyd ei gartref pan fyddai yn talu ymweliad â'n Treflan; a gwelais fy hunan, hefyd, fwy nag un bagad o'r tramorwyr a adnabyddir wrth yr enw *German Band*, wedi bod wrthi yn *chwythu* yn ddyfal trwy y dydd, yn myned i Fuarth Jenkins i *chwyrnu* i aros diwrnod arall.

I'r lle hwn yr arweiniwyd fi gan Mr. Pugh. Pan oeddym yn myned i lawr trwy y fynedfa, cyfarfu â ni wraig aflawen, lygadgroes, â golwg gwall ymgeledd arni, yn dwyn *jug* yn ei llaw. Yr oedd ei llygaid mor groesion fel na buasem byth yn gwybod ei bod yn edrych arnom, oni buasai i ni sylwi arni yn gwthio y *jug* dan ei ffedog càn gynted ag y daethom i'r golwg. Nid myned i gyrchu dwfr na llaeth yr oedd, ond rhywbeth arall nas gallasai ei gael cyn un o'r gloch ar y Sabboth. Wrth iddi fyned heibio i ni, gollyngodd Mr. Pugh ochenaid drom; ysgydwodd hithau ei phen yn herfeiddiol, gan fwmian rhywbeth rhwng ei dannedd ynghylch "y *Calvins* ——." Yr oedd yr ansoddair a

incessant
to snore

gysylltodd â'r enw parchus yn rhywbeth hollol wahanol i'r rhai a ddefnyddir yn gyffredin gan dduwinyddion, hyd yn nôd gan y rhai mwyaf gwrth-Galfinaidd. Nid oedd yr arogl a'n cyfarfu wrth fyned i lawr y buarth yn gwbl mor bersawrus ag y dymunasem iddo fod; ac er mai y dydd Sabboth oedd, rhaid i mi addef daearoldeb fy syniadau, nad allwn yn fy myw beidio meddwl am berffeithrwydd gweithrediadau ein Bwrdd Lleol. A barnu oddiwrth y nifer a ddeuent i'r drysau i edrych ar ein holau, gallasai Mr. Pugh a minnau wenieithio i ni ein hunain ein bod yn bobl bwysig ac urddasol iawn, er fod diffyg gorchwyliaeth y dwfr ar wynebau yr edrychwyr yn brawf eglur, dybygid, fod ein dyfodiad i'w mysg yn annysgwyliadwy.

Yr oedd llygad Mr. Pugh ar dŵr o blant oeddynt yn chware *marbles* yn ngwaelod y buarth, ac yn taeru ac yn gwaeddi nerth eu penau. Gwaeddai un yn nhop ei lais, "*Clein! clein! clein!*" Gwaeddai un arall, "*No back my trick!*" ac yr oeddynt wedi ymgolli cymaint yn y chware fel na ddarfu iddynt sylwi ar ein dyfodiad atynt nes i rywun—na wyddem pwy—chwibianu o'r tu ol i ni, yr hyn a barodd iddynt oll godi eu penau. "*No styr byw* 'rwan," ebe Mr. Pugh, gan ddefnyddio un o'u termau hwy eu hunain. Ond nid cynt yr agorodd efe ei enau nag y crafangodd y bechgyn yn eu *marbles*, gan ddiflanu fel pe buasai y ddaear wedi eu llyncu, oddigerth un bachgen, yr hwn a edrychai yn ein gwynebau yn hollol ddieuog a hunanfeddiannol; ac wedi cyfrif ei eiddo marblyddol, gan gymeryd i ystyriaeth yn ddiammheu yr ennill a'r golled, efe a'u rhoddodd yn hamddenol yn ei boced lydan. Yr oedd golwg ddyddorol ar y bachgen hwn. Yr oedd yn fychan a theneu o gorffolaeth, a'i wyneb yn llwyd a budr. Nid yn hawdd y gallesid dyfalu beth ydoedd ei oedran. Wrth ddal i syllu arno, meddyliwn weithiau ei fod yn hen—bryd arall ei fod yn ieuanc iawn. A barnu oddiwrth ei ddillad, gallaswn dybied ei fod unwaith wedi bod yn hen iawn, ac wedi newid ei feddwl a myned yn ieuanc yn ei

ol, ond fod ei ddillad wedi gwrthod ei ddilyn yn ei gyfnewidiadau, canys yr oeddynt yn awr yn rhy fawr iddo o lawer. Yr oedd ei lodrau yn gwneyd i ffwrdd â'r anghenrheidrwydd am wasgod, gan eu bod bron yn cyffwrdd â'i ên, ac yn cael eu dal i fyny gan un fresen, yr hyn oedd yn rhoddi golwg unochrog arno braidd. Yr oedd ei gôb mor fawr fel y gallasai, pe buasai anghenrheidrwydd yn galw am hyny, ymguddio yn hawdd yn un o'i phocedau. Pe buasai noethni yn brawf o ddiniweidrwydd, fel yr oedd gyda'n rhieni cyntaf, buasai y bachgen hwn yn sefyll yn uchel yn ngraddfa moesoldeb; oblegid yr oedd mwy o hyny yn y golwg nag a fyddai yn weddus i mi hysbysu y darllenydd yn y fan hon.

Synwyd fi braidd gan ddull Mr. Pugh o ymddyddan âg ef.

"Wel, 'y ngwas i, pa faint o *farbles* sy gen' ti?"

"Dwy *daw*, dwy *stony*, a *scram;* à mi fase gen' i ddwy *scram* arall dase Twm Hughes heb *chetio.*"

"Ac mi ddaru Twm Hughes dy *chetio* di, do?"

"Do, mae o wastad yn *chetio.*"

"Wyt ti ddim yn meddwl fod *chetio* yn ddrwg, 'y machgen i?"

"Wel ydi, debyg, ac mi ddaw *chets* i'r gole hefyd," ebe'r bachgen, gan ddyfynu un o wirebau ieuenctyd.

"Fyddi *di* yn *chetio* weithie, 'y ngwas i?"

Ar ol peth petrusder atebodd, "Wel—bydda—weithie; mae pawb yn *chetio* weithie, ddyliwn."

"Wyt ti ddim yn meddwl fod chware *marbles* ar y Sul yn ddrwg?"

"Nag ydi, os gynewch beidio *chetio,*" oedd yr ateb.

"O ydi, 'machgen i," ebe Mr. Pugh; "plant drwg sydd yn chware *marbles* ar y Sul; ac yr wyt yn gwybod p'le mae plant drwg yn myn'd, on'd wyt ti?"

"I ardd Mr. Phillips i ddwyn 'fale; ond fydda i byth yn myn'd," oedd yr ateb diniwed.

"Ië, ond p'le mae nhw'n myn'd ar ol marw?"

"Siân Jones deyd i'r tân poeth; nhad yn deyd oes ne'r un tân poeth."

"Ddoi di hefo ni i'r ysgol, 'y machgen i, gael i ti ddysgu darllen."

Chwarddodd y bachgen nerth ei ben, gan godi un goes i alw ein sylw at ei lodrau fel rheswm digonol dros beidio rhoddi ei bresennoldeb yn y fath le parchus.

"Beth ydi d'enw di?" ychwanegai ein cyfaill.

"Jim," oedd yr ateb.

"Jim beth?"

"Jim y *matches*, plant 'y ngalw i, ond Jim Price ydi f'enw iawn i."

"Beth ydi enw dy dad?"

"Ismael."

"P'le mae dy dad?"

"Yn tŷ."

"Nei di ddangos y tŷ i ni?"

Dim ateb. Rhoddodd Mr. Pugh ei law yn ei logell, a thynodd allan lonaid dwrn o *sweets*, a rhoddodd hwynt i Jim, yr hyn a barodd i'w lygaid ddysgleirio, ac a'i gwnaeth ar unwaith yn berffaith ufudd. Erbyn hyn yr oedd y plant eraill ag yr oeddwn yn ofni fod y ddaear wedi eu llyncu yn dechre dangos eu penau yma ac acw, ac wedi gweled y rhodd yn cael ei chyflwyno i Jim, braidd yn awyddus am ddyfod ymlaen. Arweiniodd Jim ni at dŷ ei dad, ond gofalodd beidio dyfod yn ddigon agos i'w dad allu gwybod mai efe oedd ein harweinydd. Curasom y drws, ac atebwyd ni mewn llais cryf, "Dowch i mewn."

Deallasom ar ein mynediad i'r tŷ, oddiwrth yr arogl lledr a'n cyfarfu, mai gwneuthurwr esgidiau oedd y preswylydd, yr hwn a ganfyddem yn eistedd yn ymyl y pentan wrth ochr bwrdd crwn bychan, a chetyn byr du yn ei safn, ac yn darllen *Reynolds's Weekly Newspaper* Yr oedd yr ystafell yn fechan a thlodaidd, heb ei gorlenwi mewn un modd â dodrefn. Ar hyd y muriau yr oedd amryw gawellau adar, gan mwyaf ar ffurf tas wair Gymreig, ac mor fychain fel yr oeddwn yn synu sut yr oedd y creaduriaid bach pengoch yn gallu ymdroi ynddynt. Yr oedd yno un cawell mawr, yr hwn a fuasai unwaith yn gist tê, ond a droisid i'w ffurf bresennol gan breswylydd y bwthyn i

ddybenion neillduol, ymha un yr oedd dau aderyn pryd-ferth, un o liw melyn a elwir *canary*, a'r llall yn dywyll a phengoch a elwir *goldfinch*; y ddau hyn, er yn anghym-harus, oeddynt wedi ymuno mewn glân briodas. Yr oedd y creaduriaid bach hyn yn telori yn hyfryd pan oeddym yn croesi rhiniog y bwthyn; ond wedi i ni fyned i mewn peidiasant â'u cerdd, a safasant oll yn synedig ar eu clwydi, gan droi eu penau yn gam, a gwneyd swn undon-aidd yn awr ac yn y man, yr hyn a ddynodir gan edmygwyr adar yn "alw."

"Y ni sydd yma," ebe Mr. Pugh.

"Felly 'rwy'n gwel'd, Mr. Pugh; well i chwi eistedd i lawr, os byddwch mor ostyngedig."

"'Dydan ni ddim am aros, Ismael Price; ond galw yr oedda' ni i ofyn a ddoech ch'i gyda ni i'r ysgol?"

"O, yr ydw i wedi darfod fy ysgol er's talwm," ebe Ismael.

"Ië, ond yr Ysgol Sul oedda' ni yn feddwl; ac mi ddowch gyda ni, oni ddowch ch'i?"

"Na, ddof fi ddim; 'dydw i ddim digon *respectable* i ddyfod i'r fath le; a pheth arall, faint gwell fyddwn i pe bawn yn dyfod?"

"Llawer iawn gwell, gyfaill; mi welaf y medrwch ddar-llen, a phe baech yn dyfod i'r ysgol, mi gaech lawer o bleser wrth ddarllen y Bibl a chwilio yr ysgrythyrau."

"Mae hyny yn burion i'r rhai sydd yn credu mewn peth fel yna; ond faint gwell ydw i, neu fy ngwraig yr hon sydd yn sâl yn ei gwely yn llofft yna er's wythnosau, neu Jim a welsoch hyd yr heol yna lawer gwaith, yn hanner noeth, yn gwerthu *fusees*—faint gwell ydan ni am hyny o grefyddwyr sydd yn y Dreflan? Oes rhai o honyn' nhw yn gwneyd rhyw ddaioni i rywun? mi fuaswn i yn leicio gwybod i bwy. Ni wnai eu hanner nhw ddim byw yn grefyddol oni b'ai eu bod yn cael tâl am hyny. 'Drychwch ar yr esgobion yma y cewch eu hanes yn y papyr hwn. Maent yn derbyn eu chwech, a'u saith, ïe eu deng mil o bunnau yn y flwyddyn, a llawer o'u curadiaid yn derbyn punt yr wythnos, a llawer mwy o'u 'hanwyl

gariadus frodyr' yn derbyn hanner coron yr wythnos. Ydach chi yn galw hyny yn grefydd? Bregethen' nhw, ddyliech ch'i, pe'r attelid eu cyflogau, a phe byddai raid iddynt weithio â'u dwylaw fel Paul gynt? Choelia i fawr! Mi glywes am yr Hwn y maent yn cymeryd arnynt fod yn ddilynwyr iddo mai myned oddiamgylch i wneuthur daioni y byddai fe, ac nid myn'd oddiamgylch, fel y mae nhw, i edliw i ni ein pechodau a'n gwendidau. Ha! *humbug*, syr! *humbug* ydi'r cwbl, syr!"

Yr oeddwn yn ofni mai nid Mr. Pugh oedd y dyn i siarad gydag un fel Ismael, a chanfyddwn fod fy nghyfaill ei hun yn teimlo hyny er ys meityn.


"Ond," ebe Mr. Pugh yn wyliadwrus, "wel, yr wyf yn gobeithio na ddarfu i ch'i dderbyn dim angharedigrwydd oddiar law un crefyddwr yn y Dreflan, os ydych wedi digio cymaint wrth yr esgobion?"

"Angharedigrwydd? angharedigrwydd, syr?" A neidiodd y gwaed i wyneb llwyd Ismael. "Beth ydach chi'n feddwl o hyn?—Mae Jeremiah Jenkins yn aelod gyda'ch enwad chwi, on'd ydi o? Y fo pïa y cabanod —— hyn. Gwyddai yn eitha' da fod fy ngwraig yn analluog i godi o'i gwely; gwyddai cystal a hyny nad oeddwn innau yn alluog i wneyd diwrnod o waith, hyd yn nôd pan gawn waith i'w wneyd. Yr oedd arnaf ddau fis o rent iddo; a beth wnaeth o?" gofynai Ismael, gan edrych yn ddigofus.

"Ei faddeu i chwi, wrth gwrs," ebe Mr. Pugh.

"O ïe! ei faddeu—*over the left!* Fe werthodd fy nodrefn i, syr; a buasai wedi gwerthu fy adar hefyd oni bae i mi wneyd llw, os efe a gyffyrddai âg un o honynt y trywanwn ef â'r gyllell sydd ar y fainc weithio yna! Anghofia i byth mo'r diwrnod hwnw, syr."

Ychwanegai Ismael ychydig yn fwy tawel, "Yr oedd fy nodrefn wedi myn'd; yr oedd yr helynt wedi gwneyd fy ngwraig yn llawer iawn salach; yr oeddwn yn ofni mai marw a wnai; ac nid oedd genyf un *job* yn y tŷ, nac ymborth chwaith. Gan nad oeddwn yn caniatâu i Jim gardota, ni ddygodd ddim ymborth i'r tŷ; ond deallais



"Gwnes lŵ y trywanwn ef â'r gyllell yna." t.d 34.

wedi hyn ei fod wedi cardota digon yn ddirgel i'w ddiwallu ei hun, a dygodd rywbeth i'w fam heb yn wybod i mi. Daeth gwraig y person yma a rhoddodd gynghor i mi, a *tract* crefyddol; rhoddes innau y *tract* yn y tân, a buaswn yn rhoi y cynghor hefyd pe buaswn yn medru. Daeth y curad, y *Southwalian* yna, yma; a chynghorodd fi i beidio smocio, ac annogodd fi i weddïo. Bu agos i mi ei gicio allan o'r tŷ. Yr oeddwn wedi digio wrth bawb a phobpeth, a bu bron i mi a chredu nad oedd yr un Duw yn bod. Yr wyf yn meddwl yn sicr y buaswn wedi dyrysu yn fy synwyrau oni buasai am Siân Jones a rhyw ŵr boneddig sydd yn aelod gyda chwi. Yr oedd fy ngwraig, fel y dywedais, yn ol pob golwg, yn marw. Pe buaswn yn myn'd at ddoctor y plwy', buasai yn dyweyd yn union fy mod yn grefftwr, ac felly y gallaswn dalu iddo. Yr oeddwn yn gwybod mai fy ngwrthod a fuasai. Mentrais yn fy ngwallgofrwydd fyned at Doctor Ellis, a dywedais wrtho fy ystori. Yr oedd y gŵr da, Duw a'i bendithio! yma hefo fy ngwraig cyn pen y ddau fynyd; a rhoddodd rywbeth iddi a wnaeth les dirfawr iddi; ac wrth fyned allan efe a roddodd hanner coron yn llaw Siân Jones i geisio ymborth."

Cyn i Ismael gael gorphen ei ystori, yr oedd rhywbeth yn myn'd i fyny ac i lawr yn ngwddf Mr. Pugh a'i gorfodai i besychu a defnyddio ei gadach poced yn ddidor. "Byth er hyny," ychwanegai Ismael, "mae Dr. Ellis yn ymweled â hi bob dydd, ac y mae hithau, yr wyf yn credu, yn gwella ychydig; ac nid allaf byth adrodd i ch'i y caredigrwydd y mae ef wedi ei ddangos i mi ac i fy ngwraig, a hyny i gyd am ddim—achos mi ddywedais wrtho yn y dechre nad allwn i byth dalu iddo. Oni buasai am y dyn yna, syr, ni fuaswn yn credu fod y fath beth â chrefydd, yn y Dreflan beth bynag. Ond am Jeremiah Jenkins"—a thrachefn dechreuodd Ismael fyned i dymher ddrwg, gan arfer iaith gref a dyweyd y lleiaf, yn nghanol pa un y clywem gnoc ar y drws, a dyna Dr. Ellis i mewn. Er yr holl dymher a ddangosodd Ismael, nid oedd, cyn dyfodiad y meddyg i mewn, wedi

symud o'i gadair, na rhoddi ei getyn heibio ond pan fyddai yn siarad; eithr y foment y clywodd gnoc y meddyg, taflodd ei bibell o'r naill du a neidiodd ar ei draed, ac ymdaenodd y fath sirioldeb dros ei wyneb, fel pan oedd yn talu ei warogaeth i'w noddwr y meddyliwn ei fod yn edrych ddeng mlynedd yn ieuengach. Wrth gwrs, yr oedd Mr. Pugh a minnau yn adnabod y meddyg yn dda, yr hwn oedd ŵr bywiog yn anterth ei iechyd, a llon'd ei wyneb yn gystal a'i galon o garedigrwydd. Synodd braidd ein gweled ni yno; ond deallodd ein neges yn union. "Wel, wel," ebe fe, "gadewch lonydd iddo yrŵan; mae o mewn tipyn o brofedigaeth, ond mi ddaw o i'r ysgol yn y man wedi i mi gael y ŵraig i lawr o'r llofft yna," ac aeth i fyny y grisiau yn gartrefol ac esmwyth *fel* meddyg.

Pan oeddym yn cychwyn ymaith, rhoddodd Mr. Pugh ei law ar ysgwydd Ismael, a gofynodd iddo yn ddystaw,

"A oes prinder arnoch ch'i heddyw?"

"Nac oes, diolch i ch'i, Mr. Pugh, mae o —" gan gyfeirio i fyny y grisiau, "wedi gwneyd pob peth yn iawn."

Cynnygiodd Mr. Pugh arian iddo, ond gwrthododd hwynt yn bendant.

"Wel, cofiwch y gwyddoch lle i gael cymhorth."

"Diolch i chwi," ebe Ismael. Yr oedd Jim wrth y drws yn ein haros allan, gan ddysgwyl yn ddiammheu am ychwaneg o'r melusion. Rhoes Mr. Pugh ei enau wrth ei glust, a gofynodd iddo, "Wyddost ti lle rydw i'n byw?"

"Gwn debyg," ebe Jim.

"Ddoi di acw heno hanner awr wedi wyth gael i ti gael rhywbeth i dy fam?"

"Wel, do' debyg!" oedd yr ateb.

Ar ein ffordd i'r ysgol, ebe fy nghyfaill dyngarol wrthyf —"A wyddost ti beth? mae dyn fel Jeremiah Jenkins yna yn gwneyd mwy o ddrwg i achos crefydd nag y medri di a finnau wneyd o ddaioni trwy ein hoes. Yr oedd yna rywbeth yn myn'd trwydda i pan oedd Ismael

yn son am y gyllell; ac eto yr oedd yna rywbeth yn dyweyd wrtha i—yr ysbryd drwg, ddyliwn i ti—fod o yn ei haeddu hi, y syrffed creulon, dideimlad. Aros di i mi gael siarad â fo! Mi ddeuda i iddo fo be' ydi be'. Yr ydw i wedi dysgu llawer yn y Buarth yna heddyw, wel di. Yr ydw i'n gwel'd na thala i ddim i fyn'd i siarad â dyn fel Ismael—dyn sydd wedi darllen tipyn. Mae eisio dyn â rhywbeth yn ei ben o i fyn'd at y *sort* yna. Peth arall, yr ydw i wedi gwel'd pan fydd dyn yn llwgu o eisio bwyd, fod yn well rhoi swllt iddo fo na rhoi llon'd trol o draethodau crefyddol a chynghorion. Welest ti fel yr oedd o hefo Dr. Ellis? Fe äi Ismael i'r lleuad, pe medro fo, i blesio Dr. Ellis, mi wnawn lw. Yr ydw i wedi penderfynu, os nad oes gen' i dalent i ddadleu hefo'r *sort* yna o bobl, y gwna i rywbeth iddynt a wnaiff cystal argraff arnynt, ac hwyrach well argraff." Ni bu fy nghyfaill yn ol o gario ei benderfyniad i weithrediad.

---

## PENNOD VI.

### CYFLOG GWEITHIWR.

TRA yr wyf fi wedi bod yn ymdroi gyda'r peth yma a'r peth arall, y mae swyddogion ac aelodau eglwys "yr Hen Gapel" wedi bod yn rhoi eu penau ynghyd i ystyried pwy a anrhydeddid â'r fraint o fod yn fugail iddynt. Profasant yn fuan yn eu cynghoriaethau mai un peth oedd cael caniatâd y Cyfarfod Misol i *alw* bugail, ac mai peth arall oedd penderfynu pwy a fyddai y gŵr hapus hwnw—mai un peth oedd cael yr eglwys bron yn unfrydol o blaid cael gweinidog, ac mai peth hollol wahanol oedd syrthio ar ŵr y byddai ei gymhwysderau yn cael eu cydnabod gyda'r un unfrydedd. Gan fod Mr. Williams, eu diweddar weinidog, yn ŵr o gryn ddoniau, ac yn arfer cael edrych i fyny ato yn y Sîr, yr

oedd rhai yn tybied mai annheilwng o'r eglwys y bu efe yn weinidog cyfrifedig iddi, a fuasai galw gŵr arall i lenwi ei le heb ei fod yntau hefyd yn meddu ar ddoniau a phrofiad cyffelyb. Ond yr oedd tipyn o rwystr ar ffordd dwyn hyn oddiamgylch, sef y ffaith fod yr eglwys wedi arfer cael gwasanaeth Mr. Williams am ddim, a'r posiblrwydd y buasai gŵr arall o'i safon ef yn dysgwyl cael cyflog uwch na chyflog hwsmon Ty'nllan. Felly, gan fod yn rhaid llunio'r gwadn fel bo'r troed, y pwnc y bu raid ei benderfynu yn gyntaf oedd pa faint o gyflog a allai yr eglwys yn ddiogel ei sicrhâu.

Gan anghofio nad oedd pawb fel efe ei hun, ystyriai Mr. Pugh na ddylasent feddwl am gynnyg llai na deg punt a thriugain, ac na fyddai hyny yn llawer i'w wneyd i fyny rhwng cynifer, ond i bawb fod yn ffyddlawn. Pan wnaeth Mr. Pugh y sylw hwn, ymaflodd Jeremiah Jenkins yn ei het, ar fedr myned allan a gadael y frawdoliaeth gyda dirmyg; ond cymerodd ail feddwl ac eisteddodd i lawr, gan grynhoi hyny o ras a feddai i roddi pardwn ynfytyn i Mr. Pugh. Dywedai Mr. Phillips—y blaenor *nervous*—na buasai dim yn rhoddi mwy o bleser iddo ef na chefnogi cynnygiad Mr. Pugh pe buasai rhyw rith o olwg i'r eglwys allu hel y fath swm anrhydeddus; eithr, gan nad oedd eu nifer ond rhyw ddau cant a hanner, fod son am ddeg punt a thriugain allan o'r cwestiwn, ac mai mwy rhesymol o lawer fuasai penodi ar ffigiwr llawer îs, rhag iddynt gael eu harwain i brofedigaeth. Dywedai Mr. Bevan fod rhyw bobl yn son am arian fel pe buasent i'w cael ar y ffordd fawr, ond nad oedd *efe* wedi eu cael yno, a'i fod yn ofni mai hyn oedd profiad y rhan fwyaf o honynt.

Rhoddodd y sylw hwn y fath foddhâd i Jeremiah Jenkins nes peri iddo anghofio yn llwyr ei benderfyniad i gymeryd ei het a myned allan; a pharodd iddo gredu hefyd fod un dyn synwyrol, pa fodd bynag, wedi ei adael ar y ddaear. Yn nghanol y mwynhâd hwn, cododd ar ei draed, a dywedodd fod lle cryf i ofni mai ariangarwch ydoedd y prif rwystr ar ffordd llwyddiant crefydd ysbryd-

ol y dyddiau hyn, a bod gwaith yr eglwysi yn rhoddi cyflogau mawr i'r gweinidogion â thuedd ynddo i'w gwneyd yn fydol, ac i beri iddynt feddwl mwy am arian nag am achub pechaduriaid. Yr oedd yr hen dadau wedi bod yn llafurio ac yn pregethu am y nesaf peth i ddim, ac weithiau am lai na hyny; ac yr oedd bendith mawr wedi bod ar eu llafur. Ond yn ddiweddar, yr oedd efe yn ofni fod rhywbeth tebyg iawn i *priestcraft* yn ymwthio i'r eglwysi, diwedd yr hwn a fyddai dinystr. Yr oedd son am ddeg punt a thriugain, ychwanegai y gŵr pur a duwiol, yn ynfydrwydd perffaith; a gwyddai y rhai oeddynt yn gwybod rhywbeth, fod y rhan fwyaf o aelodau yr eglwys hono, y rhai oedd yn gorfod *gweithio*, heb allu gwneyd y fath swm yn flynyddol; a pha reswm oedd son am gynnyg peth felly i bregethwr am ddyfod i *fyw* i'r Dreflan?

Yr oedd yr aelodau mwyaf adnabyddus o'r cyfaill Jeremiah yn gorfod cydnabod ei fod ef yn awdurdod ar y pwnc o fydolrwydd. Yn wir, credid nad oedd ei ennillion blynyddol ef ei hun yn rhyw lawer dros bedwar cant o bunnoedd; ac yr oedd efe yn gorfod *gweithio*, a pha reswm, fel y dywedasai efe, oedd son am roddi deg punt a thriugain i bregethwr am ddyfod i *fyw* i'r Dreflan! Heblaw hyny, er nad oedd ei ennillion ond y swm bychan a nodwyd, yr oedd Jeremiah o'i brinder yn cyfranu swllt yn y mis at y weinidogaeth; ac os byddai heb wneyd hyny weithiau, yr oedd felly o herwydd anghof. Byddai efe hefyd yn rhoddi dau swllt yn flynyddol at y Genadaeth; a buasai yn rhoi mwy ond fel yr oedd yn ofni i rywrai feddwl mai eisieu gweled ei enw yn y *report* y byddai efe wrth wneyd hyny. Ond nid hyn oedd y cwbl yr oedd efe yn ei wneyd. Os na byddai yn dygwydd bod oddicartref pan fyddai y casglwyr yn dyfod heibio, byddai yn rhoddi hanner coron at y Fibl Gymdeithas, a hyny bob blwyddyn yn gyson, oddigerth y byddai amgylchiadau, fel y dywedwyd, yr ei alw oddicartref, ac yr oedd hyny yn dygwydd yn lled fynych; eithr beth a all dyn wrth amgylchiadau! Gwir na

byddai efe yn llettŷa pregethwyr; ond nid oedd lle i ddysgwyl iddo wneyd pobpeth. Gwrthodai ef gyfranu at y Cyfarfod Misol, fel y nodwyd mewn pennod flaenorol; ond gwnelai hyny oddiar egwyddor, a gwnelai beth gwell na chyfranu ato, canys bu yn gweddïo yn gyhoeddus am fendith ar y cyfarfod. Wrth gymeryd hyn oll i ystyriaeth, yr oedd ganddo ef hawl i siarad ar y fugeiliaeth, ac ar y pwnc o gyfranu yn gyffredinol.

Yr oedd sylwadau Jeremiah Jenkins mor groes i ddaliadau Mr. Pugh fel y bu raid i'r olaf frathu ei dafod rhag dyweyd un peth neu ddau oedd ar ei feddwl; ond, fel Aaron, cafodd ras i dewi. Yr oedd yn ymddangos nad oedd Mr. Pugh ar ei ben ei hun yn ei ddaliadau, oblegid siaradodd amryw yn yr un cyfeiriad âg ef. Aeth un brawd mor bell a dyweyd mai nid *byw* yn unig yr oedd y bugeiliaid. ond eu bod hwythau hefyd yn *gweithio;* ac mai nid cyfeirio at ei waith yn gwneyd pebyll yr oedd Paul pan ddywedodd, "Mi a lafuriais yn helaethach na hwynt oll;" ac mai nid cyfeirio at waith saer yr oedd Un mwy na Phaul pan ddywedodd, "Rhaid i mi *weithio gwaith* yr Hwn a'm hanfonodd." Nid ydwyf fi yn dyweyd fod yr esboniadaeth yma yn gywir. Yn wir, a barnu oddiwrth y rhyfeddnodau a welid yn amlwg yn ngwyneb Jeremiah pan soniodd y brawd am y geiriau uchod, gallesid yn hawdd benderfynu na wyddai hwnw ddim am eglurhadaeth ysgrythyrol—o leiaf ddim o'i gymharu â Jeremiah. Aeth y brawd crybwylledig ymlaen i ddyweyd mai nid clorianu ydau, bustachu i symud sachau, llwytho tail, a gwrteithio, oedd yn unig yn teilyngu yr enw *gwaith*—fod myfyrio, cynghori, pryderu, ymweled, gofalu, a phregethu, yn ei dyb ef, yn llawn mor deilwng o gael ei alw yn waith.

Gwnaeth John Aelod Jones sylwadau i'r un perwyl; ac ychwanegodd at y pethau a nodwyd fod y bugeiliaid yn "gysfenu" llawer, ac fod hyny yn waith, ac yn waith caled iawn, gan gofio yn ddiammheu am y gwewyr y bu ef ei hun ynddo pan yn "gysfenu" i'r wasg am y tro cyntaf.

Yr oedd un gair a ddywedasai Jeremiah Jenkins wedi suddo yn ddwfn i feddwl Siân Jones, sef *priestcraft.* Trodd hi y gair yn ei meddwl lawer gwaith, ac nis gallai wneyd dim o hono ond *priest* a *chrefft.* Yr oedd Siân, druan, wedi arfer edrych ar *Father Pinchum* y perthynas agosaf i dywysog llywodraeth yr awyr; ac ynglŷn â'r enw *priest* rhuthrodd i'w meddwl yr addoli Mair a'r Seintiau, a thalu hanner coron am faddeu wythnos o bechodau; a gofynodd iddi ei hun a oedd peth fel hyn yn ymlusgo i eglwysi y Methodistiaid. Na, yr oedd hi yn meddwl nad ydoedd "yr Hen Gorff" wedi dyfod i hyny eto; ac os byth y deuai i hyny, mai y gŵr oedd wedi awgrymu y peth a fyddai raid *lansio* mwyaf o'i boced, os da y gwyddai hi ei hanes yn y "Buarth."

Wedi peth ymdriniaeth pellach, penderfynwyd nas gallai yr eglwys yn ei sefyllfa ar y pryd addaw o gyflog i fugail fwy na deugain punt yn y flwyddyn, ac iddo gymeryd ei fwyd ei hun, a chael ei Sabbothau. Credai y nifer lliosocaf o'r eglwys fod y swm hwn yn gyflog lled dda, ac yr oedd Jeremiah Jenkins yn meddwl ei fod yn rhy dda o lawer, yn enwedig gan eu bod yn rhoddi i'r bugail ei Sabbothau; a dywedai mai gwir oedd y gair fod y Sabboth wedi ei wneuthur er mwyn dyn, ac yn enwedig y gweinidog.

Pan ddaethpwyd i'r penderfyniad ynghylch cyflog y bugail, edrychai Mr. Pugh yn brudd a siomedig; ac yn ei ffolineb a'i ddiniweidrwydd dywedai wrthyf ar ol hyn,—"Wyddost ti be? Dydi pobl ddim yn rhoddi pris ar dalent, galluoedd, a llafur meddwl! Deugain punt yn y flwyddyn a'i fwyd ei hun! Wel, mae hwsmon Tyn'llan yn cael pum' punt ar hugain a'i fwyd, heblaw lle i blanu tatws i'r teulu, ac ambell i faich o wellt i roi dan y mochyn. Twt! 'does dim *sense* mewn peth fel hyn. Ddaru ti sylwi hefyd mai y rhai sydd yn cyfranu leiaf at y weinidogaeth oedd yn siarad mwyaf yn erbyn rhoi cyflog rhesymol?" Byddai rhyw *touch* o ffolineb fel hyn yn dyfod at Mr. Pugh ar rai adegau, ac felly ni wnaethum un atebiad iddo.

Y pwnc pwysig nesaf y bu raid ymdrin âg ef oedd, I bwy y rhoddid y cynnygiad i ddyfod i fugeilio eglwys y Dreflan? Ond teilynga yr ymdriniaeth hon bennod ar ei phen ei hun.

---

## PENNOD VII.

### DEWIS Y BUGAIL

MEWN eglwys yr oedd ei nifer yn ddau cant a hanner, peth digon naturiol oedd fod tipyn o amrywiaeth barn a chwaeth yn dyfod i'r golwg pan aethpwyd at y gwaith o benderfynu pwy a fyddai ei bugail. Dadleuai rhai mai cael y dyn goreu oedd y pwnc mawr; nad oedd o un pwys i ba Sir y perthynai, nac o ba wlad yr oedd yn dyfod, os efe a fyddai y dyn goreu. I ddosbarth arall yr oedd yn ymddangos fod pellder yn meddu ar ryw swyngyfaredd neillduol. Yn wir, onid ydyw pawb yn teimlo dylanwad y swyn hwn i raddau mwy neu lai? Er esiampl, "Gŵr dyeithr o'r Deheudir," neu'r "Gŵr dyeithr o'r *North*," gan nad pa fath bregethwr ydyw. Yr oedd Mr. Bevan o dan ddylanwad y swyn hwn yn fawr iawn, ac wedi arfer â gweithredu wrtho. Os dygwyddai i Sabboth fod yn wag yn y Dreflan, ac i'r gŵr da fod dan yr anghenrheidrwydd o anfon i'r Athrofa—o ba le y gwyddid y gellid bob amser gael pregethwr ond anfon *stamp* ceiniog—ni byddai Mr. Bevan byth yn meddwl am wneyd cais at un o'r myfyrwyr a ddygwyddent fod yno o'i Sir ef ei hun. Na, yr oeddynt hwy yn perthyn yn rhy agos er eu bod ymhell; ond os byddai y llanc yn dyfod o Sir arall, byddai y pellder hwn yn meddu ar swyn rhyfeddol. Byddai hyn, wrth gwrs, yn fforddio llawer o ddifyrwch i'r myfyrwyr, a byddent yn chwerthin yn eu llewis wrth weled ambell un yn galw gyda hwy ar y Sad-

wrn i ofyn a oedd ganddynt rywbeth i'w ddyweyd "wrth eu hen *gyfeillion*." Ni byddai y pregethwr dewisedig ar ei golled wrth dalu yr ymweliad hwn cyn cychwyn i'w daith; oblegid byddid yn rhoddi iddo bob cyfarwyddyd am y ffordd, a pha fodd i foddio Mr. Bevan, ac i beidio digio Mr. Smart, ac yn ei roddi ar ei wyliadwriaeth i beidio ysmocio os dygwyddai iddo gael ei ofyn i yfed tê i dŷ Mr. Simon Thinskin, gan ddymuno iddo yn wastad gael myned i lettŷa at Mr. Pugh.

Ond son yr oeddwn am y swyn sydd mewn pellder ynglŷn â phregethwr.

"Distance lends enchantment to the view."

Yr oedd rhai o aelodau eglwys y Dreflan nas gellid edrych arnynt fel rhai hollol ddifarn, yn zelog am alw gŵr a ddaethai yn ddiweddar drosodd i'r wlad hon o'r America, a hyny, gellid meddwl, yn ol pobpeth a ddywedid o'i blaid, *am ei fod yn dyfod o'r America.* Gwir eu bod wedi ei glywed unwaith yn pregethu, ac yr oedd wedi pasio yn rhagorol; ac yr oeddynt yn barnu oddiwrth ei ddull *dihidio-am-neb*, a'i ymddygiad y gellid ei alw yn *gwnewch-fel-y-mynoch-â-fi*, y gwnaethai fugail campus. Pa fodd bynag, ni chafodd y cynnygiad hwn nemawr o gefnogaeth; ac felly taflwyd y Trosfôrweryddwr dros y bwrdd. Yr oedd yr hen frodyr yn arddangos awydd mawr am gael rhywun mewn tipyn o oedran; gŵr profedig a phrofiadol, a allai gadw seiat yn dda, ac ymweled â'r tlodion a'r cleifion, a'u cysurro.

Tybiai John Aelod Jones fod yr oes a'r amseroedd yn galw yn uchel am iddynt feddwl am ŵr bywiog a gweithgar gyda'r bobl ieuainc; un a fyddai wedi cael addysg athrofäol, ac yn deall Saesoneg yn dda, ac yn llenor cydnabyddedig. Ystyriai Joseph Wynne, y dechreuwr canu, mai nid y lleiaf, yn ei feddwl ef, o gymhwysderau bugail, oedd ei fod yn gerddor. Credai fod cerddoriaeth yn rhan bwysig, os nad y bwysicaf, yn ngwasanaeth y cysegr; ac o'i ran ei hun, buasai ef yn ddigon boddlawn i gymeryd i fyny hefo un na fuasai ond pregethwr canolig, ond

iddo fod yn deall y tonic sol-ffa; ac os gallai chware yr *harmonium*, goreu oll. Dywedai Mr. Smart fod y mater yn un pwysig iawn, ac y dylent gymeryd gofal rhag gwneyd camgymeriad. Yr oedd efe yn ystyried mai yr anghen mwyaf yr oeddynt hwy yn sefyll ynddo oedd cael gŵr i'w cynnrychioli yn y Dreflan—gŵr y byddai pawb yn edrych i fyny ato; ac i'r dyben hyny y dylai bugail fod yn olygus o ran ei gorff (yr oedd Mr. Smart felly), ac yn hawlio parch yr enwadau eraill, yn enwedig pobl Eglwys Loegr. Yr oedd pobl yr Eglwys, yn enwedig y boneddigion, yn dueddol i edrych i lawr ar bregethwyr Ymneillduol; ac yr oedd eisieu iddynt hwy fel eglwys y Dreflan feddwl am rywun a fyddai yn glod iddynt fel Methodistiaid, a pheidio dychymygu am hen ŵr gwladaidd ac annhaclus, nac ychwaith hogyn byr a difarf. (Yr oedd gan Mr. Smart farf laes.) Adgofiai Mr. Jeremiah Jenkins i'r eglwys ei bod wedi penderfynu ar gyflog mawr i'r bugail, er yn groes i'w feddwl ef, ac y dylent feddwl am rywun a allai ennill ei halen beth bynag.

Byddai Mr. Pugh yn ei ffwdan a'i ffolineb yn dyweyd pethau weithiau y byddai yn edifar ganddo o'u herwydd ar ol hyny; ac felly y dygwyddodd y tro hwn. Ac y mae yn rhaid i mi ofyn maddeuant y darllenydd am adrodd yr hyn a ddywedodd yn ei eiriau ef ei hun:—

"Frodyr," ebe fe, "be' sy arnoch ch'i? Mae gen' i ofn os ewch ch'i ymlaen fel hyn am dipyn bach eto y bydd raid i ch'i anfon *special order* at y Brenin Mawr iddo wneyd dyn o bwrpas i ch'i; achos mi dyffeia i ch'i gael dyn ar y ddaear yma yn meddu yr holl rinweddau yr ydach ch'i i gyd yn son am danynt. Cofiwch, da ch'i, am y cynghor synwyrol a gawsom yn y Cyfarfod Misol, beidio myn'd allan o'n Sîr ein hunain i ymofyn bigel. On'd oes gynon ni amryw o ddynion ifingc yn ein hymyl fydde'n syffisiant i ni? ac i be' yr awn ni i nôl dŵr dros afon, ac i gyrchu glo i'r Rhosllanerchrugog? Pwy ydan ni, tybed, i fod mor barticilar? Os cawn ni ddyn da, duwiol a gweithgar, a bendith y Pen Mawr arno fo, be' chwaneg ydan ni eisio? Dyna Nathan Morgan, Ffredric

Lewis, a Noah Rees; on'd wnai un o honyn nhw yn glyfar i ni? Ydach ch'i wedi consyltio Benjamin Prŷs ar hyn, a'r ddau frawd a nododd y Cyfarfod Misol i'n cynnorthwyo? Yr ydw i'n meddwl dase Benjamin Prŷs yma y base ni wedi settlo'r mater er's meityn."

Hwyrach na waeth i mi yn y fan hon hysbysu y darllenydd pwy oedd y brodyr y cyfeiriai Mr. Pugh atynt fel rhai cymhwys i ddyfod i fugeilio eglwys y Dreflan. Gŵr diddysg, yn ystyr boblogaidd y gair, ydoedd Nathan Morgan. O herwydd fod ei rieni yn dlodion, bu raid iddo ddechreu ennill ei fara pryd mewn gwirionedd y dylasai fod yn yr ysgol. Er yn fachgen yr oedd o dueddfryd crefyddol, ac yr oedd yn arfer gweddïo yn gyhoeddus cyn iddo prin ddysgu darllen yn gywir. Ymhlith ei gydweithwyr yr oedd ei gymeriad yn ddysglaer, a'i ddylanwad yn fawr. Cafodd ei gynnysgaethu â dawn i siarad tu hwnt i'w gyfoedion, a chymhellwyd ef gan yr eglwys y perthynai iddi, pan nad oedd eto ond glaslanc, i roddi gair o gynghor. Llithrodd yn bregethwr bron heb yn wybod iddo ef ei hun; ac yn fuan ar ol dechre pregethu priododd. Ni feddyliodd erioed am fyned i'r athrofa; a phe buasai wedi myned, mae yn gwestiwn a fuasai efe ar ei fantais oddiwrth hyny. Ond er hyny yr oedd rhyw eneiniad rhyfedd ar ei bregethu, a'r fath ddylanwad yn ei ddilyn a'i gwnelai yn ŵr cymeradwy ymhobman. Ni buasai waeth iddo feddwl am fod yn brifweinidog Prydain Fawr na meddwl am allu myned trwy yr Arholiad Cymdeithasfaol, ac felly nid oedd yn agored i gael ei alw yn fugail nac i'w ordeinio. Yr oedd efe yn sefyll mor uchel yn meddwl Mr. Pugh, fel pe buasai yn bosibl prynu trwydded iddo gael ei ordeinio, y buasai y gŵr da hwnw yn ddigon boddlawn i dalu deg punt am dani unrhyw ddiwrnod. Ond yr oedd hyny allan o'r cwestiwn.

Gŵr ieuanc ydoedd Ffredric Lewis o deulu gweddol barchus; a phe buasai wedi gwneyd y defnydd goreu o'r manteision a gafodd, gallasai fod yn ysgolaig gwych. Pe buasai pawb yn meddwl cymaint o hono ag yr ydoedd ei dad a'i fam, buasai yn ŵr cymeradwy dros ben. Nid

ymaflasai mewn unrhyw orchwyl neillduol erioed; a chafodd ddechre pregethu nid yn gymaint am fod ganddo dalent benodol at hyny, ond o barch i'w deulu. Bu yn yr Athrofa am bedair blynedd, a daeth adref mor anhunangar a chan onested a neb a fu yno erioed, gan adael yr holl anrhydeddau i'w olynwyr. Er nas gallodd yr Athrofa wneyd meddyliwr na phregethwr mawr o hono, gwnaeth un gwaith pwysig arno, sef ei anghymhwyso at bob gorchwyl bydol, a'i berffeithio mewn rhodres ac anwes. Yr oedd Ffredric, y pryd yr ydwyf yn son am dano, wedi gadael yr Athrofa er ys rhai blynyddau, ac wedi treulio y blynyddau hyny gan mwyaf mewn llafur caled yn darllen ffugchwedlau y rhan amlaf, oddigerth yn misoedd yr haf, pan y byddai ei iechyd yn dechreu pallu, ac y byddai raid iddo fyned i Drefriw a Llandrindod i adgyfnerthu. Ond hyd yn nôd yn y manau hyny, yr oedd yn gorfod dangos yr un diwydrwydd, er mewn ffordd arall, sef mewn ceisio ennill syniadau da yr ystlen deg, ymhlith y rhai yr oedd yn cael ei gydnabod yn ddïeithriad fel *jolly fellow*. Er nad oedd ei rieni yn gyfoethog iawn, yr oeddynt wedi gwario rhai cannoedd o bunnau ar ei addysg, a hyny yn ddirwgnach. Safai Ffredric mor uchel yn meddwl yr hen Gymraes onest, ei fam, ar gyfrif ei foneddigrwydd a'i allu i siarad Saesoneg, fel y dychrynwyd yr hen wraig yn ddirfawr pan welodd hi ef un tro yn ymaflyd mewn rhaw, ar fedr myned i balu yr ardd; a thystiai ar ol hyn na fu ond y dim iddo andwyo ei ddwylaw gwynion a melfedaidd. Mae yn rhaid addef mai anfynych y byddai Ffredric Lewis adref ar y Sabboth o ddiffyg cyhoeddiad; ac yr oedd yn ymddangos ei fod yn cael croesaw mawr lle bynag yr elai, oblegid anaml y byddai yn gallu cyrhaeddyd adref o'i gyhoeddiad hyd nos Lun, ac weithiau byddai yn fore Mawrth arno yn dychwelyd.

Ar ol blwyddyn o barotoi ac o ymdrech diflino, aeth trwy yr Arholiad Cymdeithasfäol fel y dyn trymaf yn y trydydd dosbarth, yn ol yr egwyddor fod y peth trymaf bob amser yn myned i'r gwaelod. Ond y mae y ffaith

nad oedd ganddo ddim arall i'w wneyd, nac i gymeryd i fyny ei amser ond parotoi, yn rhoddi cyfrif, o bosibl, am ei sefyllfa yn yr arholiad; a bu yn ddigon hunanymwadol ag ysgrifenu dau lythyr i'r newyddiadur dan ffugenw, ychydig wythnosau cyn yr arholiad, i oleuo tipyn ar yr arholwyr am y ffolineb o ddosbarthu yr ymgeiswyr Er nad oedd Ffredric Lewis yn gerddor, yr oedd ganddo dôn soniarus a hyfryd wrth bregethu, yr hyn a'i gwnelai yn gymeradwy iawn ymhlith dosbarth llïosog o'i wrandäwyr I'r diniwed a'r hawddgar Mr. Pugh, ymddangosai Ffredric fel un oedd yn cael cam dirfawr gan yr eglwysi, am nad oedd un o honynt yn ei alw i fod yn fugail, âg yntau wedi cymeryd cynifer o flynyddau i barotoi at hyny.

Dichon fod y darllenydd yn cofio i mi gyfeirio at Noah Rees mewn hanes blaenorol fel un oedd yn cael y gair fod ganddo lawer o lyfrau, a'r hwn oedd yn benderfynol na chymerai ei wneyd yn flaenor. Trwy lawer o anhawsderau, ac ymroddiad digyffelyb bron, yr oedd Noah wedi dyfod yn ei flaen yn rhyfeddol. Pan gafodd drwydded i fyned i'r Athrofa, teimlai mor hapus â phe buasai wedi cael ystâd, ac ni bu myfyriwr erioed yn y sefydliad gwerthfawr hwnw a wnaeth well defnydd o'i gyfleusderau. Ar gychwyniad ei yrfa athrofaol, nid oedd ei ragolygon yn ddysglaer gyda golwg ar y modd y gallai gadw ei hun âg ymborth ac â llyfrau; ond edrychai yn hyderus i'r dyfodol, gan ymddiried ei hun i ofal Rhagluniaeth, a'r penderfyniad cadarn yr oedd wedi ei ffurfio ynddo ei hun. Er nad oedd yn cael ei alw i bregethu i'w Sîr ei hun tra y bu yn yr Athrofa, yr oedd pobl y teithiau cylchynol iddi, ac amryw o rai lled bellenig, yn gwerthfawrogi ei wasanaeth; ac edrychid arno ganddynt hwy yn bregethwr synwyrol a meddylgar, ac fel un a fyddai yn sicr o wneyd ei farc ryw ddiwrnod. O herwydd ei fod yn cael ei alw i bregethu yn lled gyson, ac hefyd iddo lwyddo i ennill gwobr bob blwyddyn y bu yn yr ysgol, gallodd fyw yn lled gysurus, er yn fain, heb dderbyn dim help gan ei rieni, oddigerth dwy *suit* o ddillad. Pan ddaeth Noah

adref wedi gorphen ei addysg athrofaol, ni synai wrando ar ei rieni yn ei annog i gymeryd gorphwysdra; ond ymaflodd yn y gaib a'r rhaw i gynnorthwyo ei dad i drin y tyddyn bychan, ar gynnyrch yr hwn yr oedd y teulu yn ymddibynu am eu cynnaliaeth, gan ddefnyddio ei holl oriau hamddenol i ddarllen a myfyrio; ac yr oedd ei fam erbyn hyn wedi peidio grwgnach ei fod yn dyfetha cymaint o ganwyllau. Ni choleddid syniadau uchel am alluoedd Noah Rees ar gychwyniad ei fywyd cyhoeddus gan ei gymydogion, na chan Gyfarfod Misol ei Sîr; ond ar ol gweled ei lwyddiant mawr yn yr Athrofa, a'i gynnydd amlwg fel pregethwr, cymerodd chwyldroad trwyadl le; a dywedai hyd yn nôd y rhai a arferent ysgwyd eu penau a thosturio o herwydd y camgymeriad yr oedd wedi ei wneyd wrth ddechreu pregethu, "eu bod hwy bob amser wedi dyweyd fod rhywbeth ynddo fo." Cymhellwyd Noah yn fuan gan rai o brif weinidogion y Cyfarfod Misol i sefyll yr Arholiad Cymdeithasfaol; a daeth trwy y prawf yn lled agos i'r brigyn.

Mewn atebiad i Mr. Pugh, dywedai Mr. Bevan ei fod ef yn gobeithio y gwyddent hwy fel swyddogion beth ydoedd eu dyledswydd heb gael eu hadgofio o hyny gan neb pwy bynag; ond gan fod Mr. Pugh wedi gofyn y cwestiwn, yr oedd yn dymuno ei hysbysu ef a phawb eu bod wedi ymgynghori â'r tri wŷr, B. Prŷs a'r ddau ŵr parchedig a nodwyd gan y Cyfarfod Misol i'w cynnorthwyo. Yr oedd efe yn dymuno i'r eglwys gael chware teg i ddyweyd ei meddwl yn gyntaf cyn iddo eu hysbysu beth ydoedd awgrymiad y tri brawd a enwyd. Ond fel yr oedd y peth yn dygwydd bod, yr oedd Mr. Pugh wedi enwi y gŵr yr annogai y cyfeillion hyny ar iddynt ei alw yn fugail, sef Noah Rees. Yr oedd yn awr yn gadael y peth i farn yr eglwys.

Ar ol eglurhâd Mr. Bevan, ni ddywedwyd llawer ag oedd yn "tueddbenu at lesoli'r dynol deulu;" a chan na chynnygiwyd neb arall, pan roddwyd Noah Rees i bleidlais, cafodd fwyafrif mawr o'i ochr. Yr oedd Mr. Pugh ar uchelfanau'r maes; ac wrth fyned adref, dywedai

wrthyf, "Wyddost ti be'. Dase yr eglwys wedi ymddiried y gwaith o ddewis bigel iddi i mi fy hun, faswn i ddim yn gallu plesio fy hun yn well."

---

## PENNOD VIII.

### BECCA PRYS.

YR wyf wedi cael achlysur fwy nag unwaith yn yr hanes hwn i gyfeirio at Benjamin Prŷs, yr hwn y mae y darllenydd yn cofio oedd wedi ei gaethiwo i'w dŷ gan afiechyd a henaint, ac a welwyd allan y tro olaf yn nghladdedigaeth Mr. Williams, y diweddar weinidog yn y Dreflan, a'r hwn hefyd a dynodd y fath sylw ar yr amgylchiad o herwydd ei dristwch dwfn a dystaw. Darfu i'r ymdrech egnïol a wnaeth i fyned i dalu y gymwynas olaf i'w hen gyfaill wneyd niwed mawr iddo, a pharodd iddo gael ei gaethiwo i'w wely am rai wythnosau; ond trwy fendith ar ymdrechion diflino Dr. Ellis, a gofal neillduol ei wraig, adferwyd ef i'w hen farc i allu dyfod i lawr i'r gegin.

Efe, fel y dywedwyd o'r blaen, ydoedd y blaenor hynaf, ac yn wir y galluocaf hefyd, yn eglwys "yr Hen Gapel." Yr oedd yn hawdd canfod oddiwrth adfeilion ei ddyn oddiallan y buasai efe unwaith yn ŵr cadarn a nerthol; ac yr oedd yr un mor amlwg oddiwrth ffurfiad ei wyneb fod ganddo feddwl cryf a bywiog. Buasai un sydd yn credu mewn gwynebiaeth yn casglu oddiwrth doriad neillduol ei safn, a'r mân rychau a welid yn ei chonglau, y gallasai ddyweyd geiriau fel brath cleddyf oni buasai fod gras wedi cyfranu rhyw naws dyner a nefolaidd i'w lygaid duon a threiddgar. Hyd yn nôd pe na buaswn yn adnabod Benjamin Prŷs, buaswn yn meddwl wrth edrych ar ei drwyn mawr a Rhufeinig nad oedd dim yn

rhagfarnllyd nac yn *shabby* o gwmpas ei berchenog; ac yr oedd ei holl fywyd yn gwirio y casgliad. Yn ei ieuenctyd rhedasai Benjamin Prŷs i bob rhysedd a drygioni, ac efe ydoedd arweinydd ei gymdeithion ymhob camp a chware. Fel hyn yr oedd efe mewn un ystyr yn flaenor, er nad yn ddiacon, cyn iddo erioed ddyfod at grefydd. Ymha gylch bynag y troai, yr oedd natur wedi ei dori allan i chware y *first fiddle*. Os yn y dafarn y byddai, nid oedd neb a allai adrodd ystori yn gyffelyb iddo, na chystadlu gydag ef i ganu gyda'r tânau; ac yn fuan wedi iddo ddyfod at grefydd, neu yn hytrach i grefydd ddyfod ato ef, yr oedd rhyw ymwybyddiaeth yn mhawb o'i gwmpas o'i ragoriaeth, a barai iddynt gilio yn ol a'i osod ef ar y blaen. Na ddychryned y darllenydd pan ddywedaf mai mantais mewn un ystyr ydyw ddarfod i ddyn fod yn annuwiol iawn ar un tymmor o'i fywyd os caiff ar ol hyny grefydd wirioneddol. Onid ydyw y rhan fwyaf o'r anghysur a'r ammheuon sydd yn blino dosbarth llïosog o grefyddwyr, yn cyfodi nid yn gymaint oddiar ddiffyg crefydd, ond i raddau mawr oddiar wastadrwydd eu bywyd, a'r anallu sydd ynddynt i gyfeirio yn ôl at gyfnod y gwyddent eu bod yn annuwiol ac y cawsant gyfnewidiad trwyadl a hollol yn eu cyflyrau a'u profiad? Anfynych y cyfarfyddir âg un fydd wedi ei ddwyn i fyny o'i ieuenctyd yn nghanol pethau crefydd nad ydyw yn teimlo anfantais am nad all gyfeirio at ddydd neu awr y cymerodd y cyfnewidiad mawr le, ac nad ydyw ar brydiau yn ammheu yn fawr a ydyw yr anian newydd ynddo o gwbl. Nid oes gan y dosbarth hwn o grefyddwyr y "cynt" ac "yn awr" i'w cyferbynu. Ac fel y mae manteision crefyddol yn cynnyddu, onid ydyw y dosbarth hwn yn llïosogi, a sicrwydd gobaith a phrofiad uchel yn myned lailai? Nid ydwyf yn sicrhâu hyn, ond yn ei gynnyg fel awgrymiad i feddwl am dano.

Ond nid felly yr oedd gyda Benjamin Prŷs. Yr oedd y fath wahaniaeth rhwng y ddau gyfnod yn ei hanes ef ag sydd rhwng tywyllwch a goleuni, rhwng uffern a

nefoedd, rhwng diafol a Duw. Anaml y byddai Mr. Pugh yn cael cystal gwledd ag wrth glywed Benjamin Prŷs yn adrodd hanes bore ei oes, a'r tro mawr a gafodd o dan weinidogaeth John Elias; ac nid unwaith na dengwaith y dywedodd wrthyf ar ol bod yn gwrando yr adroddiadau hyn,—

"Wyddost ti be'? Dyna'r pryd mwya' blasus fydda' i yn ei gael, ydi clywed yr hen Fenja yn myn'd dros dipyn o'i hanes, er na bydda' i byth yn ei glywed o heb fyn'd i feddwl nad oes gen' i fy hun yr un grefydd. Mi gafodd y dyn yna, wel di, dro mor rhyfedd â Saul o Tarsus bron. Ac mi fydda' i'n meddwl hefo rhyw hen *giants* fel Saul a Benjamin yna y bydd hyd yn nôd y Brenin Mawr yn gorfod dyfod allan hefo'i *artillery*. A! hen *eighty-pounder* iawn oedd yr hen 'Lias! Yn wir, mi fydda' i'n clywed y pregethwrs yma i gyd yn llefaru yn glên shoe; ond waeth tewi; 'does un o honyn' nhw yn ffit i ddal canwyll i'r hen 'Lias. Yr oedd o bob amser yn gwneyd i 'ngwallt i sefyll yn syth bin! Gofyn di i Benjamin; y fo ddeudith 'i hanes o i ti."

Er nad oedd Benjamin Prŷs y cawr y tybiai Mr. Pugh ei fod, yr oedd er hyny yn ŵr rhyfedd, ac wedi profi pethau mawr ynglŷn â chrefydd. Pan argyhoeddwyd ef, gwnaeth bob ymdrech i ysgwyd ymaith yr argraffiadau, a gwingai fel llew mewn magl, ac nis arbedodd unrhyw foddion i adfeddiannu y penrhyddid a fwynhâi o'r blaen; ond bu ei holl ymdrechion yn ofer. Ymgynnygiodd o'r diwedd yn aelod eglwysig, cafodd bob croesaw, a hyny yn benaf oddiar ei ofn, ac nid oddiar argyhoeddiad ei fod wedi cael tro. Yr oedd ar y swyddogion arswyd dyweyd gair garw wrtho rhag y buasent yn cael curfa ganddo; ond nid oedd, erbyn hyn, fawr berygl o hyny, canys yr oedd efe weithian mor ddiniwed â'r golomen. Yr oedd ei dymherau cryfion ac afrywiog, y rhai a arferent ddangos eu hunain mewn ffurf y gellid ei alw yn gynddeiriogrwydd, erbyn hyn wedi eu toddi i lawr i fwyneidd-dra dwfn ac eang; a mynych yn ei hen ddyddiau, wrth edrych yn ôl at y cyfnod hwn ar ei oes, y rhyfeddai

gyda diolchgarwch at y cyfnewidiad, neu fel y galwai ef y peth, y greadigaeth newydd yn ei enaid; a thystiai pe buasai pawb yn colli ffydd yn yr efengyl, a'r holl fyd yn troi yn anffyddwyr, nad allasai dim syflyd ei grediniaeth ef yn anfeidrol allu gras y nefoedd. Gan ei fod yn ŵr o synwyr cryf, ni byddai byth yn gwneyd arddangosiad cyhoeddus o'i deimladau crefyddol; ond yn y dirgel, mewn unigrwydd, byddai y rhai hyn yn orthrechol; ac yr oedd presennoldeb Duw a byd yr ysbrydoedd yn pwyso mor drwm arno ar adegau fel yr ofnai gyfodi oddiar ei liniau rhag taro ei ben yn y nenfwd sydd yn gwahanu y byd presennol â'r byd tragywyddol. Ar brydiau eraill, byddai yn suddo i lawr, i lawr, i ddyfnderau iselder ysbryd, nes y tybiai y buasai y diafl mwyaf hyf yn arswydo ei ddilyn! Drachefn deuai goleuni ar ei gyflwr a barai iddo ddianc yn lladradaidd i'r mynyddoedd allan o olwg a chlywedigaeth pawb, lle y gallai arllwys ei deimladau mewn diolchgarwch a moliant. Aeth trwy yr holl orchwyliaethau hyn yn anwybyddus i bawb ond i'r Hwn sydd yn gwybod pobpeth, hyd nes y torwyd ato gan Mr. Williams y gweinidog, i'r hwn yr agorodd ei fynwes heb attal. Cafodd y fath gyfarwyddiadau a'r fath gynnorthwy gan y gŵr hwnw a barodd iddo ymglymu wrtho am ei oes. O ran cynneddfau naturiol nid oedd islaw i Mr. Williams; ac nid oedd yn ddiffygiol o annibyniaeth meddwl a barn; ond er hyny anfynych yr ymgymerai âg unrhyw beth o bwys heb ymgynghori âg ef.

Naturiol gan hyny oedd i Benjamin Prŷs, pan ddaeth i gredu fod yn hen bryd iddo feddwl am briodi, fyned at Mr. Williams i ofyn ei gynghor. Yr oedd wedi esgeuluso cymaint ar ei ddyledswydd tuag at y rhyw dêg, ac wedi gadael i'r amser fyned heibio mor bell, nes yr ydoedd wedi ennill iddo ei hun er ys rhai blynyddau bellach y teitl anrhydeddus, neu ynte dianrhydeddus, o "hen lanc." Ac fel aelodau yr urdd hono yn gyffredin, pan aeth efe i feddwl o ddifrif am wraig, ni fedrai yn ei fyw osod ei galon ar neb ond un oedd flynyddau lawer yn ieuengach nag ef, ac mewn llawer ystyr yn hollol

anghyfaddas iddo. Pan hysbysodd i Mr. Williams ar bwy yr oedd ei serch wedi gorphwys, cafodd y gŵr parchedig drafferth fawr i beidio chwerthin; ond yr oedd ganddo y fath barch i Benjamin Prŷs, a'r fath feddwl o'i farn, fel na chymerasai y byd â briwo ei deimladau gyda phwnc mor bwysig. Lodes ieuanc wridgoch, yn tueddu braidd at fod yn dew, yn gweini gyda theulu cyfagos, ac o'r enw Rebecca Jones, ond a elwid yn Becca, ydoedd yr hon oedd wedi ennill ei serch. Deallodd Mr. Williams yn fuan fod y "mater" agos a bod wedi ei benderfynu rhyngddynt cyn dyfod o hono i ofyn ei gynghor ef, ac mai ofer a fuasai iddo ei annog i feddwl am neb arall. Er nad allai Mr. Williams beidio meddwl fod Benjamin wedi gwneyd camgymeriad yn ei ddewisiad, yr oedd yn gorfod cydnabod fod yr eneth, os nad yn brydferth, yn un olygus a chynhesol o bryd, a mwy na'r cwbl, yn un grefyddol.

I dori yr hanes yn fyr, trôdd hi allan yn un o'r gwragedd goreu yn y byd o ran glanweithdra, gweithgarwch, a serch tuag at ei gŵr. A da i Benjamin Prŷs oedd hyny; oblegid cyn iddo ef eto fyned yn hen, analluogwyd ef yn hollol o herwydd afiechyd i ennill bywioliaeth; a bu raid i Becca Prŷs droi i gadw tŷ pobtŷ i'w gynnal ef a hithau. Nid oedd neb yn gwybod sut y galluogwyd y ddau "i godi'r gwynt" i gael y tŷ pobtŷ; ond gwyddid fod Mr. Pugh a Benjamin yn gyfeillion mawr; ac yr oedd y rhai ag oeddynt yn adnabod y gŵr rhagorol hwnw yn meddwl y gallent ddyfalu o ba le yr oedd yr arian anghenrheidiol wedi dyfod.

Tua yr adeg yr wyf yn ysgrifenu yn ei gylch, gallesid cerdded dwy Sîr heb gyfarfod gŵr a gwraig mor annhebyg, ac ar yr un pryd mor hoff o'u gilydd, ag ydoedd Benjamin a Becca Prŷs. Yr oedd Benjamin Prŷs yn hen, yn deneu, yn boenus a methiantus, ac eto yn siriol, yn ddiolchgar, a dyoddefgar. Yr oedd Becca yn anterth ei hiechyd, ac mor dew fel lle dylasai fod esgyrn pigfain i'w canfod yn ei phenelinoedd, nad oedd ond tyllau dyfnion, a'i dillad yn ffitio mor dŷn am dani fel nad oedd yn bosibl dychymygu sut yr oedd yn gallu

gwisgo a dadwisgo, ac yn peri i un ofni yn barhâus gweled botymau ei gŵn glanwaith yn neidio i ffwrdd bob mynyd. Ond er mor dda yr oedd Becca Prŷs yn edrych, yr oedd hi bob amser yn cwyno ac yn tybied ei hunan yn salach ei byd na neb, ac yn ferthyres i bob anhwyldeb ac afiechyd. Yr oedd Benjamin Prŷs bob amser yn rhoi gair da i'w wraig, er na byddai efe byth yn ei chanmawl uwchlaw ei haeddiant. Yr oedd Becca, hithau, yn wastad yn rhedeg ei gŵr i lawr, ac ar yr un pryd yn meddwl mai efe oedd y dyn goreu yn y byd. Prif ddifyrwch Benjamin oedd darllen a myfyrio, a gwneyd ambell i ddernyn o farddoniaeth. Prif ddifyrwch Becca oedd gwneyd ei hunan yn druenus, a dyfeisio ambell i brofedigaeth. Yr oedd bywyd mewn gwirionedd yn faich i Benjamin Prŷs, ond ni chlywai neb ef byth yn grwgnach. Yr oedd Becca Prŷs yn trin y pobtŷ, ac yn myned trwy ei holl lafur caled wrth fodd ei chalon; eithr gallesid meddwl wrth ei siarad ei bod dan rhyw dynghedfen ofnadwy.

"Ac mi ddaethoch o'r diwedd, do?" ebe Becca wrth Mr. Pugh a minnau pan aethom un noswaith i edrych am y pâr anghymharus. "Yr oeddwn i'n meddwl y'ch bod ch'i wedi'n anghofio ni'n lân; a fydde fo ddim yn rhyfedd dae pawb yn fy anghofio *i*; i edrych am hwnyma yr ydach wedi dwad heno 'rwy'n siŵr, ac nid i edrach am dana *i*," gan roddi pwyslais mawr ar y rhagenw. Gyda llaw, "hwnyma" y galwai Becca Prŷs ei gŵr pan fyddai hi gartref, a "hwnacw" pan fyddai oddicartref.

"Ydach chi'n dechreu tantro mewn mynyd, Becca Prŷs?" gofynai Mr. Pugh; "chware teg i ddyn gael ei wynt. Yr ydan ni'n y'ch gweled ch'i yn ddigon aml; ond chae ni byth wel'd Benjamin dae ni ddim yn dwad yma. Yr ydach chi'n iach, ac yn gallu dwad i'r moddion; ac y mae Benjamin yn wael ac yn y gornel; a pheth arall, 'un cnawd, un cnawd,' Becca bach. Wrth ddwad i edrach am Benjamin yr ydan ni yn dwad i edrach am danoch chithe hefyd."

"'Y fi yn iach, Mr. Pugh? Os ydw i'n edrach yn symol, ac ddim yn cwyno, yr ydw i'n dyodde' mwy nag a ddylie neb. 'Does neb yn gwybod be' ydw *i* yn i ddyodde'. 'Does gen' i ddim amser i gwyno, Mr. Pugh, achos yr ydw i wrthi, wrthi, o fore gwŷn tan nos yn tendio'ar hwnyma ac yn ceisio ennill tipyn o fywioliaeth, a'r cwbl heb ddiolch. O ran hyny, yr ydw ine yn ddigon parod i fyn'd i'r gornel pan fynoch ch'i, ond y mod i yn 'cau ildio."

"Ydyw, mae Becca, Mr. Pugh, yn cael llawer iawn o drafferth hefo fi," ebe ei phriod; "ac wn i ddim beth fuasai wedi dyfod o honof oni buasai am dani hi; ond fe fydd y drafferth i gyd drosodd yn bur fuan."

"Be fase'n dwad o honoch ch'i, oeddech chi'n ddeyd, Benjamin? Wel, wedi llwgu y basech es talwm; dyne fel base hi. On'd oedd Dr. Ellis ei hun yn deyd ar ei wir mai wedi marw y base fo oni bae mod i yn rhedeg ac yn rasio i dendio arno fo o hyd, o hyd."

"Wel, Becca bach," ebe Mr. Pugh; "mae yntau yn gweddio llawer drostoch chithe, ac mi gewch fyn'd i'r nefoedd yn 'i gysgod o yn y diwedd."

"Os ca' i fyn'd i'r nefoedd, Mr. Pugh, yn 'i gysgod o y ca' i fyn'd, achos dydw *i*'n cael dim hamdden i feddwl am f'ened nag i ddarllen 'y Mibl; ond am hwnyma y mae y Bibl ar ei lin o fore tan nos; ac os aiff darllen y Bibl â rhwfun i'r nefoedd, mi aiff â hwnyma."

"Rhaid i Becca a finnau, Mr. Pugh, gael gwell cysgod na nghysgod i i fyn'd i'r nefoedd; ac yr wyf yn gwan obeithio ei bod hi a finnau o dan y cysgod hwnw er ys llawer blwyddyn bellach. Yr wyf yn teimlo fod y nos yn fy nal yn ffast, Mr. Pugh; ond y mae genyf hyder fod genyf le i droi i orphwyso. Ac mi fyddaf weithiau yn teimlo awydd mawr am gael myn'd. Yr oeddwn yn meddwl neithiwyr fod y byd tragywyddol ar fy sugno iddo ei hun. Yr oeddwn yn meddwl mai ias y cyfnewidiad mawr a barodd i mi lesmeirio, ac y buaswn yn deffro yr ochr draw. Ond yma yr ydwyf eto am ryw hyd. Bydd yn dda genyf feddwl y caf

weled Becca mewn gwlad na bydd eisieu tendio arnaf."

"Ië, dyna ch'i eto yn son am farw," ebe Becca Prŷs. "Dyne ydi'r 'stori yma o hyd, Mr. Pugh; marw, a dydd y farn, a thragywyddoldeb, a'r nefoedd, o fore tan nos. Mae hyny'n burion mewn pregeth ne' mewn claddedigaeth, ond mae eisio meddwl am fyw, a chael rhwbeth i fyw, ac nid son am farw o hyd. Be' bydawn i felly? Be' ddoe o'r pobtŷ? Pwy dale am y blawd a'r tanwydd, a'r rhent, ynte, Mr. Pugh?"

"Pawb at y peth a fo, Becca," ebe Mr. Pugh. "Y pobtŷ sydd yrwan yn pwyso fwya' ar y'ch meddwl ch'i, Becca, a phethe' byd tragywyddol ar feddwl Benjamin."

"Nid felly chwaith, Mr. Pugh," ebe Becca Prŷs; "ydach ch'i ddim yn meddwl 'y mod fel pagan, byth yn meddwl am f'ened? Na, yr ydw i'n meddwl mwy nag y ddylie neb pan ga' i fynyd o amser; ond fydda' i ddim yn son am hyny o hyd o hyd fel hwnyma. Dyna neithiwr diwaetha yn y byd; mi feddylies i fwy na mwy am y byd arall pan oedd Benjamin yn ffeintio, er, pan ddaeth o ato'i hun a dechre d'eyd rhw bennillion oedd o wedi 'neyd, i mi slipio i gysgu. A d'eyd y gwir, 'doeddwn i ddim yn 'i dâllt nhw. A be sy eisio g'neyd pennillion? on'd dydi'r hen Williams wedi g'neyd digon, mwy nag a ddysgwn ni byth?"

"Wel, wel," ebe Mr. Pugh, "mi wela nad ydach ch'i ddim eisio cael madel hefo Benjamin, er yr holl drafferth ydach chi'n gael hefo fo, Becca; ydach ch'i?"

"'Madel hefo fo, Mr. Pugh; ddeydes i 'rioed mo hyny eto," ebe Becca; a thorodd allan i wylo yn hidl; ond ar hyn daeth rhywun at y drws i geisio torth, a sychodd y wraig dda ei llygaid.

Yr oedd Benjamin Prŷs yn rhy wael i ni allu cael llawer o hono y noson hono; ond nid oedd Mr. Pugh yn foddlawn i fyned adref heb iddo adrodd wrthym y pennillion yr oedd wedi eu hadrodd wrth Becca y noson gynt pan y "slipiodd i gysgu." Ar ol llawer o grefu, adroddodd hwynt i ni; a thystiai Mr. Pugh na chlywodd

erioed ddim byd yn "clymu mor glên." Dyna oedd syniad Mr. Pugh am farddoniaeth mai rhywbeth yn "clymu" ydoedd. Er, ysgatfydd, nad oedd llawer o deilyngdod barddonol yn y pennillion, yr ydwyf yn eu dodi i lawr yma fel yr adroddwyd hwynt gan Benjamin Prŷs:—

Y DWYFOL GLWY'.

Mae 'r Dwyfol glwy' yn fwy ei faint
Nag uchaf dôn a son y saint;
O'u dewis ddawn nid oes a ddwêd,
A hudol lais ei hŷd na 'i led!

Tra sêr a haul, trysorau hwn
A ant bob dydd ar gynnydd, gwn;
Yn hen nis daw yn hanes dyn,
Ond deil o hyd fel Duw ei hun.

Y gawod fawr i gyd a fu
Yn disgyn ar y coryn cu;
Ond hindda ddaeth o hon i ddyn;
Fe wenai haul o Wynfa 'i hun.

Pwy brisia 'r Aberth—gwerth y gwaed,
Yr unig Wr—yr iawn a gaed,
Yr ing a droes yn angeu drud?
Mae 'n wyrth i bawb—mae 'n werth y byd.

Mi welaf fan, im' waelaf ŵr,
Rhag tònau dig, rhag tân a dŵr,
A modd i faddeu 'meïau mwy,
Ei mwyn ei glais a rhin ei glwy'.

Oes yna fyd a synai fwy,
Pe clywai glod y Dwyfol glwy',
Na 'n daear ni? Ond diau 'r nef
Ofala am ei foli ef.

Yr oedd Becca Prŷs wedi dyfod ati ei hun yn lled dda ar ol gwerthu y dorth; ac wrth ffarwelio â hi wrth y drws, gwelais Mr. Pugh yn rhoi ei law yn ddirgelaidd yn ei logell, ac yn rhoddi rhywbeth yn ei dwrn, a chlywais hithau yn dyweyd yn ddystaw, "Yn wir, Mr. Pugh, yr ydach chi'n rhy dda wrthon ni."

## PENNOD IX.

### LLAIS YR YSBRYD.

UN bore, yn blygeiniol iawn, yr oedd prysurdeb mwy nag arferol i'w ganfod yn y Tyddyn Bach, cartref dedwydd Noah Rees, ymha le y treuliasai ei holl fywyd, oddigerth yr adeg y bu yn yr Athrofa. Er mai tlodaidd ac anenwog oedd yr annedd o ran ymddangosiad, meddai swyn digyffelyb bron iddo ef. Pan yr oedd efe yn dwys ystyried y cwestiwn pa un a dderbyniai efe yr alwad i fugeilio eglwys y Dreflan ai peidio, nid y lleiaf o'r dylanwadau oedd yn peri iddo betruso ydoedd ei hoffder angerddol at ei gartref a'i deulu. Mil a mwy oedd ei adgofion o fore oes, y rhai oeddynt oll wedi eu cymhlethu â gwahanol wrthddrychau ei gartref, megys ei dad a'i fam, yr anifeiliaid, yr adeiladau, y caeau, &c. A phan ddaeth i feddwl o ddifrif am dori y cysylltiad â hwynt, teimlai ei fod wedi ei rybedu wrthynt bron yn annattodol. Yr oedd pob meddwl am ymadael a'i gartref yn actio fel udgorn adgyfodiad i ryw adgof a delwedd ddymunol y tybiasai eu bod wedi suddo i anghof er ys llawer dydd. Ond er y diwrnod cyntaf y derbyniodd oddiwrth Mr. Bevan y llythyr oedd yn cynnwys y cais crybwylledig, yr oedd yn ymwybodol fod rhyw ysbryd yn ei ddilyn yn barhâus, ac yn sibrwd wrtho, "Dos." Os byddai ar adegau yn tueddu i anfon ateb nacaol, byddai yn clywed yr ysbryd yn dyweyd mewn llais cryfach, "Dos." Dichon mai ei ddychymyg ef ei hun oedd hyn i gyd; ond pa fodd bynag, ufuddhâu a wnaeth Noah i lais yr ysbryd; ac yr oedd y diwrnod wedi dyfod ar ba un yr oedd i adael y Tyddyn Bach, a hwylio tua'r Dreflan i ddechreu ar ei waith fel bugail.

I'r darllenydd, gall yr amgylchiad hwn ymddangos yn rhy ddibwys i'w groniclo; ond nid felly yr ymddangosai i breswylwyr y Tyddyn Bach; a diammheu genyf i lawer un gychwyn i'r America heb i'w teuluoedd edrych ar yr

amgylchiad mor bwysig o lawer ag yr edrychai teulu Noah Rees ar ei ymadawiad ef i ben arall ei Sîr. I Cadwaladr Rees yr oedd pobpeth yn bwysig ag a fyddai yn dwyn cysylltiad â'i fab. Er nad ellid ar un cyfrif ystyried yr hen ŵr yn ddyn dwl, yr oedd Cadwaladr yn un hynod o syml a diniwed, ac o dymher hapus a boddlawn. Nid oedd neb a allai chwerthin mor galonog, na neb y gellid yn gynt dynu deigryn o'i lygad. Pan fyddai yn ei dymher fwyaf afrywiog, y gair garwaf a glywid o'i enau a fyddai, "Diaist â mi." Yr oedd cryn gyfatebiaeth, gellid meddwl, rhwng ffurfiad ei gorff a'i feddwl. *Crynder*, fel yr oedd yn ymddangos, ydoedd y safon oddiwrth ba un yr oedd y naill a'r llall wedi ei gweithio allan. Yr oedd ei gorff yn y cyfanswm o hono yn grynaidd, ac felly hefyd yn ei ranau : pen crwn, gwyneb crwn, safn fechan gron, ysgwyddau crynion. Mewn gair, anaml y gellid gweled dyn â chan lleied o gonglau ynddo, ac un ag oedd yn llenwi ei ddillad bob modfedd mor gryno, fel y lleinw yr afal ei groen. Felly yr oedd ei feddwl: yn fychan, ond yn grwn, heb un gongl gnyciog ynddo lle y llechai rhagfarn neu ddrwgdeimlad. Meddyliai yr hen ŵr y byd o Noah; ac yr oedd rhai o'i gymydogion dichellddrwg yn gwybod hyny yn dda; oblegid os byddai arnynt eisieu benthyca arian gan Cadwaladr Rees, byddent yn gyffredin yn rhagymadroddi i'r cais drwy ganmawl Noah, a byddai y cynllun bob amser yn llwyddo.

Er nad oedd yr hen frawd yn bwriadu, na'i amgylchiadau yn caniatâu y diwrnod hwnw, iddo fyned i hebrwng ei fab ddim pellach na'r llidiart, yr oedd efe er hyny wedi codi yn fore, a rhoi ei ddillad goreu am dano, fel pe buasai ar fedr myned i gyfarfod pregethu. Cerddai yn frysiog o'r naill ystafell i'r llall, safai yn aml, a throai yn sydyn ar ei sawdl, megys pe buasai wedi cofio am rywbeth, ac yna dychwelai eilwaith yn waglaw. Gallesid meddwl ar yr olwg arno ei fod wedi gwneyd wmbreth o waith ynglŷn â'r parotoadau i ymadawiad ei fab, oblegid yr oedd y chwys yn ddafnau mawr *crynion* ar ei ben moel. Ond y ffaith oedd mai yr unig gynnorthwy a wnaeth

oedd dyfod o hyd i ddernyn o gortyn i rwymo y gist tê a gawsid gan Mr. Jones y *shop*, yn yr hon y paciai Noah ei lyfrau, a chogrdroi o gwmpas ei fab, a dyweyd lawer gwaith fod ganddo werth llawer o arian o lyfrau, a'i fod yn methu yn glir a gweled pa bryd y cai ef byth amser i'w darllen.

Hen wreigan ddigon synwyrol oedd Marged Rees, mam Noah, ond fod ynddi hithau y diffyg a welir yn rhy gyffredin mewn mamau na feddant ond un mab, sef meddwl gormod o hono. Yn ei chalon, yr oedd hi yn casâu y fugeiliaeth am yr unig reswm ei bod yn ei difeddiannu o'i mab. Er na ddywedasai ddim yn erbyn i Noah fyned i'r Dreflan, mynych y gofynodd iddi hi ei hun, Paham nad ellid cario yr achos ymlaen yr un fath ag er ystalm? Y dyddiau goreu a welodd hi ar grefydd oeddynt pan fyddai pregethwr yn cychwyn i'w gyhoeddiad ar gefn merlen ar nos Sadwrn neu fore Sul, ac yn dychwel at ei deulu yn gynnar fore Llun, oddigerth pan fyddai yn myned ar daith am wythnos. Ond yrwan dyma ddynion ieuainc yn cael eu sefydlu yn nghanol "'stroniaid," i gael eu trin a'u trosi fel y gwelai yr eglwysi yn dda. Nid oedd hi, nac oedd ddim, yn credu mewn peth felly. Yr oedd digon o le, yn ei meddwl hi, i ddyn wneyd daioni yn ei gartref; ac os oedd ar bobl eisieu pregethwr at eu galwad ganol yr wythnos, paham na chodent bregethwyr o'u plith eu hunain? Ond yr oedd Marged yn gorfod cydnabod fod Noah yn deall ei Fibl yn well na hi; ac felly ni ddywedai hi ddim yn erbyn iddo fyned i'r Dreflan os hyny oedd oreu yn ei feddwl ef.

Os nad ymhellach nag i'r pen arall i'r Sîr yr oedd Noah yn myned, eto yr oedd ei ymadawiad mor brofedigaethus i'w fam â phe buasai efe yn myned i ben arall y byd; ac er ei bod hi yn ceisio cadw gwyneb llawen yn ngwydd ei mab, toddai ei chalon yn llymaid o'i mewn; a pha ryfedd os gwnaeth esgus lawer gwaith i ailagor y *box* oedd yn cynnwys ei ddillad, a'i chwalu i'w waelod, er mwyn cael rhoi ei phen i mewn ynddo i wylo tipyn lle nad allai

Noah ei gweled, serch mor ofalus oedd hi rhag i'w ddillad fod yn *damp?* Yr oedd yr hen fam dda wedi parotoi boreufwyd rhagorol; ond, rhyfedd! nid allai un o honynt prin gyffwrdd âg ef. Yr oedd hyd yn nôd Cadwaladr Rees, yr hwn a arferai ymffrostio fod ei ystymog mor iach fel y gallai fwyta "pene'r pryfed," heddyw wedi colli ei archwaeth yn lân, ac yn protestio mai wedi codi yn rhy fore yr oedd. Priodolai y fam a'r mab eu diffyg archwaeth i bobpeth ond i'r gwir achos o hono; ac hyd yn nôd pan gafodd Ted, yr hogyn oedd i hebrwng Noah i'r orsaf, gyfleusdra i ddangos ei alluoedd wrth y bwrdd, ni bu yntau erioed mor amddifad o'i ddawn arferol yn y ffordd hono. Yr oedd Ted, wrth barotoi a glanhâu y ferlen gogyfer â'r siwrne, wedi siarad cymaint wrthi am ymadawiad ei meistr, nes y credai o'r diwedd yn ei galon ei bod hi yn deall pob gair a ddywedai; a thystiai ar ol hyn na welodd efe Ffan erioed cyn y bore hwnw yn gwrthod ei *feed*, a'i fod yn sicr ei fod wedi gweled deigryn yn ei llygad. Buasai Magws y forwyn yn teimlo yn fwy tawel o lawer yn ngwyneb ymadawiad Noah oni buasai ei bod wedi clywed y ceiliog yn canu ddeuddeg o'r gloch y noson hono. Nid oedd yn dewis i neb feddwl ei bod yn ofergoelus; ond ni fu clywed y ceiliog yn canu ar y fath gamamser erioed yn arwydd dda i neb; ac mi fuasai yn well ganddi na llawer pe buasai hi heb ei glywed, oblegid na chysgodd hi winciad ar ol hyny.

Yr oedd Cadwaladr Rees wedi parotôi yn ei feddwl fath o anerchiad neu gynghor i'w fab; a bwriadai ei draddodi iddo cyn brecwast; ond oedodd y peth hyd adeg y pryd bwyta. Ond pan ddaeth yr adeg honó, meddyliodd mai ar ol y boreufwyd y buasai oreu ei ddyweyd. Yr oedd Noah yn y *market-cart*, a Ted wrth ei ochr yn barod i gychwyn, a'r cynghor eto heb ei draddodi; a meddyliodd yr hen dad gonest mai hwn oedd yr unig gyfleusdra; ac wedi rhoddi un pesychiad, dechreuodd—"Wel, 'y ngwas i"—ond methodd a dyweyd un gair arall. Daeth rhywbeth i'w wddf a barodd iddo ysgwyd llaw yn frysiog â Noah, a dychwelyd i'r tŷ. Dilynwyd ef

yn ei ymddygiad gan Margaret Rees. Eisteddodd y ddau, un o bobtu'r tân, gan edrych yn syn i'r twll lludw yn nghanol dystawrwydd poenus, cyffelyb i'r gosteg a deimlir pan fydd un ar ei ben ei hun mewn ystafell a'r awrlais wyth niwrnod wedi sefyll yn sydyn, neu gyffelyb i'r dystawrwydd a deimlir pan fyddo un yn unig mewn ystafell lle bydd cyfaill neu berthynas newydd farw. Yn y man, cyfododd Cadwaladr yn sydyn ar ei draed a dywedodd, "Diaist, rhaid i mi fyn'd i newid 'y nillad, a meddwl am ddechre gwneyd rhwbeth."

Yr oedd y cerbyd oedd yn cludo Noah a'i gydymaith yn teithio yn gyflym, ac yn nghanol trwst yr olwynion clustfeiniai Noah am lais yr ysbryd yn dywedyd wrtho "Dos;" ond ni chlywai efe ef yn dyweyd dim. Yn y man dychymygai glywed yr ysbryd yn dyweyd rhywbeth, ond nid "Dos" a ddywedai.

"Noah Rees, dyma ti wedi gadael y cartref dedwyddaf ar y ddaear, cartref na weli ei fath byth mwy. Gadewaist dad a mam a fuasent yn foddlawn i roddi eu bywyd i lawr yn hytrach nag i flewyn o'th ben gael ei niweidio—tad a mam ag y gellir sicrhâu am danynt mai un o amcanion penaf eu bywyd oedd dy wneyd di yn hapus a chomfforddus. Gadewaist Tom y gwas, yr hwn a ddysgaist i ganu *bass*, a'r hwn hefyd yr oedd dy ddymuniad yn orchymyn iddo, ac nad oedd dim yn ormod ganddo ei wneyd i ti, yr hwn sydd y fynyd hon yn yr ystabl yn gorwedd yn y gwellt, ac yn wylo ei oreu glas o herwydd dy golli. Gadewaist Magws, yr hon o herwydd dy garedigrwydd tuag ati, a ystyriai yn fraint cael glanhâu dy esgidiau. Dyna Ted sydd wrth dy ochr, yr hwn a ddysgaist i ddarllen ac i ganu; onid äi efe trwy y tân a'r dwfr er dy fwyn? Pa sawl gwaith, pan oeddit ti yn hir yn dychwelyd o dy gyhoeddiad nos Sabboth, y bu y tri yn crefu ar dy fam am gael aros i fyny nes y deuit adref, er mwyn iddynt gael gweled dy wyneb, a chael canu tôn cyn myned i orphwys? Oni wnêst Tom a Ted yn frodyr, a Magws yn chwaer i ti? ac oni wnêst ti y Tyddyn Bach yn baradwys o ran hapusrwydd? Gad-

ewaist y cwbl ar ol, ond ei hapusrwydd; cymeraist hwnw gyda thi. Yr oeddit yn ddefnyddiol yn dy gartref, a phawb yno yn hoff o honot. Gadewaist y cwbl ar ol; ac er mwyn beth? Er mwyn bod yn fugail yn y Dreflan—er mwyn cael dy alltudio i ystafell fechan i fyw y rhan fwyaf o'th amser ar dy ben dy hun—er mwyn myned o dan faich mawr o gyfrifoldeb a phryder—er mwyn i ti orfod gofyn i dy lettŷwraig am bobpeth y bydd arnat anghen am dano, yr hyn yr oedd dy fam gartref yn gofalu am dano heb i ti feddwl na dychymygu dim yn ei gylch—er mwyn i ti gael dy hunan mewn sefyllfa ag y bydd rhai yn dysgwyl i ti allu gwneyd pobpeth, a'i wneyd yn berffaith, ac y byddi yn syrthio yn enbyd yn eu golwg os nad elli ei wneyd—er mwyn i ti fod yn nôd i saethau gwenwynig a geiriau bryntion proffeswyr di-grefydd ac afledneis—ac er mwyn deugain punt yn y flwyddyn!"

"Aros, Ted," ebe Noah yn sydyn, "pa faint o ffordd ydym oddicartref?"

"Pedair milldir, syr," ebe Ted; "mae Ffan yn myn'd yn iawn, yn ol wyth milldir yr awr."

"Ond, Ted, dydi o ddim yn dyweyd 'Dos,'" ebe Noah yn absennol ei feddwl.

"Pwy ddim yn dyweyd 'Dos?'" ebe Ted yn synedig.

"O, nid wyt ti yn deall, Ted. Gad i'r ferlen gerdded yn araf deg am dipyn."

Nid oedd yr olwynion yn gwneyd trwst, ac ni chlywai Noah yr ysbryd yn dyweyd dim. Yr oedd y geiriau ar wefusau Noah Rees, ac yr oedd ar roddi y gorchymyn i Ted droi yn ol tua chartref, pryd y dychymygodd glywed llais yr ysbryd yn dyweyd yn eglur. "Paid," a dim ychwaneg.

Yr oedd y cerbyd yn myned yn ddystaw ac araf deg, a'r awenau yn gorwedd yn llac ar gefn y ferlen, pryd y sylwodd Noah fod Ted yn edrych i'w wyneb yn bryderus a dychrynedig, ac y dywedodd wrth yr hogyn, "Gyr ymlaen." Yn y foment yr oedd traed bach a heinyf Ffan fywiog yn chwarae pedwarawd ar y ffordd galed, a sŵn

yr olwynion yn ffurfio math o gyfeiliant i'r gerddoriaeth; ac yn fuan yr oedd Noah wedi syrthio i ddwfn fyfyrdod drachefn. Yn ebrwydd clywai lais yr ysbryd yn adrodd y gair croesawus,

"Dos, dos! Mae maes eang o ddefnyddioldeb o dy flaen. Nid hapusrwydd a ddylai fod nôd ac amcan gŵr Duw, ond dyledswydd a defnyddioldeb. Cei lawer o brofedigaethau; ond ni pherffeithir dithau mwy na dy Feistr namyn trwy ddyoddefiadau. Gofala am gadw cydwybod bur, a chymeradwyir di gan y rhai y mae eu cymeradwyaeth yn werth i ti ei gael, a chan yr Hwn y mae ei gymeradwyaeth yn cynnwys pob daioni. Dywed y gwir serch i ti gael dy groeshoelio, gan gofio y bydd i'r gwir dy adgyfodi i fywyd uwchlaw malais dy elynion penaf. Os trywenir di yn dy ystlys gan ryw gasddyn, gwel na ddaw allan ond dwfr a gwaed. Na ddywed, Llygad am lygad, a dant am ddant. O bosibl y cei *frodyr* na byddant yn credu ynot; ond gofala ar fod genyt Dad fydd yn rhoi tystiolaeth o'i foddlonrwydd ynot yn ngwydd y byd. Nid dy amgylchiadau fydd yn cyfansoddi dy hapusrwydd, ond yr hyn a fyddi di dy hun. Llafuria, myfyria, a gweddïa; a thi a gei dad a mam, a brodyr a chwïorydd, a ymlynant wrthyt hyd farw. Os byw yn ddioglyd a diofal a wnei —"


"Meistr," ebe Ted, wrth ei weled yn aros yn llonydd yn y cerbyd; "ydach chi ddim yn gwybod y'n bod ni yn y *station?*"

"Felly yr wyf yn gweled, Ted."

"Ddyliwn i fod chi'n gwneyd pregeth heddyw, syr!"

"Na, wedi bod yn gwrando un yr ydwyf, Ted," oedd yr ateb. Edrychodd yr hogyn arno yn synedig.

Wedi gwneyd ei gelfi yn ddiogel, a thynu ei law lawer gwaith trwy fwng y ferlen, a'i phatio ar ei hysgwydd yn serchog, ac wedi ysgwyd llaw yn gynhes â'r bachgen, a rhoddi rhywbeth iddo i gofio am dano, yr oedd Noah Rees ymhen ychydig fynydau yn chwyrnellu ymaith yn y gerbydres tua'r Dreflan. Er fod y trên yn gwneyd trwst enbyd, Noah yn dra ebrwydd a syrthiodd i gysgu.




"Ymaflodd yn Noah Rees â'i ddwy law."

t.d. 65.

Breuddwydiai ei fod wedi cyrhaeddyd pen ei daith, ac fod Mr. Jeremiah Jenkins yno yn ei gyfarfod, ac yn gofyn iddo yn chwerw, pa beth oedd efe yn ei geisio yno—y gallent hwy wneyd hebddo yn burion. Deffrôdd mewn teimladau cyffrous, a chafodd fod ei freuddwyd mewn rhan yn wir. Yr oedd wedi cyrhaedd pen ei siwrneu, ac yr oedd yno un yn ei ddysgwyl. Ond nid Jeremiah oedd efe. Gwisgai y gŵr hwn gob a llodrau duon, a gwasgod wèn, a het wellt; a gallai y dyn dylaf gasglu oddiwrth ei wyneb ei fod yn un o'r dynion tirionaf yn y byd. Nid oedd efe amgen na'n hen gydnabod Mr. Pugh. Càn gynted ag y canfyddodd efe Noah Rees, ymaflodd ynddo â'i ddwy law, gan ei groesawu yn wresog; ac wedi rhoi gofal ei bethau i'r gwas, efe a'i cymerodd yn ei fraich, ac a'i harweiniodd i'w dŷ ei hun. Yr oedd yn wir falch ganddo gael Noah Rees i'r Dreflan; ac yr oedd y winc ddeallgar a roddai ar bawb a'u cyfarfyddent cystal a dyweyd, "Dyma i ch'i be' sy gyn'on ni!"

## PENNOD X.

### ISMAEL ETO.

PE i drigolion y Dreflan yn unig y bwriadaswn yr hanes hwn, ni buasai anghenrheidrwydd arnaf ddyweyd ymha le y saif y *White Horse;* ond gan fy mod yn gwenieithio i mi fy hunan fod cylch fy narllenwyr dipyn yn eangach, fe allai y cyd-ddygir â mi yn rhoi desgrifiad byr o'r tŷ a'i amgylchiadau. Nid am fy mod yn meddwl y cynnyrcha y desgrifiad unrhyw awydd yn y dyeithr-ddyn a ddygwyddo ddyfod o fewn ein pyrth am fyned i lettŷa i'r *White Horse* mwy nag y cynnyrchai desgrifiad o'r Tŵr yn Llundain awydd am ei breswylio,

ond er mwyn hysbysu y dyeithr-ddyn fod y fath le yn ein Treflan, a'i gyfarwyddo pa le y mae os dygwydd iddo deimlo cywreingarwch am ei weled.

Tybiwn fod yr ymwelydd â'n Treflan wedi disgyn yn yr orsaf, ac wedi iddo brynu newyddiadur gan yr hogyn sydd bron a'i fyddaru, a gwrthod prynu *box* o *fusees* gan yr hogyn arall—os bydd iddo ddilyn y lliaws o'i gydymwelwyr, daw yn unionsyth i'r groes, sef canol y Dreflan. Yn y fan hon, bydded iddo droi ar y llaw ddehau i fyny y brif heol, a chaiff weled mai y faelfa gyntaf yr ä heibio iddo fydd un Meistri Puff & Bluster; a rhag iddo wneyd camgymeriad, edryched i'r ffenestri a chaiff weled papyrau mawrion, a llythyrenau breision arnynt, lle y dywed y boneddigion eu bod newydd fod yn Manchester, ac wedi prynu miloedd o hetiau, miloedd o foneti, miloedd o ddarnau o frethynau, &c., a'u bod gydag aberth mawr er mwyn y cyhoedd yn awr yn eu gwerthu am hanner y prisiau arferol, yr hyn, wrth gwrs, sydd i gyd heb fod yn ol y gwir yn fanwl. Yn nesaf daw at faelfa Mr. Rogers; ac os na fydd cwsmeriaid i fewn, edryched trwy y ffenestr a chaiff weled John Aelod Jones, a'i ddwylaw yn ei logellau yn edrych yn drist a syn ar y *counter*, ac yn galaru am y camgymeriad a wnaeth wrth ddewis yr alwedigaeth frethynol yn lle bod yn Llundain yn ysgrifenu i rai o'r chwarterolion. Ni bydd llawer o berygl i'r ymwelydd aros yn hir wrth *shop* Michael Flanegan, gwerthwr pytatws, *oranges*, a phob math o bysgod, os na bydd iddo roddi ei gadach poced am ei ffroenau. Felly daw yn nesaf at *shop* barbwr, a chlamp o bolyn lliwiedig uwch ben y drws; ac os bydd yr ymwelydd mor anwybodus â mi, dymunai gael gwybod paham y dynodir *shop* eilliwr bob amser â pholyn? Os edrycha i ffenestr y faelfa hon, ni wêl efe yno ddim ond rhanau o wallt o amryw liwiau, ac yn ymddangos mor hen a llygredig fel y penderfyna yr edrychydd ar unwaith fod y rhai a fuont yn ei berchenogi un tro wedi pydru er ys llawer blwyddyn; ac os dygwydd i'r ymwelydd fod yn benfoel, ac iddo fod o'r un feddwl â mi, bydd yn well ganddo

aros yn benfoel byth nag anurddo ei hun a gwallt dyn arall nas gŵyr yn y byd mawr pwy na pha beth ydoedd, pa un ai gwryw ai benyw, llofrudd ai sant, nac ymha fynwent y mae ei lwch yn awr yn gorwedd.

Wedi i'r ymwelydd fyned heibio i amryw dafarndai a thai preifat, daw at *shop* yr hen Ann Williams. Bydded iddo sefyll yma, oblegid yn y faelfa hon y dygir ymlaen y fasnach onestaf yn y Dreflan. Nid oes gan yr hen chwaer lawer ar ei helw; a gallai un dybied y medrai efe brynu ei holl *stock in trade* am ychydig sylltau. Mae papyr ysgwâr wedi ei binio wrth y llen goch tu cefn i'r ffenestr, a'r ddwy linell gyntaf o bosibl a ddysgodd yr ymwelydd o farddoniaeth Seisonig wedi eu hargraffu arno, sef,—

"*TABLE BEER*
*SOLD HERE*,"

y rhai a ddynodant nodwedd arbenicaf y fasnach. Mae yr argraff yn annhaclus, er iddo gymeryd dwy noswaith i'r hen Ann i'w ddwyn i'w sefyllfa bresennol. Cydnabyddir mai *table beer* Ann ydyw y goreu yn y Dreflan, ac nid ydyw Bass & Co. yn meddwl mwy o'u cymysgedd nag y mae Ann yn ei feddwl o'i dyfais i wneyd ei diod ddirwestol. Er, fel y dywedwyd, mai hwn ydyw asgwrn cefn ei masnach, ceir yn ei *shop* hi bethau eraill, megys penwaig cochion, ac amryw felusion, yn gyfleth, *India Rock*, ac felly yn y blaen; y rhai diweddaf a wnaethant i'm dannedd redeg filoedd o weithiau yn nhymmor fy machgendod. Yr ydwyf yn credu fy mod yn mynegu teimladau ugeiniau o'm cyfoedion pan ddywedaf fod genyf barchedigaeth dwfn i'r hen wreigan onest a charedig; ac yr ydwyf yn ei theimlo yn fraint gael rhoi ei henw mewn print, yr hyn yr ydwyf yn lled sicr na fu erioed o'r blaen, tra y mae'r cysodydd wrthi yn feunyddiol gydag enwau eraill annhraethol llai teilwng. Pan oeddwn yn yr ysgol, a'r papyr yn llawer drutach nag ydyw yn awr, a'r newyddiadur yn foeth y boneddwr, y fath ddiwrnod hapus oedd hwnw pan fyddwn wedi llenwi

*y copy-book!* Fel y byddwn yn rhedeg âg ef i *shop* yr hen Ann i'w werthu am bapyraid o gyfleth! O ddyddiau hapus na ddychwelant byth mwy! Bydd fyw byth, yr hen Ann! Ti a wasgeraist yn ystod dy fywyd fwy o wir bleser gyda'th gyfleth, a'th *India Rock*, na nemawr i un a adwaenwn! Os bydd gan yr ymwelydd geiniog y gall ei hebgor, bydded iddo *batronisio* yr hen wreigan dda, oblegid y mae hi, at ei rhinweddau eraill, yn Fethodist zelog Gwthied yr ymwelydd yr hanner drws, neu fel y galwem ni y bechgyn ef, yr hector, yn agored, a bydd y gloch sydd ar ffurf blodeuyn gogwyddedig ac yn gysylltiedig âg ef, yn sicr o ganu, ac mewn atebiad i'w gwŷs, daw i'r golwg o'r ystafell gefn hen wraig lanwaith a pharchus yn gwisgo pais a bedgwn, a chap *quick* gwŷn mawr yn gylch am ei gwyneb, ac yn edrych yn siriol drwy ei hyspectol felen, ac os bydd yr ymwelydd yn dewis, caiff heblaw swm da o gyfleth am ei geiniog, ymgom ddifyr ac adeiladol; ac na fydded iddo deimlo yn glwyfedig os nad ydyw y gath brâf ac amryliw a wêl yn eistedd gan hanner cysgu ar un pen i'r *counter* yn cymeryd sylw o hono, oblegid felly yr ymddyga hi at bawb yn ddïeithriad.

Gan fod *shop* Ann Williams yn gymhwys ar gongl heol, bydded i'r ymwelydd eto droi ar y llaw ddehau, a daw i ystrŷd gul a budr, cwbl anghofiedig gan y Bwrdd Lleol, oddigerth ar adeg hel y dreth. Wedi iddo fyned heibio i amryw o dai y bydd ynddo beth petrusder a oes preswylwyr ynddynt ai peidio, caiff weled tŷ ychydig yn fwy golygus. Uwch ben drws y tŷ hwn, y mae *sign* ar yr hon y mae yn amlwg y bu rhywun yn ceisio tynu llun ceffyl, ond yr hwn sydd mor anystwyth yr olwg arno, a'i amlinellau mor llym, fel y penderfyna yr edrychydd ei fod rywdro wedi rhewi yn yr hin, neu ynte mai y cynllun oedd gan yr arlunydd o'i flaen wrth ei baentio oedd ceffyl pren un o'i blant. Digon ydyw dyweyd mai y tŷ hwn ydyw y *White Horse;* ac os canfyddir gŵr corffol yn pwyso ar yr ystlysbost, ac yn ymddangos fel pe na byddai yn orhoff o waith, a'i ddillad yn rhy fychain iddo,

ac wedi gweled gwell dyddiau, a'i drwyn mor goch a dysglaer fel y tybid y gallai un danio ei bibell ynddo, gall yr ymwelydd gymeryd ei lw mai y dynsawd hwn ydyw gŵr y tŷ. Wedi dyweyd cymaint a hyn, yr ydwyf yn teimlo mai nid arnaf fi y bydd y bai os metha yr ymwelydd a dyfod o hyd i'r *White Horse*.

Yr oedd y flwyddyn 18— yn tynu at ei diwedd, ac er fod rhai wythnosau rhyngddi a'r Nadolig, yr oedd yr hin yn anarferol o oer, a'r gwynt mor erwin a miniog, fel ag i beri i lawer feddwl ein bod yn myned i gael gauaf cynnar a chaled. Ond nid oedd pryder ar feddwl neb y gwelid tlodi a chyfyngder y gauaf hwnw; ac nid oedd gerwinder yr hin ond yn peri i bobl wisgo ychwaneg o ddillad, chwythu ar eu bysedd, a cherdded yn fwy prysur. Ychydig a welid yn cardota, a llai o lawer allan o waith os na byddent yn rhy ddiog i weithio. Yr oedd y Llywodraeth oedd mewn awdurdod ar y pryd yn dyfeisio rhyw welliannau yn barhâus, ac yn tywallt olew yn feunyddiol ar olwynion masnach, a'r wlad yn llwyddo, a digonedd o waith ac o ymborth i'w gael ymhob cymydogaeth a chwm. Ar ddyddiau marchnad, byddai ystrydoedd y Dreflan wedi eu gorlenwi â phobl heb brin wyneb prudd i'w ganfod yn eu plith. Gwelid gwragedd gweithwyr cyffredin yn methu bron a chario eu basgedi gartref gan faint eu beichiau, a llawer o honynt yn gorfod cael help cerbydau i'w cludo. Ar nos Sadwrn, o'r braidd y gallai y siopwyr gau eu masnachdai cyn bore Sul, heb son am gyfrif yr arian.

Eithr y dosbarth oedd yn gloddesta mwyaf ar y llwyddiant oedd y glöwyr. Ennillai y torwyr o ddwy bunt a deg swllt i dair punt yr wythnos, a rhai ychwaneg na hyny. Yr oedd y gweithfeydd yn "myn'd" mor dda fel yr oedd yn anmhosibl bron gael dyn i aros gydag amaethwr am bris yn y byd. Yr oedd y "gweithiwr" a'r "dosbarth gweithiol" yn dermau mor gysegredig fel na feiddiai undyn ddywedyd gair anmharchus am danynt heb dynu cannoedd o bobl yn ei ben, ac hyd yn nôd beryglu ei fywyd. Llogid dynion oeddynt yn gofalu

mwy am gyflogau mawrion iddynt eu hunain nag am wir les y gweithiwr, i fyned o amgylch y wlad i areithio ac i ffurfio cymdeithasau i amddiffyn iawnderau y gweithwyr, neu, mewn geiriau eraill, i'w galluogi i sefyll allan os sonid am ostwng y cyflogau. Os meiddiai goruchwyliwr arfer ychydig o'i awdurdod, a myned yn groes i feddyliau y gweithwyr, byddai yn cael ei redeg o'r wlad, a da os cai fyned ymaith yn groeniach. Yr oedd holl amser y meistr yn cael ei gymeryd i fyny i ddyfeisio pa fodd y gallai ddal y ddysgl yn wastad gyda'i gyflogddynion; ac er iddo wneyd ei oreu yn y ffordd hon, byddai yn aml yn eu gweled yn hel eu "pige" at eu gilydd, ac yn hwylio tua gweithfa arall, ymha le y byddent yn cael derbyniad croesawus. Yr oedd y llwyddiant mor fawr, a Rhagluniaeth yn tywallt cymaint o'i bendithion, fel yr oedd y dosbarth iselaf o'r glowyr bron wedi colli arnynt eu hunain. Ond, o drugaredd, yr oedd y dosbarth mwyaf deallgar o honynt, yn enwedig y dosbarth crefyddol, yn rhagweled nad oedd yn bosibl i'r llwyddiant digyffelyb hwn barhâu yn hir, ac yn darpar ar gyfer diwrnod gwlawog—yn adeiladu tai iddynt eu hunain, ac yn cynnilo eu hennillion yn yr ariandŷ. Adeiledid capelau drudfawr mewn lleoedd gwledig, lle nad oedd ond gweithwyr yn unig yn trigiannu; a thelid am danynt mewn amser byr, trwy roddion tywysogaidd y preswylwyr.

Ond, ysywaeth, gwariai y mwyafrif o'r glöwyr truain y rhan fwyaf o'u hennillion caled yn y dafarn. Gwir nad oeddynt yn ol o ddim mewn ymborth; ond wedi talu llyfr y *shop*, ni byddent yn esmwyth nes tywallt y gweddill i goffrau y tafarnwr. Yr oedd y gweddill hwn mor fawr ar ddiwrnod y tâl fel y byddai yn cymeryd iddynt nos Sadwrn, y Sul, a'r dydd Llun canlynol i'w wario; ac wedi hyn nid oedd dim i'w wneyd ond ail ddechre gweithio fore Mawrth hyd ddiwrnod y tâl canlynol. Gwnai y tafarnwyr gynauaf o honi. Mewn lle gwledig, heb fod ymhell o'r Dreflan, lle yr oedd dau neu dri o weithfëydd glo, gallai un heb fod yn gryf iawn daflu careg dros saith o dafarnau, a phob un o honynt yn gwneyd



Cegin y *White Horse*. t.d. 7

masnach ragorol. Ymhlith y rhai a dderbyniodd fwyaf o arian ffyliaid, safai y *White Horse* yn uchel. Yr oedd amryw bethau ag oedd yn rhoddi cyfrif am hyn: yn un peth, yr oedd ei sefyllfa neillduedig yn cyfarfod â dymuniadau ei fynychwyr; peth arall, yr oedd ei berchenog yn astudio yn fanwl chwaeth ei gwsmeriaid; ac nid y rheswm lleiaf ag oedd yn rhoddi cyfrif am ei boblogrwydd oedd, fod *tic* i'w gael os dygwyddai i boced cwsmer cyson fod yn wag.

Yr oedd y tywydd yn oer, fel y dywedwyd, a'r gwynt yn chwibianu yn rhigolau y ffenestri, ac yn rhuo yn simdde y *White Horse.* Ond pa beth oedd hyny i Mrs. Morris y dafarnwraig? Mwy swynol oedd swn y ceiniogau a ddisgynent yn ddidor i'r *drawer* o lawer iddi hi. Yr oedd y gegin fawr ar y llaw ddehau i'r *bar* yn orlawn o yfwyr; a mwy nag y gallai Mary Ann y forwyn ei wneyd oedd ateb y galwadau diddiwedd am ychwaneg o ddiod, ac yn enwedig cofio pa faint o newid i'w roddi i'r cwsmeriaid. Yr oedd yr ystafell yn rhy fechan i eistedd pawb oedd yn bresennol, oblegid eisteddai rhai ar y pentanau; a rhai o'r benywod—canys yr oedd benywod yno—a eisteddent ar liniau eu gwŷr neu eu cariadau. Curai rhai y bwrdd â'u gwydrau, a galwent yn ffyrnig am ychwaneg o ddiod, gan roddi enwau prydferth ar y forwyn o herwydd ei harafwch. Yr oedd eraill yn rhy feddw i wybod a oedd ganddynt ddiod ai peidio. Crefai rhai am gael talu am ddiod i'w cyfnesaf; eraill a herient eu ffryndiau i "sefyll Sam." Safai un gan wegian ar ei draed i geisio goleuo ei bibell yn y nwy; ond deuai rhywbeth i'w feddwl pan fyddai o fewn dwy fodfedd i'r goleuni, a byddai raid iddo gael ei ddyweyd. Ceisiai danio ei getyn drachefn, gan yslefrian ar hyd ei farf a'i ddillad; ond buan yr anghofiai beth oedd yn ei geisio. O'r diwedd wedi iddo hanner syrthio lawer gwaith ar draws y *spittoons*, byddai rhywun yn gorfod estyn tân iddo; ac ymhen y ddau fynyd byddai y truan yn myned trwy yr un cwrs drachefn. Siaradai pawb yn nhop ei lais, ac yr oedd yn anmhosibl i fwy nag un wybod beth oedd y nesaf ato yn ei ddyweyd. Yr oedd yr enwau wrth ba rai y galwent eu

gilydd yn ddigon a pheri i wallt dyn sefyll ar ei ben. Os byddai un eisieu galw sylw un arall, ystyriai ei fod yn arfer iaith gyfeillgar pan floeddiai nerth ei ben, "Hwde, uffern." Yr oedd eu llwon a'u rhegfeydd yn arswydus; ac oni buasai eu bod yn meddu cig a gwaed, buasai un yn meddwl mai haid o gythreuliaid oeddynt wedi dianc o Gehenna, gan fel yr oeddynt yn galw ar eu tad bob yn ail air. Drwg genyf dduo y dalenau hyn â'r darluniad uchod; ond ni bu erioed ar unrhyw ddalenau yr hyn oedd wirach; a phe rhoddid y desgrifiad yn gyflawn, mae yn ammheus a allai llawer oddef ei ddarllen.

Ar y llaw chwith i'r *bar* yr oedd ystafell arall, yr hon a gedwid i ddosbarth neillduol o gwsmeriaid, cwbl wahanol o ran cymeriad i'r rhai oeddynt yn y gegin. Edrychai Mr. a Mrs. Morris ar y rhai a fynychent yr ystafell hon fel eu cwsmeriaid *respectable*. Crefftwyr oeddynt gan mwyaf, megys cryddion, teilwriaid, seiri meini, &c., ac yn rhifo oddeutu wyth neu naw pan fyddent oll yn bresennol. Nid ellid ar un cyfrif edrych arnynt fel meddwon; ac o'u cymharu â'r rhai oeddynt yn y gegin, nid oeddynt yn gwario ond ychydig. Ond yr oeddynt yn y *White Horse* mor gyson, fel os byddai un yn absennol am fwy nag un noswaith y byddid yn dechre pryderu am ei iechyd. Oddigerth rhyw ddau neu dri a fynychent yr ystafell o dan ddeddf goddefiad, yr oeddynt oll yn ddynion o feddwl, ac yn wleidyddwyr mawr, o leiaf yn eu meddyliau eu hunain. Llawer pwnc dyrys y methai dynion mwyaf y deyrnas ei ddadrys a benderfynid i foddlonrwydd pawb, ac am byth, yn y *White Horse*. Ac iddynt gael chware teg, buasai pob un o honynt yn ei hystyried yn ddarostyngiad arno roddi ei bresennoldeb ymhlith y rhai oedd yn y gegin; a phe buasai Mr. Morris yn caniatâu i un o'r haid hono ddyfod i'r ystafell hon, buasai pob un yn codi ac yn gadael y tŷ gyda dirmyg.

Yr oedd yno gynnulliad lled lïosog y noson yr ydwyf yn ysgrifenu yn ei chylch; yr oedd cysuron yr ystafell yn bobpeth y gellid ei ddymuno: clamp o dân gwresog

—pob dodrefnyn yn dysgleirio gan lanweithra—cadeiriau brâf ac esmwyth; a phe buasai ambell i fudrogen awyddus am ddiwygio ei gŵr yn cael cipolwg arni, buasai yn wers iddi am ei hoes, os buasai synwyr yn ei phen. Yn un gongl o'r ystafell yr oedd tri o wŷr, y rhai oeddynt yno, fel yr awgrymwyd, o dan ddeddf goddefiad. Yr oeddynt mewn tipyn o oedran, ac yn cynnal ymgom cwbl ar wahân i bawb arall. Yr oedd yn hawdd canfod oddiwrth eu hwynebau nad allent werthfawrogi yr ymddyddan oedd yn myned ymlaen ymhlith y "clwb" fel y gellid ei alw. Hen filwr oedd un, ac a elwid Tom; ac amaethwr wedi methu yn ei amgylchiadau oedd y llall; ac un wedi bwrw ei brentisiaeth i wag symera oedd y trydydd. Nid oeddynt yn cymeryd sylw, fel y dywedwyd, o'r ddadl boliticaidd oedd yn cael ei dwyn ymlaen yn mhen arall yr ystafell. Ond pan agorwyd y drws, trodd pawb eu penau i'r cyfeiriad hwnw; a daeth i mewn ŵr canol oed, eiddil a gwyneblwyd, ac ôl pryder ac ymdrech o dan ei lygaid duon a deallgar. Arwyddwyd peth syndod wrth ei weled, a gwnaed amryw ymofyniadau ynghylch ei iechyd, ac iechyd ei wraig. Yr oedd ei atebion yn sych a chwta. Cododd un cyfaill gan roddi lle iddo yn y gader ddwyfraich wrth y tân; ac eisteddodd yntau ynddi fel *matter of course.* Galwodd am wydraid o gwrw, a chymerodd newyddiadur i'w law, gan ddechre darllen iddo ei hun. Edrychai y naill ar y llall gan siarad â'u llygaid—fod rhywbeth heb fod yn iawn ar Ismael, oblegid nid oedd efe neb amgen. Yr oedd pawb yn ddystaw, ac yn dyfeisio beth nesaf a gaent i'w ddyweyd, oddigerth y trioedd oedd yn mhen arall yr ystafell, pryd y daeth y tafarnwr i mewn. Pan welodd efe Ismael yn ei eisteddle arferol, tynodd ei het iddo yn foesgar-wawdlyd, a dywedodd,

"O! ydi Ismael wedi ein hanrhydeddu â'i bresennoldeb heno? Yr oeddwn i yn dechre meddwl y'n bod ni yn ormod o bechaduriaid i Ismael ddyfod i'n plith! Mi wela' fod gan y *White Horse* ryw ychydig o ddylanwad ar ein hen gyfaill eto."

"Hwyrach," medd Ismael, "pe buaswn wedi absennoli fy hun yn amlach, y buasai yn well arnaf, ac yn waeth arnoch chwithau."

"O felly! y mae Ismael wedi cael tro yn siŵr i ch'i. Rhaid i ni gael trin ei achos. Pe dase Ismael yn ein gadael yn gyfan-gwbl,—be' ddaethe o honom ni? Gwyddoch ei fod o yn gwario yma gryn ddau swllt yr wythnos, yr hyn sydd yn swm go fawr o'i gymharu â'r deg swllt y mae y *collier* yn y gegin yna yn wario. Torem i fyny yn siŵr pe gadawai Ismael ni. Mae y cyfaill wedi cael crefydd yn siŵr. Mi glywais ei fod yn y capel y Sul diwaetha. Peth garw ydi cael cyfaill fel Mr. Pugh, welwch ch'i. Mae gan Mr. Pugh bwrs lled hir. Oes gobaith i ch'i gael eich g'neyd yn flaenor, Ismael? Gadewch i ni gael gair o'ch profiad, achos mi fydd raid i ch'i ddeyd y'ch profiad yn y capel, cofiwch."

Lluchiodd Ismael y newyddiadur o'i law; ac er fod ei gorff eiddil yn crynu drwyddo, edrychai fel llew yn ngwyneb y tafarnwr.

"Morris," ebe ef, "yr wyf yn awr er ys rhagor na deng mlynedd wedi arfer mynychu eich tŷ yn gyson; a phe buaswn wedi bod mor ffyddlawn i'r capel yr ydych yn son am dano âg yr wyf wedi bod i'r *White Horse*, ni buaswn yn fy sefyllfa bresennol, ac ni buasech chwithau yn gallu edliw i mi fy nhlodi. Duw a ŵyr mai nid er mwyn eich diod y dechreuais ddyfod yma, ond er mwyn y cwmni—cwmni, meddaf, nid yr eiddoch chwi, oblegid ni fu dwsin o feddyliau erioed yn eich clopa, ond cwmni y rhai a arferent ymgynnull yma. Y blynyddau diweddaf, er fy nghywilydd, yr wyf wedi arfer dyfod yma er mwyn eich diod yn gystal a'r cwmni. Pan oedd fy nghwpbwrdd heb yr un tamaid ynddo, a fy ngwraig a fy machgen yn gwyneblasu gan eisieu bwyd, yr oeddwn bob amser yn *scamio* i hel tair ceiniog i mi fy hun i gael peint o'ch diod. Duw faddeuo i mi fy nrygioni! Yr wyf wedi cael fy nhalu ganddo ef. Yr wyf wedi gwario rhai ugeiniau, os nad cannoedd, o bunnau yn eich tŷ; ac er yr holl galedi sydd wedi bod yn fy nghartref, yr wyf wedi

bod yn rhy falch i'w gydnabod i chwi, er y gwyddech am dano cystal a minnau. Yn fy holl dlodi, a dderbyniais i hatling oddiar eich llaw? Yr wyf yn diolch i'r nefoedd, naddo ddim. Mi gefais gyfeillion a'm dygodd o'r holl galedi, yn enwedig y boneddwr y cyfeiriasoch chwi ato mor wawdlyd, a'r hwn nad ydych chwi yn deilwng o'ch enwi yn yr un flwyddyn âg ef. Yr oeddwn wedi penderfynu na ddeuwn byth dros eich trothwy—a'r diafol a wnaeth i mi ddyfod heno: nage, nid y diafol ychwaith, oblegid y mae fy mhenderfyniad yn gryfach nag erioed. Os croesaf eich rhiniog byth mwy, neu riniog unrhyw dafarndŷ arall, bydded ——."

Gwnaeth Ismael lw mawr, a rhuthrodd allan o'r ystafell heb gymaint a chyffwrdd â'i wydraid. Dilynodd y tafarnwr ef yn frysiog. Cawn weled a gadwodd Ismael ei benderfyniad.

"Rhaid i nine droi dolen; dydi ddim iws," ebe yr hen filwr wrth ei gymdeithion.

"Be' ti'n ddeyd, Tom?" ebe yr amaethwr.

"Wel, deyd yr oeddwn i y bydde raid i nine droi dolen."

"Be' ti'n feddwl wrth hyny?"

"Wel, y bydd raid i ni fyw yn well, ne' mi fydd yn o ddrwg arnon ni."

"Taw a siarad, da ti," ebe'r amaethwr; "wyddost ti ddim sut yr ydw i'n byw?"

"Na wn, na wn, ond mi wn 'y mod *i* yn ddigon drwg, beth bynag."

"Wyddost ti be'?" ebe'r ffarmwr, "ddechreuais i 'rioed fwyta fy nghinio cyn i'r bobol dd'od o'r eglwys. Mi ddeuda i ti beth arall, deis i 'rioed i gysgu yn feddw nac yn sobr heb dd'eyd 'y mhader, weithie ar 'y nglinie ac weithie ar 'y nghefn yn 'y ngwely. Dydi o *ods* yn y byd sut y deydi di o am y deydi di o. Mi ddeyda i ti beth arall, feddwes i 'rioed na 'fydde'n 'difar 'gen i am hyny fore drannoeth."

"Wel, gwyn dy fyd di, Ned! mi fase yn dda gen' i allu deyd yr un peth," ebe'r hen filwr.

## PENNOD XI.

### YR ARGRAFFIADAU CYNTAF.

YMHEN oddeutu wythnos neu naw niwrnod wedi i Noah Rees ddyfod i'r Dreflan, yr oeddwn yn eistedd gydag ef yn ei ystafell; ac fel y canlyn yr adroddai efe wrthyf ei brofiad :—

"Gofyn yr oeddit, onidê, pa fodd yr oeddwn yn teimlo wrth ddyfod i'r Dreflan, a pha argraffiadau a wnaed ar fy meddwl gan yr ychydig gymeriadau y daethum i gysylltiad â hwynt yn barod? Wel, yr oedd fy meddwl mor agored i dderbyn argraffiadau, ac y maent wedi eu gwneyd mor ddiweddar, fel y gallaf eu cyfleu ger dy fron, dybygaf, yn lled gywir. Oddiar fy adnabyddiaeth flaenorol o honot, yr wyf yn gwybod dy fod yn lled hoff o chwedleua; ond y mae genyf gymaint a hyny o ymddiried ynot na fydd i ti wneyd camddefnydd o'r hyn a adroddaf wrthyt yn awr. Diammheu dy fod yn cofio fod genyf gryn gred mewn argraffiadau cyntaf; a dichon mai cofio hyny a barodd i ti ddechre fy holi. Mae yn dda genyf ar fwy nag un cyfrif gael adrodd wrthyt fy mhrofiad, ond yn benaf er mwyn i mi gael gwybod pa un a ydyw yr argraffiadau a wnaed ar fy meddwl yn gywir ai peidio, gan fod dy adnabyddiaeth di o'r cymeriadau a gyfarfyddais yn llawer helaethach na'r eiddof fi. Er mwyn i ti gael gwell cyfleusdra i fy nghywiro, desgrifiaf y cymeriadau mor agos ag y gallaf i'r hyn y buaswn yn gwneyd i un nad oedd yn eu hadnabod.

"Nid heb lawer o bryder, fel y dywedais wrthyt o'r blaen, y cydsyniais i ddyfod atoch yn y cymeriad o fugail. Gan nad oeddwn wedi bod yn pregethu i chwi ond rhyw ddwywaith neu dair, nid allaswn ddyweyd fy mod yn adnabod neb o honoch gyda dim manyldeb, gyda'r eithriad o honot ti, oddieithr yr hyn a glywswn am danoch oddiyma draw. Yr oeddwn yn ofni yn fawr

hefyd eich bod chwithau fel eglwys wedi gwneyd camgymeriad wrth alw un yr oedd eich adnabyddiaeth o hono mor brin. Ond un o'r pethau a barai i mi bryderu fwyaf oedd, diffyg ffydd yn fy adnoddau fy hunan a'm cymhwysder i'r gwaith. Yr oeddwn yn cofio ddarfod i mi y troion y buaswn yma bregethu y rhai a ystyriwn i fy mhregethau goreu, ac yr oeddwn yn anobeithio bron allu cadw i fyny â'r marc yr oeddwn, fel yr oedd yn ymddangos, wedi ei ennill yn meddyliau rhai o honoch. Ar yr un pryd, yr wyf yn meddwl y gallaf ddyweyd yn gydwybodol nad oedd yr ystyriaeth hon ond dibwys yn fy ngolwg o'i chymharu â'r ofn a'r dychryn oedd ac sydd ynof am ddiogelwch fy nghyflwr fy hun? A oedd genyf fi fy hun grefydd? A oeddwn i yn gadwedig? A oeddwn i yn adnabod Ceidwad dyn? Pa un ai anghenrhaid ai galwedigaeth oedd fy mhregethu? Y cwestiynau hyn oeddynt yn cloddio i fyny waelodion fy enaid, 'rhag wedi i mi bregethu i eraill fod fy hun yn anghymeradwy.' Gall hyn ymddangos yn rhyfedd i ti, â thithau wedi fy nglywed gynifer o weithiau yn annog pechaduriaid mor daer i dderbyn y Gwaredwr. Ond dyna ydyw fy mhrofiad i. Nis gwn pa fodd y bydd pregethwyr eraill yn teimlo; ond byddaf fi yn ymwybodol yn aml fod wmbreth o ffug o fy nghwmpas, ac nad ydwyf yn dyfod i fyny nid yn unig â'r hyn a ddylwn fod, ond â'r hyn y tybir fy mod gan fy nghyfeillion a'm perthynasau. Byddaf yn meddwl weithiau pe byddai i Cadwaladr a Marged Rees o'r Tyddyn Bach edrych arnaf trwy fy llygaid i fy hun na byddai iddynt fy adnabod fel eu mab Noah. Bum yn dychymygu ganwaith beth oedd yn myned trwy feddyliau pobl wrth fy nghymharu yn yr hyn oeddwn yn y pulpud â'r hyn oeddwn yn y cwmni?—yn y capel ac yn y tŷ? Dywed y gwir yrŵan, onid oeddit ti yn meddwl fy mod yn *shamio* yn ddychrynllyd? Onid oeddit yn fy ffieiddio? saith o'r gloch yn y pulpud yn ymddangos i'r gynnulleidfa fel pe buasai fy mhryder am eu bywyd tragywyddol bron a fy llethu, a naw o'r

gloch yn y cwmni, yn ysgafn fy ysbryd, ac o bosibl yn adrodd ystori i beri chwerthin! Y fath *transition!* Dyma i ti gyfuniad o'r *sublime* a'r *ridiculous!* Bum yn gobeithio ddegau o weithiau nad oedd pobl yn edrych arnaf fel yr oeddwn i yn edrych arnaf fy hun. Yr wyf yn credu y gallaf ddyweyd yn onest nad oes dim mor gas genyf â diffyg *reality*—a hyn ydyw y rheswm fy mod yn casâu fy hun yn fwy na neb arall a adwaenais erioed. Nis gallaswn ddyweyd hyn wrth bawb; nid ydyw ffyliaid yn fy neall, ac nid wyf yn deall fy hun—yr ynfytyn mwyaf o bawb. Yr wyf yn gwybod fy mod yn dueddol i fod yn bruddglwyfus, ac i edrych i mewn yn lle edrych allan; ond yr wyf yn canfod y fath *duplicity*—pa air Cymraeg a gâf?—yn fy nghymeriad, fel ag i gyfiawnhâu llawer ar fy ofnau am ddiogelwch fy nghyflwr, fel y dywedais A wyt ti yn cofio y desgrifiad o'r pregethwr gau sydd gan Pollock yn ei *Course of Time?* Bum yn arswydo ugeiniau o weithiau wrth ei adgofio.

"Pan oeddwn yn meddwl am ddyfod atoch, yr oeddwn yn meddwl hefyd y dysgwylid i mi lenwi lle y diweddar Mr. Williams; a dychymygais weled fy hunan lawer gwaith yn ei ddillad ef, a'r rhai hyny yn fflabio mwy o fy nghwmpas nag yr oedd dillad Saul am Dafydd gynt. Ond er hyn oll, yr oeddwn yn ymwybodol fod rhywbeth yn dyweyd wrthyf, 'Dos,' fel y bum yn adrodd wrthyt; ac mewn ufudd-dod i'r rhywbeth hwnw y cyrhaeddais orsaf y Dreflan, ymha le y cyfarfyddais â'r gŵr rhyfedd yna, Mr. Pugh. Fy unig adnabyddiaeth flaenorol o Mr. Pugh oedd fel un a welswn yn eistedd yn nghanol y capel, ac yn gwneyd daioni i galon dyn wrth ei weled yn gwrandaw mor astud, ac fel un y clywswn ei fod yn oruchwyliwr i foneddwr yn y gymydogaeth hon, yr hwn sydd Eglwyswr zelog; a dyna'r cwbl a wyddwn am dano. Parodd ei dderbyniad llawen a chroesawus o honof i ran fawr o'r baich syrthio oddiar fy meddwl. Yr oedd gan Mr. Pugh hogyn yn ei ganlyn, yr hwn a alwai yn Jim. Yr oedd rhywbeth yn ymddangosiad yr hogyn hwn a

barodd i mi deimlo dyddordeb neillduol ynddo y foment gyntaf y gwelais ef. Yr oedd ei wisg braidd yn newydd, ac yntau yn ymddangos fel pe na buasai yn gynnefin iawn â dillad da. Mi welaf dy fod yn gwenu; ond cofia mai adrodd yr ydwyf yr argraff a wnaeth yr hogyn ar fy meddwl i. Yr oedd yn fychan ac eiddil o gorffolaeth; ond yr oedd rhywbeth yn ei wyneb, ac yn enwedig yn y cyfrwysdra a lechai yn nghonglau ei lygaid, a barai i mi feddwl ei fod yn llawer hŷn nag y buasai un yn tybied ar yr olwg gyntaf. Edrychai Jim mor ddyfal ac awyddus i lygaid Mr. Pugh, nes dwyn i'm cof yn rymus y modd y bydd cŵn defaid bugeiliaid Meirionydd yn edrych i wynebau eu meistriaid, ac eto yr oeddwn yn berffaith sicr nad oedd dim yn cymeryd lle o'n cwmpas na neb yn myned heibio i ni heb fod Jim yn gweled ac yn gwybod y cwbl. Wedi i mi gael fy holl *luggage* allan o'r gerbyd-res, gorchymynodd Mr. Pugh i Jim gymeryd eu gofal. Teimlwn braidd yn anfoddlawn i'r fath drysorau gael eu hymddiried i hogyn mor fychan; a deallodd Mr. Pugh fy mhryder, a dywedodd,

"'Ho! ho! mi wranta i Jim; 'does dim eisio dyweyd ddwywaith wrth Jim.' Cymerais ei air. Yr holl amser hwn yr oedd Mr. Pugh yn gafael yn glòs yn fy mraich fel pe buasai yn ofni i mi redeg i ffwrdd. Pan oeddym oddeutu ugain llath tu allan i'r orsaf, yr oedd Jim yn ddisymwth wrth ein sodlau, ac yn tynu yn labet côb Mr. Pugh.

"'Meistar,' ebe efe yn gyffrôus, 'dydi'r *bugle* ddim wedi dwad!'

"Chwarddodd Mr. Pugh nes ydoedd bron a syrthio. Wedi iddo adfeddiannu ei hun i raddau, dywedodd,

"'Mae y *bugle* yr oeddwn i yn ei ddysgwyl wedi dwad, Jim. Cer di o gwmpas dy *fus'nes*.'

"Yr oedd yr ymgom hon yn ddirgelwch hollol i mi; ond eglurodd Mr. Pugh i mi, dan chwerthin nes oedd bron a hollti, mai myfi oedd y *bugle*. Dygwyddodd i Mr. Pugh ddyweyd wrth Jim ei fod i fyned gydag ef i'r *station* i gyfarfod 'y bugail,' a thybiodd yr hogyn mai yr offeryn cerdd a elwir y *bugle* a olygai.

"'Campus,' ebe Mr. Pugh—'*bugle;* wel, wired â mod i yn y fan yma! A! mae gen i *lot* i ddeyd wrthoch ch'i am y bachgen ene rw ddiwrnod;' a chwarddodd drachefn a thrachefn.

"Ar y ffordd yr oedd Mr. Pugh yn siarad yn ddiderfyn, ac mor llawen a dyddorol, nes yr oeddwn wedi colli pob cof am danaf fy hun a fy mhryder. A dyweyd y gwir i ti, yr oeddwn ymhell cyn cyrhaedd y tŷ yn gafael yn fwy clòs yn Mr. Pugh nag yr oedd efe ynof fi. Os nad ydwyf yn camgymeryd yn ddirfawr, ni welais neb erioed ag y mae ei du mewn wedi ei argraffu mor fras ar ei wyneb ag ydyw Mr. Pugh. Yr oeddym yn cerdded yn lled gyflym, ac hyd yr ydwyf yn cofio ni ddarfu i ni sefyll i siarad â neb oddigerth dwywaith, a hyny am ychydig fynydau; ond erbyn i ni gyrhaedd at y tŷ, er fy syndod, yr oedd fy holl gelfi yn daclus yn y *lobby*, a Jim, gan eistedd ar y gist dê oedd yn cynnwys fy llyfrau, yn ein dysgwyl. Tarawodd ei law ar ei gap, a rhoddais innau fy llaw yn fy llogell ar feddwl rhoddi rhywbeth iddo am ei drafferth; ond attaliwyd fi gan Mr. Pugh, a dywedodd y gofalai efe am hyny. Ymddangosai Jim braidd yn siomedig; a phan drodd Mr. Pugh ei gefn, gwelais Jim yn estyn ei dafod allan arno mewn *revenge*. Deallodd fy mod wedi ei ddal ar y weithred anweddus hon, ac estynodd ei dafod allan eilwaith, gan gymeryd arno fod ganddo boen ynddo. Bu raid i mi droi fy mhen draw rhag chwerthin yn ei wyneb, ac yr oeddwn yn sicr fod Jim y fynyd hono yn estyn ei dafod arnaf finnau—mor sicr â phe buaswn yn ei weled

"Nid oeddwn wedi bod bum' mynyd yn y 'Cartrefle'—oblegid felly y gelwir tŷ Mr. Pugh, yr wyf yn deall, heb gael esboniad llawn ar yr awydd a fyddai yn y bechgyn yn yr Athrofa, pan ddeuent yma i bregethu, am gael myned i lettŷa at Mr. Pugh. Yr oedd y tŷ wedi ei ddodrefnu yn ardderchog; ond yr oedd rhywbeth mor gartrefol a Chymreig o gwmpas ei breswylwyr, fel yr oeddwn yn teimlo mor hapus a rhydd yno â phe buaswn yn y Tyddyn Bach. Tybiaswn wrth ddyfod gyda Mr.

Pugh o'r orsaf na welswn neb erioed y gallwn ei hoffi yn fwy hyd nes y gwelais Mrs. a Miss Pugh. Derbyniwyd fi gan Mrs. Pugh gyda'r fath groesaw tawel a serchog, nes gwneyd i mi gofio am y modd y byddai fy mam yn fy nerbyn pan ddeuwn adref o'r Athrofa; a bu agos i mi anghofio fy hun, a thorri allan i wylo, ac yr wyf yn cyfaddef i mi orfod cymhwyso fy nghadach poced yn lled nerthol at fy nhrwyn i guddio fy ngwendid. Cefais fy *introducio* gan Mr. Pugh i'w wraig a'i ferch fel Mr. Rees y '*bugle*' a bu raid iddo yn gyntaf oll gael adrodd iddynt yr ystori.

"'Pitar,' ebe Mrs. Pugh, 'peidiwch a dyweyd y stori wrth neb arall, rhag i Mr. Rees gael llysenw trwy ffolineb yr hogyn gwirion ene.'

"Nid oeddwn wedi gweled y perygl o hyny hyd y foment hono, ac yr oeddwn yn teimlo yn ddyledus iawn iddi. Fel yr awgrymais, yr oedd yn hawdd gweled oddiwrth faint y tŷ, a'r modd yr oedd wedi ei ddodrefnu, fod Mr. Pugh yn ŵr cefnog iawn; ond nid oedd dim yn ymddygiad nac ymddangosiad y teulu i arwain neb i feddwl eu bod uwchlaw amgylchiadau cysurus. Yr oedd Mrs. a Miss Pugh wedi ymwisgo mor blaun fel nad oes genyf y fynyd hon un dychymyg beth oedd lliw a llun eu dillad. Galwai Mr. Pugh Mrs. Pugh yn Jane. Galwai Mrs. Pugh Mr. Pugh yn Pitar. Galwai y ddau y ferch yn Kit. Yr oedd hyd yn nôd Miss Pugh yn galw Mr. Pugh yn dad, a Mrs. Pugh yn fam, ac ni chlywais mo honi unwaith yn eu hanerch fel *papa a mamma*. Ni welais yn fy mywyd foneddiges yn llenwi cader ddwyfraich càn hardded a Mrs. Pugh. Er ei bod bellach yn hen, edrychai mor brydferth, siaradai mor fwyn a synwyrol, fel y gallaswn edrych a gwrandaw arni am ddiwrnod cyfan heb flino. Pe buasai fy mam yn y Tyddyn Bach yn gwybod y diwrnod hwnw fel yr oeddwn yn edmygu Mrs. Pugh, buasai yn teimlo yn *jealous* iawn, mi wn. Gyda golwg ar Miss Pugh, nid wyf yn sicr y gallaf ddesgrifio i ti fy syniad am dani. O ran pryd a gwedd nid ydyw yn neillduol o brydferth, ac y mae yn rhy fer ac eiddil i fod

yn olygus; ac eto ni wnaeth neb erioed y fath argraff arnaf. Paid a chamesbonio fy ngeiriau, yrwan. Pan glywais hi yn galw ei thad yn dad, a'i mam yn fam, rhoddais ei henw i lawr ar unwaith fel geneth gall. Ni welais neb erioed mor lân oddiwrth rodres neu *affectation*, fel y byddwn yn dyweyd. Ni chanfyddais ynddi rithyn o ddim nad oedd yn berffaith gydweddol â gwyleidd-dra yr angyles fwyaf pur; ac eto cyn i mi fod hanner awr yn y 'Cartrefle,' ymddygai tuag ataf fel pe buasai yn fy adnabod er ys blynyddau. Canfyddwn ynddi rywfodd gyfuniad prydferth o nodweddion arbenicaf ei rhieni. Yr oedd caredigrwydd ac unplygrwydd ei thad, ynghyd a synwyr cryf a mwyneidd-dra ei mam, wedi eu cyfrodeddu ynddi mor berffaith, nes ffurfio rhywbeth nas gwn beth yn iawn i'w alw, ond sydd â'i ddylanwad yn orthrechol. Gofalodd Rhagluniaeth am iddi beidio bod yn nodedig am brydferthwch, onidê buasai wedi gyru ugeiniau o wŷr ieuainc, yr wyf yn ofni, i'r gwallgofdŷ. Mi welaf dy fod yn gwenu eto, ac y mae yn rhaid i mi erfyn arnat i beidio camesbonio fy ngeiriau. Mae yn arw o beth na chaiff dyn adrodd yr argraffiadau a wnaed ar ei feddwl heb i ti dynu camgasgliadau. Yr oedd Miss Pugh yn siarad Cymraeg mor groew a diledialth, ac yn ymddangos i mi mor ddiymhongar, fel mai o'r braidd y gallaswn gredu yr hyn a glywais am dani ar ol hyny, sef ei bod yr un mor hyddysg yn y Ffrancaeg a'r Germanaeg, ac yn gallu gwneyd i'r berdoneg siarad yr iaith a fynai. Fy nghyfaill, maddeu i mi os ydwyf dipyn yn frwdfrydig; y mae Miss Pugh yn un o fil! Mae mwyafafrif boneddigesau ein dyddiau ni yn tybied os byddant yn gwybod beth ydyw ystyr *wie befinden se sich*, y dylent yr un foment anghofio ystyr, Sut yr ydych chwi? Onid ydyw yn ffaith fod cannoedd o'n cyfeillesau prydferth ac anwyl yn pendroni gyda'r Ffrancaeg a'r Germanaeg am flynyddau—ieithoedd na fyddant o un defnydd ymarferol iddynt byth—ac yn esgeuluso neu ynte yn rhy falch a rhodresgar i ddysgu y Gymraeg lân fendigedig! Ar yr un pryd, deuant i'r capel Cymreig ar y Sabbothau i

eistedd fel delwau, neu yn hytrach fel paganiaid, heb ddeall iaith y pregethwr. Onid oes lle i ofni fod llawer o'n boneddigesau parchusaf yn treulio oes heb ddeall unrhyw iaith y traethir ynddi yn eu clywedigaeth wirioneddau bywyd ac anfarwoldeb!

"Tra yr oeddwn i a Mrs. a Miss Pugh yn ymgomio am y peth yma a'r peth arall, cerddai Mr. Pugh yn ol a blaen yn aflonydd, a gofynai yn barhâus ai onid oedd y tê agos a bod yn barod bellach, a chyn i'r pryd fod prin wedi ei osod ar y bwrdd, gofynodd fendith arno â'i lygaid yn agored; ac heb roddi cymaint a diweddnod, dechreuodd fy ngwestiyno beth a gymerwn i'w fwyta. Yr oedd yno gyflawnder o bob danteithion, a synai y gŵr caredig fy mod yn bwyta càn lleied, ac o'r braidd y gallwn ei berswadio fy mod yn iach. Yr oedd yn ymddangos mai un o bleserau penaf Mr. Pugh oedd gweled pawb o'i gwmpas yn bwyta yn galonog; canys yr oedd ei lygaid yn cynniwair yn barhâus i edrych a oedd gan bawb yr hyn a fynai, a chyda hyny yr oedd bob rhyw ddau fynyd yn estyn tamaid i'r ci bach yr oedd wedi ei ddysgu i sefyll ar ei draed ol, ac i'r gath oedd yn eistedd yn grwn ar dop y gadair wrth ei ysgwydd. Nid cynt yr oedd y pryd drosodd nag y gadawodd Mr. Pugh yr ystafell er mwyn rhoddi tro i'r buarth, i weled a oedd gan y ferlen, a'r fuwch, a'r mochyn, a'r creaduriaid eraill 'fwyd.' Tra yr oedd efe wrth y gwaith hwn, yr oeddwn innau, gyda chynnorthwy Mrs. a Miss Pugh, yn astudio darluniau ysplenydd yr ystafell. Edrychwn ar *oil painting* o fachgen ieuanc, pan ddychwelodd Mr. Pugh yn llawn ffwdan ac yn chwythu yn enbyd. Daeth i fy ymyl, a gofynodd i mi a oeddwn wedi blino. Atebais nad oeddwn mewn un modd. Nid oeddwn yn canfod dim tebygolrwydd yn y darlun i neb a welswn erioed, ac nid oedd dim neillduol ynddo ond fod y ffrâm yn ymddangos yn hynod gostus. Bum mor anffortunus a gofyn darlun o bwy ydoedd. Càn gynted ag y gofynais y cwestiwn, gadawodd Miss Pugh yr ystafell. Gogwyddodd yr hen ŵr llawen ei ben, a thaenodd cwmwl càn ddued ag anobaith

dros ei wyneb, tra y treiglai deigryn i lawr ei ddwy rudd; a chyda llais dystaw oedd heb fod o gwbl yn debyg i'w lais ef ei hun, dywedodd, a phob gair fel pe buasai yn ei dagu,

"'Pictiwr—ydyw—o—fy—machgen—Bob.'

"Rhoddodd fy nghalon dro ynof, a theimlwn, er yn ddiniwed, fel pe buaswn wedi trywanu yr hwn a ddangos asai y caredigrwydd mwyaf tuag ataf. Ni wyddwn pa beth i'w ddyweyd. Edrychais, ac yn ddigon ynfyd mi wn, ar Mrs. Pugh; cauodd hithau ei dwrn arnaf yn awgrymiadol i beidio son ychwaneg am y darlun. Ni theimlais erioed mor annigonol i'r amgylchiad. Ni wyddwn pa un ai wedi marw ai 'dafad ddu oedd y bachgen Bob.' Ofnwn mai yr olaf. Pan fedrais hel fy meddyliau at eu gilydd, cymerais afael yn mraich Mr. Pugh, ac arweiniais ef mor garedig ag y gallwn i ben arall yr ystafell lle yr oedd ffenestr yn gwynebu'r ardd, a cheisiais droi yr ymddyddan at rywbeth arall. Os bu yr ychydig allu ymddyddanol a feddaf ar ei lawn egni erioed, y tro hwn y bu; a chyda chynnorthwy Mrs. Pugh, llwyddais tu hwnt i'm dysgwyliad. Ymhen ychydig fynydau yr oedd y cwmwl wedi cilio, a Mr. Pugh yn ei hwyliau arferol. Dywedodd wrthyf fod yn rhaid i mi fyned gydag ef i weled rhai o fy nefaid, fel y galwai efe aelodau yr eglwys. Nid oedd yn ddrwg genyf ei glywed yn dyweyd hyn. Yr oeddwn yn deall fod Mr. Pugh wedi gofalu am letty cysurus i mi gyda gwraig weddw heb fod yn hen iawn, yr hon a ystyrid yn ddynes lân a pharchus, ond hysbyswyd fi mai yn y 'Cartrefle' yr oeddwn i aros y noson hono. Pan oedd Mr. Pugh a minnau yn cychwyn allan, cyfarfuasom â Miss Pugh. Yr oedd ei llygaid yn ymddangos yn llaith; ond pan welodd hi ei thad yn edrych mor llawen, daeth y fath gyfnewidiad dros ei hwyneb nes oeddwn braidd yn tueddu i alw yn ol y syniad a ffurfiaswn am dani, sef nad ydoedd yn brydferth. Pan oeddym yn troi am un gongl i'r tŷ, gwelwn wrth y gongl arall *beak cap*—trwyn, ac un llygad o'r eiddo Jim yn ein gwylio, ac ar yr un foment

dychwelodd Mr. Pugh i'r tŷ i geisio ei spectol. Càn gynted ag y cafodd Jim gefn ei feistr, daeth ar un llam i fy ymyl, gan daraw ei law ar ei gap. Deallais ei neges, a rhoddais iddo swllt. Gloëwodd ei lygaid prydferth, a gwadnodd i ffwrdd fel carw i fyny un heol ac i lawr heol arall, a chyn pen chwarter mynyd yr oedd o'r golwg. Prin y gallwn gredu ei fod ar gymaint brys a hyny am wario y swllt; a tharawodd i fy meddwl y gallai fod gan yr hogyn cyfrwysddrwg hwn rywun oedd yn anwyl a hoff ganddo, i'r hwn neu yr hon y cariai ei ennillion. Dechreuais feddwl yn well o Jim.

"'Y lle cynta' y rhaid i mi fyn'd â ch'i ydi'ch *lodjin*,' ebe Mr. Pugh. 'Mrs. Jones ydi enw'r wraig; gwraig weddw ydi hi;—dynes glên shoe ond ei bod hi braidd yn son gormod am ei gŵr ymadawedig; ond mi ddowch i ddygymmod â hyny yn fuan.'

Felly yma y daethom, a rhaid i mi bellach siarad yn ddystawach. Curodd Mr. Pugh ddrws y tŷ gyda phen ei ffon mor enbyd o drwm nes oeddwn yn dychymygu gweled y wraig dda yn neidio llathen oddiwrth lawr y gegin; ac yn y fynyd clywem hi yn dyfod i agor i ni gan siarad yn uchel,

"'Yn eno pob rheswm, be sy ma?'

"Can gynted, pa fodd bynag, ag y gwelodd Mrs. Jones mai Mr. Pugh oedd yn euog o guro mor ddireswm, a chodi yr holl gymydogaeth, newidiodd tôn ei llais y foment hono, a dywedodd,

"'Wel, Mr. Pugh bach, yr oeddwn i'n meddwl mai ch'i oedd ene; a phwy sy gynoch chi hefo ch'i? Wel, Mr. Rees, y'n gwnidog ni, yn siŵr ddigon. Wel, dowch i mewn, y mae yn dda gen i'ch gwel'd ch'i; ydi, o nghalon, ac mi fase dda gan Enoc Jones hefyd dase fo byw; yn fase, Mr. Pugh? Pwy oedd yn nabod Enoc Jones yn well na ch'i, Mr. Pugh?

"'Wel oeddan, 'roeddan ni'n nabod y'n gilydd yn o lew,' ebe Mr Pugh; ac ychwanegai, 'Be dach chi'n feddwl o'ch lodjiwr, Mrs. Jones? ydach chi'n addo rhoi digon o fwyd iddo, ac edrach ar ei ol o'n symol?'

"'Wel, rydach chi'n un garw, Mr. Pugh. 'Roedd Enoc Jones yn wastad yn deyd na welodd o rioed ych bath ch'i; a phwy oedd yn ych nabod chi'n well nag Enoc Jones, yntê, Mr. Pugh? ydach chi'n gynhes, Mr. Rees? ga i nol *slippers* i ch'i? Mi fydde Enoc Jones yn deyd yn wastad fod dyn yn gyffwyso yn well yn 'i *slippers*.'

"'Dydi Mr. Rees ddim yn myn'd i aros yma heno,' ebe Mr. Pugh.

"'Ddim yn myn'd i aros yma? B'le mae o'n myn'd, mod i mor hŷ a gofyn? Oes ne ddim byd yn y capel heno, oes ne? oes gynoch ch'i gyhoeddiad yn rhwle heno, Mr. Rees?'

"'Na, mae o'n dwad atom ni heno, ac mi ddaw atoch chithe fory. 'Doeddwn i ddim ond yn dwad i'w ddangos o heno,' ebe Mr. Pugh.

"'Wel, yr ydach chi'n un garw, Mr. Pugh, fel yr oedd Enoc Jones yn wastad yn deyd. Newch ch'i gymyd paned o goffi, Mr. Rees?'

"'Dim, diolch i chwi, Mrs. Jones; ni byddaf yn cymeryd coffi'r nos,' atebais.

"'Fydde Enoc Jones ddim chwaith. 'Roedd o yn wastad yn deyd fod coffi yn rhy drwm. Fyddwch ch'i yn cymyd coffi i frecwast, Mr. Rees?'

"'Na byddaf, bron un amser.'

"'Wel ydach ch'i run fath ag Enoc Jones yn union; dydi o, Mr. Pugh?'

"'Ydi, yn enwedig o gwmpas plygiad ei benelin,' ebe Mr. Pugh yn chwareus; ac ychwanegai, 'Cewch hamdden eto, Mrs. Jones, i weled mwy o debygolrwydd rhwng Mr. Rees a Mr. Jones; ac ystyriwch chithe hi yn *gompliment*, Mr. Rees, cael eich cymharu â dyn mor dda.'

"'Wel, pwy oedd yn nabod Enoc Jones yn well na ch'i, Mr. Pugh? nos dawch, os rhaid i ch'i fynd, ond chawsech ch'i fawr o fyn'd mor swta dase Enoc Jones yn fyw."

"'Be dach ch'i feddwl o Mrs. Jones a'ch *lodjin?* gofynai Mr. Pugh i mi. Atebais mai fy argraff oedd

ei fod yn lle cysurus a glân, a bod Mrs. Jones yn ddynes daclus, onest, a charedig, ac yn un hawdd byw gyda hi, ond dipyn yn wan.

"'*Right*, 'y machgen i,' ebe fe. 'Byddwch yn berffaith hapus wedi i ch'i ddygymmod hefo'r son am Enoc Jones. Wyddoch chi'r cynghor gefais i ystalwm? Dyma fo: i beidio priodi gwraig weddw os na byddai ei gŵr cynta' hi wedi diweddu ei oes ar y crogbren neu yn y *transport*, achos os bydd y gŵr cynta' wedi ei grogi ne ei *dransportio*, chlywch ch'i byth moni yn son am ei enw; ond os bydd o wedi bod yn ŵr go dda, chlywch ch'i byth y gair diwaetha am dano Yrŵan mi awn i edrach am Mr. Smart, un o'r defed mawr,' ebe Mr. Pugh."

Aeth Noah Rees ymlaen gyda'i adroddiad o'i argraffiadau cyntaf; ond gan fod y bennod eisoes yn rhy faith, rhaid i mi adael y gweddill hyd y nesaf.

## PENNOD XII.

### MR. SMART.

FEL y dywedwyd yn y bennod o'r blaen, aeth Noah Rees ymlaen gyda'r adroddiad.

"'Yrŵan,' ebe Mr. Pugh wrthyf, 'mi awn i edrach am Mr. Smart. 'Does dim llawer o gybyddiaeth rhyngoch ch'i âg o, ddyliwn, Mr. Rees? Dyn *noble* anwêdd ydi Mr. Smart, ond i fod o dipyn yn rhy gysàct, fydda' i'n meddwl. Mae gan bawb 'i ffordd, wyddoch, Mr. Rees; a be' dale hi fel arall? Mae tipyn o'r gŵr boneddig yn Mr. Smart; ond be' all y dyn wrth hyny? Mae rhai yn deyd mai 'i falchder o ydi'r cwbl, ac mai dene ydi'r rheswm am i fod o mor grêt hefo pobl Eglwys Loeger. Choelia i fawr; dene ydi natur y dyn. Wyddoch ch'i be'? mi fum i yn synu lawer gwaith fod Mr. Smart heb

fod yn Eglwyswr, achos mae pobol yr Eglwys, mi wydd-och, yn fwy o fonddigion na ni yr Ymneillduwyr—yn fwy gysàct rwsut; ac mi fase Mr. Smart, fum i'n meddwl, yn fwy cyfforddus yn yr Eglwys nag yn y capel. 'Dall e aros weled pobol yn dwad i'r moddion chwarter awr ar ol yr amser, neu yn dal eu pene i fyny, ac yn edrych o'u cwmpas pan fydd brawd yn gweddïo. Mi gês i scyffyl ryfeddol hefo fo unwaith am roi fy het am fy mhen cyn myn'd allan o'r capel; mae o mor gysàct a hyny. Mae o'n myn'd o'i go' os byddwn ni dipyn yn aflêr hefo'n cyfraniadau, neu os gweliff o rw anweddeidd-dra. Dene'r Cyfarfod Misol diwaetha; mi ddoth i roi tro i'r ysgoldŷ pan oedd y brodyr yn cael cinio; ond pan ddoth o at y drws, welsoch ch'i rioed mor swta y trôdd o yn 'i ol. Mi wyddwn mewn mynyd be' oedd yn 'i glopa fo. 'Lle 'dach chi'n myn'd, Mr. Smart?' ebe fi. 'Mr. Pugh,' ebe fo, 'welwch chi'r bobol ene yn byta â'u hetie am eu pene?' a ffwrdd â fo. Mae o mor gysàct a hyny. Waeth i ch'i befo; Mr. Smart sydd yn 'i le, ac mi fydden yn well pobol o lawer dae ni yn gneyd fel y bydd o yn deyd wrtho ni. Mae o a fine yn cyttuno'n burion hyd nes y daw hi'n lecsiwn. Mi fydda' i'n ffraeo tipyn hefo fo yr adeg hono, achos ddeydith o byth i bwy y mae o am *votio*; ac y mae rhai yn cymyd mantes ar hyny, ac yn deyd mai *tory* ydi o. Dim ffasiwn beth, meddwn ine; dene ydi 'i ffordd o. Dae rh'wbeth yn ei gym'ryd o oddiwrtho ni, Mr. Rees, mi fydde'n glamp o golled i ni, yn siŵr i ch'i. Mae o'n cadw'r llyfre fel *copperplate*, ac mi fydda' i'n leicio 'i wel'd o yn y sêt fawr yn edrach mor lân a theidi â phin mewn papyr. Mae o yn flaenor clyfar anwêdd; ond piti na nae o weddio yn gyhoeddus; neiff o byth. Mi ddeydith yn ods o dda ar y casgliad; ond 'does dim posib' i gael o ar 'i linie. Ond mi fydda' i'n meddwl weithie mai ddim yn leicio bod yn rhy hy ar y Brenin Mawr y mae o; mae'n gas ganddo bobol hyfion hefo phethe crefydd. Ond dyma ni wrth y tŷ,' ebe Mr. Pugh, gan guro y drws yn drwm â phen ei ffon; ac ar yr un foment dechreuodd grafu ei ben fel y bydd dyn pan

fydd wedi gwneyd camgymeriad. 'Wel, wel, mi ca' hi rwan; chofies i ddim byd am y gloch.'

"Agorwyd i ni yn ebrwydd gan lodes ieuanc lanwaith a thaclus, yn dal canwyll yn ei llaw, a chap gwŷn at faint rhosyn wedi ei binio ar ei choryn; ac nis gallaswn lai nag edrych arni fel rhagfynegiad o gysactrwydd Mr. Smart, y soniasai Mr. Pugh am dano. 'Ydi Mr. Smart adre?' gofynai Mr. Pugh. 'Ydi, syr, dowch i mewn, os gwelwch yn dda.' Tra yr oedd y lodes yn cau y drws ar ein holau, a thra yr ydoedd yn curo drws y parlwr yn ochelgar a seremonïol, yr oedd Mr. Pugh yn wincian arnaf, ac yn codi ei ysgwyddau, gan awgrymu eu fod yn dysgwyl ei chael hi.

'"Oes yna dân yn rhywle, Mr. Pugh?' gofynai Mr. Smart. 'Yr oeddwn yn meddwl oddiwrth eich gwaith yn curo mor drwm fod hanner y Dreflan ar dân. Holo, Mr. Rees! y chwi sydd yma? Mae yn dda genyf eich gweled, syr; dowch ymlaen. Yr ydych wedi dyfod yn gynt nag yr oeddwn yn eich dysgwyl; ond nid yw eich croesaw yn llai am hyny. Mrs. Smart, Mr. Rees,—Miss Smart, Mr. Rees,—Fred fy mab, Mr. Rees,—Mr. Bevan, yr ydych yn ei adnabod ef, un o'r diaconiaid, chwi wyddoch? Tra yr oeddwn yn ysgwyd dwylaw â phawb, cymerodd Mr. Pugh ei eisteddle, ac mi wyddwn ar ei wyneb y teimlai yn hapus fod fy ymddangosiad annysgwyliadwy i wedi arbed iddo ei chael hi.

"Er fy mod wedi gweled Mr. Smart yn flaenorol, nid oeddwn cyn hyn wedi sylwi ei fod yn ddyn mor hardd. Nis gwn pa un ai am ei fod yn edrych i well mantais yn ei dŷ ei hun, ai desgrifiad blaenorol Mr. Pugh o hono, a wnaeth i mi edrych arno felly y noswaith hon; ond parodd ei daldra, ei ysgwyddau llydain, ei farf laes a thrwchus, a'i ymddangosiad *noble*, ys dywedai Mr. Pugh, i mi deimlo yn fychan a diystyr yn ei ymyl. Ac nis gallaswn ymryddhâu oddiwrth y meddwl ei fod yntau hefyd yn edrych felly arnaf, ac yn dyweyd yn ddystaw yn ei fynwes, 'Wel, gresyn, gresyn, ei fod mor fychan ac eiddil.' Yr oeddwn yn argyhoeddedig o hyn bob tro yr

edrychai arnaf, er fy mod yn ceisio eistedd yn syth ac ymddangos mor fawr ag a allwn. Yr oeddwn yn gorfod cydnabod priodoldeb desgrifiad Mr. Pugh o hono, sef ei fod mor 'deidi â phin mewn papyr.' Yr oedd ei wallt wedi ei ddosranu ar hyd canol ei ben, ac wedi ei frwsio i lawr mor fanwl, nes yr oeddwn dan demtasiwn i gredu, pe symudasid un blewyn o'r naill ochr i'r llall, y buasai ei berchenog yn colli ei *centre of gravitation* y fynyd hono. Yr oedd ei ddwy locsen ddu a llaes mor debyg i'w gilydd âg ydyw dwy geiniog newydd ddyfod allan o'r *mint;* ac yr oeddwn yn meddwl ar y pryd pe cymerasai rhywun y drafferth o gyfrif a mesur y blew ar y naill gern a'r llall y cawsid hwynt yn cyfateb i berffeithrwydd. Trwy fod Mr. Smart yn wr o bryd pur ddu, yr oeddwn yn casglu oddiwrth y ffordd las oedd yn arwain oddiwrth ei wefus isaf hyd at gwlwm ei gadach, yr hon oedd yn ffurfio math o *avenue* ardderchog, ei fod yn eillio o leiaf ddwywaith yn y dydd. Yr oedd y cwlwm crybwylledig mor daclus â phe buasai wedi tyfu yno, ac yn gweithredu fel math o *pedestal* i'r goler fawr ddilychwin, yr hon oedd yn ymddangos i mi ei bod yn torsythu ac yn falch o'i sefyllfa, a'i dau big fel pe buasent yn sisial yn nghlust ei ddwy locsen mai coler bapyr oedd genyf fi am fy ngwddf. Yr oedd ei ddillad cån ddued â'r frân, a'i wasgod yn agor yn isel, gan ddadguddio crys main cån wyned â'r eira yn Salmon—mor wŷn fel pe dygwyddasai i wibedyn ddisgyn arno y buasai ôl ei draed i'w gweled yn amlwg. Heb son am yr aur a'r gemau oedd o'i gwmpas—heb son am ei *slippers* cochion, ai rhyfedd genyt ti os oeddwn yn teimlo fy mychander yn ei bresennoldeb, ac yn dechre ofni mai gwywo a chrebychu i fyny a fuaswn fel y lindys, ac y buasai rhyw forwynig yn dyfod o hyd i mi y flwyddyn nesaf wedi i mi fod yn gauafu dan glustog y gader yr oeddwn yn eistedd arni?

"Ni wnaf anturio desgrifio i ti yr argraff a wnaeth Mrs. Smart ar fy meddwl. Digon ydyw dyweyd na ddarfu i Mr. Smart ieuo yn anghymharus. Càn gynted ag y syrthiodd fy llygaid ar Miss Smart, yr oeddwn yn ben-

derfynol yn fy meddwl, er na ddarfu i mi ofyn am gadarnhâd o hyny, fy mod wedi gweled ei llun yn ddiweddar yn yr *Young Ladies' Journal of Fashion.* Nid ydwyf yn proffesu y gallaf ei desgrifio yn gyflawn, pe buasai anghenrheidrwydd am hyny. Yr oedd mor eiddil â'r syniad mwyaf arddansoddol o feinder, ac yr oedd ei thaldra a dillynrwydd cyffredinol ei hysgogiadau, yn wir weddeiddlwys. Nid wyf yn cofio i mi erioed weled neb yn meddu pryd mor dywyll. Trwy fod ei hwyneb mor welw, a'i haeliau a'i hamrantau mor dduon, pan fyddai yn edrych i lawr ar y *crocheting work* oedd ganddi yn ei dwylaw, nis gallaswn gymharu ei phryd i ddim ond i lafn o'r nos wedi ei dynu ar draws wyneb y dydd. Yr oedd ei safn mor fechan nes peri i mi feddwl nad oedd wedi ei bwriadu i ddim ond i fwyta eirin. Meddyliwn y gallasai fod ganddi dalcen uchel a phrydferth, oni buasai fod ei gwallt yn ei guddio yn ol dull uniongred yr hen Fethodistiaid, ac wedi ei dori mor gymhwys o fewn oddeutu modfedd i'w haeliau, nes dwyn i'm cof yn rymus dô gwellt ysgubor y Tyddyn Bach, ac yn wir godi hiraeth ynof am fy hen gartref. Yr oedd ganddi ffordd o osod ei phen ar un ochr, a chodi ei hysgwyddau, ag oedd yn siarad cyfrolau; ac wrth edrych arni, nis gallwn lai na meddwl mor bell ar ol y ffasiwn yr oedd Miss Pugh, druan. Yr oeddwn yn ymwybodol fod Miss Smart yn edrych arnaf, ac yn ddigon naturiol hefyd, fel *clodhopper*. Ymddangosai Fred yn hogyn bach digon diniwed, ac yn gwbl ddarostyngedig i ddysgyblaeth lem ei dad. Eisteddai ar gader uchel, a'i goesau meinion, y rhai a wisgid â *knickerbockers*, ac hosanau amryliw, yn brin o droedfedd i gyrhaedd y llawr. Edrychai mor lwfr, ac mor lonydd, ac yn meddu y fath arswyd o'i dad, nes yr oedd yn creu gwaew yn fy nghoesau. Os symudai law neu droed, byddai llygaid ei dad yn melltenu cerydd arno y foment hono. Unwaith bu mor anwyliadwrus â rhoddi ei ddwylaw yn ei bocedau; ond buan y gwnaed ef yn hysbys o'i ryfyg gan lais dwfn ac awdurdodol ei dad yn gwaeddi arno, 'Fred!' Mewn

eiliad yr oedd ei ddwylaw bychain drachefn yn gorwedd yn farwaidd ar ei gluniau, fel pe buasai yn myn'd i gael tynu ei lun. *Poor fellow!* yr oeddwn yn sicr mai Fred a finnau oedd y ddau fwyaf anghyfforddus yn yr ystafell. Yr oedd yr ymddyddan oedd yn myned ymlaen mor drwm o ran mater ac arddull fel nas gallasai yr hogyn bychan ei werthfawrogi, hyd yn nôd pe buasai yn deall tipyn o Gymraeg. Wedi iddo, trwy ymdrech digyffelyb ymron, gadw ei lygaid yn agored i edrych yn yr un cyfeiriad am yspaid ag oedd mewn gwirionedd yn glod iddo, cafodd cwsg o'r diwedd y llaw uchaf arno i'r fath raddau nes ei orfodi i'w cau am oddeutu dau eiliad. 'Fred!' ebe ei dad, a neidiodd y bychan diniwed yn ei gader fel pe buasai rhywun wedi ei drywanu yn ei fein-gefn.

"'My dear,' ebe Mr. Smart, gan anerch ei hanner oreu, 'mae yn amser i Fred fyned i'w wely. Now, Fred, say your verse to Mr. Rees before you go to bed.' Yr oedd y bychan yn rhy gysgadlyd i gofio yr adnod yn gywir; ond dywedodd gyda phob parodrwydd, 'Iesu d'wedodd, Cadewch i plant bwchin tyfod ataf i, a na wenyrwch irint.' O herwydd fod ei lygaid yn hanner cauedig, a'r naill hanner o hono mewn trwmgwsg er ys meityn, cafodd gryn drafferth i ysgwyd dwylaw â phawb o honom. Pa fodd bynag, wedi iddo gyflawni y gwaith hwn, ac i Miss Smart estyn ei boch wèn iddo i'w chusanu, ymbalfalodd allan o'r ystafell fel dyn wedi meddwi. Nis gwn pa fodd y bu, ond teimlwn wedi i Fred fyned i'r gwely ei fod rywfodd wedi taflu ei fantell drosof; canys yr oedd arnaf eisieu symud fy nghoesau a'm dwylaw yn barhâus, ond fod arnaf arswyd gwneyd hyny rhag y buasai Mr. Smart yn gwaeddi arnaf, 'Noah!' Ymddangosai pawb o'r cwmni, oddigerth Mr. Pugh, i mi fel rhan o'r dodrefn, gan mor sefydlog a *stiff* oeddym. Rhwng pobpeth, yr oeddwn yn teimlo yn dra anneddwydd. Yr hyn oedd yn fy synu fwyaf oedd fod Mr. Pugh yn gallu bod mor rhydd a chartrefol. Estynai ei goesau allan, hapus ŵr! a gosodai ei draed ar y *fender*, a

throai a throsai fel pe buasai yn ei dŷ ei hun. Nis gallaf adrodd wrthyt gynifer o weithiau y bu raid i Mrs. Smart ailosod yr *antimacassar* oedd ar gefn y gader yr oedd efe yn eistedd arni. O'r diwedd arbedodd Mr. Pugh y drafferth iddi, trwy ei luchio yn ddirmygedig ymhell oddiwrtho. Pellebrodd Miss Smart â'i llygaid i lygaid Mrs. Smart; pellebrodd Mrs. Smart i lygaid Mr. Smart. Meddyliwn mai cynnwys y *telegram* oedd—'What an ignorant man!'

"Sylwaswn cyn hyn fod gan Mr. Pugh ffordd o siarad âg ef ei hun, a hyny yn hollol anymwybodol iddo ei hun; ac o herwydd fy mod yn eistedd yn glòs yn ei ymyl, yr oeddwn yn gallu deall rhai pethau a ddywedai.

"'Mr. Rees,' ebe Mr. Smart, 'yr oedd Mr. Bevan a finnau yn siarad yn eich cylch pan y curodd Mr. Pugh y drws mor ddireswm (rhoddodd Mr. Pugh winc arnaf ei fod yn *myn'd* i'w chael hi); ac fel y dywedais o'r blaen, y mae yn wir dda genyf eich gweled wedi dyfod yma. Er pan fu farw Mr. Williams, y mae yr achos wedi bod yn dyoddef o eisieu rhywun i ofalu am dano. ('Dim dowt,' ebe Mr. Pugh.) Gwnaeth Mr. Bevan a finnau ein goreu i'ch cael chwi yma (cododd Mr. Pugh ei ben fel pe buasai yn ammheu ei glust, a rhoddodd ef i lawr wed'yn, a dywedodd wrth ei wasgod, 'Symol, thenkiw'). Mae yn wir mai nid oddiwrthym ni fel diaconiaid y cychwynodd y peth ('Fu 'rioed well gwir,' ebe Mr. Pugh), ac fel y sylwodd Mr. Bevan mewn cyfarfod brodyr mai gwell fuasai i'r peth fod wedi dyfod oddiwrth y swyddogaeth ('Pryd y base hyny, tybed?' ebe Mr. Pugh); er ar yr un pryd, fel y sylwodd Mr. Bevan ar yr un amgylchiad, 'Mae perl i'w gael weithiau o enau llyffant' ('Piti na fase ni gyd yn llyffint,' ebe Mr. Pugh yn ddystaw). Yr wyf yn meddwl, Mr. Rees, y cewch ni yn bobl digon hawdd byw gyda ni, hyny ydyw, y swyddogion, càn belled ag y byddwn yn gallu cydweled ('Rheswm,' ebe Mr. Pugh). Er fy mod yn mawrhâu fy swydd fel diacon, nid wyf fi ddim, syr, ddim; ond am Mr. Bevan, yr ydych yn ei adnabod ef; y mae efe

wedi ei ddonio â'r cymhwysderau anghenrheidiol i'r swydd; mae yn hysbys o holl drefniadau Methodistiaeth, yn siaradwr gwych, yn rhywbeth yn y Cyfarfod Misol; ydyw, yn rhywbeth, syr. Am danaf fy hun, ni byddaf fi byth yn myn'd i Gyfarfod Misol, ac nid oes fy anghen yno.'

"'Mr. Smart,' ebe Mr. Bevan, 'mae yn rhaid i mi ——.'

"'Mr. Bevan,' ebe Mr. Smart, 'yr wyf yn adnabod fy hun' ('Mi faswn i yn leicio nabod fy hun,' ebe Mr. Pugh), ac yr wyf yn meddwl fy mod yn adnabod Mr. Bevan.'

"'My dear,' ebe Mrs. Smart, 'you are always running yourself down.'

"'Does he run himself down now, ma?' gofynai Miss Smart.

"'Well, don't you hear him?' ebe Mrs. Smart.

"'I do hear him, but, ma, you know I don't understand Welsh,' ebe Miss Smart.

"'My dear,' ebe Mr. Smart, gan gyfarch ei gig a'i waed, 'the subject we are now discussing is entirely outside the sphere of your observation, not to say comprehension.'

"'Cewch, Mr. Rees, chwi a gewch Mr. Bevan yn llaw ddehau, yn gynnorthwy, ac yn gefn i chwi. Yr wyf fi yn ceisio edrych ar ol y llyfrau, ac hwyrach y gallaf ddyweyd cymaint a hyn heb ymddangos fy mod yn ymffrostio—nad oes genyf ofn i neb eu gweled ('*Copperplate*,' ebe Mr. Pugh). Mae arnaf ofn fod y diweddar Mr. Williams wedi ein camarfer, Mr. Rees. Beth bynag a ddywedai Mr. Bevan—ac hwyrach y gallaf ddyweyd, a finnau ('A chwithau,' ebe Mr. Bevan), hyny a safai. Yr oeddym bob amser yn gallu cydweled. Yr wyf yn meddwl y gallaf ddyweyd hefyd, beth bynag a ddywed Mr. Bevan, y bydd y diaconiaid eraill, sef Mr. Phillips a Mr. Howells, yn rhoi i mewn. Gyda golwg ar Benjamin Prŷs y mae efe yn gofalu mwy am ansawdd ysbrydol yr eglwys nag am ei hamgylchiadau allanol ('*Poor* Benja,' oddiwrth Mr. Pugh). Ar y

cyfan, Mr. Rees, yr wyf yn meddwl y cewch ni yn bobl hawdd cydfyw â ni.'

"'Drwg genym, Mr. Rees,' ebe Mr. Bevan, 'nad allwn addaw gwell cyflog i chwi, gan nad ydyw nifer ein heglwys ond rhyw ddau cant a hanner.'

"'Mr. Bevan,' ebe Mr. Smart, 'esgusodwch fi—dau cant ac un ar ddeg a deugain.' ('Mor gysàct!' ebe Mr. Pugh.)

"'Thank yòu, Mr. Smart, Ië, gan nad ydyw ein nifer ond dau cant ac un ar ddeg a deugain, a'r rhai hyny gan mwyaf yn dlodion.'

"'Esgusodwch fi eto,' ebe Mr. Smart, 'mae wyth o bob deg, neu yn fwy manwl, wyth a hanner o bob deg, yn dlodion.'

"'Gwir, Mr. Smart,' ebe Mr. Bevan; 'gan fod wyth a hanner o bob deg yn dlodion, nid allwn ar hyn o bryd addaw yn gyflog fwy na deugain punt yn y flwyddyn.'

"'A'ch Sabbothau,' ebe Mr. Smart.

"'A'ch Sabbothau,' ebe Mr. Bevan; 'ond mewn lle fel hyn,' ychwanegai, 'yr wyf yn meddwl y gellwch fyw yn gysurus.'

"'*And respectable*,' ebe Mr. Smart, 'mae mwy yn hyny nag a feddyliai neb—i ddyn fod yn *respectable*. Mae Mr. Bevan yn gwybod y byddaf fi bob amser yn dyweyd mai yn y fan yna y mae pobl Eglwys Loegr yn ein curo; a llawer gwaith y dywedais hyny wrth y diweddar Mr. Williams. Dyna Mr. Brown, y curad: nid yw ei gyflog ef ond can' punt yn y flwyddyn, ac nid oes ganddo ef ei Sabbothau; ac eto y mae bob amser yn *respectable* ei ymddangosiad a'i ymddygiad. Beth ydych chwi yn ei ddyweyd, Mr. Pugh? yr ydych yn siarad cryn lawer â chwi eich hunan yn y fan yna. Byddaf fi bob amser yn hoffi cael barn dyn er na fydd yn swyddog, fel y mae Mr. Bevan yn gwybod.'

"'Y meddwl i ydi,' ebe Mr. Pugh, 'y dyle dyn i ddechre gael digon o fwyd.'

"'Mae genyf ofn, Mr. Pugh,' ebe Mr. Smart, 'eich bod chwi yn dipyn o *epicurean*.'

"'Picuwriwch chwi fel y fynoch,' ebe Mr. Pugh, 'mae yn rhaid i ddyn gael digon o fwyd. Weles i rioed ddaioni o neb, na neb fedre neyd ei ôl mewn byd nac eglwys, os na chae o ddigon i fwyta.'

"'Purion,' ebe Mr. Smart, 'ni bydd llawer o berygl i Mr. Rees fod yn ol am ymborth tra bydd Mr. Pugh yn y Dreflan. Ond dyma oeddwn i yn ei ddyweyd, ei fod o'r pwys mwyaf i weinidog yr efengyl feddu *appearance*, onidê y mae yn sicr o golli y parch sydd ddyledus iddo. Yr wyf yn adnabod llawer o'n gweinidogion goreu nad ydynt yn cael y parch a haeddant, am nad ydynt yn cadw i fyny *appearance*.'

"'Mr. Rees,' ebe Mr. Pugh, 'mae yn rhaid i ni wneyd ein *disappearance*. Esgusodwch ni, frodyr; yr ydym eisio rhoi tro i edrach am Benjamin Prŷs.'

"'Yr ydych yn gwneyd yn dda, Mr. Pugh,' ebe Mr. Smart; 'nid oes dim gwell nag i'r bugail ymgydnabyddu âg opiniynau y swyddogion yn gyntaf oll. Pe buasai amser yn caniatâu, Mr. Rees, buasai yn dda genyf i Mr. Bevan gael cyfleusdra i adrodd wrthych ei olygiadau; ond fel y mae wedi dygwydd, yr wyf fi wedi cymeryd yr amser i gyd agos i mi fy hun. Mae Mr. Bevan a minnau fel *men of business* yn edrych ar bethau o wahanol safle i chwi y bugeiliaid; ac yr ydym wedi cael pob profion fod *appearance* gyda chrefydd, yn gystal â masnach, yn myned ymhell. Cofiwch yr arwyddair: *Appearance, appearance*.'

"Diolchais iddo am ei gynghorion, a hwyliodd Mr. Pugh a minnau i ymweled â'r hen frawd o'r tŷ pobtŷ; ac addawodd Mr. Pugh i mi ar y ffordd y cawn rywbeth yno heblaw *appearance;* a dywedodd y gwir. Ond mi welaf ei bod yn myned yn hwyr, a thithau yn dechreu anesmwytho; felly gadawaf hanes fy ymweliad â Benjamin Prŷs hyd rywdro eto."

## PENNOD XIII.

### O'R CARTREFLE AT WELY ANGEU.

YR oedd Noah Rees wedi bod rai wythnosau yn y Dreflan, ac wedi defnyddio yr amser hwnw gan mwyaf i ymgydnabyddu â'r eglwys a'r gynnulleidfa, ymweled â'r tlodion a'r cleifion, sefydlu cyfarfod darllen, ac yn y blaen; a rhwng pobpeth, nid oedd efe ar un cyfrif wedi bod yn segur; ac fel ysgub newydd yr oedd yn cael gair da gan bawb. Dywedid fod hyd yn nôd Mr. Jeremiah Jenkins wedi cyfaddef wrth un o aelodau yr eglwys y gallai y bugail, wedi'r cwbl, wneyd rhyw gymaint o ddaioni. Yr oedd Noah Rees ei hun yn teimlo yn lled ddedwydd yn ei waith, ac wedi cael gwaredigaeth i raddau mawr oddiwrth y pryder oedd ymron â'i lethu ar ei ddyfodiad cyntaf atom.

Yr unig beth ag oedd yn achosi anesmwythder i'w feddwl oedd, ei fod yn teimlo fod ei holl ysgogiadau rywfodd yn cael eu llywodraethu gan y gŵr da hwnw Mr. Pugh, yr hwn nad ydoedd yn flaenor. Os byddai eisieu cynghor neu gyfarwyddyd ynglŷn â'r peth yma neu y peth arall, rhedai ei feddwl yn naturiol nid at Mr. Smart, nac at Mr. Bevan, ond at Mr. Pugh. Pa fodd yr oedd hyn yn bod nis gwyddai; a llawer gwaith y ceisiodd ymryddhâu oddiwrth y dylanwad a'r swyn a feddai yr hen foneddwr arno, oddiar ofn i'w cyfeillgarwch mawr greu eiddigedd yn y swyddogion. Ond po fwyaf y ceisiai efe ymryddhâu, tynaf yn y byd y teimlai rwymau y gyfaredd am dano. Soniai Noah am hyn wrthyf pan yr oedd ef a minnau yn cyflymu trwy y gwynt a'r gwlaw un noswaith tua'r Cartrefle. Awgrymais wrtho, mewn dull chwarëus, mai nid yn Mr. Pugh, o bosibl, yr oedd y swyn, ond yn rhywun oedd yn berthynas led agos iddo. O herwydd ein bod yn cerdded fraich am fraich, pan wnaethum y sylw hwn wrtho, teimlais ysgytiad yn myned trwy ei gorff;

ac er fod y noswaith yn dywell, yr oeddwn yn ymwybodol fod ei wyneb gonest yn edrych yn dramgwyddedig arnaf, tra y protestiai ei fod yn berffaith rydd oddiwrth y dylanwad y cyfeiriais ato. Gan nad oedd y pwnc yn hyfryd i'w deimlad, ni chyfeiriais ato drachefn; ac ni chyfnewidiwyd llawer o eiriau rhyngom nes i ni gyrhaedd y Cartrefle.

Derbyniwyd ni gan y teulu caredig fel pe buasent heb ein gweled er ys blwyddyn. Eisteddai Mrs. Pugh mewn cader esmwyth. ar un ochr i'r tân, a Mr. Pugh, gan ysmocio o bibell wen hir, a chan estyn allan ei goesau mewn dull hapus, a eisteddai yr ochr arall. Yr oedd ei ben moel yn dysgleirio fel gwydr, a'r olwg arno yn awgrymu i mi ddyn oedd ar delerau da â'i gydwybod, ac yn benderfynol o wneyd y goreu o'r byd drwg presennol Yr oedd y ddau yn gwrando ar Miss Pugh yn darllen iddynt, yr hon càn gynted ag yr agorwyd y drws i ni i ddyfod i mewn, a gauodd y llyfr. Gan nad pa mor fer a fyddo y siwrnai, un o'r mynydau mwyaf dedwydd yn mywyd dyn, onidê, ydyw yr adeg y bydd yn cau y drws ar ddannedd y gwlaw a'r gwynt ystormus, ac yn myned i ystafell gynhes a chlyd, yn enwedig os bydd yno galonau cynhes i'w dderbyn. Er nad oedd y pellder o letty Noah Rees i'r Cartrefle ond bychan, yr oedd yn ddigon o hyd i'n galluogi i fwynhâu y teimlad hwn yn ei helaethrwydd, a'r croesaw didderbyn-wyneb a gawsom. Ond po fwyaf yr oeddym ni yn ei fwynhâu o gysuron yr ystafell a'r cwmni, mwyaf yn y byd yr ymddangosai fod yr ystorm—oblegid yr oedd yn ystorm mewn gwirionedd erbyn hyn—yn cenfigenu wrthym. Yr oedd y gwlaw yn dyfod i lawr fel diluw, ac yn curo yn ddiarbed yn erbyn y ffenestr oedd yn gwynebu yr ardd. Ymgenglai y gwynt nerthol am gonglau y tŷ, fel pe buasai yn benderfynol o'i dynu i fyny o'i sylfeini; ac wedi methu yn ei gais, elai ymaith dan ruo yn rwgnachlyd a siomedig i ddychwelyd drachefn gyda mwy o nerth a phenderfyniad. Eilwaith ac eilwaith y ceisiai daflu y tŷ i lawr, ac eilwaith ac eilwaith yr elai ymaith yn ddigofus i gasglu adgyfnerthion.

Ymddangosai unwaith fod y simdde ac yntau yn ngyddfau eu gilydd—y gwynt am ddyfod i mewn, a'r simdde am ei gadw allan. Wedi methu gyda'r simdde, ymosodai ar y drws a'r ffenestr, ac, fel y Sodomiaid gyda'r angylion, gwaeddai trwy dwll y clo arnom i ddyfod allan iddo gael ein lladd; ond yr oeddym ni yn ddigon diogel yn llaw ein Lot gyfiawn. Nid oedd eisieu i'r teulu ein perswadio i barhâu ein harosiad, oblegid prin y buasai un o honom yn dychymygu am droi allan nes i'r ystorm fyned drosodd.

Heblaw fod fy nghyfaill Noah wedi ei gymeryd i fyny gan yr ymddyddan oedd yn myned ymlaen rhyngddo ef â Mrs. a Miss Pugh, yr oedd ei gydnabyddiaeth â Mr. Pugh a'r teulu mor ddiweddar ac anmherffaith fel na ddarfu iddo, yr wyf yn sicr, sylwi fod wyneb yr hen foneddwr yn gwisgo gwedd wahanol y noswaith hon i'r hyn a arferai fod. Er ei fod fel y dywedwyd, ar yr olwg gyntaf arno, yn ddarlun o ddyn perffaith hapus, nid allwn beidio meddwl ei fod yn gwisgo ei wenau i guddio y tristwch a'r gofid dwfn oedd yn llechu tu cefn i'w sirioldeb ymddangosiadol. Weithiau byddai yn anghofio cadw gwyliadwriaeth ar ei wyneb, ac yn edrych yn syn ac absennol ei feddwl. Dro arall chwarddai yn uchel ar ryw sylw a wneid ar y pryd. Ei ofal mawr oedd cadw oddiwrth Mrs. a Miss Pugh ei wir deimladau. Gwelais ef fwy nag unwaith, pan feddyliai nad oedd neb yn sylwi arno, yn syllu yn fyfyrgar ar y darlun oedd uwch ben y lle tân, at yr hwn y cyfeiriwyd mewn pennod flaenorol. Yr oeddwn yn sicr ymha le yr oedd meddyliau Mr. Pugh y noson hon, ac yr oeddwn yn sicr fod yno un arall yn gwybod; oblegid nid oedd dau fynyd nesaf at eu gilydd yn myned heibio heb ei bod yn cyfeirio ei llygaid yn bryderus ato, ac yn defnyddio pob mantais i ennill ei sylw, gan ofyn yn feunyddiol, "'Nhad, be dach chi'n feddwl? &c." Oedd, yr oedd ei meddwl bywiog a threiddgar yn gwybod yn well na mi ymha le yr oedd ei fyfyrdodau. Clywai ef yr ystorm yn dywedyd rhywbeth gwahanol i'r hyn a ddywedai wrthym ni. Rhedai ei

ddychymygion ef ar gefn yr ystormydd dros foroedd geirwon cythryblus, lle y gwelai rywun anwyl a hoff gan ei enaid ar lestr fregus yn ymladd yn ddewr â'r elfenau gwallgof a chynddeiriog. Deonglai ef udiadau cwynfanus a thorcalonus y gwynt fel yn cario llais rhywun yn gwaeddi, "Help! help!" ac heb gynnorthwywr. Y llencyn iraidd, gwyneb-agored, canwyll ei lygad a chanolbwynt ei obeithion goreu un tro, ar yr hwn yr arferai edrych gydag edmygedd pan gariai ei lyfrau dan ei gesail i'r ysgol rammadegol,—a welai yn awr yn ei ddychymyg yn suddo i ddyfrllyd fedd, yn nghanol crechwen wawdus y dymhestl. Ar adegau megys y noswaith hon, byddai golygfa ar ol golygfa yn myned drwy feddwl Mr. Pugh. Weithiau byddai yn portreadu y gwrthddrych yr oedd newydd ei ganfod yn suddo yn y dyfnder mawr, yn grwydryn tlawd, diymgeledd, yn nghanol rhyw ddinas boblog a phellenig; brydiau eraill gwelai ef yn nghanol anialwch unig a disathr, wedi colli ei lwybr, a dim ond rhuadau milod anwar a rheibus i'w clywed o'i gwmpas. Dychymygion oeddynt, mae yn wir, ond dychymygion a achosent gymaint o ofid iddo ef ymron â phe buasent yn ffeithiau. I un oedd yn gwybod ychydig o hanes y teulu. nid oedd mwy o anhawsder darllen wyneb Mr. Pugh y noswaith hon na darllen llyfr.

Yr oeddym wedi bod oddeutu dwy awr yn y Cartrefle, gallwn feddwl, pan ddechreuodd yr ystorm liniaru, ac yr ymddangosai ei bod wedi gwario ei hadnoddau. Fel yr oedd y gwynt yn myned yn wanach ac ymhellach oddiwrthym, yr oedd wyneb ein hen gyfaill yn llacio ac yn adfeddiannu ei naturioldeb arferol. Eisteddai Mr. Pugh â'i gefn at y ffenestr, ac eisteddwn innau ymron ar ei gyfer. Gan fod y ffenestr yn gwynebu yr ardd, fel y sylwyd, a chan nad oedd na ffordd na llwybr yn myned heibio iddi, nid ystyrid yn anghenrheidiol dynu y gorchudd drosti wedi goleuo yr ystafell. Yr oeddwn ar fedr galw sylw fy nghyfaill Noah fod yn amser i mi hwylio tua chartref, pryd y dygwyddodd i mi edrych yn nghyfeiriad y ffenestr, ac y gwelais, neu o leiaf y dychymygais weled

wyneb dyn yn glòs ar y gwydr. Yr oeddwn yn sicr fy mod yn adnabod y wyneb, pa un bynag ai dychymygu ai peidio yr oeddwn. Pa hyd y buasai yn edrych trwy y ffenestr nis gwyddwn; ond y foment yr edrychais i arno, diflanodd fel ysbryd, a chollais ef yn y tywyllwch. Cynhyrfwyd fi yn ddirfawr, ond yr oedd yn dda genyf nad oedd neb yn sylwi arnaf.

Cyn i mi allu dyweyd gair, curwyd drws yr ystafell. Teimlwn fy nghalon yn fy ngwddf pan waeddodd Mr. Pugh, "Dowch i mewn." Yr oeddwn yn edrych yn bryderus tua'r drws pan wnaeth Jim ei ymddangosiad. Pan welais ef yn edrych mor welw a dychrynedig, penderfynais yn fy meddwl nad oeddwn wedi cael fy nhwyllo gan fy nychymyg. Cododd Jim ei fys ar Mr. Pugh, heb yngan gair. Yr oeddwn erbyn hyn yn sicr fy mod yn iawn. Ond pa faint oedd fy siomedigaeth pan glywais Jim yn dyweyd wrth Mr. Pugh, gan hanner tagu, fod ei fam "*just* a marw, ac isio gweld y 'gethwr." Ofnwn hysbysu yr hyn a welswn, rhag mai dychymyg ydoedd. Pan ddechreuodd Mr. Pugh holi Jim, torodd yr hogyn i wylo allan yn hidl, ac nis gallai ddyweyd un gair; yn unig edrychai yn ymbilgar ar Noah, fel pe buasai bywyd ei fam yn dibynu arno. Yr oedd Noah yn barod i gychwyn càn gynted ag y deallodd beth oedd neges Jim. Daeth Mr. Pugh i'n danfon at y drws; a phan oedd wedi ysgwyd llaw â ni, ac ar fedr cau y drws, sylwodd fod Jim yn edrych yn bryderus i'w wyneb, ac yn cydio yn dỳn yn labet ei gôb. Yr oedd hyny yn ddigon. Rhoddodd Mr. Pugh ei het am ei ben, a'i gôb uchaf am dano, a daeth gyda ni. Rhedai Jim o'n blaenau, fel y bydd ci yn gwneyd pan y bydd yn cael myned allan gyda'i feistr; yna safai nes deuem o hyd iddo, ac ymaith âg ef drachefn am encyd; ac os gwelai efe ni yn lled hir heb ddyfod i'r golwg, deuai i'n cyfarfod, a phan fyddai o fewn ychydig latheni i ni, ail gychwynai. Yr oeddwn wedi fy nghythryblu gymaint gan yr hyn a welswn, fel nad allwn feddwl am ddim arall ymron. Er ei bod yn noswaith lled dywyll, nis gallwn beidio edrych i bob

congl ac i lawr pob heol yr oeddem yn myned heibio iddi, gan ddysgwyl bob mynyd weled yr un gwrthddrych yn troi i fyny; ond yr oedd y cwbl yn ofer, ac yr oeddwn bron a chredu mai lledrith o gread fy nychymyg oedd y cyfan.

Er fy mod yn anewyllysgar iawn, bu raid i mi fyned gyda Mr. Pugh a Noah i dŷ Ismael Price, tad Jim. Yr wyf eisoes, mewn pennod flaenorol, wedi rhoddi desgrifiad lled helaeth o "Fuarth Jenkins." Nid cysurus o gwbl ydoedd teimlo ein ffordd i'r fath le, ac ar y fath noswaith. Gwyddwn yn dda oddiwrth ddystawrwydd Mr. Pugh fod arno ofn mawr; ac nid heb achos, oblegid yn y Buarth hwn yr oedd y cymeriadau gwaethaf fel brodorion ac estroniaid yn preswylio. Nid ydoedd y gwlaw trwm wedi gwella dim ar yr arogl a'n cyfarfu oddiar yr amser y buasai Mr. Pugh a minnau i lawr y Buarth hwn o'r blaen pan yn ceisio rhai i'r Ysgol Sul. Yr oedd Jim yn ein harwain, a minnau yn ei ddilyn, a Mr. Pugh, gan gydio yn glòs yn Noah, yn cerdded yn lled agos at ein sodlau. Cerddasai y nos ymhell, a meddyliais unwaith fod pawb o'r trigolion wedi myned i orphwyso, hyd nes y daethom yn lled agos i waelod y Buarth, pryd y clywsom swn cwmni llawen. Deuai y swn allan o dŷ oedd â'i ddrws yn llydan agored. Yr oedd yr ystafell oedd yn y golwg wedi ei goleuo yn brâf, a gwelid pedwar o ddynion, mileinig yr olwg, yn eistedd o gwmpas bwrdd crwn, ar yr hwn yr oedd *jug* mawr ac amryw wydrau. Cymysgai a throai un o'r dynion swp o docynau, tebyg o ran maint i docynau cyngherdd, ond eu bod yn lliwiedig, a throsai hwynt gyda chyflymdra anarferol. Yn eistedd wrth ochr y pentan â phibell fer yn ei safn, canfyddais y wraig aflawen, lygadgroes, a gyfarfu Mr. Pugh a minnau yn ein hymweliad cyntaf â'r Buarth. Yn ngoleuni dysglaer yr ystafell, ymddangosai ei chroen càn ddued a chàn futred, nes peri i mi feddwl na fu drws y tŷ yn agored erioed o'r blaen, a'i bod wedi arfer myned a dyfod trwy y simdde. Taerai y fudrogen hon

yn ffyrnig â rhywun, ond yr unig eiriau a ddeallais oeddynt, "Jack is high Jack, I tell you." Er na ddarfu i'r cwmni ein gweled yn myned heibio, yr oeddym yn sicr eu bod wedi clywed swn ein traed, oblegid cyn i ni fyned nemawr o latheni ymlaen, clywsom ddrws y tŷ yn cael ei gau a'i gloi.

Pan ddaethom at dŷ Ismael, agorodd Jim y drws heb guro. Aethum i mewn, yn cael fy nilyn gan fy nau gyfaill. Ar y mynediad i mewn i'r tŷ, a welais i rywun yn llithro i'r ystafell gefn yn gyflym, ac yn cau y drws yn ddystaw ar ei ol? Ai yr un un ydoedd â'r hwn a welais yn edrych trwy ffenestr ystafell Mr. Pugh? Yr un un ydoedd, neu ynte yr oeddwn i yn breuddwydio. Ymddangosai Ismael yn hynod gynhyrfus; ac yr oeddwn yn tybied fod euogrwydd i'w weled yn amlwg ar ei wyneb. Sylwais fod yr ystafell yn llawer taclusach nag ydoedd pan welais hi y tro cyntaf yn nghwmni Mr. Pugh, er nad oedd dim lleihâd wedi cymeryd lle yn nifer yr adar. Oddigerth rhyw un neu ddau a ystwyrient ar eu clwydi, yr oeddynt oll yn cysgu, ac yn ymddangos fel pe buasent wedi cael tori eu penau ymaith. Yr oedd yn ymddangos fod Noah, trwy gyfarwyddyd Mr. Pugh, wedi bod yn ymweled â gwraig Ismael amryw weithiau, a'i fod yn sefyll yn uchel yn meddwl y teulu. Ar amnaid Ismael, aeth rhag ei flaen i'r llofft, yn cael ei ddilyn gan Mr. Pugh; ac eisteddais innau i lawr, gan feddwl cael ymgom âg Ismael nes iddynt ddychwelyd. Edrychodd arnaf mewn penbleth, a chymhellodd fi i ddilyn fy nghyfeillion. Ymresymais âg ef nad allwn i wneyd dim daioni, ac mai ynfydrwydd oedd i dri o ddynion fyned i'r ystafell lle yr oedd ei wraig, o bosibl, yn ymladd âg angeu. Ond ni fynai ei wrthod. A oedd gan Ismael amcan mewn golwg wrth fy ngorfodi i fyned i'r llofft? Yr oeddwn yn sicr fod; ac nid cynt yr oeddwn wedi myned i fewn i ystafell fechan y claf, nag y clywn ddrws y tŷ yn cael ei agor yn ochelgar, a rhywun yn myned allan, a'r drws yn cael ei gau yn ddystaw ar ei ol.

Parodd yr olygfa a welais yn ystafell y claf i mi anghofio ar y pryd yr hyn oedd uchaf yn fy meddwl wrth fyned i fewn. Ar wely tlawd, ond glân, gorweddai gwraig yr hon a adnabyddais yn y foment fel yr un a welais ugeiniau o weithiau yn myned a dyfod yn y Dreflan. Yr oedd wedi myned o dan y fath gyfnewidiad fel nad oedd yn aros o honi ond y croen am yr asgwrn; ac yr oedd ei gwyneb mor welw â'r galchen, a'i llygaid, er yn bryderus, ymron a sefyll yn ei phen. Yr oedd yn berffaith lonydd, a'i hanadl yn fyr a chyflym. Safai Dr. Ellis wrth ei hochr, gydag un llaw iddo ar ei garddwrn, ac yn edrych ar ei oriawr, yr hon a ddaliai yn ei law arall. Pan ddaethum i i'r ystafell, edrychodd arnaf braidd yn anfoddog, fel pe buasai yn dyweyd, "A oes llawer ychwaneg o honoch yn dyfod?" Teimlwn fod y cerydd yn berffaith haeddiannol. Yn eistedd yn ymyl y gwely yr oedd yr hen chwaer ffyddlawn Siân Jones, yr hon yr oeddwn wedi ei cholli yn ddiweddar o'r capel; a chefais esboniad ar ei habsennoldeb. Symudai yr hen wreigan dduwiol ei phen i fyny ac i lawr, ac yr oedd yn amlwg ei bod mewn ymdrech meddwl a gweddi ar ran yr hon oedd ar gael ei gwysio i wyddfod ei Barnwr. Safai Jim a'i ddau benelin yn gorphwys ar ystyllen pen isaf y gwely, gan gynnal ei ben rhwng ei ddwylaw, ac yn edrych yn ddyfal i wyneb ei fam. Nid oedd yn wylo, ond sylwais fod *twitch* yn ei wddf, a math o gryndod parhâus yn ei ên isaf. Gyda'i wallt du crych yn gorwedd yn ddiofal ar ei arleisiau, yr oedd yn wrthddrych y buasai arlunydd yn gwneyd defnydd o hono. Am rai mynydau nid oedd y wraig druan yn ymddangos yn ymwybodol o'n presennoldeb. Yn y man edrychodd yn sefydlog ar Noah; a deallodd y meddyg ei bod yn dymuno cael dyweyd rhywbeth wrtho, a chiliodd i wneyd lle iddo ddyfod ati. Pan ddaeth Noah i'w hymyl gafaelodd yn ei llaw deneu estynedig, a chydiodd hithau ynddo fel pe buasai yn cydio yn angor ei henaid; ond ni ddywedodd hi un gair. Tra yr oedd efe yn sibrwd wrthi addewidion melusaf yr efengyl, ac yn cyfeirio ei meddwl at yr Archoffeiriad mawr, a hyny mewn dull mor dde-

heuig a barodd i mi synu wrth ystyried ei ieuenctyd, yr oedd y druanes yn syllu i'w wyneb fel pe buasai yn yfed pob gair a ddywedai. Pan beidiodd Noah â siarad, gollyngodd Ann ei law, ac edrychodd braidd yn wyllt o amgylch yr ystafell, a syrthiodd ei llygaid ar Mr. Pugh. Wrth ei gweled yn dal i edrych arno, aeth yntau i'w hymyl. Gydag anhawsder mawr y clywem hi yn sibrwd wrtho,

"Cofiwch—am—Jim."

"Mi 'nâf, Ann bach, tra bydda' i byw, cen wired â mod i'n y fan yma," ebe Mr. Pugh; a thorodd i lawr heb allu dyweyd ychwaneg.

Dilynwyd hyn gan ddystawrwydd, heb gael ei dori gan neb oddigerth gan Siân Jones, yr hon a loffai ambell i adnod a adawsid yn nghyrau y meusydd yr oedd Noah newydd fod yn cynauafa ynddynt. Credwyf na ddarfu i Jim symud na llaw na throed, nes i'r meddyg fyned ato, gan roddi ei law yn dyner ar ei ben, a'r berswadio i fyned i lawr i'r gegin. Yr oedd y bachgen yn anfoddlawn iawn i golli golwg ar ei fam; ond mewn ufudd-dod i Dr. Ellis, llithrodd yn ddystaw o'r ystafell. Edrychodd Mr. Pugh yn ofyngar i lygaid y meddyg, a sibrydodd yntau nad allai wneyd dim rhagor i'r claf—ac nad oedd yn bosibl iddi weled y bore, ac mai gwell a fuasai i Siân Jones gael rhywun gyda hi yn yr ystafell. Ar hyn cododd yr hen wreigan ar ei thraed, a gafaelodd â'i dwylaw yn llaw y meddyg, a diolchodd iddo yn gynhes am ei garedigrwydd at y claf; ac ychwanegai,

"'Does yma neb yn y Buarth, Mr. Ellis bach, yn ffit i'w alw i mewn ar y fath amgylchiad. Mae nhw i gyd yn annuwiol iawn. A 'does eisio neb yma chwaith. Mae Ann wedi 'nabod Cyfaill es wsnose fydd yn siŵr o fod gyda hi yn 'r afon—a mae o wedi deyd wrthi, 'Pan elych trwy y dyfroedd, myfi a fyddaf gyda thi.' Mi 'rosa i gyda hi nes y bydd y gelyn diwedda' wedi gneyd ei waith. 'Does gen i mo'i ofn o, a does gan Ann mo'i ofn o chwaith."

Er i'r meddyg gymhell yn daer, gwrthododd yr hen chwaer yn bendant i neb o'r Buarth gael halogi yr ystafell â'u presennoldeb. Ymlonodd pob un o honom gan eiriau hyderus Sian Jones. Yr oedd gwefusau Ann yn ymsymud yn barhâus, ond nid allem ddeall dim oll a ddywedai, oddieithr "Jim." Gan nad allem wneyd un gwasanaeth iddi, a chan nad oeddym yn dymuno hyll-dremu, aethom o'r ystafell gan adael Siân Jones yno yn unig.

I lawr yn y gegin yr oedd Jim yn eistedd ar ystôl, a'i ben yn gorwedd ledochr ar ei freichiau, y rhai a orphwysent ar fainc weithio ei dad. Yr oedd wedi wylo ei hunan i gysgu, a'r deigryn olaf wedi sefyll ar hanner y ffordd i lawr ei foch lwyd. Yn awr ac yn y man ocheneidiai yn ei gwsg. Edrychodd Mr. Pugh arno yn gynhyrfus, a thynodd ei gadach poced sidan, a sychodd yn ysgafn wyneb yr hogyn, gan sisial, "Poor Jim!" Eisteddai Ismael o flaen y tân â'i bibell yn ei safn; ac er ei fod wedi ei llenwi â myglys, sylwais nad oedd wedi rhoi tân arni. Yr oedd yn rhy ofidus i allu dyweyd dim. Ceisiodd ddiolch i'r meddyg, ond torodd ei deimladau i lawr. Dywedodd Mr. Pugh rywbeth yn nghlust Ismael, a gwyrodd yntau ei ben yn ddiolchgar. Gadawsom y maes yn rhydd i'r gelyn diweddaf wneyd ei waith, yr hyn a gwblhaodd cyn i'r haul godi. Aethom ill pedwar yn ddystaw heibio y tŷ lle yr oedd y wraig lygadgroes, a chlywem chwerthin uchel ac yspleddach. Aeth y meddyg a minnau i un cyfeiriad, a Mr. Pugh a Noah i gyfeiriad arall—pob un i fyfyrio ar yr hyn a welodd ac a glywodd. Ond gwyddwn nad oedd un o honynt wedi gweled na chlywed yr hyn a welswn ac a glywswn i.

## PENNOD XIV.

### JIM.

RHAG fy mod yn gosod gormod o waith ar y darllenydd i ddyfalu, ysgatfydd y dylwn roddi gair o eglurhâd ar rai pethau na wnaed ond cyfeirio atynt yn y pennodau blaenorol. Un o'r pethau hyny ydyw y modd y daeth Jim i fod yn was i Mr. Pugh. Gan y rhaid i mi ynglŷn â hyn gofnodi amryw bethau lled blentynaidd, ni ddigiaf wrth y darllenydd coeth a dysgedig am neidio dros y bennod hon, gan hyderu y gallaf fod o ddyddordeb i fy nghyfeillion ieuainc y bechgyn.

Hwyrach y cofir mai yr adeg y daeth Mr. Pugh i gysylltiad gyntaf â Jim ydoedd y prydnawn Sul hafaidd hwnw pan fu raid i mi fyned gydag ef i geisio rhai i'r ysgol, ac y cymerodd efe fi i Fuarth Jenkins. Dedwyddwch penaf fy hen gyfaill ydoedd gweinyddu caredigrwydd; a gwyddwn cyn i ni ddyfod o'r Buarth y prydnawn hwnw, wedi iddo wybod ychydig am helbulon Ismael, ei dlodi, ac yn enwedig am afiechyd maith ei wraig, na byddai efe yn ol o wneyd ei ran tuag at eu lleddfu. Canlyniad uniongyrchol ein hymweliad â'r Buarth oedd, rhoddi gorchymyn caeth ar Jim i ddyfod bob dydd i'r Cartrefle i geisio rhywbeth i'w fam. Ni bu Jim yn fyr o ddyfod i fyny â'r gorchymyn; ac er mai croesaw bychan a gaffai efe gan Susan y forwyn, ni feiddiai hi ei droi ymaith yn waglaw. Yr oedd teulu y Cartrefle yn ddiarebol am ganiatâu i'w gweinidogion fyned yn rhy hyf arnynt; ac nid oedd Susan yn eithriad i'r rhai a fuasai yno o'i blaen. Pan ddeuai Mr. Pugh adref gyda'r hwyr, un o'r cwestiynau cyntaf a ofynai a fyddai,

"Susan, a fu Jim yma heddyw?"

"Do, mi gwranta fo," meddai Susan.

"Roist ti lon'd ei haffle fo o fwyd, dywed?" gofynai Mr. Pugh.

"Bwyd!" meddai Susan; "wn i ddim be mae o'n neyd efo'r bwyd mae o'n gael yma! 'Rydach chi'n rhy wirion o lawer, mistar, hefo rhw hen feggars fel ene, na wyddoch ch'i pwy na be ydy'n nhw. Cawn i fy ffordd, ni chai o na'i sort damed yma byth."

"Ar dy ên, Susan," atebai Mr Pugh, "rho di fwyd i Jim nes y deyda i wrthat ti am beidio."

Coleddai Susan elyniaeth farwol yn erbyn pob math o gardotwyr, gan y credai mai lladron oeddynt yn ddïeithriad; a mwy pleserus o lawer ganddi hi a fuasai cymhwyso coes y brws at gefn pob un a ddeuai at ddrws y Cartrefle nag estyn un math o gymwynas iddynt. Yn ffortunus i Jim, yr oedd Mrs. Pugh yn dwyn gormod o ddelw ei gŵr haelionus i ochri dim gyda Susan. Yr oedd yr hen ferch groendeneu wedi cyfrif ar gynnorthwy ei meistres i gael gwared o'r "hogyn drwg a budur oedd yn dŵad at y drws bob dydd;" a mawr oedd ei syndod, a dirfawr y syrthiodd ei gwep, pan ddeallodd hi fod Mrs. Pugh yn gwybod am ymweliadau Jim, ac yn tueddu yn gryf o'i blaid.

"Meistres," ebe hi, "'rydach chi'n wirionach na mistar. 'Rydw *i* wedi bod mewn llawer lle; ond weles *i* neb yn cyrajio cymint ar rôgs a lladron."

"Susan," ebe ei meistres, "nid ydyw yr hyn a roddir i Jim yn costio dim i chwi; ac y mae yr hogyn yn wir wrthddrych o dosturi. Mae tlodi mawr yn ei gartref; nid ydyw ei dad yn gryf; ac y mae ei fam yn sâl yn ei gwely er ys wythnosau."

"O ïe, dene ch'i yn credu'r cwbl," ebe Susan: "yr hen stori ydi nene, mistres. Ond dydi mhamau nhw i gyd yn sâl, a'u tadau nhw i gyd wedi marw? a rhyfedd arw fod tad hwn yn fyw!"

"Susan," ebe Mrs. Pugh, "yr ydych yn galongaled."

"Mi fase'ch calon chithe'n galetach, mistres, dasech chi'n gwbod cymint am danyn nhw â fi. Mi wn o'r gore mai un drwg ydi'r hogyn ene. Be dae chi'n gwel'd i

lygid o! Mae nhw cyn ddued â llygid y sipsiwn sy'n 'r hen ffordd lâs. Gewch ch'i wel'd fod o'n perthyn iddyn' nhw. By dae Miss Pugh ddim ond yn 'i wel'd o, y *hi* y cwartre fo o'r buarth yn o *handy*, 'dwy'n meddwl. Fedre fo mo'i thwyllo *hi*."

"Yr ydych yn siarad am rywbeth na wyddoch ddim yn ei gylch, Susan," ebe Mrs. Pugh; "ni wnaeth yr hogyn ddim niwed i ch'i, ai do?"

"Niwed!" ebe Susan yn ddirmygus; "mi faswn yn leicio 'i wel'd o'n treio! Ac mi ddaru hefyd, ran hyny; mi chwerthodd am ben 'y nhraed i pan oeddwn i'n rhedeg ar draws y buarth ddoe; ond lwc iddo nad oeddwn i yn 'i ymyl o. Dase fo wedi dyodde cymint o *riwmatis* â fi, fase fynte ddim mor *sharp* ar 'i droed."

Cafodd Mrs. Pugh drafferth i gadw ei gwyneb yn sobr wrth ofyn i Susan, "A roisoch chwi rywbeth i'r hogyn heddyw?"

"Na rois i," oedd yr ateb, "'roedd o yma pan oedd 'y mistar yn y gegin, a mi rôth o ddigon iddo fo, os digon ydi llawer, heblaw fod o wedi gneyd iddo fo eistedd wrth y bwrdd. A be dasech chi'n 'i wel'd o'n byta! 'Roedd gen i ofn 'i wel'd o'n myn'd yn sâl, dase gen i ofn hefyd. A mistar yn edrach arno fo; 'roeddwn i'n synu ato fo."

"Os daw y bachgen yma yfory, Susan, gadewch i mi gael gwybod," ebe Mrs. Pugh.

"*Os*, ddaru ch'i ddeyd, mistres? Mi ddaw yma o hyd nes y ffeindiwch ch'i golli rhwbeth. *Os* yn wir! *os* gneiff yr haul godi!"

"Purion," ebe Mrs. Pugh, gan fyned ymaith.

"Y dydd ydw *i*'n fyw os gweles *i* bobol wirionach," ebe Susan wrthi ei hunan.

Bore drannoeth a ddaeth; ac fel y prophwydasai Susan, cân sicred a bod yr haul wedi codi, yr oedd Jim wrth ddrws y Cartrefle. Gan fod yr hogyn yn berffaith ymwybodol fod ganddo orchymyn pendant Mr. Pugh wrth ei gefn, nid oedd gwyneb sarug ac anfoddog y forwyn yn effeithio mwy arno nag ar bôst y drws. Eithr pan

hysbysodd hi ef y byddai raid iddo sefyll y diwrnod hwnw o flaen Mrs. Pugh, gan awgrymu ei bod yn y pen arno, edrychodd yr hogyn braidd yn bryderus. Er fod gan y forwyn ei hammheuon ynghylch canlyniad y cyd-gyfarfyddiad, ymhyfrydai mewn bygwth a dychrynu y bachgen; a rhag mai hwn fuasai y cyfleusdra olaf iddi, yr oedd yn benderfynol o wneyd y defnydd goreu o hono.

"Wel," ebe hi, "yr hogyn drwg gen ti, wyt ti'n barod i ddeyd ffarwel wrth y Cartrefle? Wyt ti'n meddwl fod ti wedi cario digon odd'ma bellach? Fedri di fyw ar dy floneg erbyn hyn, ddyliet ti? Rhaid i ti sefyll o flaen 'y mistres heddyw, wel di, a *hi* chwiliff dy bac di! Paid ti meddwl y cei di hel dy straeon wrthi hi. Hi ddangosiff i ti ple ma'r drws! Pan ddaw mistres yma—ac mi fydd yma i ti yn y mynyd—paid ti gwadu mai lleidar wyt ti, achos mae hi yn siŵr o dy gael di allan."

grease

Aeth Susan ymlaen yn y ffordd hon am yspaid, gyda'r amcan o ddychrynu Jim a pheri iddo redeg ymaith; ond nid oedd efe yn gwneyd osgo at ddianc, eithr parhâi i ddyweyd yn ngwyneb pob bygythiad, "Mae Mr. Pugh yn deyd wrtha i ddŵad yma." Aeth Susan i hysbysu dyfodiad Jim i Mrs. Pugh, ac wrth fyned ysgydwai ei phen yn fygythiol ar yr hogyn, ac edrychai drach ei chefn, gan ddysgwyl ei weled yn dianc; ond yr oedd Jim yno mor sefydlog â'r cloc wyth niwrnod, wrth yr hwn yr oedd wedi cymeryd ei safle.

Tra yr oedd Susan yn ceisio ei meistres, cymerodd Jim drem arno ei hun, gan ddyfalu pa argraff a gaffai yr olwg arno ar galon Mrs. Pugh. Gofidiai na fuasai yn gwybod ymlaen llaw fod y fath gyfarfyddiad i gymeryd lle, er mwyn iddo gael cyfleusdra i daclu tipyn arno ei hun. Ymgysurai, pa fodd bynag, y gallasai fod yn waeth arno; oblegid fel y dygwyddodd y peth fod, yr oedd wedi ymolchi ychydig ar ei wyneb y bore hwnw; ac er fod dwy rês ddu o bobtu ei wyneb, y rhai a ddangosent yn eglur derfynau y glanhâd—cyffelyb i'r mapiau a welir yn fynych sydd yn gosod allan y byd gwareiddiedig ac anwareidd-iedig—yr oedd Jim yn hoelio llawer o'i lwyddiant gyda

Mrs. Pugh ar y ffaith ei fod wedi ymolchi. Ond yr hyn a gynnaliai ei ysbryd i fyny fwyaf oedd y botwm corn gwyn mawr a osodasai ar ei gôb y bore hwnw, yr hwn, o'i gymharu â'r botymau eraill, oedd fel llawn lleuad yn nghanol sêr y nef. Mor ffortunus yr oedd wedi bod wrth osod y botwm hwnw ar ei gôb cyn cychwyn oddicartref! Nid oedd yn bosibl, ystyriai Jim, i'r olwg arno beidio effeithio yn ei ffafr gyda Mrs. Pugh. Heblaw hyny, oni buasai am y botwm hwn, buasai Mrs. Pugh yn rhwym o ddyfod i wybod nad oedd gan Jim wasgod. Rhoddasai yr hogyn ei gap yn ei boced; ond gan yr achosai hyny iddi ymddangos yn fawr a chwyddedig, daeth Jim i'r penderfyniad mai doethach oedd ei dynu allan drachefn, rhag y buasai Susan yn tybied ei fod wedi lladrata rhywbeth yn ystod ei habsennoldeb. Ei bryder mawr oedd sut y gallai guddio y twll oedd yn mhen glin ei lodrau llydain, yr hwn a ddangosai fwy o'i groen Ethiopaidd nag oedd ddymunol. Daeth cynllun i'w feddwl. Gan fod ei gôb yn anarferol o laes, gorchwyl bychan oedd cymeryd y pin oedd yn ei llawes, a chydio ei dwy gongl ynghyd yn y gwaelod. "*First-rate*," ebe Jim wrtho ei hun, gan edmygu ei ddyfais. Eithr pan glywodd efe Mrs. Pugh yn dyfod ar hyd y *lobby* hir, a Susan yn dyweyd rhywbeth wrthi am "wel'd drostoch y'ch hun," dechreuodd ei galon guro fel calon aderyn yn y ddalfa.

"Wel, 'y ngwas bach i," ebe Mrs. Pugh, gan roddi ei llaw yn dyner ar ei ben crych, a chan edrych yn fwyn arno, "sut y mae dy fam heddyw?"

"Reit sâl; cysgu dim drw'r nos," ebe Jim.

"Mae yn ddrwg genyf glywed, 'y machgen i," ebe Mrs. Pugh. "Pwy sydd yn edrych ar ei hol yrwan?"

"Siân Jones," ebe'r bachgen.

"A ydyw Dr. Ellis yn dal i ddyfod acw?"

"Bob dydd yn *gonstant*," ebe Jim.

"Pam ddeydi di, 'mam?' Wyt ti ddim yn gwbod hefo pwy wyt ti'n siarad, dywed?" gwaeddai Susan arno yn ffyrnig.

"Susan," ebe Mrs. Pugh, "gadewch chwi rhyngof fi â'r bachgen."

"Hyh!" ebe Susan, gan guro y pethau yn eu gilydd, a gwneyd mwy o lawer o drwst nag oedd angenrheidiol.

"Wel, 'y ngwas i," ebe Mrs. Pugh, "yr wyf yn gobeithio dy fod yn fachgen da, ac y gwnaiff dy fam fendio yn fuan."

"Mae hi'n siŵr o fendio," ebe Jim.

"Beth sydd yn gwneyd i ti feddwl hyny, 'machgen i?" gofynai Mrs. Pugh.

"Siân Jones yn gweddïo bob dydd, Doctor Ellis yn rhoi ffisic, a Mr. Pugh yn rhoi bwyd," ebe Jim yn ddiniwed.

"Wel yn wir, 'y ngwas gwirion i, mae genyt le cryf i obeithio," ebe'r foneddiges. "Aros di," ychwanegai, "a welais i mo honot ti yn Ysgol Sul yr Hen Gapel yn ddiweddar? Beth wnaeth i ti beidio dal i ddyfod, Jim bach?"

"Plant yn chwerthin am y mhen i ac yn bloeddio 'taid' ar yn ol i," ebe Jim, gan edrych ar ei gôb fawr.

"Plant drwg oedd yn gwneyd hyny, 'y ngwas i, ond na hidia; cha' nhw ddim gwaeddi 'taid' ar dy ol eto," ebe y wraig garedig.

"Hyh!" ebe Susan, gan wneyd mwy fyth o drwst.

Yr oedd Miss Pugh yn clywed y rhan olaf o'r ymgom, ac yn ymddangos yn cymeryd dyddordeb neillduol yn y bachgen. Wedi peth siarad pellach, dywedodd hi wrtho,

"Fedri di fyn'd ar neges i mi, Jim?"

"Medra," ebe Jim, gan fywiogi drwyddo.

"Mae Susan," ychwanegai Miss Pugh, "braidd yn brysur heddyw, heblaw ei bod yn gloff (edrychodd Jim ar draed mawr y forwyn), ac y mae genyf eisieu i ti fyn'd â'r *note* yma i *shop* Mr. Rogers."

Cychwynodd Jim y foment hono.

"Aros," ebe Miss Pugh; "dyma'r pres i ti dalu am y neges."

Aeth Jim ymaith fel saeth.

"'Roeddwn i 'n siŵr, mistres," ebe Susan, "y gnai Miss ddyfeisio rhwbeth i brofi i ch'i mai lleidar ydi'r hogyn ene. Mi dyffeia i na welwch ch'i byth y pres na'r neges."

"Dim o'r fath beth, Susan; nid oedd dim pellach o fy meddwl. Yr wyf yn sicr fod yr hogyn druan yn onest," ebe Miss Pugh. Ac ychwanegai, "Welsoch chwi yn eich bywyd, 'mam, y fath lygaid ag sydd gan y bachgen yna? Yr wyf yn sicr na welais i erioed lygaid prydferthach."

"Maent yn hynod felly, Kit," ebe Mrs. Pugh; "pe byddai y creadur bach wedi ymolchi yn lân, a chael dillad taclus am dano, byddai fel pictiwr."

"Mi roddwn unrhyw beth ymron am ei weled felly, 'mam," ebe y ferch.

"Wel, ti gei ei weled felly cyn y byddi yn wythnos hŷn," ebe y fam.

Disgynai y geiriau hyn ar deimlad Susan fel halen ar friw, ond yr unig beth a ddywedodd oedd, "Amser neiff ddangos," gan luchio a thaflu y pethau o'i chwmpas yn ddidrugaredd. Cyn iddynt prin wybod fod Jim wedi cychwyn, yr oedd wedi dychwelyd, ac wedi colli ei wynt yn gymaint fel nad allai siarad. Yr oedd yr hogyn wedi gwneyd ei neges mewn amser mor anhygoel o fyr, fel mai o'r braidd y gallasai Miss Pugh gredu mai yn *shop* Mr. Rogers y cawsai efe y nwyddau, oni buasai fod enw y gŵr parchus hwnw wrth y *receipt.*

Teimlai Susan mor ddigofus am na phrofasai Jim ei hun yn lleidr, fel na siaradodd hi air â neb byw bedyddiol am ddau ddiwrnod cyfan. O hyny allan bu Jim yn negeseuwr cyson yn y Cartrefle; ac er ei fod trwy hyny yn arbed llawer ar gymmalwst Susan, nid oedd gelyniaeth y chwerwen hono tuag ato ronyn llai. Ymhen y deuddydd neu dri, yn unol â'i haddewid, anfonodd Mrs. Pugh am William Jones y Dilledydd i'r Cartrefle i fesur Jim am ddillad newydd; ac hyd y dydd hwn y mae y crefftwr medrus hwnw yn edrych yn ol at yr amgylchiad, fel yr unig dro y bu ei holl ymenydd ar lawn waith;

' oblegid," ebe fe, "yr oedd yn nesaf peth i anmhosiblrwydd i wybod beth oedd hŷd gwasg yr hogyn, gan nad oedd efe ond rhyw wyth neu naw oed, ac yntau wedi ei wisgo yn nillad ei dad." Pan gwblhäwyd y gorchestwaith, ac yr anfonwyd y dillad i'r Cartrefle, a phan orchymynodd Mrs. Pugh i Susan gymeryd Jim i'r *bath* cynhes a'i olchi yn lân cyn rhoddi ei wisg newydd am dano, synwyd y foneddiges yn fawr na ddarfu i'r forwyn sarug yngan gair o wrthwynebiad. Pa fodd bynag, cafodd Mrs. Pugh esboniad boddhäol ar y parodrwydd hwn ar ran y forwyn o enau Jim ei hun. Defnyddiodd Susan y *bath* yn gyfleusdra i ddangos ei llid at yr hogyn. Protestiai Jim fod y dwfr bron yn ferwedig. Cymhwysodd yr hen ferch ddialgar y brws at ei groen mor ffyrnig nes ydoedd càn goched a moronen. Pan o dan y driniaeth, os agorai Jim ei safn, rhoddai Susan lwmp o sebon ynddi y foment hono. Cyn iddo ddyfod trwy yr olchfa, yr oedd yr hogyn druan yn credu yn ei galon fod ei groen a'i gnawd wedi eu crafu ymaith, ac nad oedd dim ond ei esgyrn yn aros. Ni feiddiai agor ei lygaid i weled a oedd ei grediniaeth yn gywir ai peidio; oblegid y foment y gwnai hyny, taflai Susan gruglwyth o sebon iddynt. Dechreuodd Jim wylofain; ond po fwyaf y dolefai ef, mwyaf o sebon a roddai Susan yn ei safn. Felly bu raid iddo ohirio y mynegiad hwn o'i deimladau hyd ryw amser dyfodol, a dyoddef yn ddystaw. Tra yr oedd yr hen ferch genfigenus yn ei drin fel hyn, yr oedd ei thafod yn myn'd yn ddibaid. Mynegai er adeiladaeth Jim, os efe a ddeuai i fyw i'r Cartrefle, mai hon oedd y driniaeth y byddai raid iddo fyned drwyddi bob dydd; ac adroddai ac ailadroddai os oedd Mrs. Pugh am gymeryd *beggars* i'r Cartrefle, mai ei henw hi a fyddai *Susan Walker*.

A welodd y darllenydd y lindys yn tori ei groen garw ac anolygus, ac yn dyfod allan o'i garchar, gan ymagor yn löyn byw prydferth ac amrywliwiog? Nid llai oedd y cyfnewidiad a ganfyddid yn Jim Price wedi iddo fyned drwy orchwyliaeth y *bath*, a rhoi ei wisg newydd am

dano. Yr oedd yr olwg arno mor lân a phrydferth, nes y methodd Miss Pugh ymattal rhag ei gusanu, a hyny yn mhresennoldeb Susan, yr hyn oedd fel pe gyrid dagr i galon yr olaf. Eithr teimlai Jim ei hun—wedi ymadael â'i fudreddi a'i garpiau—yn wahanol iawn i'r lindys. Hyd nes iddo gynnefino ychydig â'i wisg newydd, edrychai yn yswil a digalon. Ofnai y byddai raid iddo bellach eistedd yn llonydd i bobl edrych arno fel yr edrychant ar ddarlun, ac fod yr adeg iddo redeg oddiamgylch â'i ben yn y gwynt wedi myned heibio am byth. Yn ei galon dymunai fod eilwaith yn ei hen ddillad mawr a charpiog. Deallodd Mrs. Pugh ei ofid, a gwnaeth iddo redeg yma a thraw ar negeseuon, amryw o ba rai nad oedd gwir anghen am danynt. Ymhen y ddeuddydd yr oedd Jim yn berffaith hapus yn ei wisg newydd, ac yn meddwl cryn lawer o honi ac o hono ei hun. O herwydd fod Jim yn negeseuwr campus, yr oedd yn cyfarfod â dymuniadau Mrs. Pugh; o herwydd fod ganddo lygaid prydferth, yr oedd yn ddwfn yn ffafr Miss Pugh; o herwydd ei fod yn gallu "bwyta yn glyfar, ac nid rhyw bigo gwirion," ys dywedai yr hen foneddwr, yr oedd yn bobpeth ymron y gallasai Mr. Pugh ei ddymuno. Gwnaeth y tri rhinwedd hyn ef yn was sefydlog yn y Cartrefle mewn byr amser. Yr hyn a flinai yr hogyn fwyaf oedd, na thelid iddo gan ei gymdeithion y parch, fel y tybiai ef, yr oedd ei sefyllfa newydd yn ei hawlio, oblegid parhäent i'w alw yn "Jim y *matches*." Pan elai i Fuarth Jenkins i ymweled â'i rieni, byddai yn gorfod bod ar ei wyliadwriaeth, onidê ymgasglai ei hen gymdeithion o'i amgylch, a dwbient ei ddillad newydd â baw, a hyny oddiar genfigen. Pan elai i'r Ysgol Sabbothol, yr hyn a wnai yn gyson erbyn hyn, nid oedd ei sefyllfa nemawr gwell; canys pan droai yr athraw ei gefn, difyrai y naill hogyn neu y llall ei gymdeithion trwy wneyd udgorn o'i ddwrn a sibrwd drwyddo, "Jim y *matches*." Ystyriai Jim hyn yn ymddygiad annheilwng hollol tuag at un oedd yn was i Mr. Pugh. Blinid ef i'r fath raddau gan y plant fel y dygodd efe ei gŵyn un

diwrnod ger bron Mr. Pugh. Teimlodd ei feistr yn ddwys yn yr achos, a dywedodd dan hanner gau ei lygaid—fel y bydd dyn yn gwneyd pan yn ceisio dyfeisio cynllun:

"Wel, aros di, Jim; be' nawn ni â nhw?"

"Deyd wrth y *bobby*," ebe Jim.

"Deyd wrth bwy?" gofynai ei feistr.

"Wrth y *bobby*," ebe Jim drachefn; ac nid heb dipyn o esboniad y gallodd roddi ar ddeall i Mr. Pugh mai yr heddgeidwad a olygai. Yr oedd dyweyd wrth yr heddgeidwad am gamymddygiad plant yr Ysgol Sul, wrth gwrs, allan o'r cwestiwn; a methodd holl gynlluniau Mr. Pugh i wneyd i ffwrdd â'r hyn y cwynai Jim o'i blegid. Pa fodd bynag, ymhen amser, ffurfiodd Jim gyfeillgarwch mawr â mab William Jones y Dilledydd, sylfaen yr hon oedd fod Jim yn gwsmer i'w dad; ac o herwydd fod Dick Jones yn hogyn cryf a beiddgar, ac yn dipyn o wron ymhlith y plant, rhoddodd efe derfyn buan ar achos y gŵyn.

Gan na fyddai hyny yn un anrhydedd i blant yr Ysgol Sabbothol, fe allai mai nid priodol a fyddai nodi yn y fan hon y moddion y bu raid eu harferyd i ddwyn y diwygiad oddiamgylch. Wrth fyned heibio, goddefer i mi ddyweyd cymaint a hyn: na ddangosir gan blant yr Ysgol Sul y caredigrwydd a'r cydymdeimlad a allesid ei ddysgwyl oddiwrthynt tuag at y rhai a ennillir i'r ysgol o'r buarthau a'r ystrydoedd. A addysgir plant crefyddwyr ar yr aelwyd gartref i fod yn dyner a charedig at y *street Arab* tlawd a charpiog? Gwn oddiar brofiad fod mwy nag un o'r dosbarth hwn wedi eu tarfu o'r Ysgol, am nad allent oddef gwawd ac ucheldrem y bechgyn a fagwyd yn yr ysgol.

Ond i fyned ymlaen. Effeithiodd caredigrwydd teulu y Cartrefle yn eu gofal am Jim yn ddwfn ar ei rieni. Pan aeth efe i ddangos ei hun yn ei ddillad newydd, tarawyd ei dad â mudandod, a phrin y credai mai ei fachgen ef ydoedd. Ei fam ef, yr hon oedd yn wael yn ei gwely, pan y gwelodd ef, a wylodd o lawenydd; ac

mor ddaionus yr effeithiodd yr olwg arno ar ei hysbryd, fel y tystiai Jim, pan ddychwelodd i'r Cartrefle, ei bod "*just* a mendio." Hyn a fu y dechreuad i Mr. Pugh allu llwyddo i gael Ismael i'r oedfaon, ac yn ddilynol i'r ysgol, ac i adael y *White Horse*. Yr oedd ei noddwyr caredig yn caniatâu i Jim fyned adref i gysgu y nos, gan fod hyny yn ddymuniad gan ei fam. Bob nos cyn myned i gysgu, byddai ei dad yn rhoi gwersi iddo mewn darllen ac ysgrifenu, yr hyn na feddyliodd am wneyd yn flaenorol, ac amryw weithiau yn ystod y dydd, byddai Miss Pugh yn gwneyd yr un peth; ac os yfodd bachgen ei ddysg erioed, Jim a wnaeth hyny.

Yr wyf yn awr wedi dwyn hanes Jim hyd at yr amgylchiadau gofidus a gofnodwyd yn y bennod ddiweddaf. Bu marwolaeth ei fam yn ergyd drom iddo. Hyd y noswaith y bu hi farw, credai Jim yn ddiysgog y gwnai wella. Yr oedd Siân Jones a Mrs. Pugh wedi ei ddysgu i weddïo, ac i gredu y gwnai Duw wrando gweddi. Gweddïai Jim ei hun, ac yr oedd yn gwybod fod Siân Jones a Noah Rees yn gweddïo; ac nid ammheuodd am eiliad na wrandewid hwynt. Ond er yr holl weddïo, bu ei fam farw. Nis gallasai Jim weled cysondeb yr amgylchiad â'r addysg a dderbyniasai. Yr oedd wedi ei ddyrysu yn lân, ac ni fynai ei gysuro. Ceisiodd Mr. Pugh ei ddyddanu; ond gyrai Jim yr hen foneddwr i'r wal yn union trwy ofyn,

"Pam na fase Duw yn gwrando, a fi a Siân Jones a Mr. Rees wedi gwddïo? Be ydi iws gwddïo os na neiff o wrando? Mistres yn deyd, Duw yn gwrando; fynte ddim yn gwrando. O mam, O mam bach!" ac wylai nes yr oedd ei wyneb yn fudr; ac nid oedd gan Mr. Pugh ddim i'w ddyweyd na'i wneyd ond wylo gydag ef. Trwy lawer iawn o dynerwch, ac o ymresymu cywrain, y cafodd Miss Pugh gan Jim ymdawelu ychydig; ond cymerodd lawer o amser a dyfalwch iddi allu gwneyd hyn. Y gorchwyl caletaf a gafodd y foneddiges ieuanc yn ei bywyd oedd cadw Jim rhag meddwl yn galed am Dduw. Fwy nag unwaith, pan feddyliai ei bod wedi

llwyddo i hollol dawelu ei feddwl yn ngwyneb yr amgylchiad, deuai cawod drom o hiraeth a gofid dros yr hogyn ag oedd yn wir galonrwygol, a byddai raid iddi hithau fyned dros yr un tir a'r un ymresymiad drachefn. Rhyfedd y dyddordeb a gymerai teulu y Cartrefle yn y bachgen amddifad a phrofedigaethus! Ymddygent tuag ato yn fwy fel mab nag fel gwas. A oedd yna wagle yn eu mynwesau eisieu ei lenwi? A oedd Jim, mewn rhan, yn llenwi lle rhywun arall?

Pan glywodd Benjamin Prŷs hanes Jim, gwnaeth gân hirfaith iddo. Rhoddaf bennill neu ddau fel engraifft:—

"Jim Price ydoedd hogyn bychan a thlawd
Heb undyn yn sylwi arno,
Heb addysg, heb ddillad, heb chwaer, heb frawd,
A'i rieni 'n ddiofal o hono:
Ei wallt oedd yn grych, a'i wyneb yn llwyd,
A chanwaith bu 'n dyoddef gan eisieu bwyd;
Ond ni chlywid Jim yn cwyno.

"Ei dad oedd oferddyn disùt, ac yn hael
Yn gwario ei arian am gwrw,
A'i fam a orweddai er 's misoedd yn wael
Yn ei gwely ymron a marw·
A Jim a gerddai y Dreflan bob cam,
Gan gardota i gynnal ei anwyl fam,
Heb yn wybod i'w dad rhag twrw.

"Gweddïai Jim am i'w fam wellhâu,
A chredai y cai ei wrando;
Gweddïai Siân Jones, a rhwng y ddau
Ni phetrusai na wnaent lwyddo·
Bu farw ei fam! 'ond gofalodd Duw
Am fam i Jim yn Mrs. Puw,
A mam ragorol oedd hono."

## PENNOD XV.

### CYNGHOR BENJAMIN PRYS.

"NOAH," ebe fi wrth fy nghyfaill un noswaith, "a wyt ti yn cofio addaw dro yn ol fyned ymlaen pan geffit gyfleusdra gyda'th adroddiad o'r argraffiadau cyntaf?"

"Ydwyf, yn burion," ebe efe, "ond y mae cymaint o amser er hyny, a minnau wedi dyfod i gysylltiad â'r cymeriadau gynifer o weithiau ar ol hyny, fel mai nid gorchwyl hawdd a fydd i mi adgofio yr argraffiadau cyntaf, ac yn enwedig eu didoli oddiwrth yr argraffiadau a wnaed ar fy meddwl yn ddilynol."

"Os da yr wyf yn cofio," ebe fi, "clywais di yn dyweyd flynyddau yn ol mai anfynych y byddai dy argraffiadau cyntaf yn anghywir. A wyt ti wedi newid dy feddwl ar hyn?"

"Nac ydwyf," ebe Noah. "Po fwyaf o gymeriadau yr wyf yn eu cyfarfod, mwyaf oll yr wyf yn cael fod y rheol yn gywir. Mae yn wir fod eithriadau yn bod, ond yr wyt yn cofio y dywediad fod yr eithriad yn profi y rheol. Ac y mae yr eithriad yn cymeryd lle mor anfynych fel y mae mewn gwirionedd yn eithriad eithriadol iawn, os goddefi yr ymadrodd, fel y dywedir. Mwy na hyny, y mae yr eithriad weithiau fel pe byddai yn edifarhâu am fod yn eithriad, ac yn dychwelyd yn ol i fod yn rhan o'r rheol. Er mwyn gwneyd fy meddwl yn eglurach, rhoddaf i ti engraifft. Pan oeddwn gartref yn y Tyddyn Bach—yr oedd hyn cyn i mi fyned i'r Athrofa—daeth i'r Llan acw ŵr dyeithr i lenwi swydd bwysig yn y gymydogaeth. Gan na wyddid dim yn ei gylch cyn ei ddyfodiad atom, teimlid cryn ddyddordeb i ba enwad crefyddol y perthynai.. Y diwrnod cyntaf y daeth i'n plith, cyflwynodd ei bapyr aelodaeth yn ein seiat ni y Methodistiaid. Y foment gyntaf y gwelais ef, credais mai ci lladd defaid

ydoedd. Paham y credwn hyny nis gwyddwn. Fel *compliment* i ŵr dyeithr, annogwyd ef i ddiweddu y cyfarfod eglwysig trwy weddi, yr hyn a wnaeth yn ddoniol iawn a chyda'r fath ddylanwad nes oeddwn yn teimlo yn ddig wrthyf fy hun am ffurfio syniad mor galed am dano. Wrth fyned allan o'r capel, ebe yr hen William Thomas wrthyf, 'Wel, Noah, dyna ddyn gwerthfawr! y fath gaffaeliad a fydd i ni yma!' 'Gobeithio na byddwch wedi newid eich syniad am dano ymhen y flwyddyn, William Thomas,' ebe finnau bron yn ddiarwybod i mi fy hun, ac edifarheais wneyd y sylw. 'Beth,' ebe yr hen ŵr, 'wyt ti yn ei adnabod o?' 'Ni welais mo hono erioed cyn heno,' ebe finnau. Aeth wythnosau a misoedd heibio;. a phrofodd y gŵr dyeithr ei hun yn weithgar, gonest, a ffyddlawn, ac argyhoeddodd fi yn hollol fod fy argraff gyntaf o hono yn gyfeiliornus. Ond och fi! ymhen y deunaw mis gwnaeth ei botes yn rhyfedd, ac aeth ymaith dan warth mawr, a dychwelodd fy argraff gyntaf, ac edliwiodd i mi fy anghrediniaeth. Appeliaf atat, Ai onid oes genyt engreifftiau cyffelyb o fewn cylch dy brofiad dy hun?"

"Wel, aros di, gyfaill," ebe fi wrth Noah, "pa fodd yr wyt yn rhoddi cyfrif fod dy argraffiadau cyntaf di yn gywir, a'r eiddo William Thomas, yr hwn oedd wr craff, fel yr wyf yn deall, yn anghywir? Onid ydyw dy engraifft yn profi gormod? Yr unig gasgliad y gallaf fi ddyfod iddo ydyw dy fod di wedi dy ddonio uwchlaw dynion yn gyffredin â gallu i adnabod cymeriadau."

"Mae dy wrthddadl," ebe Noah, "wedi dyfod arnaf mor sydyn fel na fedraf dy ateb ar unwaith; ond yr wyf ymhell o feddwl fod genyf fi allu uwchlaw dynion eraill. Y ffordd rwyddaf i mi ddyfod allan o'r fagl ydyw, trwy ddyweyd mai yr engraifft a nodwyd oedd yr eithriad yn amgylchiad William Thomas. Nid oes a fynwyf fi ychwaith âg argraffiadau cyntaf pobl eraill; fy mhwnc i yn syml yw hyn: mai anfynych y mae fy argraffiadau cyntaf o gymeriadau yn gyfeiliornus. Mae yn wir mai y

ffordd gyffredin y ffurfir syniad am gymeriad ydyw trwy gwrs o ymresymiad—megys trwy glywed ei hanes blaenorol, barnu ffurf ei wyneb, sylwi ar ei ymddygiad a'i eiriau, ac yna gwneyd casgliad oddiwrth y cyfan. Ond, ai onid oes argraff yn cael ei gwneyd ar feddwl dyn o gymeriad yn fynych megys gan ymwybyddiaeth nad all roddi cyfrif am dano? Oni chyfarfyddaist di â chymeriadau na wyddit ddim yn eu cylch, ac na wnaethant ddim niwed i ti, ac hyd yn nôd a ddangosasant garedigrwydd atat, ac ar yr un pryd nad oeddit yn eu hoffi? Oni welaist di ambell fachgen dirieidus, a dyweyd y goreu am dano, ag yr oedd genyt well meddwl o hono nag am un arall yr hwn yr oedd ei fuchedd yn llawer gwastadach? Oni feddaist di ymwybyddiaeth o ddaioni cuddiedig yn y naill amgylchiad, ac o ddrygioni cuddiedig yn yr amgylchiad arall? Ac oni chlywaist di am rai yn syrthio mewn cariad â gwrthddrychau na wyddent ddim yn eu cylch, a hyny nid am eu bod yn brydferthach na rhywun arall, ond o herwydd fod rhyw fath o ysbryd prophwydoliaeth wedi disgyn arnynt fod y gwrthddrychau hyny yn meddu y peth y dymunent iddynt ei feddu? Ac oni chlywaist fod naw o bob deg o'r argraffiadau cyntaf hyn yn troi allan yn gywir?"

"Mi a glywais am bethau felly," ebe fi, "ond nis gallaf weled pa fodd y gellir cynnyrchu argraff ar feddwl dyn heb fod achos o'r tu allan i'r meddwl ag sydd yn rhoddi cyfrif am dano, ac hefyd fod yr argraff yn rhwym o ddwyn delw yr achos o hono. Er engraifft, pan welaf ddyn dyeithr i mi, a hwnw yn feddw, mae yn anmhosibl i mi gael argraff o hono ar fy meddwl fel dyn sobr. Yr wyf yn addef," ychwanegais, "fod argraff yn cael ei gwneyd ar feddwl dyn mewn rhai engreifftiau heb iddo ef fod yn ymwybodol o'r achos fydd yn ei gynnyrchu."

"Dyna yn union yr wyf yn dadleu drosto," ebe Noah; "yr argraff a wneir ar feddwl dyn nad all roddi cyfrif am dano, ac nid yr hwn y mae yn ei dderbyn trwy ymresymiad fel yr engraifft a nodaist, sef y dyn meddw. Pan

oeddit yn son am y dyn meddw, yr oeddit yn crwydro oddiwrth y pwnc."

"Yr wyf yn meddwl dy fod tithau yn crwydro tipyn," atebais; "ein pwnc ni heno ydyw i ti fyned ymlaen gyda'th adroddiad; ac os da yr wyf yn cofio, mai newydd ymadael â Mr. Smart yr oeddit ti a Mr. Pugh, a'ch bod yn hwylio i ymweled â'r hen frawd o'r tŷ pobtŷ. Yrŵan, dos ymlaen."

"Wel," ebe efe, "os hyny sydd oreu genyt, ceisiaf alw i'm cof y rhan sydd yn ol o ddygwyddiadau y dydd hwnw; oblegid â hyny yr ymgymerais, sef adrodd yr argraffiadau a wnaed ar fy meddwl y diwrnod cyntaf y daethum i'r Dreflan. Wedi i ni ymadael â Mr. Smart, a'i eiriau olaf, '*Appearance, appearance*,' eto yn swnio yn ein clustiau, cerddodd Mr. Pugh am encyd mewn dystawrwydd, oddigerth yr hyn a siaradai âg ef ei hun. Yr oedd yn amlwg i mi ei fod mewn dwfn fyfyrdod, ac mai yr hyn oedd yn cael ei droi yn ei feddwl oedd '*appearance*,' oblegid clywais ef yn sibrwd y gair fwy nag unwaith. Yn y man, ebe efe wrthyf yn sydyn, 'Mr. Rees, ffasiwn un oedd Iesu Grist, ddyliech ch'i, o ran yr olwg arno?' 'Yn wir, Mr. Pugh,' atebais, 'ni fedraf eich ateb. Nid wyf yn cofio fod yr olwg allanol arno yn cael son am dano; ond y mae geiriau i'r perwyl yma yn rhywle nad oedd na phryd na thegwch ynddo.' '*Just* y geirie oedd yn 'y meddwl ine,' medd efe; ac ychwanegodd yn ddystawach, 'Piti hefyd, gan fod *appearance* yn myn'd mor bell hefo chrefydd, fel y dywed Mr. Smart.' Awgrymais fod yn bosibl nad oedd y geiriau yn cyfeirio at ei ymddangosiad corfforol, ond eu bod i'w hystyried fel yn desgrifio ansawdd ysbrydol y rhai a edrychent arno. 'Hwyrach hyny,' ebe Mr. Pugh; 'ond ydach ch'i ddim yn meddwl fod dystawrwydd y Bibl am ei ymddangosiad yn dangos yn ddigon plaun nad oedd dim byd neillduol yn yr olwg arno?' Atebais fod y casgliad yn un digon naturiol, a syrthiodd Mr. Pugh i fyfyrdod drachefn. Yn awr ac yn y man dywedai megys wrtho ei hun, 'Piti! piti garw! Ië, piti mawr!' Oni buasai fy mod yn sicr fod Mr. Pugh

mor ddiddichell â phlentyn, buaswn yn edrych ar y geiriau hyn o'i eiddo fel gwatwareg; ond yr oedd difrifwch ei wyneb yn dangos yn eglur fod y geiriau yn dyfod yn syth o'i galon.

"Wedi cerdded oddeutu can' llath, heb ddyweyd yr un gair, safodd Mr. Pugh yn sydyn, a dywedodd gydag angerddoldeb, 'Wyddoch ch'i be', Mr. Rees? mae Mr. Smart yn misio! Nid *appearance* ydi'r peth pwysig i ch'i a mine, yn siwr i ch'i. Mae yna beth annhraethol fwy pwysig nag *appearance!*' Wedi dyweyd cymaint a hyn, edrychodd yn galed yn fy llygaid, heb symud modfedd o'r lle y safai. Wedi dysgwyl yn ofer am yspaid iddo fyned ymlaen, gofynais iddo, 'Beth ydyw y peth hwnw, Mr. Pugh?' '*Bôd,*' ebe fe, gan roddi winc ddeallgar arnaf, a chan ail ddechre cerdded yn gyflym. Troediai ymlaen fel bachgen ieuanc, ac fel un wedi gwneyd darganfyddiad neu ennill goruchafiaeth. Ymhen enyd gafaelodd yn fy mraich a dywedodd gydag yni, 'Ië, Mr. Rees, *bôd* ydi'r peth pwysig yn siwr i ch'i ac nid *appearance*, achos mi ddeyda i ch'i pam. 'Dydi *appearance* yn werth dim os nad ydi o yn *appearance* o rwbeth sy tu cefn iddo fo ag sydd yn fwy na fo. Mi ddeyda i ch'i beth arall; mae *appearance* heb ddim ond *appearance* yn gelwydd ac yn bechod. Mr. Rees bach,' ebe fe yn fwy cyfrinachol, 'ydach ch'i ddim yn meddwl, erbyn i ni 'styried, fod yr oes hon yn gofalu mwy am *appearance* nag am fôd? Be' ydi'r holl redeg i ddyled a'r tori i fyny yma ond effeth gofalu am yr *appearance* yn lle am y bôd? Ac yn wir, Mr. Rees, mae gen i ofn fod *appearance* yn ennill tir hefo chrefyddwyr. Drychwch ar yr hogia yma—ond o ran hyny dydach ch'i ddim yn 'u 'nabod nhw—ond wyddoch ch'i be'? mae yma hogia yn perthyn i'n capel ni yn 'u menyg cid, eu *sigars*, a'u *mirshams*, eu ffyn â thopia arian iddynt, na fedra nhw yn eu byw las fforddio rhoi ceiniog at y weinidogaeth. Be ydi hyny ond y felldith *appearance?* Chymeren nhw lawer a rhoi hanner coron am lyfr, ond hidia nhw ddim rhoi deuddeg swllt am bibell, neu dairpunt am gadwen aur. Mae'r mor-

wynion yma yr un fath yn union. Dacw Susan acw; mae hi'n troi allan yn grandiach o'r hanner na Kit ni. Mi fydda'n deyd llawer wrthi, 'dawn ni nês er hyny. Mae hi'n gwario ei holl gyflog, ac y mae hi'n cael cyflog go lew hefyd, ar ei chefn, ac yn enwedig ar ei phen, a drychiff hi byth ar lyfr. A welsoch ch'i erioed siwn drafferth fydda i'n gael ganddi roi tair ceiniog yn y mis ar lyfr y seiat. Yr ydyw i'n credu o 'nghalon mai llyfr y seiat sydd wedi creu cas ynddi at bob llyfr arall. Mi fydda i'n meddwl fod yn iawn i bob dyn gael digon o fwyd, ac y mae'n gwilydd mewn gwlad efengyl i neb fod heb ddigon; ond wyddoch ch'i be? mae'r *appearance* yma yr oedd Mr. Smart yn son am dano heno wedi hel llawer o bethe i meddwl i. Ydan ni fel crefyddwyr yn peidio rhoi siampal ddrwg i bobol deydwch? Oes ene rw wahaniaeth rhwng capel hardd heb dalu am dano â bonet hardd neu gôt hardd heb dalu am danynt? Hwyrach fod hefyd. Ond waeth i ch'i befo, mae yma ormod o'r *appearance* yn ein plith ni, a rhy fychan o lawer o'r bôd, yn siŵr i ch'i. Mae o'n taro i meddwl y mynyd yma, dae pawb o honom ni yn ymddangos y peth ydan ni mewn gwirionedd, a nae ni nabod ein gilydd, ddylech ch'i? mae gen i ddowt yn siwr i ch'i, Mr. Rees. Ond rhoswch, dyma ni wrth y tŷ pobtŷ, ac mi gawn rwbeth yma heblaw *appearance*, cèn wired a fy mod i yn y fan yma. On'd ydi'r bara brwd yma yn hogle yn glên? mae o ddigon a chodi eisio bwyd ar rwfun. Sut 'rydach ch'i, Becca? rhowch i mi wicsen frwd. Dyma Mr. Rees wedi dwad i ch'i heb ei ddysgwyl. Wyddoch ch'i be? mae'r wicsen yma yn dda hefyd. Sut mae Benjamin, Becca? Fynwch ch'i wicsen, Mr. Rees? Dyma'r wraig fwyaf hapus yn y byd, Mr. Rees, er ei bod hi yn wastad yn cwyno.'

"Llefarodd Mr. Pugh yr holl eiriau hyn ar yr un gwynt, gan helpio ei hun gyda'r teisenau brŵd, ac yr oedd efe wedi gwthio un i fy llaw cyn i mi gael ysgwyd dwylaw â gwraig dda y tŷ. Gwyddwn oddiwrth ei

gwyneb nad oedd dim yn ei boddio yn well na gweled Mr. Pugh yn gwneyd yn hyf ar ei heiddo; ac mewn atebiad i'w sylwadau dywedodd,

'Mae'n dda mod i yn y'ch nabod ch'i cyn heno, Mr. Pugh. Mae llawer yn cwyno mwy na fi, a llai o achos. Mae pobol yn meddwl, Mr. Rees, os ydw i'n edrach yn symol na ddylwn i ddim cwyno, yr un fath a dase edrach yn rhwbeth. Dydi golwg ddim byd, ydi o, Mr. Rees? On'd oes llawer yn edrach yn dda, ac yn dyodde mwy nag a ddylie neb? Cymerwch wicsen arall, Mr. Pugh. 'Rydach ch'i wedi dwad i le aflêr iawn, Mr. Rees. Ond 'does gen i ddim amser i neyd y tŷ yn deidi, mae Mr. Pugh yn gwbod, a rhaid i chi'n cymyd fel rydan ni. Gybeithio y cewch ni yn well na'n golwg.'

"'Dyna air synwyrol, Becca,' ebe Mr. Pugh, 'yr hen bwnc, Mr. Rees; nid *appearance* ydi'r peth yn siŵr i ch'i. Ple mae'r hen ddifein yma, Becca?'

"'Mae o 'run fan ag arfar i ch'i—yn y gornel,' ebe Becca. 'Roeddwn i'n gwbod o'r gore mai i edrach am dano fo yr oeddach ch'i wedi dwad, Mr. Pugh. Dae rhwbeth yn hapno i hwnyma, ddoe ch'i byth i edrach am dana i, y rydw i'n siŵr, er nad oes gen i ddim ond pob da i ddeyd am danoch ch'i, Mr. Pugh.'

"'Wyddoch ch'i prun, Becca,' oedd unig ateb Mr Pugh. Arweiniodd Mr. Pugh fi i'r ystafell ymha le yr oedd yr hen ddifein, chwedl yntau. Cawsom ef yn eistedd yn fyr ei anadl mewn cadair ddwyfraich, yr hon y dymunaswn iddi fod yn esmwythach i ŵr o'i oedran a'i wendid ef. Ar ein mynediad cyntaf i'r ystafell, gloëwodd ei wyneb deallgar, er mai prin y gallai siarad â ni gan fel y dyoddefai o herwydd diffyg anadl. Wedi i Mr. Pugh rwbio y rhwd oddiar ei dafod, ys dywedai yr hen foneddwr, rhyfedd mor rhwydd a diboen y daeth yr hen ŵr i allu parablu. A ddarfu i ti sylwi erioed fel y bydd pobl *asthmatic* yn gwella wrth ymddyddan â hwynt? Cyn i ni ymadael, yr oedd Benjamin Prŷs yn siarad mor rhugl ymron âg un o honom ninnau, er y dywedai

Becca mai hi a fyddai raid ddyoddef am hyny wedi i ni fyned ymaith. Gŵr hynod ydyw Benjamin Prŷs, ac nid rhyfedd fod Mr. Pugh yn meddwl cymaint o hono. Anfynych y cyfarfyddais â gŵr uniaith yn meddu meddwl mor gyflawn a choeth. Dywedai Mr. Pugh wrthyf ei fod yn fardd penigamp; ond y mae arnaf ofn mai syniad lled hen ffasiwn sydd gan Mr. Pugh am farddoniaeth. Ni ddeuwn i ben heno âg adrodd wrthyt yr holl ymddyddan gymerodd le y noswaith hono. Nis gwn pa hyd y buom yno; ond yr wyf yn cofio yn dda i Mr. Pugh orfod gael adgyflenwad o'r teisenau brwd fwy nag unwaith. Yr hyn a lynodd fwyaf yn fy meddwl ydoedd y cynghor a roddodd Benjamin Prŷs i mi ar annogaeth Mr. Pugh. Hwyrach mai yr hyn a barodd i'r cynghor wneyd y fath argraff arnaf oedd y cyferbyniad a ffurfiai â'r cynghorion a gefais yr un noswaith gan Mr. Smart. Yr wyf yn meddwl y gallaf ei gofio air am air; ac wedi i mi ei adrodd, cei dithe fyned adref.

exhortation

"'Yr wyf wedi arfer, Mr. Rees,' ebe efe, 'ag ufuddhâu i Mr. Pugh, a rhaid i chwithau ddysgu y wers hono yn lled fuan. Mae yn ymddangos yn lled chwithig i hen greadur annysgedig fel fi roddi cynghor i un fel chwi sydd wedi derbyn cymaint o fanteision addysg; a fy unig gymhwysder at y gwaith, am a wn i, ydyw fy oedran. Un o'r pethau sydd yn peri mwyaf o ofid i mi yn fy hen ddyddiau ydyw meddwl am yr hyn a allaswn fod pe buaswn wedi cael y manteision priodol yn fy ieuenctyd, neu yn wir pe buaswn wedi gwneyd defnydd o'r manteision oedd genyf. Yr wyf yn credu yn sicr os câf fyn'd i'r nefoedd—ac yr wyf weithiau yn lled hyderus y caf—('Dim dowt,' ebe Mr. Pugh) mai un o'r pethau cyntaf a wnaiff y Brenin Mawr â fi fydd fy anfon i ryw goleg yno i ddysgu yr hyn a ddylaswn fod wedi ei ddysgu tra ar y ddaear. Mae darllen *volume* fawr fy mywyd yn ofid dwys i mi erbyn hyn. Er na chaf fi fwynhâu nemawr o'ch gwasanaeth, na bod o nemawr gynnorthwy a chefnogaeth i chwi yn eich gwaith, credwch fi pan ddywedaf nad allasai dim ddygwydd i

roddi mwy o foddhâd i mi na'ch dyfodiad i'n plith. Mae yma lawer o le i chwi weithio, a gwneyd daioni; ac os na ddeuwch i weled hyny yn gynt, byddwch yn sicr o ddyfod i'w weled pan gyrhaeddwch fy oedran i, mai gwneyd daioni ydyw yr unig beth gwerth byw er ei fwyn yn y byd yma. Gresyn fod yn rhaid i ddyn fyned yn hen, ac i'r cyfleusderau gan mwyaf fyned heibio, cyn y daw i gredu hyn i bwrpas! Byddaf yn meddwl weithiau fod agos yn anmhosibl i ddyn weled gwir amcan bywyd nes i'r bywyd fyned heibio. Pa fodd bynag, yr ydych chwi yn ieuanc, ac wedi ymgymeryd â'r alwedigaeth uchaf y gall creadur meidrol ymaflyd ynddi. Pan glywaf am ŵr ieuanc wedi penderfynu cysegru ei fywyd i wasanaethu Duw yn yr efengyl, bydd rhyw lawenydd nefol yn fy meddiannu, a bron a fy llethu. Dichon y daw meddyliau i'ch calon y gallasech ddewis galwedigaeth arall fwy ennillfawr ac anrhydeddusach yn ngolwg dynion. Os deuant, sathrwch hwynt o dan eich traed. Erbyn i chwi ddyfod i ymylon y byd tragywyddol, ni welsoch chwi erioed càn lleied o bris a roddwch ar holl gyfoeth y byd hwn yn ei grynswth. Bydd un weithred dda, wedi ei chyflawni o gariad at Grist, yn annhraethol fwy gwerthfawr yn eich golwg yr adeg hono. Ymegnïwch ac ymwrolwch at y gwaith. Hwyrach mai bèr fydd eich oes, ond gofelwch am iddi fod yn oes lawn o waith. O fel y mae blynyddoedd fy oferedd yn pwyso arnaf yn y gornel yma! Pa beth a roddwn yn awr am gael ail ddechre byw! Er nad ydyw ein cynnulleidfa ond bechan, mewn cymhariaeth, cewch weled, pan ddeuwch i'n adnabod ni i gyd, fod yma lawer math o honom. Gyda gwaith y weinidogaeth, byddai i chwi ddeall ychydig ar y natur ddynol o fantais fawr i chwi, ond nid er mwyn i chwi fod yn boblogaidd. Bydd yn anmhosibl i chwi fod yn gymeradwy gyda phawb, a gwneyd eich dyledswydd. Yn ystod fy oes mi a welais rai yn ceisio gwneyd hyny; ond nis gallwn lai na'u cymharu i William y minceg. Byddai gan William felusion ar gyfer pawb; ond yr oedd pawb yn gwybod

mai minceg ydoedd—rhywbeth i foddio plant. Chwi a gewch rai yma y bydd raid i chwi werthu dimeiwerth o finceg iddynt, os mynech eu boddio, oblegid mai plant ydynt er eu bod wedi tyfu i fyny. Cewch eraill na wna dim y tro iddynt ond torth neu gosyn. Na cheisiwch foddio pawb, ond gofalwch am dafellu hen fara canreg yr efengyl i'r bobl, a gellwch fod yn siŵr y gwna ddygymmod âg ystymog eich gwrandäwyr. Ni raid i mi ddyweyd wrthych am i chwi ddarllen llawer. Yr wyf yn credu fod hyny mor anhebgorol genych â'ch ymborth anghenrheidiol. Goddefwch i mi roddi un cynghor i chwi, er fy mod yn credu ei fod yn ddianghenrhaid: Peidiwch a benthyca eich pregethau gan neb; gadewch iddynt fod yn eiddo i chwi eich hunan, serch iddynt fod yn waelach. Mae hyd yn nôd y *policeman* yn edrych yn well yn ei ddillad ei hun. Gall y pryf copyn ddal mwy o ysglyfaeth gyda ei edafedd fain a wëa o'i goluddion ei hun, na phe benthyciai holl gortynau y wlad. Byddwch yn rhy annibynol eich meddwl i ladrata pregeth neb; yn hytrach gadewch iddi dyfu o'ch calon a'ch profiad chwi eich hunan. Pregethwch eich goreu glâs. Gellwch ymweled gormod neu ry ychydig; ond ni ddywed neb eich bod yn pregethu yn rhy dda. Os pregethwch yn dda, maddeuir i chwi lawer o ddiffygion eraill a all fod ynoch. Rhoddwch arbenigrwydd ar bregethu. Ar yr un pryd, nac anghofiwch ymweled â'r dirywiedig, y cleifion, a'r tlodion. Pe byddai raid i chwi anghofio pawb, nac anghofiwch y tlodion, gan gofio eu bod hwy yn perthyn yn agosach i'r Hwn nad oedd ganddo le i roddi ei ben i lawr. Ni ddymunwn i chwi ymweled gormod, rhag i chwi gael eich galw yn Gadi, nac ychwaith ry ychydig, rhag y tybir eich bod yn falch a diofal. Yn eich ymweliadau a'ch ymddyddanion, ymddygwch hyd y galloch yn deilwng o'ch sefyllfa. Na fyddwch yn rhy offeiriadol a rhodresgar ar y naill law, nac yn rhy gellweirus ac ysgafn ar y llaw arall. Ceisiwch fod mor naturiol fel y gallo pawb deimlo yn hapus a rhydd yn eich cwmni, ac mor bur fel y teimlo pawb

yn well o'ch herwydd. Bydd rhai pobl yn sylwi ar bethau bychain. Na fyddwch yn aflêr a *shabby* yn eich gwisg, nac ychwaith yn rhoi lle i neb gredu eich bod yn meddwl gormod am eich ymddangosiad. Yr wyf yn credu fod aflerwch gyda'r ymddangosiad yn groes i ddysgeidiaeth yr efengyl; ond pan welaf fi bregethwr fydd yn dangos ei fod wedi cymeryd trafferth fawr gyda'i wallt er engraifft, byddaf yn meddwl fod rhyw wendid o dan y gwallt yn rhywle. Yr wyf yn teimlo fy mod yn rhoi cynghorion nad oes arnoch eu hanghen, ac ni fuaswn yn son am bethau fel hyn pe cawswn lonydd gan Mr. Pugh. Yr wyf yn dysgwyl pethau mawr oddiwrthych, ac yr wyf yn credu na chaf fy siomi. Y pwnc mawr i chwi a minnau, Mr. Rees, ydyw cadw yn ffafr ein Meistr, oblegid bydd hyny o ddaioni a gawn ac a wnawn yma ac ar ol hyn yn dibynu yn gwbl ar hyny. Os byddwch yn hoffi eich lle yma, yr wyf yn hyderu y gwnewch aros, ac na chymerwch eich hudo i ymadael â ni er mwyn ychydig bunnoedd. Gwn yn burion y cewch lawer o anhawsderau gyda ni. Mae yma lawer o honom yn hen bobl wedi tyfu a chaledu yn ein rhagfarnau, ac ni wnewch ond anafu eich hun wrth geisio ein diwygio. Ond byddwn ni yn union deg oddiar eich ffordd; ac os ceisiwch, gellwch genedlu y genedl sydd yn codi ar eich llun a'ch delw eich hun, a bod o annhraethol fendith iddynt. Cawn ymgomio am bethau fel hyn eto, Mr. Rees. Maddeuwch i mi fy hyfdra. Duw fyddo gyda chwi ydyw gwir ddymuniad fy nghalon.'

"Diolchais i'r hen ŵr am ei gynghorion; ac wedi i Mr. Pugh wastadhâu ein cyfrif am y teisenau brwd, aethom adref."

## PENNOD XVI.

### GOLYGFA NOSOL.

YR oedd Mr. Sharp Rogers o'r *London House*, gyda'r hwn yr oedd John Aelod Jones yn gynnorthwywr, a Walter Wynn yn egwyddorwas, yn un o'r dynion hyny sydd yn ymffrostio na wyddant ddim ond a wyddant; a gellid yn hawdd grynhoi ei fywyd i dri gair—*shop*, *ledger*, a *bank;* yn wir, gellid dyweyd ei hanes mewn tair llythyren—£ s. d.; ac oddiar yr egwyddor fod yr holl greadigaeth yn cael ei gwneyd i fyny o fân ronynau, gellid myned gam ymhellach, a chwtogi ei fuchedd i'r llythyren *d*, neu, mewn geiriau eraill, y geiniog. Buasai ef ei hun, o bosibl, yn ymwrthod â'r desgrifiad hwn, ac yn dewis yn hytrach gael ei ddarnodi â gair, a'r gair hwnw yn ddiammeu a fuasai *business*. Wrth ddyweyd fel hyn, nid ydwyf am i'r darllenydd feddwl am fynyd fod Mr. Sharp Rogers yn amddifad o egwyddorion; na, yr oedd y rhai hyny mor sefydlog a threfnus ganddo ag ydoedd y silffoedd ar ba rai y gosodai ei frethynau llydain. Ymhlith erthyglau ei gyffes ffydd yr oedd y rhai canlynol yn meddu lle amlwg:—

1. Mai dyledswydd benaf dyn ydyw edrych ar ol *number one*, ac edrych ar ol pobl eraill neu beidio fel y bydd yn dewis, ond o'r ddau mai peidio sydd oreu.

2. Mai prif ddyben dyn ar y ddaear ydyw gwneyd arian, a dwyn pobpeth arall yn is-wasanaethgar i hyny.

3. Fod yn anmhosibl cario ymlaen fasnach lwyddiannus ac ar yr un pryd ymgadw yn hollol at y gwir.

4 Fod gwleidyddiaeth yn burion i segurwyr, ac i'r rhai hyny nad oes ganddynt ddim arall i gymeryd i fyny eu hamser. *Attodiad:* nad oes dim gwahaniaeth gwerth son am dano rhwng y pleidiau a elwir y Ceidwadwyr a'r

Rhyddfrydwyr; ond o'r ddwy blaid mai yr oreu yw yr un Ryddfrydig, am ei bod yn fwy tueddol i gadw y trethi i lawr.

5. Fod crefydd, yr un modd ag y mae dirwest, yn dda i'r rhai nad ydynt yn alluog i ofalu am danynt eu hunain. *Attodiad:* nad oes dim gwahaniaeth rhwng offeiriad Pabaidd, person, a phregethwr; ond pe buasai raid iddo ef ddewis un o'r swyddogaethau hyn, mai swydd person a ddewisai efe, am fod gwell cyflog i'w gael, ac y gallai obeithio cael ei wneyd yn esgob.

6. Fod addysg yn dda er galluogi dyn i wneyd y goreu o'r byd hwn, ac mai y gangen uchaf mewn addysg ydyw rhifyddiaeth.

7. Fod beirdd a llenorion i'w hystyried fel rhai â chrac yn eu penau, ac mai dyfais ydyw llyfrau i ddyfetha amser ac i yspeilio dyn o'i arian, ei ymborth, a'i ddillad.

8. Ac yn olaf, fod annhraethol wahaniaeth rhwng y *West of England* a'r *Yorkshire goods.*

Yr oedd gan Mr. Sharp Rogers chwaer deneu, dàl, grebachlyd, a chybyddlyd, yr hon a ofalai am ei dŷ, a'r hon hefyd oedd mor debyg iddo ef ei hun o ran ei chwaeth a'i hegwyddorion, fel na theimlodd efe yn ystod ei oes yr anghenrheidrwydd lleiaf am wraig. Er nad oedd y brawd na'r chwaer eu hunain yn grefyddol, yr oedd aelodaeth eglwysig yn gymhwysder anhebgorol am dderbyniad i'r *London House* yn yr egwyddorwas a'r cynnorthwywr, am y credid fod hyny, càn belled ag yr oedd yn myned, yn sicrhâd am onestrwydd. Yr oedd Mr. Sharp Rogers, fel rheol, yn gofalu hefyd ar fod yr egwyddorwas a'r cynnorthwywr yn perthyn i deuluoedd parchus a lliosog yn yr ardal, gan fod hyny yn "tueddbenu" i ddwyn llawer i'w fasnachdŷ na buasent, o dan amgylchiadau eraill, yn rhoi eu troed byth o'i fewn. Nid oedd y callineb hwn o eiddo Mr. Rogers yn ddiystyr ychwaith o nifer cymhariaethol y gwahanol enwadau crefyddol; oblegid nid unwaith na dwywaith y gwnaed cais ato i gymeryd bachgen yn egwyddorwas a fyddai o'r ffydd drochyddol; eithr ymhob un o'r amgylchiadau hyny

byddai Sharp Rogers yn dygwydd bod yn "llawn," neu wedi addaw cymeryd bachgen arall, pryd mewn gwirionedd mai y rheswm penaf fyddai fod ein brodyr y Bedyddwyr yn y lleiafrif yn fawr yn y Dreflan. Yr oedd lle i gredu mai yr un callineb a arweiniodd Mr. Rogers i beidio cysylltu ei hun âg un enwad yn neillduol, ac mai doethach oedd "rhoi tro" i edrych am y naill fel y llall yn achlysurol, yn enwedig ar adeg cyfarfod pregethu neu ŵyl flynyddol. Yn ei feddwl ef, nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng yr enwadau crefyddol, ac yr oeddynt oll yn dda yn eu ffordd eu hunain. Ceisiai wneyd ei hun yn bobpeth i bawb fel y gallai gael ennill oddiwrth rai. Gan ei fod yn awyddus, fel y dywedwyd, i fod ar delerau da gyda phawb, yr oedd wedi ffurfio penderfyniad, er yn fore, i beidio dangos dim ffafraeth tuag at y naill enwad crefyddol mwy na'r llall; ac yn rhinwedd y penderfyniad hwnw, gwrthodai gyfranu at bob achos a fyddai yn dwyn gwedd enwadol. Gyda golwg ar gronfeydd cyhoeddus a chyffredinol, yr oedd pawb yn gwybod nad oedd efe yn ŵr cyhoeddus, ac felly nad oedd a fyno ef â hwynt o gwbl.

Gyda'r fath feistr, nid oedd lle i ddysgwyl y cawsai John Aelod Jones nemawr o gefnogaeth yn ei efrydiaeth lenyddol; ac, fel meibion athrylith yn gyffredin, bu raid iddo ymladd â llawer o rwystrau, a gorchfygu llawer o anhawsderau. Er y gallasai gael ambell i awr hamddenol i ddarllen yn ystod y diwrnod, nid gwiw oedd iddo edrych ar lyfr *during business hours*, ys dywedai ei feistr. Yr oedd Mr. Sharp Rogers ymron mor gyson a ffyddlawn yn ei *shop* ag ydoedd y *counter*, fel nad oedd gan Aelod Jones ychwaith gyfle ond rhyw unwaith yn y mis, sef pan elai ei feistr i Manchester, i fanteisio dim ar ei absennoldeb. Ac hyd yn nod y diwrnodiau hyny, byddai Miss Rogers bob rhyw hanner awr yn estyn ei thrwyn main gyda chil y drws oedd yn gwahanu y *shop* a'r gegin, i edrych a oedd y bechgyn wrth eu gwaith. Nid oedd dim amser i ddarllen i'w gael ar adeg y pryd bwyd, oblegid deng mynyd yn unig a ganiateid yn y *London*

*House* i ddiwallu anghenrheidiau y corff. Yr oedd Mr. Rogers yn fanwl gyda hyn o herwydd dau reswm: yn un peth, er mwyn argraffu ar feddyliau ei weision werth amser; ac yn nesaf, er mwyn eu dysgu i beidio bwyta i ormodedd. Ië, anghofiais ddyweyd fod hon hefyd yn erthygl bwysig yn nghredo Mr. Rogers—mai arferiad drwg oedd bwyta llawer, yn enwedig mewn pobl ieuainc. O herwydd rheol gyfyng y deng mynyd, ac fod dannedd John Aelod Jones yn hynod ddirywiedig a braenllyd, ac hefyd fod y cigfwyd a barotoid ar ei gyfer yn y *London House* yn amddifad bob amser o'r ansawdd hwnw a briodolir i einioes dyn, sef breuolder, yr oedd John, yn ystod ei arosiad gyda Mr. Rogers, wedi myned mor deneu ymron â gwïalen bysgota. Nid oedd neb a allai chwerthin yn fwy calonog wrth son am hyn na John ei hun; a mynych yr adroddai, er difyrwch i'w wrandäwyr, mai unwaith yn unig er pan ydoedd yn y Dreflan y cawsai ei lwyr ddigoni âg ymborth, a'r waith hono ydoedd pan wahoddwyd ef i'r Cartrefle i swpera gyda Mr. Pugh. Dywedai John ddarfod i Mr. Pugh y noswaith hono addaw wrtho yn bendant y byddai iddo ef yn y cyfarfod brodyr dilynol gynnyg ar fod i ardreth yr eisteddle a ddaliai yn y capel gael ei ostwng i'r hanner, o herwydd ei fod mor deneu. Os dygwyddai i gwsmer y gwyddai Mr. Rogers ei fod yn meddwl yn lled uchel o Aelod Jones alw ei sylw at deneuwch y llanc, rhoddai Mr. Rogers ei law yn gyfrinachol ar ysgwydd y cwsmer, a dywedai,

"Syr, y mae enaid y bachgen yna yn fwy na'i gorff; yr wyf bob amser yn dyweyd hyny. Y *mae* yn deneu, ni wiw gwadu; ond nid diffyg ymborth ydyw yr achos o hyny na gormodedd gwaith, ond *study*, *study*, syr; dyna sydd yn lladd y bachgen. Nid ydyw o un dyben i mi siarad âg ef. Ni welais i erioed ddaioni o fechgyn a fyddent yn darllen gormod, ac yn moidro eu penau i ysgrifenu i'r wasg. Er nad wn i fy hun ddim am bethau felly, yr wyf yn deall fod y bachgen yna, syr, yn ysgrifenu wmberth i'r papyrau newyddion. Pa bryd y mae

yn cael amser i hyny, nis gwn. Ië, *study*, syr, sydd yn lladd y bachgen."

Yr oedd Mr. a Miss Rogers yn bobl gynnar iawn, fel y dywedir; hyny ydyw, yr oeddynt yn myned i'r gwely rai oriau o flaen pobl ereill, yn enwedig yn nhymmor y gauaf. Yr oedd gan Mr. Rogers ei resymau am hyn fel am bob peth arall. *Dywedai* Mr. Rogers fod myned i'r gwely yn gynnar yn fanteisiol i iechyd, a *meddyliai* ei fod yn arbediad mawr ar nwy a glo. Byddai y swper ar y bwrdd yn y *London House* bob nos am chwarter i naw o'r gloch i'r fynyd, a byddai pobpeth drosodd erbyn i'r awrlais daraw; yna eisteddai pawb yn llonydd am yspaid byr. Am bum' mynyd wedi naw, estynai Miss Rogers bâr o *slippers* i Mr. Rogers, a rhoddai dro ar hyd y gegin at waelod y grisiau, ac edrychai i fyny i'r llofft, a dychwelai i barotoi y canwyllau, yr un modd ag y bydd iâr yn myned o dan yr hofel i edrych ar ei chlwyd, ac yna yn dychwelyd i bigo tipyn wedi hyny·hyd y buarth. Am ddeng mynyd wedi naw, dechreuai Miss Rogers ddylyfu gên, gan roddi tro arall hyd i waelod y grisiau, ac edrych i fyny i'r llofft, a dychwelai y tro hwn i dwymno ei thraed; ac yn y peth olaf cydymffurfid â hi gan Mr. Rogers. Am chwarter wedi naw, dywedai Mr. Rogers,

"Wel, *boys*, nid yw o un dyben i ni aros yma i edrych ar ein gilydd; gwell i ni fyn'd i gadw. Arabella" (enw bedyddiedig Miss Rogers), "goleuwch y canwyllau, a throwch y *gas* i ffwrdd;" a chyn pen deng mynyd arall, byddai Mr. a Miss Rogers yn chwyrnu yn eu gwahanol ystafelloedd, a John Aelod Jones a Walter Wynn yn y *garret* mor effro â dau ehedydd ar ben bore yn mis Ebrill.

Pan darawyd Aelod Jones â'r dwymyn lenyddol, darganfyddwyd gan Miss Rogers un bore nad oedd o'r ganwyll ddimai gyfan a roisai hi i'r llanciau y noson gynt ond rhyw hanner modfedd yn unig yn ngweddill. Byth wedi hyn, ni welwyd canwyll gyfan yn nwylaw y llanciau yn cychwyn i'r ystafell wely, ond "pwt," ys dywedai Walter, "*just* ddigon i bara i ni dynu odd'an danom

ac i ni ddeyd ein pader yn y t'w'llwch!" Ond nid oedd y *genius* i gael ei roddi i lawr fel hyn; na, nid oedd prinder canwyll yn *garret* y *London House*, serch i'r geiniog olaf a feddai John Aelod Jones fyned i'w phwrcasu, a mynych y mynai Walter fwrw ei hatling i drysorfa y goleuni. Gan fod Mr. Rogers yn gysgwr trwm, ac o herwydd fod y "pwt canwyll" yn symud ymaith bob drwgdybiaeth, nid oedd fawr o bryder ar feddwl y bechgyn yr aflonyddid arnynt gan "*Master of the hounds*," fel y galwai Aelod Jones ef. Yr oedd profiad maith hefyd wedi eu cadarnhâu yn hyn. Am wythnosau a misoedd, yr oedd y bechgyn wedi troi yr ystafell wely yn fyfyrgell, yn ddarllenfa ac yn neuadd gerddorol. Gwir mai Aelod Jones a Walter yn unig oeddynt yn cyfansoddi y chwareuwyr a'r gynnulleidfa, oddigerth rhyw ychydig o greaduriaid mân eraill nad allent fwynhâu yr *entertainment!* Yr oedd y nifer mawr o lyfrau a feddai Aelod Jones, ei waith yn ysgrifenu llythyrau parhâus i *Udgorn y Werin*, ynghyd a'r ffaith ei fod yn deall grammadeg, wedi llenwi Walter â'r fath edmygedd o hono ag oedd yn ymylu ymron ar addoliad. Buasai yn rhoddi unrhyw beth am fod "mor *glyfar*" â Jones; ond yr oedd hyny allan o'r cweśtiwn. Ystyriai Walter hi yn fraint o'r radd uchaf gael gwrando ar Aelod Jones yn darllen ei gynnyrchion cyn eu hanfon i'r wasg, a chael cymdeithasu âg un oedd yn gwybod cymaint. Yr oedd Aelod Jones yn ymwybodol o edmygedd Walter, ac yn ei werthfawrogi fel mynegai o edmygedd cyffredinol y byd llenyddol yr oedd efe i'w ennill ryw ddiwrnod. Mae yn gofus gan y darllenydd, o bosibl, mai ymddangosiad paragraph o'i eiddo mewn newyddiadur lleol a barodd iddo ef ymgyfenwi yn "Aelod" Jones. Effeithiodd gweled ei waith mewn argraff mor ddwfn arno nes penderfynu cwrs ei fywyd. Ar ol ymddangosiad y paragraph, ac wedi dysgwyl yn ofer am rai dyddiau am gydnabyddiaeth sylweddol am ei waith, penderfynodd Aelod Jones nad ysgrifenai air byth mwyach i'r papyr hwnw, ac na fyddai iddo ef roddi ffrwyth ei feddwl i berchenogion ariangar a chybyddlyd, a chad-

wodd at ei benderfyniad. Ymhen ychydig ddyddiau anfonodd baragraph yn desgrifio "pytaten enfawr" i newyddiadur arall; ond ni chafodd yr ysgrif ymddangos. Yn "At ein Gohebwyr" gwnaeth y Golygydd y sylw canlynol: "J. Aelod Jones—Dysgwch sillebu." Beth? a oedd y dyn yn awgrymu nas gallai efe sillebu? Daeth goleuni i feddwl Aelod Jones, a gwelodd nad ydoedd eto yn llenor perffaith. Gosododd Walter i ddarllen iddo yn araf, ac ysgrifenai yntau yr hyn a ddarllenid, gan gymharu yr ysgrif â'r argraff; a chafodd er ei syndod fod Gol. y newyddiadur yn gywir. Ond beth oedd hyny i un oedd wedi penderfynu tori ffigiwr yn y byd llenyddol? Yr oedd ganddo un fantais fawr yn yr ymdrech: cawsai ysgol dda, ac yr oedd yn deall Saesoneg yn weddol, ac yn ysgrifenwr cyflym a phrydferth. Gyda chynnorthwy Walter fel darllenydd, meistrolodd Aelod Jones sillebiaeth a phriod-ddull y Gymraeg ymhen ychydig fisoedd. Wedi ennill y perffeithrwydd hwn dechreuodd ohebu i *Udgorn y Werin*, ac ni ddarfu i'r papyr "clodwiw" hwnw wrthod cyhoeddi cymaint ag un o'i ysgrifau. Yr oedd hyn yn galonogol. Yn y cyfnod hwn, yr oedd enw J. Aelod Jones ar ddalenau yr *Udgorn* bob wythnos, a bron wedi myned yn air teuluaidd. Yr oedd testynau ei ysgrifau yn cynnwys amrywiaeth diderfyn—o hanes "Hwch eppilgar" hyd at Gyfarfod Pregethu. Tua'r adeg hon cyfarfyddodd Aelod Jones â phrofedigaeth lem. Bu gohebydd o dref arall mor ryfygus ac anghyfiawn a defnyddio yr enw "Aelod." Brochodd Aelod Jones yn fawr, ac ysgrifenodd lythyr miniog a cheryddgar i'r *Udgorn*. Dilynwyd hwn gan lythyr oddiwrth yr "Aelod" arall. Wedi cryn ffrwgwd, tawelwyd meddwl y wlad gan ymyriad amserol Gol. yr *Udgorn* yn ffafr J. Aelod Jones, ac ni feiddiodd neb mwyach ladrata ei enw. Ystyriai Walter y dylasai y gŵr oedd yn euog o'r fath anfadwaith gael ei roddi yn y carchar gyda llafur caled am o leiaf dair blynedd. Cydolygai Aelod Jones â'i gyfaill, a phrophwydai y byddai i ryw Seneddwr cyn bo hir, 'doedd bosibl, ddwyn mesur i'r *Parliament* er amddiffyn enwau llenorion adnabyddus. Gofidus ydyw

meddwl na chyflawnwyd prophwydoliaeth Aelod Jones hyd y dydd hwn, er y cydnebydd pawb a wyddant rywbeth am lenyddiaeth Gymreig fod hyn yn un o anghenion pwysicaf yr oes oleu hon!

Dichon, wedi'r cwbl, fod peth gwir yn yr hyn a ddywedai Mr. Sharp Rogers gyda golwg ar yr achos o deneuwch Aelod Jones. Yr oedd gan efrydiaeth, o bosibl, ran yn nygiad yn mlaen guriad ei gnawd, oblegid treulid rhai oriau bob nos yn *garret* y *London House* ganddo ef a'i gyfaill i ddarllen, ysgrifenu, a chynnal cyfarfodydd amrywiaethol. Os byddai ar Aelod Jones eisieu "myn'd ati" i ysgrifenu, caniateid i Walter fyned i'r gwely, a chysgu, ar yr ammod iddo beidio chwyrnu. Os darllen a fyddai gwaith y noswaith i fod, eisteddai Walter yn ei wely â'i gôb am dano i'w gadw rhag anwyd, tra y cerddai Aelod Jones yn ol a blaen hyd yr ystafell, gan ddarllen yn uchel, a gwneyd ystumiau ar ei gorff er mwyn dysgu areithyddiaeth. Ar rai nosweithiau byddai raid cael dwy ganwyll: un i Walter, yr hon a ddaliai yn ei law, gan eistedd yn ei wely i ddarllen, ac un ar y bwrdd i Aelod Jones, yr hwn a geisiai ymberffeithio fel *reporter*. Ar ddechreuad yr ymarferiadau hyn, cawsai Walter gryn drafferth i ddysgu cadw ei hun yn effro, tra y darllenai Aelod Jones ysgrifau meithion o'i awduriaeth ei hun, neu o eiddo rhywun arall. Ond esgorodd athrylith gynnyrchiol yr olaf ar gynllun a fu yn hynod effeithiol i ddwyn y deffröedigrwydd a ddymunid oddiamgylch. Yr oedd nenfwd yr ystafell lle y cysgai y ddau gyfaill yn hynod o isel, ac o herwydd hyny yn afiach a thra anfanteisiol i'r pwrpas y troisid hi yn ddiweddar; ond, fel pob gwir berchen athrylith, gwnaeth Aelod Jones i hyn wasanaethu er mantais iddo ef a'i gyfaill. Pan orchfygid Walter gan gwsg, rhoddai Aelod Jones ef i sefyll ar ei ben ar y gwely, gan osod ei draed i gyffwrdd â'r nenfwd, a chan berswadio Walter y gallai gydag ychydig ymarferiad ddysgu cerdded y nenfwd fel y bydd gwibedyn yn gwneyd; ac fel awdurdod ar y pwnc hwn, ac er mwyn ei argyhoeddi o bosiblrwydd y peth, dyfynai gyfran o "Hyfforddwr yr Efrydydd," yn dangos y

gellid gwneyd pobpeth trwy ymarfer. Mynych y ceisiai Walter gerdded y nenfwd, a pharhâi yn yr ymdrech weithiau nes byddai ei wyneb yn glasu, a'i lygaid ymron syrthio o'i ben. Canlyniad naturiol y ceisiadau ebychfawr hyn a fyddai gwneyd Walter mor effro â'r gog, ac yna ai Aelod Jones ymlaen gyda'r darllen.

Er mwyn rhoddi chware teg i Mr. Sharp Rogers, dylaswn fod wedi hysbysu y darllenydd na byddai efe byth yn gwrthod caniatâd i'w weision fynychu cyfarfodydd hwyrol. Yn Eglwys Loegr y magesid Walter, ac Eglwyswyr oeddynt ei rieni; ond mor fawr yr edmygai efe Aelod Jones, fel nad oedd yn hapus heb gael ei ddilyn i bob cyfarfod a gynnelid ar ddyddiau yr wythnos yn y capel, a mynych y cwynai efe mor ddiffygiol oedd yr Eglwys o gyfarfodydd cyffelyb—mai un cyfarfod wythnosol yn unig a geid yn y Llan yn ystod blwyddyn, ac mai plygain oedd hwnw. Oni buasai am ei rieni, buasai Walter wedi troi ei gôt er ystalm. Os byddai ar y ddau gyfaill eisieu myned i gyfarfod, elai Aelod Jones at Mr. Rogers a gofynai,

"A wnewch chwi ganiatâu i Walter a finnau fyned i'r cyfarfod heno?"

Rhoddai Mr. Rogers ei ben i lawr am fynyd, ac yna dywedai,

"Beth ydyw natur y cyfarfod, Jones?"

Esboniai Jones natur y cyfarfod oreu y gallai.

"Wel," meddai Mr. Rogers, "yn gymaint a bod y cyfarfod â'i duedd i wneyd lles, gellwch fyn'd. Gadewch i mi weled; mae'n debyg y bydd hi yn lled hwyr arnoch yn dychwelyd; a fydd o ryw ddyben parotoi swper i chwi?"

"Na fydd o gwbl," fyddai atebiad hunanymwadol Jones.

"Purion," meddai Mr. Rogers.

O dipyn i beth, daeth yn ddeddf yn y *London House*, pan elai y gweision i gyfarfod hwyrol, na pharotoid swper ar eu cyfer; yn unig gadewid ar y bwrdd y "pwt canwyll" a dwy fatsen. Sylwyd gyda boddhâd gan Aelod Jones fod Mr. Rogers yn cynnyddu yn ei gefnogaeth i'r cyfar-

fodydd hyn; oblegid os dygwyddai i ychydig ddyddiau fyned heibio heb iddo ef ofyn am y caniatâd arferol, gofynai Mr. Rogers,

"Jones, oes yna yr un cyfarfod genych yr wythnos hon?"

Parai hyn sirioldeb mawr yn Jones, ond protestiai Walter mai arbed swper oedd yn llygad *Master of the hounds.* Er pan ddaethai Noah Rees i'r Dreflan, yr oedd y cyfarfodydd hyn yn dygwydd yn lled fynych, ac yn achlysuro cryn waghâd ar logellau Aelod Jones a Walter; oblegid pan ddeuent allan o'r cyfarfod, byddai y ddau ymron syrthio o eisieu ymborth; ac nid oedd dim i'w wneyd ond myned i *shop* yr hen Ann Williams i brynu pastai ddwy geiniog. Mor llawen oedd gan yr hen wreigan ddeall fod y bechgyn yn mynychu y cyfarfodydd, fel y gorfodai hwynt yn aml i gymeryd cwpanaid o goffi gyda hi yn yr ystafell gefn. Yr unig beth a ofidiai Ann Williams oedd fod Walter, yr hwn oedd fachgen prydferth a synwyrol, "yn myn'd i'r Eglwys yn lle bod hefo chrefydd!"

Yr oedd Aelod Jones wedi bod "wrthi" am dair noswaith yn olynol yn ysgrifenu hanes cyfarfod sefydlu Noah Rees, a Walter yn y cyfamser wedi bod yn cysgu yn y modd ammodol. O barch i'w athraw, yr oedd Aelod Jones wedi tynu allan ei holl ymadferthoedd i wneyd yr hanes yn y modd goreu a allai. Yr amser ydoedd hanner awr wedi naw ar y noswaith; y lle—*garret* y *London House.* Oer oedd yr hin, a gwisgai Aelod Jones ei gôb uchaf am dano i gadw ei hun yn gynhes, a Walter a eisteddai yn ei wely â gwrthban dros ei ysgwyddau. Yr oedd y "pwt canwyll" wedi ei thaflu ymaith yn ddirmygedig, a chanwyll geiniog wedi ei gosod yn ei le Yr oedd Aelod Jones ymron a bod yn barod i ddechre darllen hanes y cyfarfod i Walter cyn ei anfon i *Udgorn y Werin*, pryd y cymerodd yr ymgom ganlynol le:

"Aelod Jones," ebe Walter, canys wrth ei enw llenyddol y dymunai Jones gael ei gyfarch; "ydach ch'i wedi gorphen yr hanes?"

"Ydwyf," ebe Jones, "ac yr wyf wedi ysgrifenu i'r *Udgorn* i gadw tair colofn."

"Tair colofn!" ebe Walter, "*dear me!* Yr wdw i wedi meddwl lawer gwaith a gofyn i ch'i, Aelod Jones, a wnewch ch'i fy nysgu i scrifenu i'r print."

"Wel, rhywbeth a fedra i wneyd i ti, Wat, mi gwnaf o; ond cyn y medri di ysgrifenu i'r wasg, rhaid iddo fod ynot ti; rhaid i ti gael y dalent; fedr neb ei stwffio fo i ti. Mae hi yn ddawn ar ei phen ei hun, Wat. Dyma'r *gaffer* yma (Mr. Rogers), er mor ffond o bres ydi o, cae o ddwy fil o bunnau am ysgrifenu dwy frawddeg yn rammadegol, fedre fo ddim. Ond mi wnaiff dyn lawer o bethau wrth ymarfer; ac os oes awydd mawr arnat am fod yn ysgrifenwr, craffa ar y pethau canlynol: yn gyntaf oll, rhaid i ti gael ffugenw. Wnei di ddim byd o honi heb ffugenw, a hwnw yn un a fydd yn swnio yn dda. Wedi hyn rhaid i ti feddwl, neu mewn geiriau eraill, synfyfyrio, a dae ti yn edrych dipyn yn hurt, dydi o ddim ods, achos mi feddyliff pobl ychwaneg o honot ti. Yn nesaf, rhaid i ti gael testun i ysgrifenu arno; ac y mae digon o destynau i'w cael bob amser i ddyn o feddwl. Mi wneiff grammadeg ddysgu llawer o bethau i ti, ond cofia hyn—pan yn ysgrifenu i'r wasg, ysgrifena ar un tu i'r ddalen. Wyt ti yn d'allt?"

"Ydw," ebe Walter; "ond be ydi y rheswm am hyny, Aelod Jones?"

"Wel," ebe Jones mewn tipyn o benbleth, "'does dim rheswm i'w roi am hyny, ond mai felly y byddai Dr. Johnson yn arfer gwneyd. Cofia, yn nesaf, wedi i ti roi dy ffugenw yn ngwaelod dy ysgrif, am roi dy enw priodol i lawr, a gwna gylch am dano. Wyt ti yn d'allt?"

"'Rydw i meddwl 'y mod i," ebe Wat; ac ychwanegai, "I be mae nhw eisio yr enw priodol, Aelod Jones? ai er mwyn gwybod i b'le i anfon tal am yr ysgrif?"

"Wel," ebe Jones mewn penbleth eto, "gall hyny fod yn un rheswm, ond nid hyny ydyw y cwbl—mi ddoi i ddeall pethau fel hyn eto. Tria gofio y gwersi a gefaist heno, a chei wers arall yn y man."

"Un cwestiwn arall," ebe Wat. "Ydi hi yn talu yn o lew am ysgrifenu i'r wasg, Aelod Jones?"

"Mae hyny," ebe Jones, "yn dibynu ar alluoedd dyn, a'r enwogrwydd a fydd wedi ei ennill. Mi glywais fod golygwyr newyddiaduron Cymreig yn derbyn cymaint â phum' swllt ar hugain yr wythnos."

"*Dear me!* pwy fase'n meddwl!" ebe Walter yn synedig, ac ychwanegodd, "'Rydach chithe yn scrifenu llawer, Aelod Jones; ydyn nhw yn talu yn o lew i chithe?"

"Wel," ebe Jones mewn penbleth mawr, "mae hyny hefo fi, Wat; nid cymaint ag yr wyf yn ei haeddu, hwyrach. (*Poor fellow!* ni chawsai geiniog erioed am ysgrifenu.) Nid er mwyn yr arian yn gymaint yr wyf yn ysgrifenu; ond er mwyn—wel, mi ddoi i ddeall pethau fel hyn eto. Wyt ti yn barod i wrando ar yr hanes? 'Drycha di arna' i pan fydda' i yn darllen. Pan godaf un bys, dywed dithe 'clywch!' pan godaf ddau fys, dywed 'clywch, clywch!' pan godaf fy holl law, rho *cheers.* Mi wnaiff hyny dy gadw di yn effro. Ond yr wyt yn edrych yn lled gysglyd. Gwell i ti, yr ydw i yn meddwl, roi *touch* o gerdded ar y *ceiling* cyn i mi ddechreu."

"Hwyrach mai hyny fydd oreu, er fod gen' i ofn na ddysga i byth gerdded fel gwibedyn," ebe Wat.

"*Practice* ydyw'r cwbl," ebe Jones.

Taflodd Walter y gwrthban oddiam ei ysgwyddau, a safodd ar ei ben ar y gwely, a gosododd Jones ei draed ef yn gywir ar y nenfwd, a dywedodd,

"*Say when*, Wat."

"Yrwan," ebe Wat; a gollyngodd Jones ei afael o hono.

Pa un ai diofalwch ar ran Aelod Jones, ai ynte diffyg ymarferiad, a barodd i Walter syrthio fel careg ar lawr y llofft, sydd yn gwestiwn hyd y dydd hwn heb ei benderfynu; ond i'r llawr y daeth, a hyny gyda'r fath drwst nes y tybid fod y *London House* yn gandryll. Yr un foment rholiodd Aelod Jones ar lawr, gan chwerthin nes yr oedd ei ystlysau esgyrniog ymron ymagor. Pan ddadebrodd Walter o'i syfrdandod, dechreuodd wylo; ond mewn am-

rantiad, trôdd i chwerthin yn uchel a chalonog. Agorwyd drws yr ystafell, a gwnaeth y *Master of the hounds* ei ymddangosiad yn ei grys nos, yr hwn a gyrhaeddai hyd y llawr. Yr oedd ei ymddangosiad fel ymddangosiad ysbryd. Am foment meddyliodd Walter mai ficer y plwyf oedd y ddrychiolaeth; ond gwelodd ei fod yn ddiffygiol o'r riban goch ar ei ŵn gwŷn, ac nad oedd ganddo flewyn o wallt ar ei ben. Yr oedd y bechgyn ar eu lledorwedd ar lawr, ac nis gallasent symud modfedd.

"Jones," ebe Mr. Rogers, "yr wyf yn synu atoch chwi; y chwi sydd yn ddyn o feddwl!"

"Syr," ebe Jones, "yr ydych wedi anghofio rhoi eich wig am eich pen."

Tynodd Sharp Rogers ei law dros ei ben, a chafodd fod hyny yn ffaith. Yr oedd Aelod Jones wedi ei orchfygu.

"Jones," ebe efe, "cawn siarad am hyn eto," a thrôdd ymaith ar ei sawdl ddihosan.


Er mor hoff o arian oedd Mr. Rogers, buasai yn well ganddo na phum' punt pe nas gwelsid ef gan ei weision heb ei wig. Yr oedd wedi ei ddarostwng yn eu golwg, ac ni soniodd byth air am y noswaith hono. Boreu drannoeth, ar frecwast, gofynodd Miss Rogers a oedd un o honynt wedi clywed rhyw drwst mawr yn gynnar y noswaith gynt. Atebodd Mr. Rogers mai tebygol oedd ei bod wedi breuddwydio. Bu agos i Walter dagu.

Bu codwm Walter yn derfyniad ar weithrediadau y noswaith; ond gan y byddai yn gryn golled i'r darllenydd gael ei amddifadu o hanes cyfarfod sefydlu Noah Rees, mi a'i hanrhegaf âg ef yn y bennod nesaf *verbatim et literatim*, fel yr ymddangosodd yn *Udgorn y Werin*.

## PENNOD XVII.

### SEFYDLU Y BUGAIL.

A OES dosbarth o bobl mor *arbitrary*, mor ddichwaeth, ac mor analluog i farnu teilyngdod cynnyrchion llênyddol ag ydyw golygwyr, ac yn enwedig golygwyr newyddiaduron? Yr wyf yn appelio at filoedd gohebwyr Cymru, Ai onid ydyw yn ffaith, sydd yn cael ei phrofi bob dydd o'r flwyddyn, fod Golygwyr yn arddangos yr anwybodaeth dyfnaf, a'r dylni mwyaf anesgusodol, yn eu gwaith yn gwrthod yn wastadol gyhoeddi ysgrifau galluog a gwreiddiol a anfonir iddynt gan ddynion o dalent a dawn? Nid yn unig hyny, ond y fath anallu a arddangosant i wahaniaethu rhwng cynnyrch gwir athrylith a sothach! Gwrthodant bob wythnos yr hyn sydd werth ei gyhoeddi, a chyhoeddant yr hyn nad ydyw werth dim, nac o un dyddordeb i neb. Hyn ydyw barn onest pob awdwr ysgrifau yr hwn a wrthodir; a phwy sydd ablach i farnu gwerth a theilyngdod ysgrif na'r hwn a'i cyfansoddodd? Peth arall ag sydd wrthunach fyth yn Meistri Golygwyr ydyw, y digywilydd-dra digydwybod a arferant wrth gwtogi a chyfnewid ysgrifau. Pan wneir hyn gadewir allan bob amser y rhanau rhagoraf, a rhoddir i mewn y rhanau gwaelaf; a phan wneir cyfnewidiadau, y maent yn ddïeithriad yn gwaethygu ac nid yn gwella ysgrif. Yn y cyfryw amgylchiadau, mae genyf awdurdod i ddyweyd dros ohebwyr Cymru, yn hytrach nag i'w hysgrifau gael eu llurgynio a'u talfyru fel y gwneir, mai mwy dymunol gan yr awdwyr a fyddai iddynt gael eu gwrthod allan ac allan. Yr hyn sydd fwyaf pruddaidd ynglŷn â'r achos hwn ydyw nad oes obaith am welliant; ac er crefu o'r gohebwyr ar y golygwyr i gyhoeddi eu hysgrifau "fel y maent" ac "yn eu ffurf wreiddiol," nid ydynt yn diwygio dim oll; maent mor ddwfn yn y camwedd hwn heddyw ag y buont erioed!



"Gwnaeth y *Master of the Hounds* ei ymddangosiad." t.d. 142.

Hawddach dychymygu na darlunio teimladau John Aelod Jones ar dderbyniad *Udgorn y Werin*, yr hwn oedd i gynnwys hanes cyflawn am sefydliad Noah Rees yn fugail yn y Dreflan. Ar ol yr holl drafferth a'r llafur yr oedd ef wedi ei gymeryd gyda'r hanes, yr oedd y Gol. afresymol wedi ei dalfyru i ddim ymron. Pan agorodd Aelod Jones yr *Udgorn*, a hyny mewn dull braidd yn ddoctoraidd a hunan-ddigonol, a phan welodd i gàn lleied o le yr oedd y Gol. wedi crynhoi yr hanes maith a llafurfawr, collodd ei dymher yn hollol. Tarawodd y papyr yn y llawr, a tharawodd ei het wedi hyny, gan fwrw ffrwd o gaseiriau ar awdwr y trychineb. Cerddodd yn ol a blaen hyd yr ystafell, gan gicio yn ddirmygus y papyr a'r het. O herwydd na wyddai Walter Wynn y rheswm am y gynddaredd hon, meddyliodd yn sicr fod Aelod Jones yn dechreu dyrysu yn ei synwyrau, a bod hyny wedi ei ddwyn oddiamgylch gan orefrydiaeth; ac yr oedd efe ar fedr galw am help pan ddywedodd Aelod Jones,

"Walter, mae hyn yn fwy nag y medr un dyn o feddwl ei ddyoddef. Wedi i mi fyned i'r drafferth i ysgrifenu hanes manwl, cyflawn, a gorphenedig, dyma fo—byd a'i gwelo!—wedi ei gwtogi i un paragraph!" a tharawodd yr *Udgorn* yn y llawr drachefn. Gofynodd Walter, âg eiddigedd yn amlwg i'w ganfod yn ei wyneb,

"Ai onid ellwch chwi roddi cyfraith ar y Golygydd, a hawlio *damages?*"

"Ti a siaredaist fel un o'r ynfydion, Wat," ebe Aelod Jones; "ond o ran hyny, be wyddost ti am lenyddiaeth a'i rheolau? un fel ti nad ysgrifenaist linell erioed i bapyr newydd, ac nad oes genyt ffugenw! Pe buasit yn gofyn ai onid oedd modd dyfeisio peiriant i wneyd gwaith golygydd, a'i wneyd yn llawer rhagorach nag y gwneir ef yn ein dyddiau ni, buasit yn siarad *sense*. Mae yn gywilydd ac yn warth ar Gymru fod dynion yn cael eu gosod yn olygwyr na wyddant y gwahaniaeth rhwng sothach a champwaith —rhwng manus a gwenith. Dyma yr *Udgorn* yma am heddyw; mae o yn llawn o *rubbish*, na ddarllenir gan neb byth; a'r hanes y cymerais i gymaint o drafferth gydag

ef, ac a fuasai o ddyddordeb cyffredinol, wedi ei lurgynio a'i wasgu i le gymaint a'm mys bach i. Son yr wyt ti am hawlio *damages!* sonia yn hytrach am roi *sense* yn mhenau golygwyr!"

Cyfaddefodd Walter ei anwybodaeth, a gwnaeth ymddiheuriad, a meiddiodd wneyd un awgrymiad arall: "Aelod Jones," ebe fe, fedrech ch'i ddim codi papyr newydd i chi'ch hun? Mae Phillip Humphreys yn gallu printio *programme* y cyfarfod cystadleuol; a pham na fedre fo brintio papyr newydd?"

"Wyddost ti beth?" ebe Jones; "mae rhywbeth yn dy ben di wedi'r cwbl. Gyda golwg ar yr olygyddiaeth, mi fedrwn i *fanagio* hyny yn burion—yn llawer gwell nag y mae golygydd yr *Udgorn* yn gwneyd. Ond y mae genyf ofn mai nid Phillip Humphreys ydyw'r dyn i brintio papyr newydd, ac mae eisio tipyn go lew o bres i gychwyn newyddiadur, Walter."

"Wel," ebe Walter, "mae gen i goron, a ddyliwn fod gynoch chithe bunt neu ddwy, ac hwyrach y gallech ch'i gael punt gan eich tad, a dae y gaffer yma yn meddwl y gnae o dalu, y gallech ch'i gael punt gyno fynte."

"Mae genyf ofn," ebe Jones, wedi tawelu yn fawr, "na fyddai hyny ddim yn ddigon i gychwyn papyr *first-class*; ond mi gawn feddwl am hyn eto;" a syrthiodd i ddystawrwydd synfyfyriol, ymha un y dychymygai weled ei hun yn nghader y golygydd, ac yn galw ei hunan yn "ni." Parodd awgrymiad Walter i Aelod Jones adfeddiannu ei natur dda; ac nid peth bychan oedd hyny, oblegid ni welwyd ef erioed wedi colli ei dymher mor fawr. A phwy yn ei sefyllfa ef a fuasai yn gallu cadw ei bwyll? Wedi iddo fod wrthi am nosweithiau yn ysgrifenu yn ddygn, ac er iddo anfon gair i'r *Udgorn* am iddynt gadw tair colofn, wele y Golygydd wedi dirwasgu yr hanes maith a gorphenedig i'r paragraph canlynol:—

"*Y Dreflan.*—Nos Lun diweddaf, cynnaliwyd cyfarfod yn yr Hen Gapel i sefydlu y Parch. Noah Rees yn fugail ar eglwys y Methodistiaid yn y lle. Yr oedd y cynnulliad yn lliosog; a chafwyd anerchiadau pwrpasol i'r amgylchiad gan amryw frodyr dyeithr a

chartrefol; ac ymddangosai pawb yn eu hwyliau goreu. Hyderir y bydd y symudiad newydd hwn er lles i'r eglwys a'r gymydogaeth. —J. Aelod Jones."

Gan fod mwy o ddyddordeb a phwysigrwydd ynglŷn â chyfarfod sefydlu Noah Rees nag y mynai *Udgorn y Werin* ei osod arno, fe allai na wnawn gyfiawnder â'r hanes hwn nac â'r darllenydd, pe yr elwn heibio heb geisio gwneyd crynodeb byr o'r hyn a gymerodd le ar y pryd. Mae genyf gof da am dano, ac am yr hyn a ddywedwyd ar yr achlysur. Nid wyf yn cofio i mi *deimlo* mwy mewn unrhyw gyfarfod; oblegid yr oedd Mr. Pugh yn eistedd wrth fy ochr, ac yn fy mhwnio yn barhâus yn fy ystlys tra yr oedd hwn a'r llall yn siarad. Fel gyda phob peth arall, yr oedd Mr. Smart a Mr. Bevan wedi arbed y drafferth i'r blaenoriaid eraill, ac i'r eglwys, o gynllunio a threfnu y cyfarfod. Yr unig ofal a osodwyd arnynt hwy gan y ddau ddiacon parchus oedd, ar iddynt gofio y dyddiad yr oedd y cyfarfod i gymeryd lle.

Wedi dechreu y cyfarfod yn y ffurf arferol, ar gynnygiad Mr. Bevan, cymerwyd y gadair gan Mr. Smart, yr hwn er fod y peth yn wybyddus iddo ymlaen llaw, a arwyddocäodd syndod mawr, ac a ymddangosai braidd yn *nervous;* ond gan nad oedd yn hoffi bod yn anufudd, cerddodd yn araf a pharchus i'r gader grybwylledig; ac wedi eistedd i lawr am oddeutu chwarter mynyd, cododd ar ei draed, a dywedodd:

"Frodyr a Chwïorydd,—Yr ydych i gyd yn gwybod nad wyf un amser yn hoff o fod yn gyhoeddus, llawer llai ar amgylchiad o natur—natur yr amgylchiad presennol. Ond ar amgylchiad o natur yr amgylchiad presennol, gwell ydyw bod yn *obedient.* Yr ydych i gyd yn gwybod nad wyf yn arfer siarad yn gyhoeddus, yn enwedig ar amgylchiad fel o natur yr amgylchiad—hym—presennol. Gan mai Mr. Bevan ydyw y blaenor hynaf ar yr amgylchiad—hym—gwell o lawer a fuasai iddo ef fod yn gadeirydd ar yr amgylchiad. Ond gan fod yr amgylchiad—ïe dyna yr oeddwn i yn myn'd i ddyweyd—nid oes genyf ond gwneyd fy ngoreu yn bresennol. Ni wnaf gymeryd eich amser ar yr amgylchiad—hyny ydyw yn y cyfarfod hwn—gan eich bod oll yn gwybod beth ydyw natur yr am—— hyny ydyw, y cyfarfod hwn. Mae yma amryw frodyr i'ch anerch, ac mi gewch glywed beth ydyw natur—hyny ydyw, y mae yma frodyr dyeithr, ac

ni fyddai ond ofer i mi ar amgylchiad o natur yr amgylchiad presennol—yn awr mi alwaf ar Mr. Bevan i ddywedyd gair ar yr amgylchiad."

"Dydi yr hen Smertyn ddim yn gallu siarad mor deidi ar y *stage* ag yn ei barlwr; be wyt ti'n ddeyd?" ebe Mr. Pugh wrthyf, gan roddi peneliniad i mi yn fy ystlys.

Ymhlith pethau eraill, dywedodd Mr. Bevan,—

"Gan fod Mr. Rees yn ein plith er ys rhai misoedd bellach, hwyrach fod rhywrai yn barod i ofyn, Paham na chynnaliwyd y cyfarfod hwn yn gynt? Digon ydyw dyweyd mai hyn ydoedd dymuniad Mr. Rees ei hun i ni oedi cyfarfod ei sefydliad nes iddo ef ymgydnabyddu â ni a ninnau âg yntau. Mae y fugeiliaeth yn symudiad newydd mewn cymhariaeth yn nghorff y Methodistiaid; ond y mae yn symudiad, yr wyf yn meddwl, ag sydd yn sicr o gynnyddu, ac o fod o fendith gyffredinol. Ofer a fyddai i mi heno fyned yn fanwl dros yr amgylchiadau a barodd i ni gymeryd y cam pwysig o alw Mr. Rees i'n bugeilio. Tra yr oedd y diweddar Mr. Williams gyda ni, nid oedd arnom anghen am fugail, gan ei fod ef yn gwneyd y gwaith ymhob ystyr o'r gair yn rhad ac am ddim. Ond wedi iddo ef fyned at ei wobr, yr oedd y diaconiaid yn teimlo fod yn rhaid cael rhywun i ofalu am yr achos [rhoddodd Mr. Pugh bwt i mi yn fy ystlys], ac yn hyn yr oedd yr eglwys yn cyttuno. Yr wyf yn credu y cydolygwch â mi pan ddywedaf ein bod wedi bod yn hynod ffortunus wrth gael Mr. Rees atom. Mae efe bellach yn adnabyddus i'r rhan fwyaf o honoch, ac wedi profi ei hun eisoes yn ŵr cymhwys i'r gwaith y galwyd ef iddo. Yr wyf yn teimlo yn falch o allu hysbysu yr eglwys a'r gynnulleidfa fod perffaith gydwelediad rhwng y bugail a'r swyddogion hyd yn hyn."

Wedi gwneyd rhai sylwadau ymhellach, eisteddodd Mr. Bevan i lawr a dywedodd Mr. Pugh wrthyf, "Mae *grammar* Mr. Bevan yn rhagori ar un Mr. Smart, beth bynag am ei *logic.*"

Galwodd y Cadeirydd yn nesaf ar y Parch. Edward Prysor, yr hwn, fel y crybwyllais yn y bennod gyntaf, a berthynai i'r capel newydd, a'r hwn, o ran ei alwedigaeth, oedd yn ffermwr, yn siopwr, yn gasglwr trethi, yn *general dealer*, ac yn pregethu rhwng cromfachau. Dywedodd Mr. Prysor ar ol rhai sylwadau rhagarweiniol:—

"Yr wyf fi fel y gwyddoch, yn perthyn i'r hen ysgol, ac nis gallaf ymffrostio i mi dderbyn addysg athrofäol; ac y mae rhai yn

dyweyd fod tipyn o *jealousy* ynom ni, pregethwyr yr hen ysgol, at y bugeiliaid. Gall hyny fod yn wir mewn rhai amgylchiadau ; ond ni welais i beth felly ymhlith fy mrodyr. Mae yn gysur mawr i un fel fi, sydd yn nghanol trafferthion y byd, gofio fod y Pen mawr wedi gwneyd wmbreth o ddaioni mewn amser aeth heibio trwy rai cyffelyb i mi. Yn wir, yr wyf yn meddwl y gallaf ddyweyd na fuasai Methodistiaeth yr hyn ydyw heddyw oni buasai am y rhai oeddynt yn pregethu gydag arddeliad ar y Sabbothau, ac yn nghanol helynt y byd a'i bethau yn y *shop* neu y fferm fore Llun. Ond y mae amgylchiadau erbyn hyn wedi newid ; ac y mae yn debygol nad ellir myned ymlaen gyda'r achos yn hwylus yn ein dyddiau ni heb yr hyn a elwir y fugeiliaeth, yn enwedig yn y trefydd mawrion. Rhydd i bob dyn ei farn ; ac y mae genyf finnau fy marn ar hyn. Ond yr wyf yn hyderu y bydd dyfodiad y gŵr ieuanc, Mr. Rees, atoch yn profi yn llesol i'r eglwys, ac y byddwch ymhen y flwyddyn yn gallu pwyntio at rywbeth mawr wedi ei wneyd. Yn y cyfamser, nid oes genym ni yn y capel acw ond ceisio myned ymlaen yn ol yr hen *jog trot*. Yr wyf yn llongyfarch yr eglwys yn yr Hen Gapel ar ei chaffaeliad newydd, ac yn dymuno pob bendith arnoch. Nid oes llawer o gydnabyddiaeth wedi bod rhyngof â Mr. Rees ; ond oddiar bobpeth a glywais am dano, y mae yn ŵr ieuanc tra chymhwys i wneyd y gwaith yr ydych yn ei ddysgwyl oddiwrtho. Os ydyw efe braidd yn ieuanc, mae ganddo gynghorwr yn ein cadeirydd parchus ; ac y mae Mr. Rees yn ddigon call i wybod mai yr hen a ŵyr."

Gwyrodd Mr. Smart ei ben yn gydnabyddgar, càn belled ag y goddefai ei goler *stiff* iddo wneyd hyny ; a galwodd ar y Parch. Robert Hugh Lewis (W.) i ddyweyd ychydig eiriau, yr hwn a lefarodd,

"Mr. Cadeirydd, a chyfeillion cristionogol oll ; daethum yma heno fel syml wrandäwr, ac ni freuddwydiais y buasai raid i mi wyddfodi ar y lwyfan ; ond fel y dywedodd ein parchus gadeirydd ar y dechreu, gwell ydyw bod yn *obedient*. Yr wyf wedi dysgu cymaint a hyn o athroniaeth, mai ufudd-dod ydyw ammod bodaeth. Hon ydyw deddf gyffredinol y bydysawd. Torwn y ddeddf, peidiwn a bod mor sicr a bod effaith yn dilyn yr achos. Ufudd-dod ydyw yr achos ; yr effaith yw eich bod yn clywed fy llais i yma heno. Gwyddoch oll mai yn ddiweddar y daethum i gylchdaith y Dreflan ; ac, o anghenrheidrwydd, rhaid mai ammherffaith gydnabyddiaeth a feddaf o'm brodyr Calfinaidd ; ond fel y bydd olwynion amser yn chwyldroi, a'n llwybrau yn y byd yn cynghroesi, hyderus ddysgwyliaf y deuaf i feddu yr hyn yr wyf heno yn teimlo yn golledwr am na bawn yn ei feddu, sef yw hyny, adnabyddiaeth—cydnabyddiaeth, a mynwesol gyfeillach fy mrodyr y Calfinistiaid. Yr wyf eisoes yn ystod fy myr arosiad yn eich plith, wedi dyfod i ddamweiniol gysyllt-

iad â'ch gweinidog newydd ar achlysuron fwy nag un; ac oddiar brofiad gweddol faith o'r ddynol natur, yr wyf wedi ei gael yn ŵr ieuanc coeth, pur, dysgedig, dwfn-dreiddiol ei feddwl, eang ei syniadau, tanllyd ei ysbryd, yn tueddbenu i fod yn llawen yn ei gymdeithas, ac ar yr un pryd yn ochelgar yn ei ymddyddan, ac yn wyliadwrus yn ei ymddygiad. Mae yn dda genyf fod y symudiad newydd hwn, fel y dosbenwyd ef gan Mr. Bevan, sef gofal gweinidogaethol, yn ennill tir ac yn ymeangu ac yn hydreiddio yn nghorff y Calfinistiaid, yr hwn sydd wedi profi mor fendithfawr ac wedi dylanwi mor rymus yn ein plith ni, y Methodistiaid Wesleyaidd. Wrth dewi, nid oes genyf ond dymuno pob bendith a llwydd arnoch un ac oll, a'ch annog i gydymosod ar furgaerau y gelyn, hyd nes y bydd baner y groes yn cyhwfanu ar *wreck* pob ymherodraeth."

"Wyddost ti be?" ebe Mr. Pugh, "dyna ddyn clyfar anwêdd; ond mi feddyliwn mai yn Sas'neg mae o wedi arfer pregethu; be wyt ti'n ddeyd?" Atebais nad hyny oedd y ffaith, ac nad oeddwn yn deall fod Mr. Lewis yn enwog fel Sais. Arwyddodd Mr. Pugh gryn syndod. Dywedodd y cadeirydd,—

"Dylaswn fod wedi dyweyd yn y dechre fod amgylchiadau wedi attal i'r Parch. Stephen Hughes, yr hwn a benodwyd gan y Cyfarfod Misol i ddyfod yma ar yr amgylchiad presennol—fod amgylchiadau wedi ei attal i ddyfod yma. Ond y mae yn dda genym weled yr hen batrïarch William Thomas ar yr amgylchiad. O'r eglwys y magwyd Mr. Rees y mae William Thomas, ac y mae ar yr amgylchiad presennol wedi ei anfon dros y Cyfarfod Misol; a bydd yn dda gan bawb ei glywed yn dyweyd gair ar yr amgylchiad. Ond cyn iddo ef siarad, cawn air gan Mr. Rees ei hun ar yr am—— hyny ydyw, cawn air o'i deimlad."

Siaradodd Mr. Rees ychydig eiriau pur gall; ond gan y gwyddys ei fod ef a minnau yn gryn gyfeillion, ni roddaf ei anerchiad i lawr yn y fan hon, rhag i rywrai dybio fy mod yn dueddol. Yr oeddwn yn tybied, ac yr oedd Mr. Pugh yn cydolygu â mi, fod Noah yn siarad braidd yn rhy *independent*. Galwodd y cadeirydd ar William Thomas ymlaen, yr hwn a ddywedodd:

"Yr ydw i yn teimlo heno yn debyg iawn fel 'roeddwn i'n teimlo ar ddiwrnod priodas fy mab William. 'Roeddwn i'n teimlo y diwrnod hwnw yn brudd iawn ac yn llawen iawn. 'Roeddwn i'n erbyn yn arw iddo fo briodi, ac eto 'roeddwn yn leicio'n ryfeddol 'i wel'd o'n cael gwraig dda. 'Roeddwn i fel bydaswn i'n 'i golli o am byth,

ac yn teimlo'n isel iawn ; ac eto 'roeddwn i'n llawen iawn wrth feddwl mai hyny oedd ore iddo fo, ac mai yr hyn oedd ore iddo fo oedd ore i minnau ac i'w fam. Fedra i ddim deyd i ch'i sut 'roeddwn i n teimlo, ond 'y mod i yn gymysglyd iawn. 'Rydw i'n cofio o'r gore be ddeydodd ei fam wrth William pan oedd o yn gadael cartref, ac yn myn'd i fyw at ei wraig : 'William,' medde hi, 'dae rhywbeth yn hapno i Lizabeth dy wraig di, cofia y bydd yn dda gynno ni dy wel'd di yn dwad yn ol i'r hen gartre'.' Ac mi fu gynon ni hiraeth garw ar 'i ol o am spel ; do, wir. Wel, gyfeillion, dene ydi'n nheimlad i heno. 'Rydw i'n teimlo colled ryfeddol ar ol Noah Rees—naiff o ddim digio am i mi beidio deyd Mistar. Oes, mae acw hiraeth mawr ar 'i ol o hefyd. Ond mae'n dda gen i feddwl mai wedi newid ei le mae o, ac nid wedi myn'd allan o'r winllan—mai wedi cael ei godi mae o gan ei Feistr, ac nid ei droi i ffwrdd. Peth garw fydde i ni gael ein troi i ffwrdd gan ein Meistr fel gweision anfuddiol. Mi welais i rai yn cael eu troi o'r winllan, ac yn marw ar y comin. Gybeithio y cawn i gyd ein cadw yn y winllan, a'n codi ynddi. 'Does gen i ddim llawer i ddeyd wrthoch ch'i. Mi fase'n dda ryfeddol gen i dase Mr. Hughes wedi dwad yma ; mi fase fo yn gallu rhoi cynghorion go dda i ni. Ond mi lioiwn yn arw i ch'i neyd yn fawr o Noah Rees, a bod yn bob help iddo gyda'r gwaith mawr. Rhowch ddigon o waith iddo fo ne mi golliff ei iechyd, achos welais i neb erioed mor anghyfforddus â fo os na chae o ddigon i neyd. Os bydd o heb neyd cymaint ag y buasech chi'n ddymuno, gweddïwch drosto, ac mi neiff fwy nag y byddwch yn dysgwyl iddo neyd. Hyd y gellwch, peidiwch a brifo ei deimladau. Weles i erioed was na morwyn, os bydde nhw yn werth eu cael, na fydde gynyn nhw dipyn o hunanbarch ; ac y mae dyn sydd yn parchu ei hun yn haws ei frifo o lawer na'r dyn diog afler. Mi gewch ddeyd be fynoch bron wrth hwnw ; mae o wedi arfer clywed pethau felly. Ond mae y dyn sydd yn gwybod ei fod yn ceisio gneyd ei ddyledswydd yn teimlo yn union os deydwch ch'i air cas wrtho fo. Yr ydw i'n cofio yn dda fod hefo mistar unweth oedd yn wastad yn edliw fy nghyflog i mi, er 'y mod yn trio gwneyd fy ngore iddo fo. Dene'r adeg fwya anhapus ar f'oes i. Er mwyn pob peth, peidiwch ag edliw cyflog eich bigel ; gwell i ch'i o lawer roi *notice* iddo fo fadel. Mae nhw'n deyd mai yn ei gartre y dylid morol am garitor dyn. Wel, 'does gen i ddim ofn i ch'i ddwad acw i morol am garitor eich bigel. Yr ydw i wedi cael cyfleusdra o'r blaen i roi ychydig gynghorion i Noah Rees, dase arno fo anghen am danyn nhw. Ond mi ddymunwn, fy nghyfaill, i ch'i gadw y cwestiwn hwnw o flaen eich meddwl o hyd, Pwy a gredodd i'n hymadrodd? Eich gwaith mawr ydi cael y bobol i gredu. Wrth i ch'i ymweled, a phregethu, a gweddïo—wrth i ch'i neyd eich gore hefo'r bobol ifinc, y pwnc mawr o hyd ydi cael y bobol i gredu. 'Does gen' i, fel Mr. Lewis, ond dymuno pob llwyddiant a hapusrwydd i ch'i, a dae rhywbeth yn hapno rhyngoch ch'i a'r eglwys yma, cofiwch, fy anwyl gyfaill, fod acw gartref agored i ch'i neiff eich derbyn yn groesawgar."

"Wel, wyddost ti be," ebe Mr. Pugh, "yr ydw i'n leicio rhw hen *sort* fel ene. 'Rydw i'n ei theimlo hi yn fraint cael rhoi *lodging* i'r hen *foy* ene."

Dilynwyd William Thomas gan amryw frodyr eraill, ac ar y cyfan cafwyd anerchiadau rhagorol. Canmolai Mr. Pugh y cyfarfod yn fawr; ond teimlwn i fy hun fod rhywbeth yn anystwyth ynddo, a'i fod heb gael ei nodweddu â chymaint o ireidd-dra ag y dymunaswn. Yr oedd hyn o bosibl i'w briodoli i'r siomedigaeth a gafwyd o herwydd absennoldeb Mr. Stephen Hughes, yr hwn wrth gwrs a ddylasai fod yn brif siaradwr y cyfarfod. Yr oeddwn yn meddwl wrth wrandaw ar Noah nad oedd efe yn ei ysbryd arferol; ac hwyrach ei fod yn camesbonio absennoldeb y genad a anfonwyd dros y Cyfarfod Misol. Er mai yn y capel y cynnelid y cyfarfod, yr oedd y cyfeillion yn ymhyfhâu ar adegau, ac yn arwyddo eu cymeradwyaeth, pan gaent rywbeth i'w boddio, trwy guro eu dwylaw. Sylwodd Mr. Pugh a minnau mai Jim, yr hwn oedd wedi gosod ei hunan ar ben mainc yn nghanol y plant, oedd *ringleader* y gorchwyl o guro dwylaw; ac er i Mr. Pugh ysgwyd ei ben arno i ymattal lawer gwaith, cymerai Jim arno esbonio y nogiadau hyn fel annogaeth i fyned ymlaen, a churai ei ddwylaw gyda mwy o egni nag erioed.

## PENNOD XVIII.

### MR. JEREMIAH JENKINS.

DYCHYMYGAF fod y darllenydd sydd wedi fy nilyn yn feddylgar, fel y dywedir, yn y pennodau diweddaf, wedi bod yn ymofyn âg ef ei hun, Pa beth a ddaeth o Jeremiah Jenkins, gan ei fod ef, fel yr oedd yn ymddangos ar ddechre yr hanes, yn gymeriad nad allai fod yn hir yn

guddiedig? Hwyrach, hefyd, fod y darllenydd wedi bod yn ymresymu, os oedd Jeremiah wedi marw, y dylaswn fod wedi hysbysu hyny, neu, os oedd wedi myned i'w gragen o herwydd siomedigaethau, y dylaswn fod wedi hysbysu hyny hefyd; eithr os oedd efe yn cymeryd rhan yn y dygwyddiadau a gofnodwyd, nad oedd genyf un esgusawd digonol dros ei gadw fel y gwnaethum yn nhir neillduaeth. Yn wyneb hyn oll, rhaid i mi syrthio ar fy mai, a chydnabod fy anfedrusrwydd fel hanesydd. Wrth i mi ystyried a chofio fod Mr. Jenkins yn ŵr mor bwysig fel trefwr, ac fel aelod o'r eglwys yn yr "Hen Gapel," y mae fy esgeulusdra o roddi iddo y lle a ddylasai efe ei gael yn yr hanes hwn yn ymddangos yn fwy camweddol fyth, ac yr wyf yn ceisio edifarhâu yn gyfatebol. O dan yr amgylchiadau, ymdrechaf wneyd iawn am y cwbl trwy roddi y bennod hon yn hollol i ddesgrifio ei gymeriad, a chofnodi hyd eithaf fy ngallu y rhan a gymerodd efe yn y dygwyddiadau a groniclwyd yn anmherffaith eisoes.

Ymfalchïai Jeremiah Jenkins yn ei linach, am y rheswm, fel y dywedai ef ei hun, fod ei deulu yn byw erioed *yn* y plwyf, heb i un o honynt erioed fod yn byw *ar* y plwyf. Yr oedd Jeremiah yn gallu myned gam ymhellach, ac ymffrostio fod ei daid o ochr ei dad wedi llenwi un tro y swydd o bentrulliad i dad Loveall Goodman, Ysw., a'i daid o ochr ei fam ar un adeg wedi bod yn byw yn *lodge* y Plâs. Gwir ddarfod i dad Jeremiah anghofio anrhydedd y teulu, a myned i weithio i'r glo; ond dangosodd yntau natur y clai o ba un yr oedd y teulu wedi ei wneyd, trwy gael myned "ar ei bige" cyn bod yn ugain oed; a chyn i Jeremiah weled goleuni dydd yr oedd ei dad yn dal swydd fel "sheltrwr," yr hon a gadwodd efe hyd ddydd ei farwolaeth.

Gan fod cyflogau da i'w cael i blant yn y gwaith glo pan oedd Jeremiah yn ddeuddeng mlwydd oed, ceisiodd ei dad ei berswadio i fyned gydag ef i lawr y pwll. Ond o herwydd fod Jeremiah o duedd lwfr, ac nad oedd yn bosibl iddo gael cyflog mawr heb osod ei hun yn agored i ddamweiniau, ac i gael ei gymeryd ymaith yn ddisyfyd, gwrth-

ododd yn bendant gydymffurfio â'r cais. Yn siopwr yr oedd efe wedi meddwl am fod, ac yn siopwr y mynai fyned. Gan mai hyn oedd ei benderfyniad, gwelodd ei dad y byddai raid iddo gael addysg; ac yn ganlynol anfonodd ef at Miss Whipum, o Stryt y Capel, i dderbyn y parotoad anghenrheidiol. Bu Jeremiah o dan addysg am flwyddyn gron, a pheidio cyfrif yr amser yr oedd efe yn chware "triwels," ys dywedai y plant. Er fod y duedd o hel i mewn wedi dangos ei hun yn fore yn Jeremiah, nid oedd yn ymddangos fod y duedd hon yr un yn ei dylanwad gyda golwg ar addysg; oblegid ychydig mewn cymhariaeth a gymerodd efe i mewn tra y bu gyda Miss Whipum; a'r unig deitl a ennillodd efe oedd yr hwn a gafodd gan ei gydysgoleigion, sef "*spwnjiwr*" Teg ydyw hysbysu iddo dderbyn y teitl yn onest yn y ffordd ganlynol: os digwyddai i Jeremiah gael dimai neu geiniog gan rywun, byddai yn anmhosibl ei berswadio i'w chyfnewid am felusion yn *shop* Ann Williams; ond os gwyddai ef fod gan rywrai o'r plant eraill geiniog, ni chaent lonydd ganddo nes ei gwario, ac iddo yntau gael cyfran o'r hyn a brynid, am yr hwn ymddygiad y rhoddwyd iddo y teitl "spwnjiwr." Wedi iddo orphen ei ysgol, gosodwyd ef ar fis o brawf gyda masnachwr yn y Dreflan; ond cyn i'r mis ddirwyn i fyny, darganfyddodd y masnachwr nad oedd ei dderbyniadau lawn cymaint ag arferol; a daeth i'r casgliad fod ei fasnach yn lleihâu, neu ynte fod rhywun yn cyfranogi o'i ennillion; ac felly penderfynodd geisio gwneyd heb wasanaeth Jeremiah.

O herwydd fod y tymmor y bu Jeremiah yn gwasanaethu fel siopwr mor fyr, neu ynte o herwydd rhyw reswm arall nad amlygwyd, nid allai y masnachwr roddi caritor a roddai drwydded iddo am dderbyniad i mewn i un masnachdŷ arall; ac felly tybiodd ei dad yn ddoeth ei osod eilwaith ar fis o brawf gyda phaentiwr a *paperhanger*, at yr hwn orchwyl yr oedd gan Jeremiah gryn chwaeth. Cafodd y paentiwr yn ystod yr ychydig wythnosau y bu Jeremiah yn ei wasanaeth achlysur i anfon ei weithwyr i dai ac at deuluoedd gweddol barchus, y rhai, sef y teuluoedd, oedd-

ynt, fel y dygwyddodd y peth fod, yn meddu chwaeth ac opiniynau lled neillduol; canys tystient yn bendant wrth y paentiwr nad oeddynt yn cael unrhyw bleser yn y ffaith fod eu tai yn wagach o amryw declynau wedi i'w weithwyr ef fod yn talu ymweliad â hwynt. Dygwyddodd fod y paentiwr yn union o'r un meddwl â'i gwsmeriaid; a chyda thipyn o hunanymwadiad er mwyn egwyddor, penderfynodd yntau, fel y masnachwr o'i flaen, amddifadu ei hun o wasanaeth gwerthfawr Jeremiah.

Yn gymaint ag i'r ddau brawf a enwyd droi allan yn fethiant, ac hefyd fod Jeremiah yn dal yn ddi-ildio yn ei benderfyniad i beidio myned i'r gwaith glo, ni farnodd ei dad yn briodol wneyd prawf arall i ddwyn ei fab i fyny yn grefftwr; a gadawodd iddo gymeryd ei ffordd o "sincio 'i siawns," fel y dywedai. Annogwyd y "sheltrwr" gan ei gyfeillion i anfon ei fab i ysgol fawr yn ymyl Llundain, i ba le yr anfonid bechgyn yn gyffredin a fyddent wedi dangos talent neillduol. Enw yr ysgol, os wyf yn cofio yn dda, oedd "*The Reformatory.*" Ond ni fynai tad Jeremiah wrando ar y cynghorion, am y rheswm dybygid ei fod yn rhy hoff o'r bachgen i ddygymmod â'r meddwl o ymadael âg ef, neu ynte ei fod yn ystyried fod y dalent yr oedd wedi ei harddangos eisoes wedi ei dadblygu i raddau gormodol, heb ei anfon at rai o gyffelyb feddwl.

Aeth rhai blynyddau heibio heb i Jeremiah ymaflyd mewn unrhyw orchwyl neillduol; a thybiai rhai mai yn y cyfnod hwnw y dechreuodd blew dyfu ar ei ddwylaw; ond mynai eraill, ac yn eu plith y masnachwr a'r paentiwr y cyfeiriwyd atynt yn barod, fod arwyddion o honynt i'w canfod yn llawer cynnarach. Tra yr ydoedd Jeremiah eto yn llanc, rhoddid credyd iddo, hyd yn nod gan ei elynion, am gyfrwysdra di-ben-draw, yr hyn a barai i rai gysylltu â'i gymeriad enw y creadur deallgar hwnw a elwir y llwynog. Yr oedd yn meddu gallu neillduol i ddyfod o hyd i gyfrinach a hanes ei gymydogion, ac ar yr un pryd i gadw ei hanes ei hun yn berffaith ddirgelwch i bawb. Yr oedd ei fuchedd yn hollol ddichlynaidd o ran dim a ellid ei brofi i'r gwrthwyneb; ac er nad oedd wedi cymeryd yr

ardystiad dirwestol, ni byddai byth yn cyffwrdd â'r ddiod feddwol. Byddai ganddo bob amser gyflawnder o arian yn ei logell; ac nid oedd ganddo wrthwynebiad i bobl wybod hyny, càn belled ag na byddent eisieu eu benthyca. Ar brydiau elai oddicartref am ddeuddydd neu dri; ond ni wyddai neb i ba le nac i ba beth. Wedi iddo dyfu i fyny i oed a synwyr, cafwyd allan gan rywrai y byddai Jeremiah yn prynu a gwerthu pethau ag y tybiai y gallai wneyd arian oddiwrthynt, ond nid oedd hyny yn rhoddi cyfrif digonol am y modd yr oedd wedi ac yn gallu cynnal ei hun. Pan ofynid i'w dad am esboniad ar amgylchiadau ac arferion Jeremiah, atebai yr hen ŵr yn ddigon gonest na wyddai efe ddim yn ei gylch. Tybiai rhai ei fod yn *gamblo*, a'i fod wedi bod yn lwcus; eraill a gredent ei fod wedi gwerthu ei hunan i hen ŵr boneddig, yr hwn y mae fy narllenwyr i gyd yn gwybod am dano, a'r hwn hefyd sydd yn awr yn fyw, ac yn debyg o fyw wedi i mi a hwythau ymadael â'r fuchedd hon, ac am hyny ni wnaf ei enwi, gan nad ydwyf yn dymuno bod yn rhy bersonol. Yr oedd rhyw ychydig o bersonau yn credu yn ddiysgog yn y dybiaeth olaf a enwyd, tra y taerai eraill nad oedd hyny yn bosibl, gan fod Jeremiah yn wrandäwr cyson yn yr Hen Gapel, ac nad oedd yr hen foneddwr y cyfeiriwyd ato yn orhoff o'r efengyl, a dyweyd y lleiaf. Ychydig ydoedd nifer cyfeillion Jeremiah; ond gellid priodoli hyny i ragfarn a chenfigen, am ei fod ef yn meddu neillduolion nad allai y lliaws gydymdeimlo â hwynt na chyfranogi o honynt.

Nid yn hawdd y gellid darlunio y syndod a amlygwyd gan aelodau eglwys yr Hen Gapel un nos Sabboth, pan arosodd Jeremiah yn y seiat; nid yn gymaint am fod ei fuchedd yn anghyson â phroffes grefyddol, eithr am y tybid yn gyffredinol fod crefydd yn beth ag oedd allan o'i lwybr, ac yn rhywbeth hefyd nad oedd efe yn teimlo yr angenrheidrwydd lleiaf am dani. Yr oedd Mr. Williams y gweinidog a Benjamin Prŷs y diacon, dipyn yn hen ffasiwn yn eu golygiadau crefyddol, ac yn arddangos gofid am na buasai mwy o arwyddion edifeirwch yn Jeremiah wrth

gynnyg ei hun yn aelod eglwysig. Ond nid oedd ef ei hun yn gweled fod ynddo ddim i edifarhâu o'i blegid; a synai braidd fod y frawdoliaeth yn dangos càn lleied o lawenydd am ei waith yn cynnyg ei hun fel ychwanegiad at addurniadau yr eglwys. Nid llai oedd y syndod yn lled fuan wedi hyn pan ledaenwyd y gair fod Meistr Jeremiah yn bwriadu cymeryd ato ei hun wraig, a hono yn neb amgen na Miss Jones, yr hon a gadwai *shop* barchus ar gongl Stryt y Capel. Yr oedd Miss Jones yn aelod ffyddlawn yn yr Hen Gapel; a chanmolid hi gan y rhai a'i hadwaenai oreu fel un oedd yn meddu mwy o ras nag o brydferthwch, a mwy o gyfoeth nag o bob un o'r ddau. Yn ngolwg Jeremiah, yr oedd y peth olaf yn gwneyd i fyny am bob diffyg; a buasai ef yn eithaf boddlawn i gymeryd Miss Jones yn wraig pe buasai yn amddifad o bob rhinwedd arall.

Wedi uniad Mr. Jenkins â chyfoeth Miss Jones,—oblegid dyna ydoedd nodwedd mwyaf arbenig y briodas, gwisgodd ei fywyd wedd fwy cyffredin, a chyflawnwyd breuddwyd ei fachgendod, sef cael bod yn siopwr. Ymroddodd i fasnach—i brynu a gwerthu, a gwneyd bargenion; ac nid oedd odid ddim prynadwy na gwerthadwy nad oedd gan Jeremiah law ynddo. Yr unig gŵyn a ddygid yn ei erbyn fel masnachwr oedd ei fod braidd yn galed fel gwerthwr, a braidd yn hwyrfrydig fel talwr. Byddai rhywrai yn camgymeryd yr hwyrfrydigrwydd hwn o'i eiddo am anonestrwydd, ac yn ei erlyn yn Llys y Mânddyledion; ond byddai Jeremiah, fel rheol, yn dangos ei fod yn ddyn gonest trwy dalu y ddyled ychydig oriau cyn i'r Llys gyfarfod.

Gyda golwg ar ei fywyd priodasol, ni oddef gofod i mi fanylu. Ymddengys oddiwrth dystiolaeth y rhai oeddynt ei gymydogion nesaf ei fod wedi cymeryd cryn drafferth gyda Mrs. Jenkins, i'w dwyn i ystâd o berffeithrwydd. I gwblhâu hyn, yr oedd Jeremiah wedi gorfod arfer moddion lled lymion; ond ystyriai ef fod y dyben yn eu cyfiawnhâu. Yn ystod ei bywyd morwynol, edrychid ar Mrs. Jenkins fel merch ieuanc ddiniwed, ddystaw, a rhinwedd-

ol· a pherchid hi gan bawb. Pa fodd bynag, ofnai y cymydogion y cyfeiriwyd atynt y gellid casglu oddiwrth ei llefau, a glywid ar rai adegau, fod Jeremiah yn gorfod ei cheryddu; ond ar yr un pryd tystient yn ei ffafr ef na byddai yn defnyddio moddion llymach na'i ddyrnau. Ni chlywid fod Mrs. Jenkins byth yn cwyno wrth neb o'i chymydogesau, am y credai, dybygid, fod y driniaeth a dderbyniai oddiar law, neu yn hytrach oddiar ddyrnau, ei gŵr yn anghenrheidiol er ei lles. Yr oedd lle i feddwl, er hyn, nad oedd bywyd priodasol yn dygymmod â hi yn dda; canys tystiolaeth y rhai a'i hadwaenai oreu oedd ei bod "wedi tori'n arw," ac yn edrych yn ddiysbryd a theneu. Ar yr un pryd, ymddangosai fod gan Mrs. Jenkins barch i'w gŵr; oblegid byddai yn ei ofni yn fawr, ac fel pe buasai ar ei llw pa eiriau a ddefnyddiai wrth siarad âg ef; a gwelwyd hi fwy nag unwaith yn gwelwi fel calchen pan ddygwyddai Jeremiah ddyfod yn sydyn i'r tŷ, a'i chael wedi gwahodd rhai o'i chymydogesau i'r parlwr.

Erbyn i mi ystyried, mae yn rhaid fod rhyw ddiffyg pwysig yn perthyn i Mrs. Jenkins; oblegid os byddai Jeremiah wedi gwneyd bargen ddrwg, neu ynte wedi cael ei siomi, neu ei roi allan o'r ffordd gan rywun, ar Mrs. Jenkins y byddai y bai bob amser, a hi fyddai raid ddyoddef; a chan y byddai yn dyoddef yn ddystaw, y casgliad naturiol ydyw ei bod yn euog. Gwir na fyddai Mrs. Jenkins, druan, yn gallu gweled fod y cysylltiad lleiaf rhyngddi hi â'r dygwyddiadau anffortunus hyn; ond byddai Mr. Jenkins yn ei weled, ac yr oedd hyny yn ddigon. Wedi bod yn briod am rai blynyddau, rhoddodd Mrs. Jenkins enedigaeth i fab bychan, yr hwn amgylchiad oedd yn groes iawn i feddwl Mr. Jenkins; a thystiodd yn nghlywedigaeth yr etifedd y dydd y ganwyd ef na fyddai iddo ef fyned i lawer o gôst gydag ef. Ond ni chymerodd ei gyntafanedig sylw yn y byd o'i eiriau, yr hwn ymddygiad a liosogodd efe yn ddiderfyn mewn blynyddoedd dilynol. Pan nad oedd ei etifedd ond diwrnod oed, prophwydodd Jeremiah gyda rhagwelediad gwyrthiol ymron, mai bachgen drwg ac anufudd a fyddai, ac mai wrth ddrws Mrs.

Jenkins yr oedd y bai i gyd yn gorwedd. Gwiriwyd ei brophwydoliaeth i'r llythyren; oblegid, yn ol tystiolaeth Mr. Jenkins ei hun ymhen blynyddau ar ol hyn, ni fu hogyn fwy anhywaeth, dirieidus, ac anufudd, yn gwisgo esgid erioed. Nid oedd y bachgen yn gwella wrth hen eiddio; eithr ymgysurai ei dad mai nid diffyg dysgyblaeth oedd yr achos o hyny, ac mai Mrs. Jenkins oedd yn gyfrifol am ei ddrygioni. Dygai y bachgen ei hunan dystiolaeth i wirionedd y peth cyntaf; a dywedai yn fynych wrth ei gymdeithion, pe buasai ganddo gynifer o geiniogau ag o wiail a dorwyd ar ei gefn y buasai yn gyfoethog iawn.

Perthynai un peth i'r bachgen na fedrodd ei dad erioed ei faddeu iddo, sef ei fod yn caru ei fam yn angerddol ac yn ei gasâu yntau â chas perffaith. Galwyd y bachgen yn Tom, am mai Thomas oedd enw ei daid o ochr ei fam; a mynai ei dad fod a wnelo ei enw gryn lawer â'i ddrygioni; ond bai Mrs. Jenkins oedd hyny. Yr unig fai a welai ei fam yn Tom oedd ei fod yn rhy dueddol o alw ei dad yn "hen law" ac yn "*governor.*" Oni buasai am y diffyg hwn, buasai yn berffaith yn ei golwg. Yr oedd Mrs. Jenkins yn ei gwiriondeb yn hoff iawn o Tom; a channoedd o weithiau y dywedodd hi wrtho, gan ei gofleidio, "Oni buasai am danat ti, Tom bach, buaswn wedi tori fy nghalon er ys blynyddau." Ffaith nad allodd Jeremiah Jenkins erioed roddi cyfrif am dani oedd, fod Tom, er cynddrwg ydoedd, yn cael ei hoffi yn fawr gan ei denantiaid; ac anaml y gallai ymddiried y gorchwyl iddo o hel y rhenti, am ei fod yn deall yr arferai Tom eistedd gyda Siân Jones i siarad am grefydd, a chydag Ismael Price i siarad am *politics.* Ymgysurai ei dad, pa fodd bynag, nad oedd hyn ond peth i'w ddysgwyl oddiwrth bobl anwybodus; ond yr oedd gwaith un o safle Mr. Pugh yn dyweyd yn ei wyneb fod Tom yn werth cant o hono ef, Jeremiah, yn beth nad allai byth ei anghofio.

Yr oedd gan Mr. Jenkins was, yr hwn oedd yn weithiwr medrus, ond na chyfrifid ef gan bawb yn ben llathen.

Yr oedd y gwas hwn wedi gweithio mor galed a diwyd nes y tybid fod ei gymmalau wedi lleihâu yn fawr o ran nifer er pan ydoedd yn ngwasanaeth Mr. Jenkins. Gan na feddai y gwas ond syniad anmherffaith am rifyddiaeth, nac, yn wir, am ddim arall oddigerth ei orchwyl, byddai Jeremiah yn garedig dros ben tuag ato, ac yn ofalus iawn o hono. Mike oedd enw y gwas, Gwyddel o genedl; ond o herwydd ei fod wedi ei eni a'i fagu yn y Dreflan, gallai siarad Cymraeg yn rhwydd. Fel engraifft o garedigrwydd Jeremiah tuag ato, gellir nodi ei fod wedi cadw a chymeryd gofal o'i gyflog am lawer o flynyddau, heb roddi dim iddo ond oedd wir anhebgorol er ei les, megys *suit* o *corduroy* bob dwy flynedd, a thair ceiniog ar noswaith "*wakes*," gyda gorchymyn caeth iddo beidio eu gwario am oferedd. Engraifft arall o garedigrwydd Jenkins at Mike ydyw na byddai byth yn anghofio chwaeth neillduol ei gydgenedl o'r Ynys Werdd; eithr caniatâi iddo fyw ymron yn hollol o'r naill Nadolig i'r llall ar bytatws a phenwaig. Gwir y byddai Mike yn rhoddi awgrym i'w feistr ar rai adegau, megys drannoeth ar ol "*wakes*," am "*drop o' the cretur;*" ond, yn eithaf priodol, ni chymerai Mr. Jenkins arno ei glywed. Pan ofynid i Mike pa swm o arian oedd ganddo wedi ei adael gyda'i feistr, atebai nad oedd yn ddigon o ysgolaig i wybod, ond ei fod yn meddwl ei fod tua'r un faint a'r "*national dit.*"

Ond y mae yn rhaid i mi brysuro. Profedigaeth fawr bywyd Mr. Jenkins oedd hyn: nid oedd byd nac eglwys yn cydnabod nac yn gwerthfawrogi y talentau a'r nodweddion gwahaniaethol yr oedd ef ei hun yn ymwybodol ei fod yn eu meddu. Yr oedd y ffaith na elwid arno un amser i eistedd ar unrhyw fwrdd na phwyllgor, nac i lenwi unrhyw swydd gyhoeddus o ymddiried yn y Dreflan, yn dangos yn ddigon eglur, yn ol ei feddwl ef, ac yn ei orfodi i ddyfod i'r penderfyniad, mai ar Mrs. Jenkins yr oedd y bai. Yn y capel, yr oedd y diystyrwch a deflid arno yn fwy adgas fyth. Pan oeddid yn dewis blaenoriaid, ni chafodd gymaint a'i enwi gan un o'r aelodau; ac oni buasai ei fod weithiau yn myned i'r addoliad

yn lled brydlawn, ac yn myned i'r sedd fawr heb ei wahodd, ni chawsai gymaint ag arfer moddion yn gyhoeddus. Nis gallai Jeremiah esbonio hyn mewn modd yn y byd ond yn ei gysylltiad â Mrs. Jenkins. Ond er yr holl ddiystyrwch a deflid arno, ystyriai Jeremiah mai ei ddyledswydd oedd siarad yn gyhoeddus mor aml ag a allai yn y capel, i ddadlenu twyll a rhagrith, a chyhoeddi y gwirionedd yn ddifloesgni. Er na fynai yr eglwys ef yn flaenor, nid ystyriai ef fod ei rwymedigaeth yn llai i actio fel *detective*, a galw y swyddogion a'r aelodau i gyfrif fel y byddai amgylchiadau yn gofyn, a chymeryd ar ei ysgwyddau ei hun oruwchreolaeth purdeb ac ymddygiad da pawb yn ddïeithriad. Yn gymaint a'i fod yn gwybod fod yn yr eglwys y fath ragfarn yn ei erbyn, byddai Jeremiah fel rheol yn achub y cyfleusdra i ddadlenu diffygion ei gydaelodau yn mhresennoldeb brodyr dyeithr, megys pan ddeuai pregethwr dyeithr i'r daith, neu pan ddeuai rhywun o'r newydd i'r seiat, neu ar ymweliad blynyddol â'r eglwys dros y Cyfarfod Misol; ac yn fynych iawn, pan feddyliai yr eglwys yn gyffredinol eu bod wedi cael seiat dda a bendithiol, byddai ychydig eiriau *awgrymiadol* oddiwrth Jeremiah ar y diwedd yn rhoi *damp* ar y cyfan. Y fath ydyw nerth gwirionedd, yn enwedig pan leferir ef gan un y mae ei fywyd yn ymylu ar berffeithrwydd!

Ond er yr holl ragoriaethau a berthynai i Jeremiah, cyfaddefai ei fod yn ystod ei fywyd wedi gwneyd rhai camgymeriadau. Un o'r rhai hyny oedd ei fod, tra yr oedd Mr. Williams, y diweddar weinidog, yn fyw, wedi ei hystyried yn fraint ac yn ddyledswydd i alw y gŵr parchedig hwnw i gyfrif rai ugeiniau o weithiau am ei ddiffygion, ei ddallbleidiaeth, a'i ddiffyg barn yn gyffredinol. Ond wedi i'r gŵr parchedig farw, yr oedd wedi newid ei feddwl am dano, ac yn synio mai ei ddyledswydd bellach oedd ei ddal i fyny o flaen y byw, yn enwedig o flaen y diaconiaid, a Noah Rees, fel siampl o berffeithrwydd. Syniadau uchel Jeremiah am Mr. Williams a barodd iddo yn benaf wrthwynebu hyd eithaf ei allu benderfyniad yr eglwys i alw Noah Rees i'w gwasanaethu fel bugail. Gwir

fod ganddo resymau eraill, pa rai a nodwyd genyf mewn pennod flaenorol. Yr oedd Noah Rees yn hysbys o ddaliadau Jeremiah cyn iddo ddyfod atom; ac yr oedd efe yn dysgwyl cael ei feirniadu a'i alw i gyfrif yn fynych; ac yn hyn ni siomwyd ef; eithr byddai Mr. Jenkins yn cymeryd trafferth i egluro mai lles y bugail a'r achos fyddai ganddo mewn golwg bob amser. Tua'r adeg y daeth Noah i'r Dreflan, yr oedd Tom Jenkins wedi dyfod i'w oed, ac yn llanc cryf a heinyf, ac hefyd wedi cyrhaedd pwynt uchaf ei anufudd-dod i'w barchus dad. Sibrydid mewn cylch bychan fod Mr. Jenkins, hynaf, wedi cael ar ei feddwl un diwrnod geryddu Mrs. Jenkins yn ol yr hen ddull, ac i Mr. Jenkins, ieuengaf, ddyweyd wrtho yn bendant na oddefai iddo wneyd hyny, ac i Mr. Jenkins, hynaf, ddyweyd y mynai wneyd, ac i Mr. Jenkins, ieuengaf, y pryd hyny roddi hergwd i Mr. Jenkins, hynaf, nes oedd ei wadnau i fyny, yr hwn ymddygiad oedd hollol anweddaidd. Daeth y ffaith rywfodd i glustiau Mr. Pugh, ac er na fynai efe i neb feddwl ei fod mewn modd yn y byd yn cymeradwyo ymddygiad Tom, gwahoddodd ef yn uniongyrchol i swpera i'r Cartefle.

Fe wêl pob darllenydd diduedd fod safle Mr. Jenkins yn y Dreflan yn esgusawd digonol am feithder y bennod hon ac unrhywiaeth ei thestun. Ond er mwyn iddo gael chware teg i ffurfio barn gywir am garitor Jeremiah, nodaf yn fyr syniadau amryw o bersonau oeddynt dipyn yn wahanol eu barn am dano; ac hwyrach fod gan y darllenydd fwy o ymddiried yn eu barn hwy nag yn eiddo yr ysgrifenydd:—

"Os bu yr ysbryd drwg yn preswylio yn rhywddyn yn ein hoes ni, Jeremiah Jenkins ydi hwnw—wired a mod yn y fan yma."—*Peter Pugh, Ysw*

"Un o'r pethau sydd yn peri i mi hiraethu fwyaf am fyned i'r nefoedd ydyw na fydd yno neb tebyg i Jeremiah Jenkins."—*Benjamin Prys*

"Yr wyf bob amser yn dyweyd, fel y mae Mr. Bevan yn gwybod, mai un o ragoriaethau penaf Eglwys Loegr ydyw na chaniateir i rai cyffelyb i Jeremiah glebar ar bob amgylchiad."—*Mr. Smart.*

"How very ridiculous that Mr. Jenkins is, pa?—*Miss Smart.*

"Ceir cymeriadau cyffelyb i Mr. Jenkins ymron ymhob eglwys y mae ei nifer yn ddau cant a hanner."—*Mr. Bevan.*

"Bydaswn i yn lle Mr. Rees, mi faswn yn deyd wrth y *bobby* am yr hen Jenkins ene."—*Jim Price.*

"Pe buaswn yn barnu crefydd a chrefyddwyr oddiwrth esiampl y —— yna, ni roeswn fy nhroed o fewn i gapel byth."—*Ismael.*

"Yr oedd Enoch Jones yn wastad yn deyd mai un òd oedd Jeremiah; a phwy oedd yn 'i adnabod o yn well nag Enoch Jones?" —*Mrs. Enoch Jones.*

"Gobeithio y caiff y creadur druan faddeuant."—*Siân Jones.*

"Mae genyf ofn fod clefyd Jeremiah yn anfeddyginiaethol." —*Dr. Ellis.*

Ni chwanegaf.

## PENNOD XIX.

### CRYNODEB.

ADWAENWN ddyn yr hwn a wnelai bobpeth ymron yn ei ffordd ei hun, a byddai y ffordd hono yn wahanol i ffyrdd pawb eraill. Pan elai i gyrchu dwfr o'r ffynnon, yr hon oedd dipyn o ffordd oddiwrth ei breswylfod, cymerai amryw biserau gydag ef, ac wedi eu llenwi oll hyd yr ymylon, cariai un o honynt am oddeutu ugain llath, a gosodai ef yn ofalus ar lawr, ac elai i gyrchu un arall, ac wedi eu cael i gyd yn rhes, dechreuai eilwaith eu hebrwng yn nghyfeiriad ei breswylfod, nes eu cael oll o'r diwedd i'r man dymunol. Yn y bennod hon, ceisiaf finnau, mewn rhan, wneyd â'r cymeriadau y buwyd yn son am danynt, yr hyn a wnelai y brawd a grybwyllwyd â'r piserau Ac er nad allaf addaw llawer o ddifyrwch i'r darllenydd wrth eu gosod i gyd yn rhes unionsyth, dichon y bydd hyny yn fantais i mi ail gychwyn i'w hebrwng bob yn un ac un at y terfyn, lle y byddaf yn ffarwelio â hwynt, yr hyn a raid ei wneyd yn lled fuan bellach.

Yn ystod blynyddoedd o afiechyd a gwendid, arferai Benjamin Prŷs gymeryd y dyddordeb mwyaf yn amgylchiadau eglwys yr Hen Gapel, hyd yn nôd pan nad allai fod yn bresennol. Ond yn ddiweddar yr oedd yn amlwg fod cylch ei fywyd yn myned yn gyfyngach bob dydd, ac eithaf ei bererindodau erbyn hyn oedd o'r gwely i'r gegin ac yn ol. Yr oedd yn amlwg hefyd, fel yr oedd ei lwybrau yn byrhâu, fod ei syniadau a'i gydymdeimladau yn ymëangu. Yn raddol dechreuodd golli dyddordeb yn amgylchiadau eglwys yr Hen Gapel fel y cyfryw; a phan elem i edrych am dano, anaml yn awr y gofynai pa faint oedd swm y casgliad, a phwy oedd i bregethu y sabboth dilynol; ond parhâi i ofyn a oedd rhywun o'r newydd wedi aros yn y seiat, ac ai onid oedd arwyddion am adfywiad ar grefydd. Os byddem yn ateb yn nacäol, gofidiai yn fawr; ac megys heb yn wybod iddo ei hun, dechreuai siarad am odidogrwydd y Gwaredwr, ac am y dyfodol dyeithr a gogoneddus sydd yn aros y credadyn, nes oeddym yn teimlo weithiau nad oedd genym hawl i siarad am ddim bydol yn ei bresennoldeb. Yr wyf yn cofio yn dda, pan oedd Mr. Pugh a minnau wedi myned i ymweled âg ef un noswaith, ei fod yn dechreu adrodd wrthym bennillion yr oedd efe newydd eu cyfansoddi.

"Nesu'r wyf bob nos i'r afon,
Afon angeu—eiriau oerion—
Ond 'r wy'n siŵr, y daw'r Gŵr
Fel y d'wedodd—'rioed ni thorodd
Ei gyhoeddiad yn y dŵr.

"Ond er hyn, mor syn y syniad
Ac ofnadwy gyfnewidiad—,"

pryd y daeth Becca Prys i'r ystafell, ac y dywedodd gyda thipyn o deimlad, "Benjamin, ydach ch'i wrthi hi eto hefo'r hen brydyddieth ene? Pwy 'dach chi'n meddwl sydd gan flas i wrando ar bethe fel ene o hyd o hyd? Ydi'r hen Williams, tybed, ddim wedi gneyd digon o hums sydd yn syffisiant i undyn byw, heb i ch'i fyn'd i foedro'ch pen hefo pethe felly? Yn wir, Mr. Pugh, mae

hwnyma wedi myn'd yn rhyfedd arw yn ddiweddar. Dydi o byth yn consarnio yn y pobtŷ nac yn gofyn be' ydi pris y blawd, nac a ydw i'n gallu talu am dano ai peidio, ac ynte yn gwybod o'r gore nad ydw i'n dallt dim *counts.* Mae son am grefydd a'r byd arall yn burion yn 'u lle; ond dydi'r Brenin mawr ei hun, goelia i, ddim yn dysgwyl i ni son am danyn nhw o hyd o hyd; ai ydi o, Mr. Pugh?"

Amlwg ydoedd fod hir gynnefindra â'i afiechyd yn rhwystr i Becca ganfod fod ei phriod yn prysur nesâu i'r afon. Ac mor anhawdd oedd iddi hi, yr hon oedd yn anterth ei hiechyd, a'i chroen càn llyfned â phwys o ymenyn, a'i dillad yn ymddangos yn myned yn dynach, dynach, am dani bob dydd, sylweddoli syniadau a theimladau yr hen ddiacon crefyddol, yr hwn oedd yn ymwybodol fod yr "ofnadwy gyfnewidiad" wrth y drws? Trymaf o gwbl oedd yr ergyd iddi hi pan ddaeth, am nad oedd yn ei dysgwyl.

Yr oedd Walter Wynn wedi rhoi y goreu i geisio cerdded y nenfwd, gan nad oedd llawer o anghen am yr ymarferiad; oblegid anfynych yn awr y cynnelid cyfarfod amrywiaethol yn *garret* y *London House.* Yn ddiweddar daethai cyfnewidiad rhyfedd dros Aelod Jones. Nid oedd efe yn gweled fod llawer o ddaioni yn deillio wrth fynychu y cyfarfodydd wythnosol a gynnelid yn y capel. Yr oedd Aelod wedi dyfod i gysylltiad â newydd-ddyfodiad i'r Dreflan, yr hwn oedd ŵr talentog iawn, ac yn fardd o fri. Nid oedd dadl am dalent y gŵr dyeithr, oblegid gwisgai het uchel, a gwallt hirllaes, ac esgidiau oedd yn myned yn gyflym i'r cwn. Wedi cymdeithasu ychydig â'r gŵr hwn, anfynych y byddai Aelod yn cael pregethwr i'w foddio ar y Sabboth; a byddai yn dangos ei anfoddlonrwydd i bawb trwy gymeryd llyfr i'w ddarllen pan fyddai y pregethwr yn llefaru, neu ynte trwy roddi ei ben i lawr, neu edrych o'i gwmpas yn ddiystyrllyd. Byddai Aelod, druan, yn cael boddhâd mawr iddo ei hun yn y ffordd hon, trwy beri i bobl edrych arno, a gwneyd ei hun yn bregethwr-fesurydd, at yr hwn y coeliai fod pawb yn

edrych am gyfarwyddyd pa fodd i wrando a pha bris i'w roddi ar yr hyn a ddywedai y pregethwr. Dywedai Walter mai anfynych yr arosai Aelod yn y tŷ y nos, gan ei fod wedi ymuno â chlwb llênyddol, lle yr oedd ei bresennoldeb yn anghenrheidiol, ac i'r hwn le yr oedd Walter yn rhy ieuanc i gael derbyniad. Barddoniaeth oedd pwnc mawr efrydiaeth Aelod Jones erbyn hyn; ac nid oedd ganddo lawer o feddwl o neb os na fyddai yn fardd, neu o leiaf yn deall barddoniaeth. Yn gyffredin byddai yn lled hwyr arno yn dychwelyd i'r tŷ y nos; ac o herwydd ei fod yn gorfod myned i'r gwely heb ganwyll, sylwai Walter y byddai Aelod yn tripio yn fynych ar y grisiau, ac weithiau yn cael mawr drafferth i ddyfod o hyd i ddrws yr ystafell wely. Yr oedd ei gof hefyd yn gwaethygu, canys elai i'r gwely yn aml heb fyned ar ei liniau. Byddai arogl ddyeithr ac annymunol ar ei anadl ar adegau, yr hyn a barai i Walter ammheu rhywbeth yn ei gylch, ond ni feiddiai fynegu ei ofnau. Un noswaith, o gywreingarwch, dilynodd Walter Aelod Jones o hirbell; ac er ei syndod gwelodd ef yn myned i'r *White Horse*. Mewn gair, yr oedd Aelod Jones ar y llithrigfa.

Aeth misoedd heibio, ac er syndod i bawb, anfynych y clywid Jeremiah Jenkins yn agor ei enau yn y capel. Deuai i'r moddion yn gyson fel arferol; ond yr oedd naill ai wedi cael yr eglwys a'r bugail i'r sefyllfa berffaith hono y llafuriodd efe gymaint am dani, neu ynte yr oedd wedi anobeithio am eu diwygiad. Sibrydai rhywrai nad oedd ei amgylchiadau cystal ag y buont, a'i fod wedi colli llawer o arian ynglŷn â rhyw anturiaeth y cafodd ei dwyllo ynddi. Dywedai eraill na bu efe erioed mor gyfoethog âg y tybid ei fod, ac fod ei holl dai wedi eu gwystlo hyd eithaf eu gwerth. Pa wir bynag oedd yn to pledge
hyn, yr oedd yn amlwg fod Jeremiah yn fwy difater am y byd, ac fod ei fasnach yn prysur lithro i ddwylaw Tom ei fab. Rhoddai y merched gyfrif gwahanol am y cyfnewidiad yn Jeremiah, a dywedent hwy mai Tom oedd wedi tori ei grib ef gartref, ac yn ei rwystro i roddi yr holl fai ar Mrs. Jenkins, ac ymddwyn ati yn ol yr hen

ddull. Yr oedd yn ffaith fod Mrs. Jenkins yn edrych yn llawer mwy calonog a siriol. Bid a fyno, ys dywed y Deheuwyr, daw y rheswm am y cyfnewidiad yn Jeremiah i'r amlwg fel yr eir ymlaen gyda'r hanes.

Daliai sefyllfa pethau yn Muarth Jenkins yn debyg i'r hyn y cyflëwyd hwy o flaen y darllenydd y tro diweddaf. Cyrchai y wraig lygadgroes rywbeth yn y *jug* o dan ei ffedog hwyr a bore, sul, gwyl, a gwaith. Megys yn cael eu harwain gan reddf, neu ynte gan yr arogl, a chyda thraed llychiog a dolurus, parhâi y *German Band*, wedi iddynt fod yn chwythu trwy y dydd, i fyned i Fuarth Jenkins i chwyrnu am noswaith, ac elent ymaith bore drannoeth byth mwyach o bosibl i weled y Buarth drachefn. Trigai Ismael yn unig fel meudwy, ac nid yn unig ychwaith, oblegid yr oedd nifer ei adar yn lïosocach nag erioed. Yr oedd y tymmor wedi bod yn hynod ffrwythlawn, y *canaries* wedi paru yn dda, a'r *mules* wedi troi allan yn *topknots* cryfion a golygus. Ac felly y dylasent, oblegid cawsant eu gwala o *biscuits* ac o wyau wedi eu berwi yn galed, ac o hadau bresych. Yr oedd Ismael yn dal yn gadarn yn ei benderfyniad i beidio myned i'r dafarn, a deuai i'r capel yn gyson. Dywedai ei athraw yn yr Ysgol Sul mai Ismael oedd y dyn mwyaf deallgar a feddai yn ei ddosbarth. Dysgwyliai Mr. Pugh bob Sabboth weled Ismael yn aros yn y seiat, a chredai yn ei galon fod "rhywbeth ar ei feddwl." Ac felly yr oedd rhywbeth ar feddwl Ismael, ac yr oedd yn rhaid iddo gael ei ddyweyd ryw ddiwrnod, ond nid yr hyn a dybiai Mr. Pugh.

Fel Lot yn Sodom, preswyliai Siân Jones yn nghanol yr anwiriaid. Mewn caban bychan cynnwysedig o ddwy ystafell, cegin a siamber wedi eu gwyngalchu oddimewn ac oddiallan, treuliai yr hen wreigan un o'r bywydau mwyaf hapus ag sydd yn disgyn i ran dyn. Gyda'i bonet fawr, yr hon a wisgai bob amser o fewn yn gystal ag oddiallan i'r tŷ—gyda'i chadach India prydferth, a'i phais o stwff cartref—ei hosan a'i gweill yn ei dwylaw, ei hystôl fawr a'r ysmotiau duon arni ar ganol y llawr—ei



Caban Sian Jones. t.d. 166.

Bibl mawr a'r hoelion pres yn ei gonglau—gyda'i "morgan" yn wastad yn suo ar y pentan—drws y caban yn llydan agored—y ddwy iar yn dyfod i mewn yn ddystaw, gan droi eu penau yn gam, a chan edrych i'w hwyneb, a Siân yn hwmian canu—y byddaf bob amser yn cysylltu yn fy meddwl un o'r golygfeydd dedwyddaf a welais yn fy mywyd. Pa fodd yr oedd yr hen wreigan yn cynnal ei hun, ni fedrais erioed ddeall. Derbyniai hanner coron yr wythnos o'r plwyf, a chwe' cheiniog gan Ismael am wneyd ei wely, a thaclu tipyn ar ei dŷ; ac yr oedd y ddwy iar yn gwneyd cydwybod i ddodwy mor gyson ag y gallent. Hyn ydoedd ei holl *income.* Nage, gan gofio, byddai Mr. Pugh bob dydd cyntaf o'r flwyddyn yn anfon iddi hanner sofren, llwyth o lo, a chydaid o bytatws. Talai Siân bymtheg ceiniog yr wythnos o rent i Jeremiah Jenkins, a rhoddai geiniog ar lyfr yr eglwys bob nos Sabboth heb fethu. Ni byddai byth yn cardota, ac ni chlywais ei bod erioed mewn anghen. Mae yn rhaid fod rhywun yn rhoddi llawer iddi, ac yn rhoddi yn ddystaw, a'r dydd mawr yn unig fydd yn dadguddio yr holl weithredoedd da a wnaethpwyd yn ddirgel. Y dydd hwnw, yr wyf yn sicr y bydd cyfres hir ar gyfer enw gŵr y Cartrefle.

Yr oedd *brawd* crefyddol Siân Jones, sef Mr. Smart, yn parhâu yn ei berffeithrwydd, ac yn gloddesta yn nghanol ei lawnder. Nid oedd ei wallt na'i gernflew byth yn ymddangos yn fwy nac yn llai. Ymddangosai ei grys a'i goler mor ddilwgr bob amser fel pe buasent wedi eu hysmwddio am dano. Eisteddai bob nos yn yr un gader yn ei barlwr costfawr. Cyfranai natur glustogaidd y dodrefn ryw naws meddflyd i'w lais dwfn ac awdurdodol, yr hwn a edmygid gan ei hanner oreu, a berchid gan ei ferch, ac a ofnid gan Fred. Yr oedd y ddysgyblaeth lem a weinyddwyd ar Fred wedi ei wneyd yn fachgen llwfr a hurt, ac yn un oedd yn cael ei orchfygu bob awr o'r dydd ac ar bob amgylchiad gan gwsg. Yn ol pob golwg, nid oedd tyfiant yn cymeryd lle mewn un rhan o'i gorff na'i feddwl, oddigerth yn ei goesau, yr hyn a roddai iddo yr ym-

to lay

Side of head

soft

ddangosiad o blentyn yn cerdded ar *stilts*. Pan fyddai Fred yn dyweyd ei adnod yn y seiat, tybiai y rhai pellaf oddiwrtho yn y capel ei fod yn sefyll ar fainc, gan mor blentynaidd oedd ei lais a'i wynebpryd. Yr oedd Miss Smart yn gwneyd i un feddwl am lyfr yn dyfod allan yn rhanau misol; yr oedd y plyg yno yn gyflawn, ond y rhifyn cyntaf ydoedd o ddynes. Serch hyny yr oedd hi, dybygid, yn ateb y dyben yr anfonwyd hi i'r byd, sef i chwareu y berdoneg, gweithio'r *crochet* ac astudio y *Journal of Fashion*.

Nid oedd ball ar Mr. Bevan am araeth; ond yn ddiweddar, pan gyfodai ar ei draed i siarad, ni byddai yn briwo teimladau fwy nag un neu ddau fan bellaf o'r aelodau ar y tro. Wrth i mi ddyweyd fod Mr. Howells yn eistedd bob amser yn yr un man yn y sedd fawr, ac yn cyhoeddi yn yr un geiriau yn fanwl ar hyd y blynyddoedd, byddaf yn dyweyd y cwbl ymron a ellir ei ddyweyd am dano. Wrth i mi adrodd fod Mr. Phillips, y blaenor *nervous*, yn byw yn y Dreflan, a'i fod yn myned i'r *vestry-room* bob nos Sabboth i ysgwyd llaw â'r pregethwr, ac i ddyweyd yr un geiriau yn gymhwys wrth bob llefarwr, sef "Nos dawch; brysiwch yma eto," ac fod y geiriau hyn yn gosod Mr. Smart mewn sefyllfa annymunol pan fyddai efe wedi penderfynu peidio gofyn cyhoeddiad i'r gŵr dyeithr, byddaf wedi dyweyd cymaint ymron ag a ellir ei ddyweyd am dano yntau.

Yr oedd yr adnabyddiaeth fanwl a feddwn o Noah Rees, a'n cyfeillgarwch dwfn, yr hwn a ffurfiwyd pan oeddym gyda'n gilydd yn yr Athrofa, yn peri i mi deimlo yn bryderus am i'w ddyfodiad atom fod o fendith i'r eglwys ac iddo ef ei hun. Credwn fod ynddo lawer o gymhwysderau i wneyd y gwaith yr oedd wedi ymgymeryd âg ef. Yr oedd yn meddu talent neillduol i adnabod y natur ddynol; yr oedd o dymher hynaws a phwyllog, yn efrydydd diwyd, ac yn feddyliwr gwych; a bum lawer gwaith yn cenfigenu at ei dduwiolfrydedd. Ond yr oedd ynddo rai pethau eraill ag yr ofnwn a allasent filwrio yn erbyn ei boblogrwydd. Yr oedd yn hollol analluog i wenieithio,

ac yn fwy tueddol i ddyweyd yr hyn a gredai yn ei galon ei fod yn wir, na'r hyn y gwyddai a fuasai yn cymeryd yn dda. Er nad oedd dim yn ei ymdygiad ag oedd yn arddangos y gradd lleiaf o falchder, yr oedd yn hynod o annibynol ei feddwl, ac yn casâu gwaseidd-dra â chas perffaith. Ceisiai fod ar delerau da gyda phob dyn; ond yr oedd ei waith yn gwneyd cyfeillion mynwesol o bersonau neillduol â thuedd ynddo o bosibl i greu cenfigen mewn eraill. Yr oedd Noah wedi bod gyda ni er ys cryn amser bellach, ac yn cael ei hoffi gan y llïaws, a'i edmygu yn fawr gan yr aelodau mwyaf deallgar. Dywedai hyd yn nôd Mr. Smart, fod y bugail wedi troi allan yn well nag y dysgwyliasai iddo wneyd, er nad oedd efe eto y peth y dymunasai iddo fod. Yn nhyb Mr. Smart, yr oedd tipyn gormod o blaindra yn y bugail; "ond," meddai efe, "gellir priodoli hyny i'r argraff a dderbyniodd wrth gymdeithasu cymaint â Mr. Pugh." Tybiai Mr. Smart hefyd y dylasai Mr. Rees fyned at Meistri Simon and Salt, *Merchant Tailors*, i gael ei ddillad, ac nid at William Jones. Yr oedd ef, Mr. Smart, a'r curad, fel yr oedd Mr. Bevan yn gwybod, yn cael eu dilladu gan Simon and Salt; ac er eu bod yn costio tipyn ychwaeg, yr oedd *appearance* yn myned ymhell. Y diffyg mwyaf a welai Joseph Wynn, y dechreuwr canu, yn Noah oedd, ei fod braidd yn ddisylw o gerddoriaeth y cysegr. Yr oedd Joseph yn ofni, pe buasid yn pwyso ar Noah, y dywedasai ei fod yn credu fod pregethu yn fwy pwysig na chanu mawl. Nid oedd Joseph yn sicr o hyn, eithr ofnai fod Noah yn coleddu yn ddirgel y syniad peryglus hwn. Canmolid Noah gan Mr. Bevan am nad oedd yn ymyraeth dim â materion arianol yr achos, ac am ei fod yn dal yn ffyddlawn i ymweled â'r aelodau a'r gynnulleidfa. Tybiai eraill ei fod yn ymweled gormod, ac fod perygl i bobl flino arno, ac mai mwy buddiol a fuasai iddo aros yn ei fyfyrgell i barotoi gwell pregethau. Syniad Mr. Sharp Rogers am dano oedd, na welodd efe neb mor anhawdd cael het i'w ffitio. Yr oedd Noah yn gymeradwy gan y tlodion, ac yn ffafryn gan y bobl ieuainc. Credaf mai yr unig wr ieuanc nad

oedd ei edmygedd o hono yn cynnyddu oedd J. Aelod Jones. Yn y cyfarfod darllen yr oedd chwyddedigaeth Aelod Jones yn cynnyddu mor enfawr fel yr ofnai Noah fod perygl i ymrwygiad gymeryd lle; ac er mwyn arbed llanastr, tybiodd yn ddoeth ei dapio. Bu y meddygwaith, yr hwn a wnaed yn mhresennoldeb yr holl efrydwyr, yn hynod lwyddiannus i dynu y chwydd i lawr. Gwnaeth Noah yr *operation* mor fedrus, ac mewn amser mor anhygoel o fyr, nes ennill edmygedd yr holl edrychwyr; ond rhyfedd! collodd edmygedd y goddefydd.

Tua'r cyfnod hwn yr oeddwn yn meddwl fod genyf gŵyn yn erbyn Noah, ac yr oeddwn ymron a chredu fod ei gyfeillgarwch tuag ataf yn oeri. Am yspaid maith wedi iddo ddyfod i'r Dreflan, ni byddai byth yn myned i'r Cartrefle heb alw am danaf i fyned gydag ef. Ond erbyn hyn, byddai yn myned yno yn amlach hebof na chyda mi, a rhoddwyd ar ddeall i mi gan Jim y byddai yno yn aml iawn. Ni byddai Noah byth yn son wrthyf ei fod wedi bod yno; ac os soniwn i wrtho ef, yr oeddwn yn methu deall paham yr oedd yn ymddangos mor gynhyrfus, ac yn cymeryd y fath drafferth i esbonio i mi y rheswm am ei ymweliad. Gofynwn yn fynych i mi fy hun a oedd gwir anghenrheidrwydd am iddo fyned i'r Cartrefle ddwywaith yr wythnos, pan oedd unwaith yn y pythefnos yn ddigon aml ganddo ychydig fisoedd yn ol. Ai eisieu gweled *Mr*. Pugh oedd arno? neu a fyddai efe yn troi gartref pan ddywedai Susan wrtho, pan yn agor y drws iddo, fod Mr. a Mrs. Pugh wedi myned allan? Pan awn i'w letty gyda'r nos, gan feddwl cael ymgom am awr, a chael ei fod yntau allan, os aroswn i siarad ychydig â Mrs. Jones,—paham y byddai hi yn sicr o ddyweyd wrthyf "fod Enoch Jones yn wastad yn dyweyd y gwnaethai Miss Pugh wraig ragorol i bregethwr; a phwy oedd yn ei hadnabod yn well nag Enoch Jones?" Yr oeddwn wedi sylwi na byddai Noah byth yn canmawl Miss Pugh wrthyf yn ddiweddar. A oedd efe yn meddwl llai o honi fel yr oedd ei adnabyddiaeth o honi yn cynnyddu? Pan ddygwyddwn fyned gydag ef i'r

Cartrefle, methwn yn glir a chanfod rhithyn o sail i awgrymiadau Mrs. Enoch Jones. Ac yr oeddwn wedi penderfynu na chyfeiriwn at y peth wrth Noah nes i mi gael rhyw dir i sefyll arno. Sylwais y byddai Miss Pugh yn gwrido tipyn wrth ysgwyd llaw â Noah a minnau; ond byddai bob amser yn gwneyd hyny, felly nid oedd hyny yn profi dim. Yn wir, yr oedd holl ymddygiad Miss Pugh yn dangos yn eglur i mi nad oedd dim *neillduol* rhyngddi â fy nghyfaill. Ofnwn ei bod yn ymddwyn yn fwy oeraidd tuag ato nag arferol; ac nid allwn beidio sylwi ei bod yn rhoi llawn cymaint os nad mwy o sylw ac o groesaw i mi nag i Noah. Yr oedd yn ddrwg genyf yn fy nghalon weled hyn, a theflais ymaith o fy meddwl awgrymiadau Mrs. Enoch Jones fel chwedl hen wrâch. Yr oedd agos i bythefnos wedi myned heibio, a Noah heb fod gymaint ag unwaith yn ymweled â mi, a'i dro ef ydoedd i ddyfod i edrych am danaf fi. Cofiwn nad oedd efe mor rhydd a chyfeillgar pan oeddwn ddiweddaf yn ei lettŷ, a'i fod yn ymddangos i mi yn absennol ei feddwl, neu ynte fod ganddo gŵyn yn fy erbyn. Yr oedd hyn yn fy mhoeni yn fawr; ond ymatteliais heb wneyd sylw o'i ymddygiad. Un noswaith, wrth ei weled mor hir heb ddyfod i ymweled â mi, daeth meddwl sydyn ataf y mynwn gael gwybod pa drosedd yr oeddwn yn euog o hono; canys nid allwn oddef y pryder yn hŵy, a hwyliais tua'i lettŷ. Erbyn i mi fyned yno nid oedd Noah i mewn, ac nid oedd genyf finnau flâs i wrando ar ddyfyniadau o Enoch Jones. Felly penderfynais yr awn i gyfeiriad y Cartrefle, gan feddwl y gallwn gyfarfod fy nghyfaill ar y ffordd. Nid oeddwn wedi myned ymhell pan gyfarfum â Susan. Gofynais iddi a welsai hi fy nghyfaill y noswaith hono? Atebodd nad oedd wedi ei weled, ond y gallai *guesio* lle yr oedd os oeddwn eisieu ei weled yn benodol; ac ychwanegodd, "mai hawdd iawn oedd i ryw bobl roi cynghorion i bobl ieuainc i beidio aros allan yn hwyr, ond mai nid pawb oedd yn cael derbyniad i'r tai y dymunent fod ynddynt fel rhyw bobl y gwyddai hi am danynt." Ychwanegodd Susan drachefn, "fod rhyw bobl yn gwy-

bod ymha le yr oedd pres, eu bod nhw yn wastad yn gwybod, er nad oedd hi yn cenfigenu—ei bod hithau wedi cael cynnygion fwy nag un, ac wedi eu gwrthod, a phe buasai rhyw bobl yn cynnyg iddi hi mai gwrthod y rhai hyny y buasai hi hefyd, serch eu bod yn gwisgo cadach gwyn." Yr oeddwn wedi fy synu yn hollol, ac aethum i'm ffordd heb ofyn cwestiwn arall i Susan. Teimlwn yn ddig at Noah am fod "y peth" yn cael ei awgrymu gan hen wragedd, a'i siarad gan forwynion, ac yntau heb son gair wrthyf.

Pan oeddwn yn nesâu at y Cartrefle, gwelwn Jim yn sefyll yn dalog yn y porth, â'i ddwylaw yn ei bocedau, ac wedi ei wisgo yn drefnus a graen dda arno ymhob ystyr, a'i het ar un ochr i'w ben, ac yn edrych fel mab i ryw *country squire.* Gofynais iddo pwy oedd i mewn? Atebodd, "Meistar, Meistres, Miss, a'r Meistar newydd," gan roddi winc deallgar arnaf. Bu agos i mi ei darawo am ei fod yn gwybod mwy na fi am fy nghyfaill; ond cofiais yn y fynyd nad oedd neb yn gwneyd gwell defnydd o'i lygaid na Jim, a maddeuais iddo yn fy nghalon am fod yn fwy craff na fi. Hysbysodd Jim fy nyfodiad, a gwahoddwyd fi i fewn. Yr unig un â gwen ar ei hwyneb oedd Mrs. Pugh. Edrychai y tri eraill yn ddifrifol a chythryblus. Fel esgusawd dros fy ymweliad hwyrol, dywedais fy mod wedi dyfod i nol Noah gartref. Atebodd Mrs. Pugh fy mod yn garedig iawn, *gan fod arno anghen, fel yr oedd yn ymddangos, am rywun i ofalu am dano.* Chwerddais ar y *joke*, ac edrychodd Noah a Miss Pugh yn wirion, ac ocheneidiodd Mr. Pugh, gan edrych ar y darlun oedd uwch ben y lle tân. Dywedodd Mrs. Pugh y caffai Noah ddyfod gyda mi wedi i Kit chware tôn ar y *piano.* Ymddangosai Miss Pugh yn falch o'r cyfleusdra, ac aeth at yr offeryn y fynyd hono Clywswn hi yn chware y berdoneg rai cannoedd o weithiau o'r blaen, ac o herwydd fy mod wedi ei chlywed mor aml, yr oeddwn yn weddol gydnabyddus â phob dernyn o gerddoriaeth a feddai. Ond y noswaith hon, chwareuodd rywbeth na chlywais mo hono byth cynt nac wedi hyn; a fy argraff

ydyw na fu y dernyn mewn bodolaeth ond am y mynydau y buwyd yn ei chwareu. Ymddangosai fel ymarllwysiad o deimladau angerddol oedd wedi hen groni yn ei mynwes hi ei hun, ac na roddwyd tafod nac iaith iddynt yn flaenorol. Ar un adeg yr oedd y nodau yn ddwfn a lleddf, ac fel pe buasent yn galw yn ol hen gyfeillion a dyddiau o'r pell orphenol, ac ymsyniadau yr ydym oll wedi eu teimlo, ond na fedraswn erioed roi mynegiad iddynt. Ar brydiau eraill, byddai y gerddoriaeth yn hoewach ac ysgafnach, ac fel mân ffrydiau arianaidd yn treiglo o wahanol gyfeiriadau i un llyn mawr, yr hwn oedd yn ymchwyddo yn barhâus, ac o'r diwedd yn tori ei holl argaeon, ac yn ymdywallt yn rhaiadrau gwallgofus, i'r nentydd islaw, ac er cymaint oedd ei dywalltiadau nad oedd ei adnoddau yn lleihâu. Drachefn, megys heb yn wybod i mi, trosglwyddai y gerddoriaeth fi i ryw ystâd neu rywbeth na fuaswn ynddi o'r blaen, lle nad oedd ond meddyliau ac ysbrydoedd a phurdeb yn ei phoblogi, ac yn ol drachefn i ganol gofid, ymdrechiadau, a hiraeth, nes oeddwn yn teimlo rhywbeth yn cerdded rhwng fy nghnawd a fy nghroen, a'r ychydig wallt oedd genyf yn sefyll ar fy mhen. Yn nghanol y teimladau rhyfedd hyn, nid allwn beidio sylwi nad oedd neb ond Mrs. Pugh a minnau yn mwynhâu y gerddoriaeth. Edrychai Noah yn absennol ei feddwl, a Mr. Pugh yn brudd. Tra yr oedd Miss Pugh yn chware, tybiwn fod meddyliau ei thad yn rhywle pell, ac fwy nag unwaith edrychodd yn hiraethlawn ar y darlun uwch ben y lle tân. Can gynted ag y gadawodd Miss Pugh yr offeryn, cyfododd Noah a minnau i fyned adref, a daeth Mr. Pugh i'n danfon at y drws. Yr oeddym wedi cychwyn ymaith, pryd y galwodd Mr. Pugh ar Noah yn ei ol, a chlywais ef yn dyweyd braidd yn bruddaidd, "Wel, felly y rhaid iddi fod, ddyliwn."

Yn lled agos i'r Cartrefle, cyfarfuasom â Susan a rhywun gyda hi, yr hwn, yn ddiau, yr oedd hi am ei wrthod. Am enyd cerddasom mewn dystawrwydd. Yn y man dywedais, "Noah, yr wyf wedi digio wrthyt, ac ym-

ddengys fod genyt tithau gŵyn yn fy erbyn innau, a gwell i ni gael deall ein gilydd."

"Wedi digio? y fi gŵyn yn dy erbyn? Beth sydd arnat, fachgen?"

Cyhuddais ef o oerfelgarwch tuag ataf, ac o fod wedi cadw oddiwrthyf ei gysylltiad newydd â theulu y Cartref-le. Chwarddodd Noah yn uchel, ac ymhlith pethau eraill dywedodd,

"Fy nghyfaill, yr wyf yn credu heno yn fwy nag erioed mewn argraffiadau cyntaf. Y diwrnod cyntaf y gwelais yr eneth yna, credwn na welais erioed ei chyffelyb, ac y mae pob tro y gwelais hi ar ol hyny wedi dyfnhau yr argraff, nes y mae pethau wedi dyfod i'r—wel, i'r hyn y cyfeiriaist ato. Fy amcan yn cadw y peth oddiwrthyt oedd, er mwyn rhoi *surprise* i ti; ond yr wyf wedi colli y pleser hwnw. Gallwn ddyweyd llawer o bethau wrthyt oni bae fod genyf ofn i ti chwerthin am fy mhen. Pan sylweddolais fy ngwir deimladau at Miss Pugh, dywedais fy ystori wrthi oreu y gallwn. Gwenieithwn i mi fy hun y gwyddwn yr ateb a gawn cyn gofyn o honof. Gwrthododd ddyweyd dim wrthyf ond a ddywedai trwy ei llygaid; a chyfeiriodd fi at ei thad. Gwyddwn nad oedd fy amcanion yn ddyeithr i Mrs. Pugh, a'i bod yn gallu fy narllen cân hawdded a darllen y *Rhodd Mam.* Felly achubais gyfleusdra i gynnal *cabinet council* hefo'r hen foneddiges. Am beth amser, triniodd fi yn enbyd, a bu agos iddi a thori fy nghalon; ond ar y diwedd addawodd arfer ei holl ddylanwad o fy mhlaid, ar yr ammod i mi ofyn caniatâd Mr. Pugh yn ei phresennoldeb hi a Kit, yr hyn a wnaethum heno. Os buasai yr ateb yn foddhaol, yr oeddwn wedi penderfynu dyfod ac i ddyweyd wrthyt hyd yn nôd pe buasai raid i mi dy gyfodi o dy wely."

"Wel," ebe fi, "pa beth a ddywedodd Mr. Pugh?"

"Mae genyf ofn," ebe Noah, "y bydd raid i mi ofyn hyny i Mrs. Pugh, oblegid yr oeddwn yn hanner byddar. Ni bum erioed mor *nervous;* byddai yn well genyf fyned trwy gant o *examinations* athrofäol na myned trwy yr un gwaith eto. Yr oeddwn yn chwys dyferol, ac yn methu

yn glir a chael y geiriau yr oeddwn eu heisieu, a gwyddwn o hyd fod Mrs. Pugh yn cael difyrwch wrth fy ngweled mor garnbwl. Pan ellais, drwy fawr drafferth, wneyd fy meddwl yn hysbys, edrychodd Mr. Pugh fel pe buasai wedi ei darawo gan fellten; a'r unig eiriau a ddeallais iddo ddyweyd oeddynt, 'Wel, wired a mod i yn y fan yma! wired a mod i yn y fan yma! Be mae Kit yn dd'eyd? Be mae Jane yn dd'eyd?' Cyn i neb gael ei ateb, agorodd Jim y drws i ti ddyfod i mewn, ac ni fu erioed yn well genyf dy weled. Clywaist ef yn dyweyd pan oeddym yn cychwyn ymaith, 'mai felly y rhaid iddi fod.'"

Yr oedd y noswaith yn hyfryd, a cherddodd Noah a minnau am rai oriau cyn myned i'n preswylfëydd, gan siarad am—, wel, am yr eneth oreu yn y byd yn meddwl Noah; a phe buasai hi yn ddengwaith gwell, ni fuasai yn rhy dda iddo yn fy meddwl innau. Wedi i mi ymadael â Noah, nid allwn beidio meddwl am wyneb prudd Mr. Pugh, yr hwn ar adegau eraill oedd yn nodedig am ei sirioldeb; eithr pan ddaw achlysur i mi ddwyn teulu y Cartrefle o flaen y darllenydd y tro nesaf, bydd y wyneb hwnw yn llawer mwy prudd, a'i ofid yn un gwirioneddol.

## PENNOD XX.

### JEREMIAH JENKINS YN EISIEU.

YR oedd yr hwn a ddywedodd nas gŵyr un hanner o'r byd pa fodd y mae yr hanner arall yn byw, yn gwybod rhywbeth o hanes y natur ddynol. Gallwn feddwl mai nid cyfeirio yr oedd y doethawr at yr anwybodaeth ag y mae pellder yn achos o hono, megys er esiampl na wyddom ni sydd yn byw yr ochr yma i'r ddaear pa fodd y mae ein gwrthdroedwyr yr ochr arall yn byw. Mae

gwirionedd y dywediad yn nês atom o lawer;—nis gŵyr y naill hanner o bentref neu gymydogaeth pa fodd y mae yr hanner arall yn byw. Mae cymydogion dyn gan amlaf yn ddirgelwch iddo, ac yntau yn ddirgelwch iddynt hwy. Ac onid ellir myned gam ymhellach, a dyweyd nad ŵyr dyn ond y naill hanner o'i hanes ei hun? Oni pherthyn iddo rywbeth nad yw yn ei ddeall, a chyfrinach, nid yn unig na ŵyr neb arall, ond na faidd neu ynte na fyn ei haddef wrtho ef ei hun? Oni pherthyn iddo bethau ag y mae ganddo ofn ymgydnabyddu â hwynt; ac onid ydyw yn aml yn chware cast âg ef ei hun, ac yn ymddwyn tuag ato ei hun fel pe byddai yn rhywun arall? Ddarllenydd, oni fuost ti yn diolch lawer gwaith nad ydyw pobl eraill yn gwybod cymaint am danat ag a wyddost ti dy hun? A pha beth ydyw yr achos dy fod di a minnau mor anewyllysgar i wybod mwy am danom ein hunain? Ai onid ein bod yn ofni syrthio yn ein golwg ein hunain? Mor garedig y bu yr Hwn sydd yn ein hadnabod yn berffaith wrth beidio rhoddi y gallu hwn i eraill!

O herwydd mai anmherffaith iawn yr ydym yn adnabod ein gilydd, ymddengys fod dosbarth lliosog o honom yn credu yn athrawiaeth yr *appearance* y soniai Mr. Smart gymaint am dani, er nad ydym yn ei hargymhell fel y gwnai efe. Fel y gwesgir yn y peth yma a'r peth arall er mwyn cadw i fyny yr ymddangosiad, ac er mwyn gwneyd argraff ar feddyliau eraill ein bod yr hyn nad ydym! Os taenir y gair fod Mr. Jones yn gyfoethog iawn, er y gŵyr Mr. Jones mai tlawd ydyw, a ydyw efe yn achub pob cyfleusdra i gywiro syniadau pobl am dano? Dim perygl. Pan mae Mr. Jones yn troi allan yn ei gerbyd yn y bore, a Robert Roberts y saer maen yn gwneyd *bow* iddo, a ydyw Mr. Jones yn galw ar Robert ac yn dyweyd wrtho, "Robert, peidiwch a gwneyd *bow* i mi; yr ydych yn fwy cefnog o lawer na fi; bore heddyw cefais lythyr yn bygwth cyfraith arnaf oni thalwn fy nyled, ac echdoe y bu raid i mi fenthyca hanner can' punt i gau safn gofynydd arall" Ni choeliaf fawr Yn unig cydnabydda Mr. Jones y "dyledus barch," ac a Robert Roberts at y

morthwyl a'r llwy-forter, gan wynfydu sefyllfa ei gymydog. Mae rhyw barodrwydd mawr mewn dyn ymhob sefyllfa ymron i dderbyn gwarogaeth anhaeddiannol, can belled ag nad ŵyr neb ei bod yn anhaeddiannol. Dyna Boaz Davies, yr hwn sydd yn cael y gair ei fod yn ysgrifenu erthyglau penigamp i *Udgorn y Werin*, er nad ysgrifenodd Boaz erthygl erioed a ydyw yn gwadu pan awgrymir wrtho mai efe ydyw awdwr yr erthygl alluog yn y rhifyn diweddaf? Gwnewch brawf arno, a chewch weled mai gwenu a wna Boaz, a gofyn i chwi pwy oedd yn dyweyd hyny. Dyna Mrs. Swankey, y weddw foneddigaidd sydd yn byw ar ei harian, yr hon y tybir ei bod yn perthyn i deulu uchel o Sir Amwythig, a'i bod yn perchen eiddo gwerth dau cant o bunnoedd yn y flwyddyn: a ddarfu iddi hi ddyweyd wrth rywun ei bod yn yfed coffi heb siwgr, ac mai deg swllt yr wythnos ydyw ei holl incwm, yr hwn a dderbynia trwy garedigrwydd ei brawd yn nghyfraith, ac mai *nailer* oedd ei thad? Naddo erioed. Dyna Caleb Hughes hefyd, yr hwn a fu daer ar ei gyfaill Mr. Powell i ddyfod i giniawa gydag ef, er na ddychymygodd y buasai Powell yn derbyn y gwahoddiad: a ddarfu i Caleb ddyweyd wrth ei gyfaill ar ol hyn am y wers a gafodd efe gan Mrs. Hughes am fod mor ynfyd, ac fel y bu raid benthyca cyllyl a ffyrc gan wraig y tŷ nesaf, ac fel bu raid cosbi y teulu am ddeuddydd i wneyd i fyny y golled a achoswyd gan y ciniaw? Naddo A phe buasai Caleb wedi dyweyd, ni buasai Mrs. Hughes byth yn maddeu iddo.

Dygwyddais un noswaith fyned i ymweled â Noah yn ei letty, a chefais fod Mr. Pugh yno o fy mlaen. Ymhlith pethau eraill, aethom i ymdrin â'r pwnc yr wyf eisoes wedi cyffwrdd âg ef, sef mor ychydig a wyddom am ein gilydd, ac fel y mae gan bob teulu a phob aelod o'r teulu eu cyfrinach; ac adroddwyd am y filfed waith ystori y *skeleton* yn y cwpbwrdd. Daliai Noah yn gadarn fod llawn cymaint o hanes dyn allan o'r golwg ag sydd yn y golwg, ac fod yn rhaid wrth ffydd gyda phethau y byd a'r bywyd hwn yn gystal a phethau y byd arall. Nid oedd

Mr. Pugh yn myned lawn mor bell a hyn; ond caniatâi yntau fod cryn lawer o hanes dyn neu deulu yn eiddo personol, nad ellid ei gyfranu i eraill. "Er engraifft," meddai, "dyma chi'ch dau, yr ydach chi'n gyfeillion mawr, ond dydach ch'i ddim wedi deyd y cwbl i'ch gilydd eto; a ddaru ch'i 'rwan? ddeydwch ch'i byth mono chwaith. Ac felly mae hi i fod hefyd. 'Does ond Un i wybod y cwbl o'n hanes ni. Dase ni yn gwybod hanes ein gilydd fel yr yden ni yn gwybod ein hanes ein hunen, mi fuase gynon ni lai o lawer o *gount* o'r Brenin mawr. Pwy fase'n gallu gwneyd Duw yn *confidant*, dase pawb yn gwybod ein hanes ni? 'Rydw i wedi bod yn meddwl am y pwnc yma lawer gwaith o'r blaen, er na fedres i mo'i ddeyd o a'i drin yn athronyddol fel y gwnaeth Mr. Rees heno. Ar bwnc fel hyn, fedra i 'namser ddeyd fy meddwl heb gael siampal. Dene Jeremiah Jenkins 'rwan: pwy sy'n 'i nabod o, os gwn i? Mi ddyffeia i fod mwy o hanes y dyn ene allan o'r golwg nag sydd yn y golwg. Be dach chi'n ddeyd?"

"Gan i chwi son am Mr. Jenkins," ebe Noah, "beth ydyw y rheswm ei fod wedi cau ei fasnachdŷ mor gynnar heddyw? A ydyw Mrs. Gilt wedi marw?"

"Wel, mi ddeyda i ch'i," ebe Mr. Pugh; "dydi Mrs. Gilt ddim wedi marw, ond mae hi yn sâl iawn. Unig chwaer Mrs. Jenkins ydi Mrs. Gilt, a hono yn weddw, ac yn berchen llawer o eiddo. Pan glywodd Jeremiah fod ei chwaer yn nghyfraith yn beryglus o wael, dacw fo yn pacio Mrs. Jenkins yno ar unwaith, rhag ofn, mae'n debyg, i'r *gilt* golli o'r teulu. Mae Mrs. Jenkins hefo'i chwaer yrwan er's pythefnos; ac echdoe anfonodd lythyr at Tom fod ei fodryb yn ol pob golwg yn darfod, a'i bod yn dymuno cael ei weled yn union deg. Aeth Tom yno yn syth; a bore heddyw dyma lythyr oddiwrth Tom at ei dad fod ei fodryb *yn* marw ac eisio ei weled yntau, ac yr oedd Jeremiah yn deyd bore heddyw ei fod yn anfon y forwyn at ei mam am ddeuddydd neu dri, a'i fod am gloi y lle i fyny, a chychwyn i ffwrdd hefo'r trên diwaetha bygaswn i; ac mi ellwch fod yn siwr fod Jeremiah yn

dysgwyl rhywbeth ar ol Mrs. Gilt, cyn y base fo yn gneyd y fath aberth. Gybeithio'r anwyl y cofiff y fodryb am Tom; bachgen clên anwêdd ydi Tom."

"I'r pant y rhed y dŵr," ebe Noah.

"Wel," ebe Mr. Pugh, "mae gen i gryn ddowt a oes llawer o ddŵr yn y pant ene. Mae Jeremiah yn cael edrych arno fel dyn cyfoethog; ond faswn i ddim yn rhoi rhyw lawer am fod yn scutor iddo fo. Rydw i yn ammheu yn fawr a oedd o yn werth rhywbeth cyn priodi, ac a gafodd o gymaint a ddysgwyliodd o ar ol priodi; ac mi wyddoch o'r gore ei fod wedi speciletio llawer. 'Roeddwn ni yn sylwi fore heddyw hefyd fod 'i *stock* o yn druenus o'r bechan. Ond deydwch i mi, ydan ni yn peidio janglo? 'Rydan ni yn myn'd yn o bell, mae gen i ofn."

Cyn i Mr. Pugh gael dyweyd ychwaneg, daeth Mrs. Jones i mewn â'i gwynt yn ei dyrnau a'i gwyneb càn wyned ag amdo. "O Mr. Pugh bach anwyl," gwaeddai, "'roedd Enoch Jones yn wastad yn deyd mai i hyny y doe hi; a phwy oedd yn 'i nabod o yn well nag Enoch Jones? Do, do, mi ddeydodd Enoch Jones y bydde rhywbeth yn siwr o hapno iddo fo."

"Beth ydyw'r mater, Mrs. Jones?" gofynem ein tri ar unwaith.

"On' dydi dŷ o ar dân, Mr. Pugh bach! O fel mae 'i eirie fo yn d'od i ben."

"Yn enw pob rheswm, tŷ pwy sydd ar dân?" gofynai Mr. Pugh.

"O Mr. Pugh, mae nhw'n deyd fod o wedi llosgi i'r llawr," atebai Mrs. Jones.

"Tŷ pwy, wraig bach?" gofynai Mr. Pugh yn ddiamynedd.

"On' ddeydes i, Mr. Pugh bach, fod Enoch Jones ——"

Rhuthrodd Mr. Pugh allan wedi colli pob pwyll; a chan gynted ag y gallodd Noah roddi ei esgidiau am ei draed, rhedasom ein dau ar ei ol. O herwydd fod gan Mr. Pugh fwy o gnawd i'w gario nag oedd genym ni ein dau gyda'n gilydd, nid hir y buom nes cael golwg arno. Yr oedd yr

hen foneddwr trwchus yn troedio ymlaen yn hynod o gyflym, ond ei fod bob rhyw ugain llath yn aros i besychu, gan roddi ei ddwylaw ar ei liniau. Yr oedd yr olwg arno braidd yn ddigrifol, ac yn adgofio Noah a minnau yn rymus am y chware a fyddai genym pan yn yr ysgol, yr hwn a elwid *leap frog*. Nid allem beidio chwerthin wrth weled Mr. Pugh yn rhedeg am bellder, ac yna yn sefyll gan roddi ei ddwylaw ar ei liniau, a gwyro ei ben i lawr fel pe buasai yn dysgwyl i rywun o'r tu ol iddo neidio dros ei gefn. Pa fodd bynag, daethom o hyd iddo yn lled fuan, a chymerasom afael ynddo, un yn mhob braich, gan ei helpu ymlaen. Pan wnaethom hyn, rhoddodd Mr. Pugh *nod* diolchgar arnom; ond nid allai ddyweyd yr un gair, gan mor llwyr yr oedd wedi colli ei anadl. Ar ein ffordd yr oeddem wedi myned heibio i amryw bobl, ac amryw wedi myned heibio i ninnau; ac yn ateb i'n holl ofyniadau, ni chaem ond y gair "Tân." Nid oedd neb yn ymddangos eu bod yn gwybod pa le yr oedd y tân; ac os gwyddent, yr oeddynt yn rhy frysiog i allu adrodd.

Fel yr oeddym yn nesâu i'r brif heol, gwelem ddyn o'n blaenau yn cerdded yn araf â'i ddwylaw yn ei bocedau. Pan ddaethom i'w ymyl, deallasom mai Wil Foulkes ydoedd, neu fel y gelwid ef yn y Dreflan, yr Hen *Cucumber*. Rhoddwyd y llysenw hwn arno o herwydd ei ddifrawder, neu ynte ei hunanfeddiant ar adegau pan fyddai pawb eraill yn gynhyrfus. Dywedid ei bod yn ffaith fod ymladdfa galed rhwng dau gymydog wedi cymeryd lle un tro ar gareg drws Foulkes, ac yntau ar y pryd yn darllen y newyddiadur yn hamddenol wrth y pentan, ac heb symud modfedd o'i unfan, na gofyn beth oedd y mater. Dro arall yr oedd Wil yn gweithio ar adeilad uchel, pryd y syrthiodd un o'i gymdeithion o uchder mawr i ganol pentwr o geryg, ac y tybid ei fod wedi ei ladd. Pan ddechreuodd y creadur anffortunus ddadebru, cerddodd Wil yn araf ato, a gofynodd iddo a fyddai efe mor garedig a dyweyd iddo beth oedd hi ar y gloch—hyny ydyw, os oedd ei oriawr heb ei niweidio! Pan geisiasom gan yr Hen *Cucumber* y wybodaeth yr oeddym hyd yn hyn wedi

methu ei chael, safodd yn bwyllog; ac wedi rhoi pesychiad hir, dywedodd, gan gymeryd ei wynt rhwng gwahanol ranau y frawddeg. "Wel—mae nhw yn dyweyd—fod tŷ—Mr. Jenkins—ar dân." Ymaith â ni yn frysiog. Ond wedi myned encyd o ffordd, bu raid i ni roddi hamdden i Mr. Pugh besychu. Tra yr oedd efe wrth y gwaith hwn dygwyddais edrych yn ol, a gwelwn mai yr adeg hono yr oedd Wil Foulkes yn ail gychwyn ar ol bod yn siarad â ni.

Erbyn i ni gyrhaedd at dŷ Mr. Jenkins, yr oedd yr heol yn orlawn o bobl; ac o herwydd fod y nos yn llwyd oleu, canfyddem fod y nifer mwyaf o honynt wedi eu haflonyddu o'u gwelyau, a'u bod heb hanner wisgo am danynt. Gwelsom un dyn â'i gap nos am ei ben. Yr oeddym yn methu gweled arwyddion fod tân o gwbl yn y rhan o'r adeilad a elwid y tŷ; ond yn y rhan arall —y *shop*, eglur ydoedd oddiwrth y mwg oedd yn dyfod allan trwy ochrau y ffenestr, a'r wawr oleu a ganfyddid yn yr ystafell uwch ben, fod yr elfen ddinystriol oddifewn. O herwydd y gwyddid fod teulu Mr. Jenkins oddicartref, ac fod y drysau yn glöedig, nid oedd neb, dybygid, yn teimlo yn ddigon hyf i wneyd mynedfa at y tân, neu ynte yr oedd pawb yn rhy gynhyrfus i feddwl am hyny. Yr oedd y dorf yn gwau drwy eu gilydd yn ddidòr, a phob eiliad yr oeddym yn nghanol cymdeithion newydd. Siaradai pawb eu goreu, ac nid oedd neb yn gwrandaw—yr oedd pawb yn gorchymyn, a neb yn ufuddhâu. Y waedd gyffredin oedd am y tânbeiriant, ond nid oedd neb yn ymddangos eu bod yn gwybod pale yr oedd yn cael ei gadw, na phwy oedd yn gofalu am dano.

Yn nghanol yr holl hwb dwb, yr oedd y tân yn ennill nerth, a neb yn gwneyd cais at ei ddiffoddi. Yn y fynyd, gwelem y dorf yn ymwahanu i wneyd lle i ddyn mawr esgyrniog, yr hwn a adnabyddid yn y Dreflan wrth yr enw Syr Ned. Erbyn i ni feddwl, yr oedd yn beth rhyfedd ei fod ef heb wneyd ei ymddangosiad yn gynt, oblegid byddai Syr Ned yn ben gŵr ymhob helynt o'r

fath, ac nid oedd yn rhoddi pris ar ei fywyd os byddai gobaith cael chwart o gwrw am ei wrhydri. Nis gallaf roddi cyfrif am y ffaith, ond ffaith ydyw,—pan ddeallodd y dorf fod Syr Ned yn eu mysg, ymagorodd fel o flaen dewin, a rhuthrodd yntau ar hyd y llwybr a wnaed iddo; planodd ei droed mawr yn nrws y *shop*, a gyrodd ef yn llydan agored. Ar yr un foment, daeth allan y fath golofn o fwg tew a barodd i'r dorf gilio yn ol am latheni; a chymaint ag a allai Noah a minnau wneyd oedd cadw Mr. Pugh rhag cael ei daflu i lawr, a pheidio son dim am ei beswch. Wedi agoryd y drws, ac i awyr gael myned i mewn, yr oedd *shop* Mr. Jenkins mewn llai o amser nag y gallaf fi ei ysgrifenu yn wenfflam. Gruddfanodd yr holl dorf; ac yn ngoleuni tanbaid y tân gwelem mai Syr Ned oedd yr unig un y methodd y mwg ei symud. Safai ef yn unig wrth y *shop*, gan waeddi yn awdurdodol am i bawb gario dwfr. Yn ffortunus yr oedd digonedd o ddwfr yn ymyl, a dygwyd allan bob llestr pwrpasol, a rhai anmhwrpasol, i'w gludo; ac ymhen ychydig fynydau, o dan arweiniad Syr Ned, yr oedd y bobl yn gweithio yn ddewr. O ddiffyg lle a threfn, yr oedd hanner y dwfr yn cael ei golli ar y ffordd; ac nid cyn i'r nifer mwyaf o honom gael ein gwneyd càn wlyped ag oedd yn bosibl i ni fod o'n canol i waered, y cafodd y rhai oeddynt yn cludo y dwfr y ffordd yn glir i weithio yn rheolaidd. Am beth amser, nid oedd yr holl gawgiadau o ddwfr a deflid ar y tân ond yn unig yn peri iddo disian ac ymgynddeiriogi. Yn ngolwg yr edrychwyr, nid oedd yr holl weithio ond llafur ofer, a gwaeddai pawb am y tânbeiriant, ac ni wnai y tânbeiriant ei ymddangosiad. Dywedai Mr. Pugh fod yn rhaid fod gan Syr Ned groen o *steel* i allu sefyll lle yr oedd, a derbyn pob cawgiad a llestriad o ddwfr, a'i daflu i lygad y tân. Yn wir, er cynddrwg ac er mor feddw ac isel ydoedd cymeriad cyffredin Syr Ned, yr oedd ei ddewrder a'i nerth Herculeaidd yn ennyn edmygedd yr holl dorf y noson hon. Yn y man canfyddid fod y tân yn lliniaru ychydig, ac fel pe buasai yn dechre tori ei galon. Nid

cynt y gwelwyd hyn nag y dechreuodd y dorf ymwasgu yn nês at y tŷ, ac achosi llawer o rwystr i'r rhai a gludent y dwfr; ond gwaeddodd Syr Ned fod y tân yn ymyl *meter* y nwy, ac fod perygl i rywrai gael eu lladd. Atebodd y gair y dyben, a chiliodd y dorf yn ol. Gydag ymroddiad ac egni di-ildio, torwyd nerth y tân i lawr ac i fyny, a dechreuodd y dorf fod yn gellweirus a cheisio bod yn *witty*. Llongyferchid Syr Ned, yn enwedig pan oedd efe yn sefyll ar ben ysgol, ac yn taflu y dŵr trwy ffenestr y llofft, wrth yr enwau anrhydeddus, "*Baronet, Knight of the Garter, &c.*"

Pan oedd y tân wedi ei lwyr ddiffoddi, clywem sŵn mawr megys trwst cerbyd trwm yn agosâu; ac yn y fynyd gwelem y tânbeiriant yn gwneyd ei ymddangosiad, yn cael ei ddilyn gan y *fire brigade* a dau heddgeidwad. Rhoddodd y dorf un fonllef fawr o gymeradwyaeth gwawdlyd, gan dori allan i chwerthin yn uchel; a rhaid i mi ddyweyd fod y swyddogion golygus wrth natur—ar y pryd yn edrych braidd yn *small*. Fodd bynag, gwnaeth y ddau heddgeidwaid y goreu o'r amgylchiad, a cherddásant yn seremonïol at y fan lle yr oedd y *tân wedi bod*—cymerasant feddiant o'r tŷ; a gorchymynodd y prif swyddog, ar lawes cob yr hwn yr oedd rhimyn lliwiedig, i Syr Ned fyned o gwmpas ei orchwyl. Cynhyrfodd hyn Mr. Pugh nid ychydig, ac aeth yn syth at Syr Ned, a rhoddodd ychydig sylltau yn ei ddwrn; ac am ei garedigrwydd cafodd Mr. Pugh *three cheers* gan y dorf, yr hyn a barodd i'r prif swyddog dynu ei gorn ato. Yn ddigon priodol gosododd y prif swyddog yr is-swyddog i sefyll yn nrws y tŷ, er mwyn cadw y bobl allan, ac aeth yntau gyda chynnorthwy ei lamp i archwilio yr ystafelloedd. Ymhen y ddau fynyd dychwelodd a galwodd ar Mr. Pugh ato i wneyd ail ymchwiliad. Dychwelodd y ddau yn union deg, a galwodd Mr. Pugh ar Noah a minnau; ac yn nghysgod ein cyfaill, cawsom yr anrhydedd o gynnorthwyo yn y trydydd archwiliad. Yr oedd y tân wedi gwneyd dinystr dychrynllyd yn y *shop*, ac nid oedd dim ymron wedi dianc rhag ei lid. Pan aethom i'r

ystafelloedd eraill, tarawyd ni â syndod, ac o'r braidd y gallai Mr. Pugh lywodraethu ei dymher. Yr oedd lloriau pob ystafell wedi eu gorchuddio â gwellt, *shavings*, papyrau, ysglodion, a phob defnydd tebyg i gymeryd tân, a'r rhai hyny wedi eu trwytho mewn olew a brasder. Dangosai pob peth tu hwnt i ammheuaeth fod yr holl adeilad wedi ei fwriadu a'i barotoi i gael ei losgi yn lludw. Gwyddwn fod ammheuon pob un o honom yn rhedeg i'r un cyfeiriad, er na ddarfu i ni roi mynegiad iddynt.

Gofynodd y prif swyddog i Mr. Pugh a wyddai efe a oedd y lle wedi ei yswirio. Atebodd Mr. Pugh ei fod, ac am swm lled fawr. Edrychodd y prif swyddog yn ddoeth, gan roddi winc ddeallgar arnom. Amlwg ydoedd fod y tân wedi cychwyn yn nghefn y *shop*, ac wedi gwneyd ei ffordd i'r ffrynt; a diau mai ymyriad amserol Syr Ned a'i cadwodd rhag gwneyd ei ffordd i'r rhan a elwid y tŷ. Pan aethom at ddrws cefn y *shop*, yr hwn oedd yn arwain i'r buarth a'r ardd, cawsom ef heb na chlo na bàr arno, a dywedodd yr heddgeidwad fod hyny yn ei ffafr; ond ni ddywedodd pa un ai yn ffafr y drws ai ffafr rhywun arall. Aethom ein pedwar i'r buarth; ac wedi i'r prif swyddog edrych yn fanwl o'i gwmpas, gadawodd ni, gan addaw dychwelyd wedi iddo ymgynghori â'r îs-swyddog.

Pan adawyd ni ein hunain, ymollyngodd Mr. Pugh i lefaru: "A glywsoch ch'i erioed am ffasiwn beth yn eich bywyd, bobl? Mae y dyn wedi rhoi ei dŷ ei hun ar dân, 'does dim dowt am dano. Be dach chi'n ddeyd?" Wrth gwrs, nid oedd genym ond cydsynio âg ef. Aethom i'r ardd, gan ymgomio a gofidio am y gwarth a achosai yr amgylchiad ar achos eglwys yr Hen Gapel; oblegid nid oedd yn bosibl na ddeuai pobpeth i'r goleuni. Yr oedd Mr. Pugh yn poethi ac yn colli ei amynedd wrth adgofio fel y byddai gwrthddrych ein hymgom yn galw pawb i gyfrif, a phob amser yn dysgu sancteiddrwydd i'r eglwys. Yr oedd yr ardd wedi ei hamgylchu â gwàl uchel, ac yn y mur pellaf iddi yr oedd drws yn agor i gae perthynol i'r tŷ. Wrth gerdded yn ol

a blaen, sylwasom fod y drws hwn yn lledagored, ac fel pe buasai rhywun newydd fyned trwyddo; a rhoddodd y ffaith hon bwnc newydd i ni ddyfalu ac ymgomio yn ei gylch. Yr oedd y noswaith yn hyfryd, a'r lleuad erbyn hyn yn gwenu yn siriol, fel pe na buasai yr un rhagrith-iwr na phechadur erioed wedi bod ar y ddaear. Cerdd-em ein tri yn ol a blaen, gan ddysgwyl i'r prif swyddog ddychwelyd. Byddai Mr. Pugh weithiau yn cerdded o'n blaenau, ac weithiau ar ein holau. Ymgomiai Noah a minnau am ddygwyddiadau rhyfedd y noswaith, pryd yn sydyn y collasom sŵn troed Mr. Pugh, ac edrychasom ein dau ar unwaith o'n holau, a gwelem ef encyd oddi-wrthym wedi sefyll, ac fel pe buasai yn gwrando neu ynte wedi ymgolli yn ei fyfyrdodau.

Y foment nesaf gwelem ef yn rhoi llam tu ol i ryw fan-goed, a chlywem ef yn gwaeddi nerth ei ben, "*Scoun-drel.*" Mewn amrantiad llygad deallasom fod Mr. Pugh a rhywun arall yn ngyddfau eu gilydd; ac megys ar un naid yr oedd Noah a minnau yn eu hymyl, ond yn rhy ddiweddar. Gorweddai Mr. Pugh ar wastad ei gefn ar lawr, ac yn ymladd am ei anadl; ac yn dianc fel ysbryd gwelem ffurf Jeremiah Jenkins yn myned drwy y drws yn y mur, gan ei gau ar ei ol a'i gloi. Cyn i Mr. Pugh prin ddadebru o'i syfrdandod, neidiodd ar ei draed gan waeddi ei oreu "*Police! police!*" a chychwynodd yn wyllt tua'r tŷ. Gafaelodd Noah yn ei fraich, a dywed-odd, "Mr. Pugh, peidiwch a chynhyrfu; cymerwch bwyll. Mae Mr. Jenkins yn sicr o ddyfod i'r ddalfa. Gadewch i'r llwynog gael *start* o flaen y cŵn. Mae genyf ofn fod y filain wedi eich niweidio." "Fy niweidio," ebe Mr. Pugh, "ni choeliaf fawr. 'Daswn i ddeng mlynedd iengach, chawse fo fawr 'neyd fel ene â fi. Ple mae'r *police*, bobl? Dydyn nhw byth i'w cael pan mae——." Yr oedd y prif swyddog wedi dychwelyd, ac adroddodd Mr. Pugh ei ystori wrtho yn gynhyrfus. Aeth yr hedd-geidwad ymaith yn frysiog, a bu raid i Noah a minnau fyned i ddanfon Mr. Pugh gartref, oblegid yr oedd efe yn dechre teimlo effeithiau y tafliad a gawsai gan Jeremiah

Jenkins, yr hwn oedd ŵr gewynog a chryf. Pa fodd bynag, wedi cyrhaedd y Cartrefle, daeth Mr. Pugh ato ei hun yn lled dda; ond gofidiai yn fawr fod Jeremiah wedi llwyddo i ddianc. Prophwydai Noah y byddai y dyhiryn yn sicr o ddyfod i'r ddalfa; ond wrth brophwydo, nid oedd efe o dan ysbrydoliaeth, oblegid ni ddaliodd neb Jeremiah. Er i'r heddgeidwaid gynnyg gwobrwyon uchel am ei ddal, neu am unrhyw wybodaeth a arweiniai i hyny, ni chlywyd gan bobl y Dreflan siw na miw byth am dano, mwy na phe buasai y ddaear wedi ei lyncu.

Achosodd yr amgylchiad lawer o siarad yn y Dreflan. Pan ddaeth Tom a'i fam gartref ar ol iddynt gladdu Mrs. Gilt, ac wedi iddynt wneyd ymchwiliad manwl i'r holl amgylchiadau, cawsant allan nid yn unig na adawodd Jeremiah un geiniog ar ol, ond fod ei holl dai wedi eu gwystlo ymron i'w llawn werth, a'i fod hefyd mewn rhai cannoedd o bunnau o ddyled. Ni chafwyd allan pa beth a gymhellodd Jeremiah i roddi ei dŷ ar dân; ond y gred gyffredin oedd fod Jenkins, o herwydd ei fod mewn amgylchiadau cyfyng, wedi meddwl sicrhâu arian yr yswiriant, a'i fod wedi cuddio ei hun yn yr ardd er mwyn gweled a fuasai ei gynllun yn llwyddo.

Credai Tom ei fab yn wahanol; a dywedai ef mai cynnwys y llythyr a anfonodd efe at ei dad oedd wedi ei gynddeiriogi. Yn y llythyr hwn dywedasai Tom wrth ei dad fod ei fodryb, Mrs. Gilt, wedi marw, a'i bod wedi gadael ei holl eiddo iddo ef, sef i Tom. Dysgwyliai Jeremiah i Mrs. Gilt wneyd ei heiddo i Mrs. Jenkins, ac felly y buasai yn rhinweddol yn dyfod yn eiddo iddo ef; ond yr oedd Mrs. Gilt yn ei adnabod yn rhy dda i wneyd hyny. Er nad oedd arwyddion fod Tom na'i fam yn gofidio am i Jeremiah ddianc, yr oedd y gwarth yr oedd efe wedi ei ddwyn arnynt yn eu blino yn fawr; ac o dan yr amgylchiadau nid allent feddwl am aros yn y Dreflan. Ceisiodd Mr. Pugh ei oreu eu perswadio nad oedd neb yn meddwl yn llai o honynt hwy o herwydd drygioni eu perthynas agosaf; ond ni fynent wrandaw. Talodd Tom

holl ddyled ei dad, a throsglwyddodd y tai yn Muarth Jenkins i'r boneddwr oedd yn dal y gwystl arnynt; ond gwnaeth ddarpariaeth na ofynid rhent oddiar Siân Jones tra fyddai yr hen wreigan fyw. Sicrheid hefyd fod Tom wedi ymddwyn yn dda tuag at Mike, a'i fod wedi tynu i lawr gryn lawer o'r "*national dit.*" Pan yr oedd Tom a'i fam yn ymadael â'r Dreflan, daeth amryw gyfeillion i'w hebrwng at yr orsaf; ac yn eu plith yr oedd Mr. Pugh yn ben gŵr, ac yn ysgwyd dwylaw gyda Tom a'i fam lawer gwaith drosodd. Ond yr hyn a barodd i galon Tom neidio i'w wddf, ac a ddygodd ymaith ei holl barabl, ydoedd bendith Siân Jones a'r eiddo Mike y Gwyddel, er i'r olaf gysylltu gyda'i fendith enw Mair Forwyn.

Os dygwydd i'r darllenydd yn ystod yr haf presennol fyned i dref neillduol ar làn y môr yn Nghymru, gall weled Tom yn cymeryd ei fam allan mewn cerbyd parchus; ac os dygwydd iddo ymorol yn ei gylch, caiff allan fod Tom yn cael ei anrhydeddu gan bawb, yn enwedig gan y tlodion.

## PENNOD XXI.

### YR YMWELIAD OLAF A BENJAMIN PRYS.

MAE lle i ofni mai yr amgylchiad ag y mae y canlyniadau pwysicaf yn perthyn iddo, a'r hwn sydd yn llawn o ddyddordeb iasol i ddyn, sef marwolaeth, ydyw yr amgylchiad, wedi'r cwbl, sydd yn cael lleiaf o'i ystyriaeth ddifrifol hyd nes y daw i'w afaelion. A phan erys y meddwl uwch ei ben yn awr ac yn y man, y mae yn gwneyd hyny, nid oddiar hoffder ato, ond oddiar ei ofn. Nis gall nad ydyw angeu, hyd yn nôd i'r ammheuwr, yr amgylchiad mwyaf ei bwys yn ei hanes; oblegid ato ef yr edrycha am gadarnhâd neu ynte wadiad bythol i'w gredo.

Felly hefyd i'r credadyn, mae angeu yn llawn o ddyddordeb, os priodol y gair; oblegid y pryd hwnw y caiff ei dynged dragywyddol ei phenderfynu, ac y dysgwylir cael goleuni ar fil a mwy o bethau y bu yn petruso yn eu cylch. Yn gymaint a bod marwolaeth fel hyn yr amgylchiad mwyaf i bawb fel eu gilydd, pa fodd y cyfrifir ei fod yn cael can lleied o le yn myfyrdodau dyn? Onid ellir dyweyd fod dyn yn trafferthu mwy ynghylch amgylchiadau cyffredin bywyd, megys galwedigaeth, neu briodas, nag ynghylch ei farwolaeth? Onid ydyw ambell un wedi meddwl a phryderu mwy ynghylch ei fynediad posibl i'r America nag am ei fynediad sicr i dragwyddoldeb? Onid ydyw yr awydd am gynauaf da neu fasnach lwyddiannus, neu ofn methiant a thlodi, wedi cael mwy o le yn myfyrdodau y rhan fwyaf o honom na thragywyddol wynfyd neu wae? Dilys fod rhyw reswm i'w roddi am hyn, pa un bynag a allwn ni ei gael allan ai peidio.

Pa beth bynag fyddo sefyllfa dyn yn y byd, y mae wedi ei amgylchu bron yn ddïeithriad â gwrthddrychau wrth ba rai y mae ei serchiadau wedi ymgylymu. Y mae perthynasau, cyfeillion, eiddo, ac arferion, wedi meddiannu ei enaid, ac wedi myned yn rhan o hono. Mae ynddo ymlyniad hyd yn nôd wrth wrthddrychau difywyd. Nis gall feddwl am farw heb ar yr un pryd feddwl am dori y cysylltiad â'r pethau hoffaf a gwerthfawrocaf ganddo; a pha ryfedd os ydyw hyn yn anhyfryd i'w deimlad? Nis gall beidio teimlo oddiwrth "orthrwm y presennol," a hoff ganddo ydyw edrych ar bethau y byd a'r bywyd hwn fel pethau sylweddol a gwirioneddol; ac wrth edrych arnynt felly yn unig y gall eu llawn fwynhâu. Diau fod amryw o fy narllenwyr wedi bod ar un adeg mewn sefyllfa pan dybient eu bod yn marw, a phan oedd eu holl fyd wedi ei grynhoi rhwng pedwar post eu gwely; mor fychan ac ansylweddol yr ymddangosai pobpeth y byd a'r bywyd hwn o'u cymharu â'r hyn a ofnent oedd yn eu hymyl, ac fel yr oeddynt yn synu eu bod wedi bod mor ynfyd â rhoi cymaint o'u sylw ar bethau mor wael! Ond wedi i'r afiechyd eu gadael, ac iddynt hwythau gryfhâu, rhyfedd fel yr oedd

yr un pethau yn adfeddiannu eu hen safle yn eu meddyliau! Nid ydyw yn ddichonadwy i ddyn lawn fwynhâu pethau y byd hwn, ac ar yr un pryd edrych arnynt fel yr oedd yn edrych o lŷn cysgod angeu. Hoff gan ddyn hefyd, hyd y mae yn bosibl, feddwl yn dda am dano ei hun; ond nis gall fyfyrio ar ei ddiwedd heb syrthio yn ei olwg ei hun, a dyfod i ystyried i ryw raddau pa mor anghymhwys ydyw i wynebu yr amgylchiad. Drachefn, er i ddyn fod yn credu mewn anfarwoldeb, nis gall beidio cysylltu âg angeu y syniad am derfyniad ar yr unig ffurf o fodolaeth y gŵyr ef am dani yn brofiadol, i'r hwn syniad y mae ynddo wrthwynebiad greddfol. Heblaw fod ynom wrthwynebiad cryf i fyfyrio ar angeu, onid edrychir arno hefyd fel rhywbeth pell yn y dyfodol, ac felly heb fod anghenrheidrwydd penodol am ei gymeryd i'n hystyriaeth? Anaml y cyfarfyddir â neb, gan nad pa mor hen ydyw, nad yw yn meddwl byw yn hŵy, ac yn edrych ar angeu ymron yn yr un pellder oddiwrtho ag erioed! Mae dyeithrwch arswydus marwolaeth, a'r ffaith nad ydyw yr holl farwolaethau sydd wedi cymeryd lle wedi taflu dim goleuni arno, nac wedi ychwanegu dim at brofiad dyn erbyn y daw i'r amgylchiad ei hun, yn dwyn ei anadl oddiarno, ac yn peri i'w galon grebachu gan ddychryn wrth feddwl am ei iâs. Pan ychwanegom at hyn yr ymwybyddiaeth sydd mewn dyn fod cysylltiad dwfn ac annattodol rhwng holl bethau annymunol marwolaeth â phechod, nid ydyw yn rhyfedd fod y meddwl yn cilio oddiwrtho mewn arswyd, yn enwedig tra mae pethau eraill hyfrydach yn ei ymyl. Y fath orchwyliaeth rinweddol y rhaid i'r meddwl hwnw fod wedi myned drwyddi, yr hwn a all edrych ar angeu gyda thawelwch, ac hyd yn nôd ei groesawu! Er nad ydyw pob cristion yn ei chyrhaedd, nid oes ond crefydd yr efengyl a all ddwyn dyn i'r sefyllfa hon.

Yr oedd fy hen gyfaill Benjamin Prys yn engraifft nodedig o'r hyn a all myfyrdod gwastadol yn yr Ysgrythyrau, a hollol ymddibyniad ar anrhydedd a thrugaredd Duw yn ei Fab, ei effeithio ar brofiad dyn wrth wynebu

ar angeu a'r byd tragywyddol. Dichon fod ei fywyd pechadurus yn ei ieuenctyd, a'i dröedigaeth hynod, ynghyd a'i afiechyd maith yn mlynyddau olaf ei oes, wedi bod yn fanteïsiol i ddwyn hyn oddiamgylch. Fel yr hysbyswyd y darllenydd eisoes, yr oedd yn amlwg iawn fod yr hen bererin yn nesâu yn gyflym, er yn dawel, i'r afon. Gán ei fod ef a minnau yn gyfeillion lled fawr, a fy mod yn cael cyfleusdra i'w weled yn fynych, y mae ei ymddyddanion wedi gadael argraff ddyfnach ar fy meddwl na'r holl bregethau a glywais yn fy oes. Ar yr un pryd, y mae yr argraff yn un o'r rhai hyny nad ellir eu cyfleu i eraill ond yn anmherffaith iawn. Yr oedd Benjamin Prys, fel y dywedwyd o'r blaen, yn ŵr o gynneddfau cryfion, ond heb dderbyn dim manteision addysg; a'r unig goethder a berthynai iddo ydoedd coethder sancteiddrwydd a hunan-ddiwylliant. Yr oedd rhai o'r pethau goreu a ddywedai ar brydiau wedi eu gwisgo mewn Cymraeg gref a gafaelgar, ond a ystyrid, o bosibl, gan yr oes fursenaidd hon yn aflednais. Yr oedd bellach wedi ei gaethiwo i'r gwely o'r hwn nid oedd i gyfodi; ond er syndod i bawb o'i chyfeillion, nid oedd Becca Prys eto yn meddwl ei fod yn ymyl marw; a phan soniai ef am ei gadael, yr hyn a wnai yn fynych yn awr, yr oedd ei ymddygiad, yn meddwl syml Becca, yn angharedig. Ymddangosai ei ymadawiad iddi hi yn fwy fel amgylchiad o'i ddewisiad ef ei hun nag fel yr hyn oedd anocheladwy. Serch hyny, nid oedd ball ar ei gwasanaeth iddo; a bûm yn rhyfeddu lawer gwaith ar ol hyn pa fodd yr oedd nerth y wraig dda yn dal i gyflawni yr holl waith oedd yn myned drwyddo bob dydd. Yr oedd ei llafur gyda'r pobtŷ yn anhygoel; cadwai y tŷ càn laned a chàn daclused â phin mewn papyr, chwedl Mr. Pugh; a cherddai i fyny ac i lawr y grisiau ugeiniau o weithiau yn ystod y diwrnod. Byddai yn hanner nos, yn amlach nag fel arall arni, yn cael myned i orphwyso, a hyny pan fyddai "gan stiffied a darn o bren," fel y dywedai; ac oherwydd nychdod mawr ei phriod, byddai raid iddi gyfodi amryw weithiau yn ystod y nos i weini arno. Rhwng chwech a

saith yn y bore byddai Becca drachefn yn ail ddechre ar ei bywyd caled, ac felly bob dydd. Son a wnawn ni am *heroism!* mae mwy o wir wroniaeth i'w gael yn fynych yn ystafell y claf, ac yn nghylchoedd cyffredin bywyd, nag ar faes y gwaed; ond o herwydd ei fod yn cael ei gyflawni bob dydd, ni seinir ei glodydd mewn udgorn. Chwi wrageddos moethus, sydd yn dreng-glwcian ar eich esmwythfeinciau clustogaidd o herwydd eich mân anffodion, ni wyddoch mo'ch geni eto o'ch cymharu âg ambell wreigan a adawyd yn weddw gyda llon'd tŷ o blant bach, heb yr un geiniog at eu cynnaliaeth, neu â Becca Prys, yr hon oedd raid iddi ymladd am fywioliaeth iddi hi a'i hybarch briod. Rhaid addef y byddai Becca hithau yn grwgnach nid ychydig; ond gwnelai hyny oddiar arferiad ac nid oddiar anfoddogrwydd. Cwynai yn fynych, yn enwedig gyda'r nos, ei bod "*just* yn methu symud," ac eto elai i fyny ac i lawr y grisiau laweroedd o weithiau o ewyllys ei chalon i weini ar Benjamin, hyd yn nôd pan grefai efe ar iddi beidio.

Er nad oedd yr hen ŵr, fel y dywedai ef ei hun, "yn dda i ddim" bellach, yr oedd yn berffaith ystyriol o'r afael a feddai Becca ynddo, a'i gwrthwynebiad di-ildio i ddygymmod â'r meddwl iddo farw. Gwyddwn yr achosai hyn fwy o bryder iddo nag ydoedd gwynebu angeu ei hun; a diammheu mai er mwyn ei chymmodi ychydig â'r orchwyliaeth y soniai efe gymaint wrthi am ei ymadawiad. Ond yr oedd ei lafur i gyd yn ofer. Taerai Becca ei bod wedi ei weled yn llawer gwaelach, a'i fod wedi dyfod drwy lawer bwlch mwy cyfyng. Druan oedd Becca! dyweyd yr ydoedd yr hyn a ddymunai.

O herwydd rhyw amgylchiadau, yr oeddwn heb weled Benjamin er ys rhai dyddiau; ac un noswaith cefais air oddiwrtho y byddai raid i mi frysio. Aethum yno yn ddiatreg. Deallais oddiwrth wyneb Becca fod cyfnewidiad wedi cymeryd lle, a'i bod hithau o'r diwedd wedi ei hargyhoeddi fod cyfyngder yn agos. Càn gynted ag yr agorodd y drws i mi fyned i'r tŷ, claddodd ei hwyneb yn ei ffedog, gan sobian yn dost; ac am beth amser nid allai

ddyweyd un gair. Wedi iddi ymdawelu ychydig, arweiniodd fi i'r llofft; ac ar y grisiau dywedodd wrthyf yn ddystaw, "Mae hwnyma wedi altro yn arw er neithiwr." Lledeisteddai Benjamin yn ei wely gydag amryw obenyddiau with ei gefn; ac wrth ochr y gwely, eisteddai ei gyfaill penaf, cyfaill na throdd ei gefn arno erioed, sef Mr. Pugh. Edrychai Mr. Pugh yn brudd a digalon, ond yr oedd Benjamin yn siriol a hapus. Yr oedd rhywbeth, er hyny, mor ddyeithr yn ei wyneb a barai iddo ymddangos i mi ymhellach oddiwrthyf o lawer nag arferol; a phan ysgydwodd ddwylaw â mi, teimlwn fel pe buasai yn gwneyd hyny â llaw rhywun arall, gan mor annhebyg ydoedd iddo ef ei hun.

"Bu agos i ti ag aros yn rhy hir, 'y machgen i. Mi fu *just* i mi a slipio i ffwrdd heb i ti fy ngweled," oeddynt y geiriau cyntaf a ddywedodd wrthyf.

"Yr ydych yn edrych yn rhy dda i fyned yn fuan," atebais.

"Na," ebe fe, "mae yr hen elyn yma, wel di: mae o yn dechre ar ei waith yn fy nhraed, ac ni fydd yn hir heb wneyd ei neges. Yr oeddwn yn adrodd wrth Mr. Pugh fy mod wedi meddwl yn siwr fy mod yn myn'd i'ch gadael neithiwyr. Daeth rhywbeth rhyfedd drosta i—nid fel llesmair—mi wn yn dda beth ydyw hwnw, ond fel gwynt cryf heb sŵn yn ei ganlyn, yn fy ngyru yn fy mlaen, a rhywbeth yn fy sugno i rywle na wyddwn i ba le, ac nad allwn ei wrthsefyll. Gwneis egni rhyfeddol yn ei erbyn, ond i ddim dyben; ac o'r diwedd ymollyngais i gael fy ngharío i ffwrdd, a chollais fy ymwybyddiaeth, am ba hyd nis gwn; ond y peth cyntaf yr wyf yn gofio ar ol hyny ydyw clywed Becca yn crefu arnaf i gymeryd llymaid. Meddyliais yn siwr fy mod yn marw, gan fel yr oedd y teimlad mor ddyeithr; ond *notice to quit* oedd o."

"Ddaru ch'i ddychrynu, Benjamin?" gofynai Mr. Pugh.

"Naddo, Mr. Pugh; 'doedd o ddim ods gen' i; ond chysgais i ddim ar ol hyny. Mi eis i feddwl i ba le, tybed, y buasai y gwynt, neu beth bynag ydoedd, yn fy ngharío pe buasai wedi cael ei ffordd. Y lle cyntaf yr aeth fy

meddwl iddo oedd uffern. Ni bum erioed am gyhyd o amser hefo'i gilydd yn y lle hwnw ag y bum neithiwr, ac yr wyf yn dysgwyl na byddaf byth eto. Lle garw sydd yno, Mr. Pugh. Byddaf yn meddwl nad oes olygfa fwy prudd i'w chael ar y ddaear na gweled hen ŵr boneddig o deulu uchel wedi myned yn dlawd a charpiog. Ond beth ydyw hyny pan feddyliom am hen foneddigion y nef wedi syrthio i dlodi erchyll y pwll diwaelod! Druain oeddan nhw! Wyddoch ch'i beth, Mr. Pugh, yr oedd gen i flys mawr gweddïo drostyn' nhw wrth feddwl am danynt neithiwr. A'r fath gwmpeini sydd yno: llofruddion, lladron, celwyddwyr, meddwon, a rhai wedi twyllo eu hunain! Gwarchod ni! mae yn werth i ddyn ymdrechu am oes faith rhag myned at y fath haid. Meddyliwch hefyd am eu cyflwr—wedi caledu mewn anufudd-dod, ac yn druenus byth, mewn gwlad heb na llawenydd na chysur na son am efengyl o'i mewn. Wyddoch ch'i beth ddaeth i'm meddwl i, Mr. Pugh? Tipyn o ynfydrwydd oedd o, mi feddyliwn. Dyma fo: y buaswn yn dymuno pe buasai y Brenin mawr yn dyweyd wrthyf, 'Benjamin, yr wyf yn rhoddi gorchymyn i ti fyned i'r lle ofnadwy yna am yspaid, i gyhoeddi iachawdwriaeth a maddeuant pechodau i'r creaduriad truenus yna, ar yr ammod iddynt edifarhâu a chredu yn fy Mab?' *Dear me*, oni fuasai hi yn neges ardderchog, Mr. Pugh? A fuasent yn credu, feddyliech ch'i? Ond rhyw feddwl gwirion oedd o. Cosbedigaeth dragywyddol ydyw hi, onidê? Druain ydyn' nhw hefyd! Ond hyn oeddwn i yn myn'd i ddyweyd: mi welais mai nid i uffern yr oeddwn i gael fy ngyru, er mai hyny oedd fy haeddiant. Yr oeddwn i yn teimlo nad oedd gen' i ddim cyfathrach â neb oedd yno. A phe buaswn i wedi cael fy rhoi yno, yr wyf yn ammheu yn fawr a fuaswn yn gallu dal fy nhafod heb ddywedyd rhywbeth am y Prynwr at y fenter wrth y creaduriaid druain."

"I b'le yr aeth ych meddwl ch'i wed'yn, Benjamin?" gofynai Mr Pugh.

"I b'le ddyliech ch'i, Mr. Pugh, ond i'r cartref tragywyddol? 'Roedd genyf gryn ofn hefyd myn'd yno wrth

feddwl am sancteiddrwydd y lle; ac oni bae fod genyf *leisens* gan y Gŵr sydd yn Frenin ar y wlad, ni buaswn yn mentro. Bobl anwyl! dyna lle mae teulu *noble*, Mr. Pugh! y patrïarchiaid a'r prophwydi, a'r apostolion, Mr. Elias, y ddau Richards, Mr. Rees, a fy hen ffrynd Mr. Williams, a channoedd eraill o fy hen gydnabod, yn moli yr Hwn y clywais i hwynt yn ei bregethu ddwsinau o weithiau! Yr oeddwn i yn fy elfen yno mewn mynyd. Dyma fy nghartre' i, meddwn; croeso, angeu, gwna dy waith yrwan."

"Benjamin," ebe Mr. Pugh, "mi faswn yn rhoi llawer am fod yr un fath a ch'i. Sut y daru ch'i ennill y profiad uchel yma?"

"Ei gael o a ddarfu i mi, Mr. Pugh, wrth gredu y dystiolaeth. Mr. Williams, fel y bum yn adrodd wrthych, a'm harweiniodd i at y Gŵr pan oeddwn ymron dyrysu yn fy synwyrau o herwydd fy mhechodau. Do, Mr. Pugh, mi bechais i mewn blwyddyn fwy nag a ddarfu i chwi yn ystod eich oes; ond arweiniodd Mr. Williams fi at y Gŵr sydd yn maddeu anwiredd a chamwedd a phechod mor wirioneddol ag yr arweiniwyd yr eunuch gan Philip. Yr wyf yn gallu gogoneddu Duw ynddo ef. Agorodd i mi yr Ysgrythyrau, yn y rhai y cefais ollyngdod. Nid ydyw marw yn ddim, Mr. Pugh, i'r hwn sydd yn credu. Yr ydych yn cofio fel yr oedd y Gwaredwr yn ofni marw nes oedd ei chwys yn ddafnau gwaedlyd. Yr wyf fi wedi colli ofn marw yn yr ofn hwnw. A phaham y rhaid i mi ofni, gan ei fod Ef wedi talu y ddyled? Onid ydyw Ef wedi dileu yr ysgrifenlaw oedd yn fy erbyn i? Mae y dystiolaeth yn dyweyd hyny, ac yr wyf finnau yn ei chredu ac yn ei derbyn yn ddiolchgar. Bendigedig fyddo ei enw byth bythoedd!"

"Amen," ebe Mr. Pugh gyda theimlad mawr.

Aeth Benjamin ymlaen yn y ffordd hon am amser; yna dechreuodd ddyfynu adnodau—ei hen gwmpeini, fel y galwai efe hwynt, y rhai oeddynt yn awr yn dyfod i'w ddanfon i ben ei siwrnai. Siaradai mor rhwydd a diboen fel y credai Mr. Pugh ei fod yn llawer gweli nag y buasai

er ys amser. Ond pan oeddym yn ffarwelio âg ef, edrychodd arnom yn galed, a gwasgodd ein dwylaw yn dyn. Pan oeddym yn myned ymaith, gofynodd Becca,

"Mr. Pugh, 'roedd hwnyma yn dyweyd pethe rhyfedd arw neithiwr; ydach chi'n meddwl fod o'n *ramblo?*"

"*Ramblo!*" ebe Mr. Pugh, "ydi, mae o yn *ramblo* yn union yr un fath ag yr oedd Paul yn *ramblo* o flaen Ffestus. Os dene be ydi *ramblo*, gybeithio'r anwyl y bydda' inne yn *ramblo*. Nos dawch, Becca bach."

Aethum i edrych am Benjamin yn fore drannoeth. Pan neseais at y tŷ, deallais oddiwrth y gorchudd oedd yn cuddio yr holl ffenestri fod yr anwyl hen frawd a thad wedi myned i ffordd. Yr oedd Becca am y tro cyntaf i mi ei gweled, yn segur, ac yn eistedd yn llonydd wrth y pentan, gan edrych yn syn i'r tân. Yr oedd y pobtŷ am y tro cyntaf er ys blynyddau, oddigerth ar y Sabbothau, heb ei dwymno. Yr oedd Bella Barlow, y wraig a fyddai yn arfer "diweddu" pobl, yn cerdded yn ol ac ymlaen yn ddystaw ar hyd y tŷ, ac yn myned i fyny ac i lawr y grisiau fel pe buasai yn cerdded yn nhraed ei hosanau, ac yn sisial pob gair a ddywedai. Ymddangosai Becca i mi fel pe buasai mewn breuddwyd. Am y tro cyntaf nid oedd hi yn cwyno nac yn wylo, ac o'r braidd y gallwn feddwl ei bod wedi sylweddoli yr hyn a gymerasai le. Yn yr ymddyddan fu rhyngof â hi, rhoddodd ar ddeall i mi na chymerodd nemawr gyfnewidiad le yn Benjamin cyn iddo farw. Rywbryd rhwng tri a phedwar yn y bore gofynodd yn sydyn, "Becca, ddaru ch'i dalu am y blawd?" "Do, Benjamin," ebe hithau. "Purion," ebe ef, "mae pobpeth wedi ei dalu yrŵan—mae y ddyled fawr wedi ei thalu er ys blynyddau;" a gogwyddodd ei ben, a bu farw.

Yn y cyfnod rhwng y diwrnod y bu Benjamin farw â'r dydd y claddwyd ef, soniai Becca am dano wrth yr enw "hwnyma;" ond wedi ei gladdu cyfeiriai ato yn ddïeithriad fel "hwnacw," gan gyfodi ei llygaid i'r nef. Tra yr oedd Noah Rees yn agor y Bibl i ddarllen pennod cyn cychwyn yr angladd, a thra dodid corff Benjamin Prŷs ar

ddwy gader o flaen drws y tŷ, tarawyd pawb â syndod gan brydferthwch ei arch gostfawr. Rhyfeddai pawb sut y gallodd Becca fforddio. Claddwyd ef yn ol ei ddymuniad wrth ochr Mr. Williams. Ymhen ychydig wythnosau, tarawyd pawb â syndod mwy wrth weled uwch ben ei fedd gofadail hardd a gwerthfawr. Ond ni chostiodd yr arch na'r gofadail geiniog i Becca; oblegid yr oedd cyfaill wedi dyweyd wrth Benjamin Prŷs, tra yr oedd efe eto yn fyw, "Benjamin, os byddwch ch'i farw o'm mlaen i, mi ofala i y cewch ch'i arch dda, a chareg barchus ar eich bedd, can wired a mod i yn y fan yma."

## PENNOD XXII.

### MISS PUGH.

AETH misoedd heibio. Blinodd pobl yn siarad am Jeremiah Jenkins a'i waith yn gosod ei dŷ ar dân; ac anaml yn awr y sonid am ei enw cddigerth gan Syr Ned yn y *Three Pigeons*, pan fyddai yn myned dros yr holl wrhydri yr oedd efe wedi gyflawni yn ystod ei oes. Cneifiodd rhywun arall gynffon ei gi ar ol Jeremiah gan roddi testun newydd i bobl y Dreflan chwedleua yn ei gylch. Tyfodd glaswellt ar fedd Benjamin Prys, er na thyfodd glaswellt na danadl ar hiraeth Becca ar ei ol, yr hon a barhäi, er gwaethaf Mr. Smart, i roddi arian ar lyfr yr eglwys "dros hwnacw." Yn ystod y misoedd y bu Benjamin yn analluog i fyned i'r capel, yr oedd ei gader o dan y pulpud yn wag; ond wedi iddo ef farw eisteddai Mr. Smart ynddi, er ei fod bob amser yn dyweyd, fel yr oedd Mr. Bevan yn gwybod, mai Mr. Bevan a ddylasai ei llenwi.

Gyda golwg ar Jim Price, ymddangosai fod y Cartrefle yn dygymmod yn dda âg ef; oblegid cyn iddo hanner

gwisgo y *suit* o ddillad, byddai wedi tyfu allan o honi; ac nid oedd dim yn boddio cymaint ar Mr. Pugh â gweled côb Jim yn gwrthod botymu. Byddai William Jones wrthi yn feunyddiol naill ai yn altro dillad Jim, neu ynte yn ei fesur am rai newyddion. Ac yr oedd yr hogyn yn haeddu hyn; canys yn ol tystiolaeth Mr. Pugh ei hun, ni bu gwell bachgen yn gwisgo esgid erioed. Clywais yr hen foneddwr lawer gwaith yn dyweyd y buasai yn *backio* Jim yn erbyn unrhyw fachgen yn y sîr o'i oed am neidio, rhedeg, marchogaeth, darllen, ysgrifenu, adrodd pennod allan, neu ynte am fwyta cinio da, yn enwedig y peth olaf, yr hyn oedd bwnc pwysig yn nghredo Mr. Pugh; oblegid mynych y dywedai, "Weles i 'rioed lawer o ddaioni o neb os na fedre fo 'neyd cinio *hearty.*" Eisteddai Jim yn yr un sedd â'r teulu yn y capel; eisteddai wrth yr un bwrdd i fwyta pob pryd; ac yr oedd ei ysbryd bywiog ac ieuengaidd, ei atebion parod a ffraeth, wedi dyfod yn rhan anhebgorol o gysur teulu y Cartrefle. Perchenogai Jim fesur o gyfrwysdra; eithr nid i hyny, yn sicr, y gellid priodoli ei gynnydd a'i lwyddiant yn ffafr y teulu. Y diwrnod cyntaf y gwelodd Miss Pugh ef yn ei garpiau a'i fudreddi, yr oedd hi, gyda'i chraffder arferol i adnabod cymeriadau, yn gweled yn ei lygaid dysglaer, a'i wyneb gonest, wrthddrych gwerth ei achub o drobwll trueni a llygredigaeth. A oedd y peth yn bosibl? A allai hi trwy garedigrwydd ac ymröad roddi cyfeiriad newydd i'w fywyd? A allai hi ei wneyd yn gyfryw ag a fuasai yn llenwi y gwagle oedd yn mynwes ei thad, a lliniaru ychydig ar ei ofid a'i brudd-der pan fyddai y gwynt yn chwythu, a'r eira yn disgyn yn drwm ar hirnos auaf, a phan y gwyddai fod ei feddyliau yn crwydro ymhell ar ol yr afradlawn? Parodd y drychfeddwl i'w chalon ddychlamu. Ennynodd tân ynddi a oddeithiodd ei holl amcanion, ac a gadwyd yn fyw o'r diwrnod hwnw allan gan rym penderfyniad a chariad angerddol at ei thad. Fel y sylwyd o'r blaen, yr oedd yn Miss Pugh gyfuniad prydferth o synwyr cryf a choethder ei mam, gyda charedigrwydd ac unplygrwydd ei thad, a'r cyfan wedi ei berffeithio gan addysg dda, duwiolfrydedd

dwfn, a chasineb naturiol at bob rhodres a gwagymddangosiad. Yr oedd y dasg yn fawr, ond ymgymerodd â hi â'i holl enaid. Safai Jim o'i blaen yn symlrwydd ei galon —yn ddiddysg ac anwybodus. Perthynai iddo rai arferion drwg, a mesur o gyfrwysdra, fel y dywedwyd, yr hwn a genedlwyd ynddo gan gyfyngder a thlodi. Eithr nid oedd yn ei ysbryd falais na thwyll. Fel ei wallt crych, yn hwn a chwareuai yn ddiofal ar ei arleisiau, felly yr oedd ei galon ieuanc a diniwed. Credai Miss Pugh, fel y gwnai ei thad, yn ddiderfyn mewn tiriondeb; a phenderfynodd yn gyntaf oll doddi Jim yn ffwrnes eirias caredigrwydd, ac yna gosod ei delw arno. Yn yr anturiaeth yr oedd ganddi un fantais: yr oedd Jim càn iached a'r clai, ac yn nodedig o brydferth. Buasai unrhyw ferch yn cymeryd ato pan fyddai efe wedi ymolchi yn lân, ac wedi ymwisgo yn drwsiadus. Serch hyny, costiodd i'r foneddiges lawer o amynedd a llafur i'w ddiddyfnu oddiwrth eiriau ac arferion nad oeddynt yn weddus; ond talwyd iddi am yr holl lafur gan y ffrwyth toreithiog a'i dilynodd.

Fel yr awgrymwyd, hi a ymgymerodd â'r gwaith ar y dechre yn benaf gyda'r amcan o ychwanegu at ddedwyddwch ei thad; ond yn fuan iawn daeth y gwaith ei hun yn ystorfa lawn o bleser a dedwyddwch iddi na buasai yn ymadael âg ef am unrhyw bris. Ni byddai Miss Pugh byth yn son wrth Jim am ei sefyllfa isel a'i dlodi blaenorol; yn hytrach galwai ef yn "frawd bach," a chymerai arni wneyd *confidant* o hono, gan sibrwd yn ei glust ryw gyfrinach yr oedd efe i'w chadw yn ddirgelwch oddiwrth bawb, yr hyn a wnai Jim i'r llythyren. Yn ei ffordd dawel a diymhongar, ymddygai y ferch ieuanc tuag ato bob amser yn yr un ysbryd, gan achub pob cyfleusdra i ddefnynu i'w feddwl a'i galon brydferthwch gwirionedd a daioni, a rhagoroldeb gwybodaeth. Pan adroddai hi iddo hanesyn o'r Bibl, neu o ryw lyfr arall, agorai Jim ei lygaid mawr duon mewn syndod; ac er ei fod yn llyncu pob gair a ddywedai hi, gwnai hyny heb gymeryd ei wynt. Ar adegau teimlai Miss Pugh yn lluddedig ar ol bod yn llafurio gyda Jim, a gofynai iddo weithiau mewn ysmaldod

pa bryd yr oedd efe yn bwriadu talu cyflog i'w *governess.* Mewn atebiad, gofynai Jim iddi hithau pa bryd yr oedd hi yn bwriadu talu iddo ef am ei dysgu "sut i fendio'r 'deryn." Ië, hyn oedd yr unig beth y gallodd Jim ei ddysgu i Miss Pugh; ac yr oedd efe yn teimlo yn falch o hono. Wedi ei fagu, fel y gellir dyweyd, yn nghanol *cages* a phob math o adar, gwyddai bobpeth ymron yn eu cylch. Os byddai anhwyldeb ar yr aderyn, gwyddai Jim pa sawl blewyn o *saffron* i'w roddi yn ei ddwfr—y cyfartaledd llesol o'r *hemp* a'r *canary seed*—pa bryd i roddi dail dant-y-llew a bresych iddo, a pha bryd i beidio; pa fodd i'w gynnorthwyo i fwrw ei blyf, a pha fodd i dynu braw o hono pan fyddai y gath wedi gwneyd cais aflwyddiannus am ei fywyd. Clywais Miss Pugh yn dyweyd fod ei brofiad yn y pethau hyn yn anmhrisiadwy. Ni byddai y foneddiges byth yn ceryddu Jim yn yr ystyr lythyrenol o'r gair, ac eto yr oedd yn hollol dan ei llywodraeth ac wrth ei hewyllys. Protestiai yr hogyn wrthyf y buasai yn well ganddo gael curfa bedair gwaith drosodd gan ei dad yn hytrach nag i Miss Pugh edrych yn ddig arno.

Er fod ei gwg y peth oedd Jim yn ei ofni fwyaf, byddai yr anffawd hon ar adegau yn disgyn i'w ran. Un tro (buasai y dygwyddiad hwn yn rhy syml i'w adrodd oni bae ei fod yn gwasanaethu i ddangos y teimlad da a ffynai rhwng y ddau, ac hefyd fod a fyno y dygwyddiad rywbeth â'n hanes)—un tro gorchymynodd Mr. Pugh i Jim gymeryd y ferlen allan am *exercise.* "Y gorchymyn esmwyth hwn" a groesawid bob amser gan Jim. Aeth oriau heibio, ac nid oedd argoel am ddychweliad Jim, a dechreuodd Miss Pugh fod yn bryderus yn ei gylch; ond dywedai Mr. Pugh, "Mi wranta i y bydd Jim yma erbyn swper." Amser swper a ddaeth, a dim son am Jim, a dechreuodd hyd yn nod Mr. Pugh edrych ar ei oriawr. Aeth awr arall heibio, ac ymdaenodd tywyllwch y nos, ac eto nid oedd arwydd am ddyfodiad Jim. Yr oedd Miss Pugh bron llesmeirio, ac nis gallai ei mam guddio ei hanesmwythder yn hŵy, a dywedodd, "Pitar, mae rhywbeth wedi dygwydd i'r bachgen druan, yn siwr i

ch'i; ewch a chodwch rywun i fyn'd i ymorol am dano." Aeth Mr. Pugh i'r drws i wrandaw, a dychwelodd yn y fynyd a dywedodd, "Ho, ho, mae Jim yn dwad i ch'i fel y fellten." Y fynyd nesaf yr oedd y march a'i farchog yn y buarth, a'r blaenaf yn furym o chwys, yr hyn a barodd i Bob y gwas fyned i'w esgidiau, fel y dywedir. Adroddodd Jim ei hanes yn gynhyrfus, fel yr oedd wedi myned mor bell nas gwyddai pa le yr oedd efe, fel yr oedd y nos wedi ei ddal, ac fel yr oedd wedi gyru mor gyflym gartref fel nas gallai yr un lleidr ei ddal, yr hyn oll a wrandawai Mr. Pugh gyda'r dyddordeb mwyaf, gan alw am fwyd i'r bachgen. Pan osodwyd ymborth o flaen Jim, gwelodd fod gwg ar wyneb Miss Pugh, ac yr oedd hyny yn ddigon o swper iddo; nis gallai lyncu tamaid, na dyweyd dim ychwaneg o'i hanes. Gan gymeryd arno ei fod wedi blino, cyfododd i fyned i'w wely, ac wrth ysgwyd dwylaw â'i feistres ieuanc ni ddarfu iddi ddyweyd dim wrtho, na phrin edrych arno. Wedi iddo adael yr ystafell, dywedodd y ferch, "Nhad, dylasech roddi cerydd i Jim am wneyd fel hyn heno."

"Lol i gyd, Kit," ebe Mr. Pugh; "rown i 'run ffig am fachgen heb dipyn o ysbryd ynddo fo. Lol i gyd; wnaeth y bachgen ddim drwg. A pheth arall, feder neb arall 'neyd i'r hen ferlen ene chwysu ond y fo."

Ni soniwyd gair am y peth wedi hyn. Pan oedd Miss Pugh yn myned i'w hystafell y noson hono, paham y gosododd hi ei chlust ar dwll clo ystafell wely Jim, gan wrando yn astud, os nad oedd hi yn gyfeillgar iddo, er ei fod wedi gwneyd ei hoff ferlen yn furym o chwys? Ai dychymygu yr oedd hi ei bod yn clywed Jim yn sobian? Tarawodd yr hen gloc mawr—y cloc wrth yr hwn y cymerodd Jim ei safle pan gyntaf y cyfarfyddodd efe â Mrs. Pugh, a phan drinid ef mor enbyd gan Susan; tarawodd yr hen gloc un ar ddeg, ac yr oedd dau o breswylwyr y Cartrefle heb gau eu llygaid. Tarawodd y cloc ddeuddeg, ac eto nid oeddynt wedi cysgu. Tarawodd y cloc un; a thra yr oedd Miss Pugh yn gwrandaw ar swn hirllaes y gloch yn darfod yn araf deg, clywai rywun yn curo

yn ddystaw ddrws ei hystafell, a gofynodd, "Pwy sydd yna?"

"Jim," oedd yr ateb.

"Beth ydyw'r mater, Jim? Wyt ti yn sâl?"

"Miss Pugh," ebe Jim, "ne'wch ch'i fadde i mi? 'na i byth yru y ferlen fel ene eto."

Heb ddyweyd un gair, neidiodd yr eneth dynergalon o'i gwely, agorodd y drws, ac ysgydwodd law yr hogyn yn wresog, nes yr oedd Jim yn y seithfed nef, ac y dychwelodd ei holl awydd am ymborth y fynyd hono.

"Miss Pugh," ebe ef, "ga i fyn'd i lawr i gael fy swper?"

"Cei, 'y ngwas i," ebe hi; "mi ddof hefo ti."

Taflodd y ferch ryw hugan drosti, ac a aeth gyda Jim i lawr i'r gegin, a rhoddodd ymborth o'i flaen. Pe buasai Mr. Pugh yn llygad-dyst o'r awch gyda pha un y bwytâi Jim ei swper, buasai wrth fodd ei galon.

"Jim," ebe Miss Pugh, "paid ti a dyweyd wrth neb am y codi ganol nos yma, rhag i bobl feddwl ein bod yn dyrysu."

Gan fod safn Jim yn dygwydd bod yn llawn ar y pryd, nis gallai ateb, ond rhoddodd nog, ystyr yr hwn oedd *all right*, ac aeth ymlaen yn egniol i ddiwallu ei anghen.

Y fath deimlad rhyfedd sydd yn dyfod dros un hyd yn nod yn ei dŷ ei hun pan yr elo i lawr i'r gegin ganol nos? Y fath ddystawrwydd sydd ymhob man? Mor gryf y mae y cloc yn tician?—yn gryfach o lawer nag yn y dydd. Fel y mae y llygoden fechan sydd yn dianc ar draws y llawr, a'r chwilen ddu ysgleiniog sydd yn rhedeg yn ddystaw i'w thwll, yn ychwanegu at unigrwydd a dyeithrwch y teimlad! Mor barod ydyw y dychymyg i roddi ffurf a llun ar bob swn a chynhyrfiad!

Eisteddai Jim wrth y bwrdd mawr â'i gefn at y ffenestr, ac eisteddai Miss Pugh ar ei gyfer, gan ei annog i wneyd brys. Rhoddodd Jim nog arwyddocäol arall, gan roddi *extra supply* yn ei safn, yr hyn a barai i'w fochau ymddangos fel pe buasai eu perchenog yn chwythu mewn udgorn.

Wedi iddo lenwi pob congl o'i gylla, gollyngodd Jim ei afael o'i arfau bwyta, rhoddodd ei ddwylaw ar ei liniau, cymerodd un anadliad hir, a dywedodd, "Wel!" Pan gyfododd ei lygaid i edrych ar Miss Pugh, gwelodd hi yn syllu ar y ffenestr, a'i hwyneb mor welw â marwolaeth. Y fynyd nesaf gwelodd hi yn rhuthro i'r drws, gan roddi ysgrech wasgedig—"O Bob!"

Dilynodd Jim hi yn gyflym i'r buarth. Yr oedd y noswaith yn dywell a thawel, ac ni welent ddim ac ni chlywent ddim oddigerth y ci yn cyfarth.

"Be di'r mater, Miss Pugh?" gofynai Jim; "ydi Bob yn chware 'i *antics*, ac yn treio'n dychrynu ni?'

"Ffansïo 'roeddwn i, Jim. Dos i dy wely, 'ngwas i," ebe y ferch yn grynedig.

Dychwelodd y ddau i'r tŷ, a chauodd Miss Pugh y drws.

"Pam na chlowch chi'r drws, Miss Pugh?" gofynai Jim.

"Na, ni fedraf ei gloi heno, Jim," ebe hi.

Edrychodd yr hogyn yn synedig.

"Jim," ebe Miss Pugh, pan oeddynt ar ben y grisiau, "paid ti son wrth neb am hyn."

"Dim peryg," ebe yr hogyn, ac aeth i'w wely, a chysgodd yn drwm heb gael ei flino o gwbl gan ddiffyg treuliad. Ond yr oedd meddwl Miss Pugh yn rhy helbulus iddi hi allu cysgu. Ceisiai ymdawelu a pherswadio ei hunan mai wedi cael ei thwyllo gan ei dychymyg yr oedd. A pha beth oedd yn fwy naturiol, gan nad oedd hi yn gref iawn o ran ei hiechyd, ac hefyd ei bod wedi bod yn y fath bryder ynghylch Jim, a'r awr ar y nos mor drymaidd? Ac eto onid oedd y wyneb mor debyg ac mor agos i'r gwydr? Dychymygai glywed drws y gegin yn agor, a chyfododd yn ei heistedd yn y gwely laweroedd o weithiau i wrando yn ddyfal; ond ni chlywai hi ddim y gallai fod yn sicr o hono ond y ci yn udo yn dorcalonus. Yn ei meddwl ni bu y wawr erioed mor hir yn tori; ac oni buasai ei bod hi yn clywed yr hen gloc yn tician, buasai yn meddwl ei fod wedi sefyll, gan mor faith oedd yr oriau.

Wedi hir ddysgwyl, llithrodd i'w hystafell wawr lwyd oleu, yr hon a gynnyddai yn araf a thawel bob mynyd. Cyfododd hithau yn ddystaw o'i gwely, a dadorchuddiodd ac agorodd y ffenestr, gan roddi ei phen allan. Disgynai awel ffres a theneu y cyfddydd ar ei phen cythryblus, fel pe buasai yn ceisio lleddfu ychydig ar ei chyni. Tremiai yr eneth serchoglawn trwy wyll y bore i bob congl a chilfach, ond ni welai hi ddim ond y ci yn dyfod allan o'i gut, gan edrych yn hiraethlawn i un cyfeiriad, ac yna yn ysgrwtian ac yn dychwelyd i'w gut i gymeryd ail gyntun.

Clustfeiniodd yn astud, ond ni chlywodd hi ddim oddigerth gwêdd Ty'nllan yn myned i'r glo, a'r gyrwr yn chwibanu, ac ambell geiliog yn canu mewn atebiad i geiliog y Cartrefle, yr hwn a ganasai eisoes dair gwaith. Cauodd y ffenestr ac aeth yn ol i'w gwely, a theimlodd ryw drymder yn dyfod drosti, a chredai y gallai gysgu yn awr Ond beth os nad oedd hi wedi ei thwyllo gan ei dychymyg? Beth os ei wyneb ef a welsai hi? Beth os oedd efe y fynyd hono yn cysgu yn y gwellt yn y gywlas —hwyrach yn marw? oblegid yr oedd ei wyneb yn welw a theneu. A oedd ganddi hi hawl i gysgu a'r fath beth yn bosibl ac yn debygol? Na, nid Miss Pugh gyda'i chalon fawr oedd yr eneth i allu cysgu o dan y fath amgylchiadau. Neidiodd i'r llawr drachefn; edrychodd yn wyllt ac anmhenderfynol; rhoddodd ei llaw ar ei chalon, fel pe buasai yn ofni iddi dori, tra y dywedai, "O pe gwyddit y fath ofid yr wyt wedi ei ddwyn arnom!" a'r foment nesaf syrthiodd ar ei gliniau, gan gladdu ei hwyneb yn y cynfasau, a chan dywallt ei gofid o flaen yr Hwn sydd yn gwybod am ein holl deimladau a'n holl helyntion. Pan gyfododd hi oddiar ei gliniau, yr oedd yn oleu ddydd. Gwisgodd am dani yn frysiog, a llithrodd yn ddystaw o'i hystafell. Wrth fyned heibio i ystafell Jim, safodd a chlywodd ef yn chwyrnu yn uchel. Cafodd ddrws y gegin yn gymhwys fel y gadawodd hi ef. Aeth i'r buarth, a neidiodd Gelert o'i gut i'w chyfarfod, gan ysgwyd ei gynffon, a phob cymmal a gewyn mewn gorlonder croesawol. Edrychodd y foneddiges yn fyfyrgar i

lygad y ci; ac fel yr oedd hi yn tynu y goler oddiam ei wddf ac yn ei ollwng ef yn rhydd, dywedodd megys wrthi ei hun, "O Gelert, na faet yn gallu siarad, gael i mi ofyn cwestiwn i ti na feiddiaf ei ofyn i neb arall!" Càn gynted ag y teimlodd y ci ei hun yn rhydd, rhedodd gim-gam-gwa ar hyd y buarth â'i gynffon i fyny a'i drwyn gyda'r llawr, hyd nes y daeth at y llidiart; yna edrychodd yn ol i weled a oedd y ferch ieuanc yn ei ddilyn. Ond yr oedd hi yn myned i gyfeiriad arall; a phan welodd y ci hyn, cyfarthodd, fel pe buasai yn ceisio dyweyd, "Ffordd yma, ffordd yma." Ni chymerodd y foneddiges un sylw o'r ci, ac aeth i'r ystabl, wedi hyny aeth i'r gywlas, a thrachefn dringodd i fyny ysgol i'r daflod; ond ni chafodd hi ddim o'r hyn yr oedd yn ei geisio. Dychwelodd i'r tŷ, gan gloi y drws ar ei hol y tro hwn; a threuliodd yr amser hyd nes i'r teulu gyfodi yn ei hystafell mewn hunan gywilyddiad o herwydd i'w dychymyg gael y llaw uchaf arni.

Yn gynnar y boreu hwnw gwelais Miss Pugh yn rhoi tro yn y Dreflan, a synais ei gweled allan mor blygeiniol. Daethum i'r penderfyniad mai rhywbeth ynglŷn â'r parotoadau gogyfer â'i phriodas, yr hon oedd i gymeryd lle yr wythnos ganlynol, oedd y rheswm am hyny. Wrth weled ei gwyneb mor welw, dywedais wrthi yn gellweirus fod gweled wynebau pobl yn newid mor fawr yn fy nigaloni i feddwl am briodi. Ni wnaeth ond gwenu a dyweyd, "Wel, hwyrach y caf weled eich wyneb chwithau ryw ddiwrnod yn llwytach nag ydyw heddyw." Mor ychydig a wyddwn i pryd hyny beth oedd yn blino enaid y ferch synwyrlawn a rhinweddol.

Y noswaith ddilynol yr oeddwn gartref, a phriodas fy nghyfaill Noah â Miss Pugh oedd uchaf yn fy meddwl. Yr oedd y dygwyddiad hapus erbyn hyn yn berffaith wybyddus i bawb o bobl y Dreflan. Credwn na fu erioed well cymhariad. Cawswn bob mantais i adnabod y ddau yn drwyadl. Yr oedd gan Miss Pugh gynneddfau cryfion a chalon fawr deimladol, ac ar yr un pryd y fath wyleidd-dra benywaidd na fuasai gan Efa, cyn iddi brofi o ffrwyth

y pren, gywilydd ei harddel fel ei chwaer. Er cymaint yr edmygai lenyddiaeth a cherddoriaeth, un o'r pethau olaf iddi wneyd fuasai tynu ystumiau ar lwyfan gyhoeddus. Nid oedd yr addysg dda a gawsai ychwaith wedi ei hanghymhwyso i wneyd gwaith y tŷ, ac ni byddai arni gywilydd i neb ei gweled yn gwisgo ffedog wèn. Yn annibynol ar ei heiddo, gallasai unrhyw ddyn deimlo yn falch o'i chael yn wraig. Er y dywedir yn fynych—gyda pha sail nis gwn—fod merched cyfoethog yn meddu swyn mawr i wŷr y gôb ddu a'r cadach gwỳn, yr wyf yn sicr mai nid hyny a orchfygodd Noah; a phe hyny fuasai y ffaith, yr wyf yr un mor sicr mai Miss Pugh fuasai y gyntaf i'w gael allan. Yn hytrach teimlai y ddau, pan ddaethant gyntaf i gysylltiad â'u gilydd, fod eu huniad mor sicr o gael ei gyflawni ag ydyw prophwydoliaeth â holl rym arfaeth wrth ei chefn. Gwir nad yn y wedd hon yr edrychid gan bawb ar eu priodas agosàol. Dywedai Mr. Smart fod ganddo ef bob amser feddwl mawr o weinidogion y gair, fel y gwyddai Mr. Bevan, ond yr un pryd na buasai yn dymuno i ferch iddo ef briodi pregethwr Methodistaidd hyd nes deuai y wlad i edrych arnynt fel yr edrychir ar y *clergy* Dywedai Miss Smart,—"Certainly Miss Pugh is a little old fash, but she might have looked a little higher." Dywedai Mrs. Smart ei bod yn ofni y buasai yn dda gan Mrs. Pugh erbyn hyn pe buasai heb wneyd cymaint o Mr. Rees pan ddaeth efe gyntaf i'r Dreflan; oblegid beth arall a allasai hi ei ddysgwyl?—*mai pobl ieuainc ydyw pobl ieuainc*. Dywedai un neu ddau eraill eu bod yn gobeithio na feddyliai Mr. Rees ei fod, wrth briodi Miss Pugh, yn sefydlu ei hun am ei oes yn fugail yn y Dreflan, ac nad oedd yr un mor agored i gael gostwng ei gyflog neu i gael rhybudd i ymadael. Pa fodd bynag, nid oedd y syniadau uchod ond eithriadau. Llawenhâi y mwyafrif wrth feddwl am yr amgylchiad, ac yr oedd rhai hyd yn nod wedi parotoi eu hanrhegion.

Yr oeddwn gartref, fel y dywedais, ac o herwydd mai y noson flaenorol y buasai Noah yn ymweled â mi, synwyd fi braidd pan glywais gnoc fy nghyfaill ar ddrws

fy ystafell, ac y gwelwn ef yn dyfod i mewn. Dywedais wrtho fod yn dda genyf ei weled yn gwella fel bugail yn ei ofal am ei ddefaid. Atebodd yntau, "Buasai yn dda genyf allu credu fod eraill o'r un meddwl â thi; ond mae genyf ofn nad hyn yw y ffaith. Wyddost ti beth? mae y gair a ddywedodd Mr. Prysor noson fy sefydliad, sef ei fod yn dysgwyl y gallwn, ymhen y flwyddyn, gyfeirio at ryw waith mawr a fyddwn wedi ei wneyd, wedi bod yn fy meddwl ugeiniau o weithiau. Dyma fi bellach yma er ys rhagor lawer na blwyddyn, ac nis gallaf eto gyfeirio at waith mawr yr wyf wedi ei wneyd. Yr wyf yn ceisio gwneyd fy ngoreu; a pha gŵyn bynag a ddygir yn fy erbyn, yr wyf yn teimlo yn sicr na ddywedir fy mod yn ddiog a difater. Ac eto pan ddechreuaf gyfrif a mesur a phwyso yr hyn yr wyf wedi ei wneyd, yr wyf yn methu yn glir cael gafael arno. Byddaf yn teimlo yn ddigalon iawn ar adegau, a bron a meddwl nad ydwyf yn dda i ddim. A dyweyd y gwir i ti, yr oeddwn yn teimlo yn yswil iawn y dydd o'r blaen wrth dderbyn fy nghyflog gan Mr. Smart; a phe buasai yn gofyn i mi pa beth yr oeddwn wedi ei wneyd am dano, nis gwn sut y buaswn yn ei ateb."

"Yr oeddwn yn meddwl wrth dy wep," ebe fi, "fod y pruddglwyf arnat. Paham na wisgi di sachlian a lludw, ac ymdreiglo yn y domen, dywed? Yr wyt bob amser yn lladd arnat dy hun heb achos. Wyt ti yn dysgwyl gallu gwneyd gwyrthiau ac iachâu cleifion ein heglwys, a bwrw allan gythreuliaid o bobl ddrwg y Dreflan yma? Yr wyt yn gwneyd pobpeth ond hyny, am a wn i. Pan fyddi yn pregethu, yr wyt yn cael mwy o bobl i dy wrando na neb arall. Os byddi yn absennol o'r seiat, maent yn methu myned ymlaen hebot. Mae y bobl ieuainc yn dyheu am danat, fel y ddaear am y gwlaw. Nid oes genym neb i'n cynnrychioli mewn cyfarfod cyhoeddus ond tydi; ac nid ydwyt byth yn tori ffigiwr gwael ar yr adegau hyny. Mae dy lafur yn sicr yn cael ei fendithio. Yr wyt yn cael dy barchu gan enwadau eraill, a'th anwylo gan dy eglwys dy hun. Beth wyt yn

ddysgwyl fod? A pheth arall: ti a fyddi yn well ac yn fwy cyflawn dyn yr wythnos nesaf nag y buost erioed, wedi i ti gael gwraig—a'r fath wraig!"

Siaradwn fel hyn i'w galonogi, ac ar yr un pryd credwn fy mod yn dyweyd y gwir. Nis gallaf byth anghofio ei olwg wedi i mi ddyweyd y geiriau hyn wrtho. Yr oedd ei wyneb yn llwyd a chynhyrfus, a chanfyddwn mai prin y gallai gasglu digon o ddynoliaeth i beidio tywallt y dagrau oedd eisoes yn lleithio ei lygaid, tra y dywedai ar ol mynyd o ddystawrwydd,

"Fy nghyfaill, mae yr holl siarad a'r parotöadau i gyd yn ofer. Nid ydyw Miss Pugh i fod yn wraig i mi yr wythnos nesaf, os ydyw i fod byth. Dyna oedd fy neges yn dyfod atat heno, i gael dyweyd fy nghŵyn wrthyt, ac i ofyn am dy help."

Yr oeddwn wedi fy syfrdanu, a phrin y gwyddwn pa beth i'w ddyweyd. Tarawodd i fy meddwl a oedd yn bosibl fod yr hon a ystyriwn i y brydferthaf, y buraf, a'r fwyaf rhinweddol ar y ddaear, wedi ei dwyllo! Eglurodd Noah i mi mewn ychydig eiriau yr holl amgylchiadau, a chodasom y fynyd hono ac aethom ein dau allan.

## PENNOD XXIII.

### ISMAEL UNWAITH ETO.

FEL y dywedais yn y bennod o'r blaen, aeth Noah a minnau allan. Cerddasom yn gyflym tua'r Cartrefle. Er fod yr ystrydoedd yn weigion a llonydd, ychydig o eiriau a gyfnewidiwyd rhyngom. Yr oedd Noah wedi egluro ei gynllun i mi cyn i ni gychwyn o'r tŷ. Fel yr oeddym yn troedio ymlaen mewn dystawrwydd, gwyddwn fod ein meddyliau yn rhedeg ar yr un peth: nad eiddo gŵr ei ffordd—na wyddom yr hyn a

ddygwydd i ni mewn diwrnod—fel y gwna un dygwyddiad syml yn fynych gyfnewid ein holl amcanion, a rhoi gwedd newydd ar ein dyfodol am ein hoes, o bosibl. Pan gyrhaeddasom y Cartrefle, arosais i wrth y llidiart, ac aeth Noah i mewn i'r tŷ.

Ymhen ychydig o fynydau, daeth Mr. Pugh allan yn frysiog gan wthio ei hun i'w gôb uchaf wrth gerdded tuag ataf. Edrychai yn fywiog a llawen, fel pe buasai wedi derbyn y newydd goreu ar y ddaear. Gan gydio yn fy mraich, a rhoi *right wheel* i mi tua'r cyfeiriad yr oeddym i fyned, dywedodd,

"Be wt ti'n sefyllian yn y fan yma, dywed? Pam na fasit ti'n dwad i'r tŷ? Ac y mae Ismael eisio 'ngwel'd i, ydi o? On'd oeddwn i yn deyd i ti fod rhwbeth ar 'i feddwl o er's talwm? Rydw i wedi bod yn dysgwyl am hyn er's misoedd. Wired a mod i yn y fan yma, mae'r gwirionedd wedi cyffwrdd â meddwl Ismael, yn siŵr i ti. 'Drycha di fel y mae o'n dwad i'r moddion, ac fel y mae o wedi newid ei fuchedd. Rydw i wedi bod yn diolch ganweth am i ti a mine gael ar 'n meddwl i fyn'd i Fuarth Jenkins y p'nawn Sul hwnw. Oni base am hyny, wel di, mi fase Ismael heno, mae'n lled debyg, yn y *White Horse*, a Jim yn 'i garpie yn gorwedd ar yr aelwyd yn 'i ddysgwyl o gartre'. Diolch i'r Brenin Mawr am gael bod yn foddion i wneyd tipyn bach o ddaioni yn y byd drwg yma."

Nid wyf yn cofio beth a ddywedais mewn atebiad iddo, ond yr wyf yn cofio yn dda beth oedd yn fy meddwl. Teimlwn ryw fath o euogrwydd fy mod yn chwareu cast â'r hen ŵr gonest ac unplyg, ac ar yr un pryd credwn mai hyny oedd oreu o dan yr amgylchiadau. Pan oeddym yn myned i lawr Buarth Jenkins, dywedodd Mr. Pugh, "Un o'r pethe casa gen' i wrth fyn'd i lawr y buarth yma ydi meddwl am y lafnes lygadgroes hono. Wyt ti'n cofio fel y rhegodd hi ni y Sul hwnw? Siawns na welwn ni moni heno. Wyddost ti be'? fydde gen' i dryst yn y byd na ddeue tân a brwmstan ar y lle 'ma oni bae fod yr hen Siân Jones gyfiawn

yn byw yn nghanol yr anwiriaid! Aros di, hwn ydi tŷ Ismael, yntê? Be' di'r gole ene yn y llofft? Ydi'r creadur ddim yn myn'd i'w wely, tybed i ti?"

Curasom y drws yn ysgafn, ac atebwyd ni gan yr un llais dwfn, ac yn yr un geiriau, â phan oeddym yn ymweled y tro cyntaf â'r tŷ, fisoedd lawer yn ol: "Dowch i mewn." Eisteddai Ismael yn yr un gader, a chyda yr un bibell, am a wyddwn i, yn ei safn, ac yn cael ei amgylchynu gan adar dirifedi. Wedi i ni eistedd i lawr, dywedodd Mr. Pugh â gwên siriol ar ei wyneb, "Wel, Ismael bach, mae gynoch ch'i rwbeth eisio 'i ddeyd wrtha i, rydw i'n dallt, ac y mae yn dda gen' i gaèl dwad yma i'w glywed; ac os nad ydw i'n twyllo fy hun yn fawr, mae rhwbeth ar ych meddwl ch'i er's talwm." Gosododd Ismael ei getyn ar y pentan, a chyfarchodd Mr. Pugh mor agos ag y gallaf gofio yn y geiriau canlynol:—

"Oes, Mr. Pugh, y *mae* rhywbeth ar fy meddwl, a dylaswn fod wedi ei ddyweyd wrthych er's llawer dydd, pe ond i ysgafnhâu ychydig ar fy nghydwybod. Mae eich caredigrwydd digyffelyb at fy ngwraig pan yr oedd hi'n fyw, ac ataf finnau pan oeddwn mewn profedigaeth, ac yn enwedig at fy machgen, wedi fy ngosod o dan y fath ddyled i chwi, nad allaf dalu y filfed ran o honi byth. Ac eto ni dderbyniais erioed gymwynas oddiar eich llaw heb fod fy nghydwybod ar dân wrth ei derbyn; oblegid chwi, o bawb yn y byd, yr wyf wedi ei niweidio fwyaf. Yr ydych yn synu; ac felly gellwch; ac nid allaf byth obeithio am eich maddeuant ond ar yr ystyriaeth fy mod wedi eich niweidio yn fy anwybodaeth, neu o leiaf yn fy anystyriaeth. Pe trethwn eich amynedd trwy fyned dros hanes fy mywyd, hwyrach y gwnai hyny liniaru ychydig ar fy nhrosedd yn eich golwg. Ond ni wnaf eich poeni gyda hyny heno. Fel y gwyddoch, treuliais y rhan fwyaf o'm hoes yn Lloegr. Fy nghymdeithion y pryd hyny oeddynt, gan mwyaf, yn feddwon ac anffyddwyr. O'm hieuenctyd yr oeddwn yn hoff iawn o ddarllen; ac yn ystod fy arosiad yn Lloegr darllenais agos bob llyfr na ddylaswn ei ddarllen. Pan ballodd fy

iechyd, a phan ddychwelais yn ol i'r Dreflan, yr oeddwn heb fod mewn moddion gras er ys llawer o flynyddoedd, ac yr oedd fy syniadau am grefydd a chrefyddwyr yn isel a chaled. Edrychwn ar grefyddwyr fel dosbarth yn cael ei wneyd i fyny o ffyliaid a *humbugs*, ac ar weinidogion y gair yn enwedig fel rhagrithwyr twyllodrus, y rhai oeddynt yn yspeilio poblach dlodion o'u harian. Golygwn eiriau fel 'cymwynasgarwch,' 'cariad,' &c., megys geiriau gweigion, y rhai a ddefnyddid gan offeiriaid cyfrwys i guddio eu twyll; a chredwn mai y geiniog oedd yn llywodraethu pawb a phobpeth. Cadarnhäwyd fi yn fy nghredo gan ymddygiadau bryntion y *scoundrel* digydwybod hwnw, Jeremiah Jenkins. Er fy mod yn wael iawn fy iechyd ar y pryd, ac y dylaswn feddwl am fy niwedd, yr oeddwn yn y fath ysbryd fel yr oedd melldith i rywun neu gilydd ar fy nhafod bob awr o'r dydd.

"Un diwrnod daeth Tom Jenkins yma i ymofyn y rhent—*noble fellow* oedd Tom—a chydag ef yr oedd eich mab, Robert Pugh. Yr oedd ef yn glyfrach bachgen hyd yn nod na Tom, oblegid, y mae yn debyg, iddo gael gwell addysg a dygiad i fyny. Yr oedd arnaf ddeg swllt o rent, ac nid oedd genyf ddim i dalu. Rhoddodd Robert Pugh ei law yn ei boced, a thalodd fy nyled yn erbyn fy ngwaethaf. Wrth weled caredigrwydd y bachgen calonagored, yr hyn oedd yn beth newydd a dyeithr i mi, mynais innau ei anrhegu â'r aderyn goreu a feddwn —brawd i hwnyma, syr (wrth ddyweyd hyn cyfododd Ismael ar ei draed, a rhedodd ei ewin ar draws *wire* cawell *green canary* prydferth oedd yn ei ymyl), y *breed* goreu allan, Mr. Pugh. Ond nid oes eisieu i mi ddyweyd dim am yr aderyn—gwyddoch beth ydyw, oblegid y mae yn y Cartrefle heddyw, ac nid oes ei gyffelyb yn y chwe' Sir. Byth wedi hyn, bu eich mab a minnau yn gyfeillion mawr, ysywaeth. Llawer hirnos auaf a dreuliodd efe yma, gan eistedd yn y gader yr ydych chwi yn eistedd ynddi yn awr. Nid oedd arno, fel y gwyddoch, brinder arian; a phob amser y byddwn mewn anghen, yr oedd ei law yn agored i'm cynnorthwyo. O herwydd fy

mod wedi gweled a darllen llawer, yr oeddwn yn gallu ei ddifyru bob adeg gyda chwedleuon, a gwyddwn fod genyf ddylanwad mawr arno. Ofnai yn fawr i chwi ddyfod i wybod ei fod yn mynychu fy nhŷ, ac nid heb reswm. Rhag i mi eich poeni yn ormodol, Mr. Pugh, mi doraf fy ystori yn fer. Er fy nghywilydd yr wyf yn addef i mi gymeryd trafferth i greu rhagfarn yn ei feddwl yn erbyn crefydd a chrefyddwyr, ac o dipyn i beth llwyddais i'w gael i goleddu yr opiniynau a goleddwn i fy hun y pryd hwnw yn gydwybodol. Er ei fod yn mynychu moddion gras yn lled gyson er mwyn eich boddhâu chwi, ymfalchïwn a chwerthwn yn fy llawes ei fod ar yr un pryd yn ffieiddio yr holl foddion, ac yn enwedig y pregethwyr. Nid dyna'r cwbl, syr, na'r gwaethaf—Duw faddeuo i mi fy nrygioni! cymhellais ef i ddyfod gyda mi i'r *White Horse.* Yr oedd yn anfoddlawn iawn ar y dechre; ond wedi i mi chwerthin ymaith ei ragfarnau, fel y galwn hwynt, ildiodd. Ni chefais ddim trafferth i'w gael yno wedi hyn. Yr oedd yn hoffi y cwmni, a'r cwmni yn ei hoffi yntau. Gwyddoch yn rhy dda, Mr. Pugh, beth a fu'r canlyniad. Er nad ydwyf mewn modd yn y byd am geisio cyfiawnhâu fy hun, y mae'r Nefoedd yn gwybod na fwriedais ei wneyd yn feddwyn. Fy ymdrech gwastadol oedd ei ryddhâu, bid siŵr, oddiwrth yr hyn a ystyriwn i yn fy ffolineb y pryd hwnw yn rhagfarnau crefyddol, a'i arwain i edrych ar bethau oddiar safle synwyr cyffredin. O y fath ynfytyn oedd ei athraw! Ond aeth y dysgybl y tu hwnt iddo yn union! Daliwyd ef yn rhwyd uffernol y diafol; collodd ei gymeriad, a gwarthruddodd ei dad a'i deulu. Ond beth wnaf fi yn siarad? pe bae genyf fil o dafodau ni fedrwn fynegu hanner eich profiad chwerw chwi eich hunan. Yr holl anghysur, yr holl bryder a'r cyni calon yr aethoch drwyddo, yr holl obeithion dysglaer a fallwyd; rhoddwch y cwbl wrth fy nrws i—yr wyf yn gyfrifol am y cyfan, a byddai raid i chwi feddu calon ddwyfol ymron i allu maddeu i mi!

"Mi welaf, Mr. Pugh, fy mod yn rhwygo eich teimladau. Ond cyd-ddygwch â mi am fynyd. Gadewch i mi

wneyd *clean breast*, byddaf ar ben yn union. Yr oedd Robert bob amser yn son am fyned i ffwrdd, ac am gael gweled mwy o'r byd, ac ar yr un pryd yr oedd yn hoff iawn o'i gartref a'i deulu, yn enwedig ei chwaer, hyd yn nod pan fyddai efe yn ei gyflwr gwaethaf. Gwn eich bod yn cofio y noswaith yn dda pan ddywedasoch wrtho, nad oeddych yn bwriadu yn y dyfodol agor eich drws i feddwyn. Daeth Robert Pugh yma y noswaith hono. Wedi iddo fod yma ychydig fynydau, aeth allan; ac yn y cyfamser gallodd fenthyca swm lled fawr o arian gan Tom Jenkins. Dychwelodd yma drachefn, ac arosodd hyd dri o'r gloch y bore, a mynegodd i mi ei benderfyniad i fyned ymaith. Ceisiais ei berswadio i newid ei feddwl; nid er mwyn ei deulu, yr wyf yn addef, ond er fy mwyn fy hun, oblegid yr oeddwn yn hoff iawn o hono; a phwy nad oedd? Ond ni fynai ei droi—yr oedd yn benderfynol o fyned i ffwrdd. Aethum i'w hebrwng bedair milldir o ffordd—hyd at y Coed Gwylltion, a ffarweliais âg ef yn nhywyllwch y bore, y pymthegfed dydd o Dachwedd; ac nid oes genyf gywilydd dyweyd i ni ein dau dywallt dagrau; oblegid er mor annuwiol oeddym, nid oedd yr oll o deimladau goreu y galon ddynol eto wedi ein gadael. Camgymeriad mawr, syr, ydyw tybied nad ydyw y meddwyn yn teimlo, ac yn teimlo yn ddwys ar adegau. Gwelais amryw yn fy nydd, wedi iddynt sobri, yn wylo nes oeddynt bron yn ddall wrth ystyried mor ddwfn yr oeddynt wedi syrthio i drueni a chaethiwed meddwdod. Gwn na chlywsoch chwi byth air oddiwrth Robert Pugh, ond anfonodd amryw lythyrau ataf fi.

"Rhawg wedi iddo fyned ymaith, cymerwyd fy ngwraig yn wael, a bu raid i mi ofyn i Dr. Ellis ddyfod ati. Erbyn hyn yr wyf yn meddwl fy mod yn gweled bys Duw yn hyn, i fy nwyn i fy synwyrau. Mewn ymddyddan â mi deallodd Dr. Ellis yn fuan fy mod yn un o'r ynfydion hyny nad ydynt ond wedi edrych ar un ochr i fywyd, a hono yr ochr waethaf. Yn ei ddull siriol a charedig, treuliodd lawer awr yn yr hen gaban tlawd yma i geisio fy argyhoeddi o fy ffolineb. Yr oedd yn drech

na mi mewn dadl. Pa safle bynag a gymerwn, yr oedd yn fy nghorchfygu yn lân. Heblaw fod ganddo well tir i sefyll arno, yr oedd wedi darllen mwy na mi. Dechreuodd goleuni dywynu i fy meddwl, ond yr oeddwn yn rhy ystyfnig i gydnabod hyny hyd yn nod wrthyf fy hun, a phrotestiwn mai hunan a'r geiniog oedd yn llywodraethu pawb. Yr oedd holl ymddygiadau Dr. Ellis tuag ataf fi a'm gwraig yn condemnio fy athrawiaeth, oblegid dywedaswn wrtho ar y dechre nad allwn dalu iddo, ac am ei holl lafur a'i garedigrwydd nid oedd yn dysgwyl ceiniog. Syr, os oes dyn da ar y ddaear, Dr. Ellis ydyw hwnw! Yr oeddwn yn barod i wneyd unrhyw beth a ofynai i mi oddigerth cydnabod fod fy opiniynau yn gyfeiliornus. Pan ddaethoch chwi a'ch cyfaill i'm ceisio i'r Ysgol Sul, yr oeddwn mewn sefyllfa ryfedd o ran fy meddwl. Dymuniad fy nghalon oedd cael ffraeo â phawb oddigerth â'r doctor, a rhoi *kick* i'r byd a marw. Ond yr oeddych fel pe buasech wedi gwneyd â'ch gilydd i fy lladd trwy eich caredigrwydd. Yn ben ar y cwbl, daeth eich gweinidog, Mr. Rees, yma. Pan ddeallais pwy oedd efe, deffrôdd fy holl ragfarnau yn erbyn pregethwyr yn y fan. Ond yr oedd un peth ynddo a gafodd ffafr yn fy ngolwg; nid oedd ganddo gadach gwyn, ac yr oedd wedi ymwisgo yn union fel rhyw ddyn arall; a chefais nerth i lywodraethu fy natur ddrwg, a pheidio dyweyd dim yn gas wrtho. Peth arall yn Mr. Rees a gafodd argraff dda arnaf oedd nad oedd dim *twang* na *cant* grefyddol o'i gwmpas, yr hyn bethau oedd yn fy ngwneyd yn sâl pan ddeuai y *curate* yna o'r De yma i ymweled â mi. Yr oedd fy ngwraig yn rhy wael i Mr. Rees allu ei gweled y diwrnod hwnw, ond eisteddodd i lawr i ymddyddan â mi. O herwydd ei fod yn edrych yn lled ieuanc, meddyliais os oeddwn wedi cael fy ngorchfygu gan y doctor, y gallwn fesur cleddyfau yn lled lew â llencyn fel hwn, a themtiais ef i ddadl. Buasai yn well i mi beidio. Triniodd fi fel baban; taflodd fi i'r awyr, mewn ffordd o siarad, daliodd fi âg un llaw, gosododd fi ar wastad fy nghefn ar lawr, a chwareuodd â fy nhrwyn, a hyny yn y

ffordd fwyaf tawel ac hamddenol a welais erioed. Yr oeddwn yn chwys dyferol gan gywilydd; a gwelais y fynyd hono mai un peth oedd siarad yn fawr yn nghanol ffyliaid yn y *White Horse*, ac mai peth hollol wahanol oedd siarad â dynion o synwyr a dysg. Parhaodd Mr. Rees i ddyfod yma yn gyson, nes oeddwn o'r diwedd yn edrych ymlaen at ei ymweliadau gydag awch.

"Yr oedd fy ngwraig ymron mor ddifeddwl am ei diwedd ag oeddwn innau cyn yr argraffiadau da a wnaed ar ei meddwl gan gynghorion yr hen greadures ddiniwed Siân Jones. Hyd y dydd hwn, syr, nis gwn yn iawn pa un ai yr hen Siân ai Mr. Rees a fu'yn foddion yn llaw Duw i'w dwyn i afael â gwir grefydd; ond gwir grefydd a gafodd càn sicred a'r byd, fel y gwyddoch. Yn ei holl boenau a'i gwendid, yr oedd hi yn dawel a diolchgar. Bu Dr. Ellis yn hynod o ffyddlawn; ond er ei holl lafur a'i ofal, nid allwn gelu oddiwrthyf fy hun fod fy ngwraig yn gwaethygu bob dydd, ac yr oeddwn ymron dyrysu yn fy synwyrau wrth adgofio fy ymddygiadau angharuaidd tuag ati am lawer o flynyddoedd; ond ni soniai hi un gair am danynt. Un noswaith, ychydig wythnosau cyn iddi farw, yr oeddwn yn eistedd wrth ei gwely yn ei gwylio. Edrychodd arnaf yn sefydlog am rai mynydau, a thybiwn fy mod yn gweled angeu yn ei gwyneb. 'Is.,' ebe hi, 'wnei di addaw un peth i mi?' 'Beth ydyw hyny?' gofynais innau. 'Wnei di addaw?' ebe hi drachefn. 'Gwnaf, beth bynag ydyw,' atebais, oblegid yr oedd fy nghalon bron a thori. 'Wnei di fyn'd i'r capel, a darllen y Bibl?' Nis gallasai ofyn peth mwy anhawdd genyf ei gyflawni; ond yr oeddwn wedi rhoi fy ngair, a dywedais drachefn, 'Gwnaf.' 'Wnei di un peth arall?' gofynodd wed'yn. Credwn nas gallasai ofyn mwy nag oedd wedi ei ofyn eisoes, a dywedais yn bendant, 'Gwnaf unrhyw beth a ofyni.' 'Dos ar dy liniau, ebe hi. Teimlais rywbeth fel dwfr oer yn rhedeg rhwng fy nghnawd a fy nghroen, ond ufuddheais. Mewn ychydig eiriau syml, gweddïodd yn daer drosof fi a Jim, yr hwn oedd ar y pryd yn cysgu yn ei ddillad ar lawr y llofft.

Nis gallaf ddesgrifio i chwi fy nheimladau, a phrin yr oeddwn yn credu mai myfi fy hun oeddwn wrth feddwl fel yr oedd fy ngwraig anllythyrenog wedi gorchfygu balchder fy nghalon trwy ryw ddylanwad rhyfedd a dyeithr i mi.

"Ond maddeuwch i mi am son cymaint am danaf fy hun, er fy mod yn ceisio bod yn gynnil. At hyn yr oeddwn yn cyfeirio. Yr hyn a fawr ofnais a ddaeth arnaf o'r diwedd, a buasai wedi dyfod yn gynt oni buasai am eich caredigrwydd chwi, Mr. Pugh. Un noswaith—yr ydych eich dau yn cofio y noswaith yn dda—yr oedd yn ystormus iawn, ac yn fwy felly ar fy mynwes i. Yr oedd fy ngwraig yn ymladd am ei bywyd, a Siân Jones a Jim a minnau yn edrych arni heb allu gwneyd dim iddi. Daeth y doctor yma; ac wedi fy ngalw o'r neilldu, dywedodd wrthyf ei fod yn ofni ei bod yn marw. Wrth gwrs, gwyddwn hyny cystal ag yntau; ac eto aeth ei eiriau fel cleddyf trwy fy ymysgaroedd. Yn y man deallasom ei bod yn dymuno cael gweled Mr. Rees, a rhedodd Jim i'w gyrchu. Methais i ag aros yn yr ystafell. Tra yr oeddwn yn eistedd o flaen y tân yn y fan yna mewn synfyfyrdod, ac yn dysgwyl am Mr. Rees a Jim, clywais rywun yn curo y drws yn ysgafn. Cyfodais i agoryd, a phwy a welwn ond eich mab Robert Pugh. Yr oedd yn wlyb at y croen, ac yn edrych yn wael a blinedig iawn. Dywedodd wrthyf ei fod wedi bod yn fachgen drwg, a'i fod wedi dyoddef caledi mawr—ei fod wedi gweithio ei ffordd o'r America i'r wlad hon gyda'r bwriad o daflu ei hunan wrth eich traed, ac erfyn eich maddeuant—ei fod wedi bod wrth y Cartrefle, ac iddo edrych drwy y ffenestr—ac iddo eich gweled chwi, ei fam a'i chwaer, a'ch cyfaill yma, a rhywun arall tebyg i bregethwr, a'ch bod oll yn ymddangos yn gysurus a llawen, ond ddarfod i'w galon syrthio ynddo, ac iddo ofni myned i fewn rhag na buasech yn rhoddi derbyniad iddo."

Hyd yn hyn yr oedd Mr. Pugh a'i ddau benelin yn gorphwys ar ei liniau, ac yn cynnal ei ben rhwng ei ddwylaw, ac yn edrych yn drist tua'r llawr; a phan ddy-

wedai Ismael y geiriau olaf, byth nid anghofiaf waedd wasgedig fy hen gyfaill—

"O! fy machgen anwyl!"

"Goddefwch am fynyd, Mr. Pugh," ebe Ismael; "dywedais wrth eich mab am fy sefyllfa, fod fy ngwraig yn marw, a fy mod yn dysgwyl Mr. Rees yma bob mynyd, ond, ebe fi wrtho, mae i chwi gan' croesaw i aros wrth y tân drwy'r nos. Tra yr oeddwn yn dyweyd hyn, clywem lais rhywrai yn nesâu at y tŷ; a phan agorodd Jim y drws, adnabyddodd Robert Pugh eich llais chwi; a chan osod ei fys ar ei safn i arwyddo nad oeddwn i son dim llithrodd i'r ystafell gefn yma, gan gau y drws ar ei ol. Wedi i chwi eich pedwar fyned i'r llofft, daeth yntau yn ol, a mynodd fyned ymaith; ac wrth fyned dyma oedd ei eiriau, y rhai a ddywedodd mewn brys mawr, 'Ismael, peidiwch a dyweyd wrth fy nhad. 'Rwyf yn gwel'd na fedraf godi *courage* i fyn'd adre; os clywch fy mod wedi marw, dywedwch wrthynt fy mod wedi eu gweled oll—ffarwel am byth!' a gwasgodd fy llaw yn dŷn, a chyn i mi sylweddoli ei eiriau, clywn ef yn cerdded yn gyflym yn y tywyllwch i fyny'r buarth. I ba le yr aeth y noswaith hono nis gwn, ac ni chefais lythyr mwy oddiwrtho."

Peidiodd Ismael a llefaru, ac edrychai ef a minnau ar Mr. Pugh, yr hwn a barhâi yn yr un sefyllfa, ond ei fod yn siglo fel cryd o'r naill ochr i'r llall, ac yn ymddangos yn y dirdyniadau mwyaf. Ar ol mynyd o ddystawrwydd, cododd yr hen foneddwr anwyl ei ben. Ymddangosai ei wyneb i mi yn hynach o flynyddau nag ydoedd awr yn ol. Edrychodd yn galed ar Ismael, ac anhawdd oedd dyweyd pa un ai gofid ai cerydd oedd amlycaf yn ei wynebpryd, tra y dywedai gydag anhawsder mawr,

"Ismael, ddaru mi ddim haeddu hyn oddiar eich llaw. Pam na fasech ch'i yn d'eyd wrtha i fod fy machgen yn eich tŷ y noswaith hono?"

"Mr. Pugh," ebe Ismael, "gwyddwn ei fod wedi bod yn afradlawn iawn, ac wedi diystyru eich holl gynghorion, ac yr oeddwn yn ofni na fuasech yn maddeu iddo, ac na fuasai dyweyd wrthych yn ateb un dyben."

"Madde iddo! madde iddo!" gwaeddai yr hen dad; "pe base' i ddrygioni o yn ganmil mwy, baswn yn madde iddo o waelod fy nghalon!"

Neidiodd Ismael ar ei draed y fynyd hono, a chan gydio yn mraich Mr. Pugh, dywedodd, "Dowch gyda mi, syr," ac arweiniodd ni i'r llofft. Y gwrthddrych cyntaf a welsom ar ben y grisiau oedd Gelert, yr hwn oedd yn ysgwyd ei gynffon ac yn edrych yn llawn *concern*. Y nesaf oedd Dr. Ellis, yr hwn a ddaethai i gyfarfod Mr. Pugh ac a gydiodd yn ei fraich. Yn sefyll wrth ochr y gwely, gyda'i chefn atom, yr oedd Siân Jones, ac ar y pryd yn derbyn llestr o law—wel o law Robert Pugh, yr hwn oedd yn eistedd yn y gwely. Yr oedd ei wedd yn welw a churiedig; ond pan welodd efe ei dad, rhuthrodd hyny o waed oedd ganddo i'w ruddiau, gan gilio yn ol drachefn a'u gadael yn fwy gwelw nag o'r blaen. Edrychodd y ddau ar eu gilydd mewn dystawrwydd. Canfyddwn fod Mr. Pugh yn gwneyd ymdrech galed i edrych yn *stern* i wyneb cywilyddgar ei fab, yr hwn a ofynodd yn wylaidd, "'Nhad, ga i dd'od adre i farw?" Dirgrynai pob gïen yn ngwyneb yr hen ŵr, ond nid atebodd efe yr un gair. "Mr. Pugh bach," ebe Siân Jones, "cofiwch am ddammeg ein Gwaredwr bendigedig;" a gadawodd yr hen wreigan yr ystafell. Nid cynt y dywedodd hi hyn nag y nesaodd Mr. Pugh at ei fab, a chan ymaflyd yn ei law estynedig, syrthiodd ar ei fynwes, ac wylodd yn hidl; ond ni lithrodd un sill dros ei wefusau. Clywem rywun yn dyfod i fyny y grisiau, a gwnaeth Noah ei ymddangosiad a dywedodd, "Mae pob peth yn barod." "A oes perygl ei symud?" gofynai Ismael i'r doctor. "Dim o gwbl," oedd yr ateb. Cymerodd Noah Mr. Pugh ymaith. Yr oedd y bachgen afradlawn mor wanaidd, neu ynte yr oedd cyfarfod ei dad wedi effeithio arno mor fawr fel nad allai wisgo am dano, a bu raid i'r Doctor Ellis a minnau ei helpio. Wrth i ni adael y tŷ, dywedodd Robert Pugh rywbeth yn ddystaw yn nghlust Ismael, ac ysgydwodd y ddau ddwylaw yn garedig.

Oni buasai ei bod yn hwyr ar y nos, a phawb wedi

myned i orphwys er ys meityn, gallasai y trigolion glywed Robert Pugh yn pesychu yn drwm fel yr oedd efe yn gwegian yn mraich Dr. Ellis a minnau wrth fyned i fyny y buarth. Pan gyrhaeddasom yr heol, yr oedd y cerbyd yno yn ein haros, ac ymhen ychydig fynydau yr oeddym ein tri yn y Cartrefle. Er fod yr olygfa yno y noswaith hono yn fyw ar fy meddwl, ni cheisiaf ei desgrifio.

Ychydig a soniwyd am Robert Pugh yn yr hanes hwn, ac nid ydwyf yn dewis cyflenwi y darllenydd â mwy o wybodaeth yn ei gylch nag sydd wir anghenrheidiol i wneyd yr hanes yn rhywbeth tebyg i gyflawn. Cawsai yr addysg a'r dygiad i fyny goreu, ac yr oedd yn fachgen talentog a charedig, ond llithiwyd ef gan gyfaredd y ddiod feddwol. Gwnaeth ei deulu a'i gyfeillion bob ymdrech i'w ddiwygio, ond bu y cwbl yn ofer. Am amser cyn iddo fyned oddicartref, beïai rhai Mr. Pugh am ei oddef cyhyd, gan ddadgan yn gryf y buasent hwy wedi ei droi dros y drws er ys llawer dydd. Ragrithwyr! leied a wyddech chwi fel yr oedd Mr. Pugh yn ei garu! Pan ddywedodd efe wrtho nad oedd yn bwriadu yn y dyfodol agor ei ddrws i feddwyn, ni ddychymygodd am fynyd roddi y bygythiad mewn grym; a bu yn edifar ganddo ganwaith adael i'r geiriau syrthio dros ei wefusau. Ac eithrio Ismael, ni wyddai neb ddim o hanes Robert Pugh tra y bu oddicartref, hyd nes y cafwyd yr adroddiad o'i enau ef ei hun y noson y cymerwyd ef i'r Cartrefle. Mae rhai blynyddau er hyny; ond gwelaf fy hunan yn ystafell wely oreu y Cartrefle. Yn eistedd mewn cader esmwyth y mae Mr Pugh, ac yn chwerthin ac yn wylo bob yn ail. Weithiau y mae yn chwerthin lle dylai wylo, ac yn wylo lle dylai chwerthin. Wrth edrych ar wyneb Noah, gwyddwn ei fod ef fel fy hunan yn ofni fod yr hen ŵr yn dechreu dyrysu, ac fod y cyfarfyddiad yn ormod iddo. Yn eistedd yn ei wely y mae yr afradlawn, ac yn cael ei gynnal gan amryw glustogau. Er ei fod yn wan ac yn pesychu yn dost, y mae yn mynu cael siarad, a dadgan ei edifeirwch. Wrth ei ochr y mae ei fam a'i chwaer yn llawn pryder, ac yn dyfeisio, gyda chynnorthwy Dr. Ellis, pa gordial a

roddir iddo nesaf. Yn un gongl o'r ystafell y mae Jim, ac yn sychu ei lygaid yn llawes ei gob, er nas gŵyr yn iawn am ba beth y mae yn wylo, os nad am ei fod yn gweled ei feistr yn gwneyd felly. Mae drws yr ystafell yn lled agored er mwyn cael digon o awyr bur. Mae Susan yn yspïo gyda chil y drws, ac yn rhwbio ei llygaid â'i ffedog, gan gymeryd arni golli dagrau—ond cymeryd arni y mae; oblegid ni bu erioed yn dda ganddi am Robert Pugh, o herwydd y byddai bob amser yn ei "phlagio." Mae Mrs. Pugh yn gorchymyn Susan a Jim i'w gwelyau, ac er yn anfoddlawn y maent yn gorfod myned. Crefa Miss Pugh ar ei brawd i geisio bod yn llonydd a gorphwyso; crefa yntau am gael dyweyd ei ystori, "rhag ofn," meddai, "na byddaf byth eto yn ddigon cryf i'w hadrodd." Mae Dr. Ellis yn rhoi caniatâd iddo ddyweyd ei hanes, gan awgrymu y bydd yn fwy tawel ar ol cael dyweyd yr hyn sydd ar ei feddwl. Mae ei ystori yn faith—yn rhy faith i mi roddi crynodeb o honi yn y bennod hon.

## PENNOD XXIV.

### YR AFRADLAWN.

PE buasai rhywun eisieu engraifft ddifrifol o ganlyniadau dinystriol anghymeroldeb, gallasai ei chael yn Robert Pugh y noson y cymerwyd ef i'r Cartrefle gan Dr. Ellis a minnau. Ond y mae yn ofnus fod yr engreifftiau yn rhy aml, a bod ein llygaid wedi cynnefino gormod â hwynt iddynt gynnyrchu yr effaith a ddylent ar ein calonau. Y noson hono nis gallaswn beidio edrych yn ol ryw chwe' blynedd. Gwelwn o flaen fy meddwl lencyn iraidd hoew, ugain oed, o'r enw Robert Pugh. Yr oedd hwnw yn foneddigaidd ei olwg, yn addurn i'w deulu, ac yn ffafryn gan bawb. A cedd yn edifar gan ei dad ei fod wedi

gwario cannoedd o bunnoedd ar ei addysg? Nac oedd, oblegid gwelai ddyfodol dysglaer iddo; a phan elai y bachgen i'r swyddfa erbyn naw yn y bore, edrychai ei dad drwy y ffenestr ar ei ol gydag edmygedd. Ond pa beth a welwn o flaen fy llygaid y noson hon yn y Cartrefle? Llencyn chwech ar hugain oed, ond yn edrych yn llawn ddeugain, ei fochau wedi pantio nes yr oeddwn yn ofni eu bod yn cyffwrdd â'u gilydd yn ei safn, ei wefusau yn leision a gwahanedig, ei lygaid yn annaturiol o ddysglaer a gwyllt, ei anadl yn fyr—ei frest fel pe buasai yn pwyso ar asgwrn ei gefn, ac yn peri iddo besychu yn barhâus a phoeri yn feunyddiol—ei aelodau heb brin allu gwneyd eu hôl yn y gwely, a'i ddwylaw yn feinion, masw, a llaith. Yr oedd hyny o lais oedd ganddo yn grâs a sych. Edrychai o'i gwmpas yn aflonydd, ac at y drws yn fynych, fel pe buasai yn ofni gweled rhyw saer calongaled yn dyfod âg arch iddo cyn ei farw! O'r braidd y gallwn goelio mai yr un un oedd y ddau Robert Pugh hyn. Pan yn ugain oed, yr oedd yn iach a chryf, a'i chwerthiniad calonog yn llenwi y Cartrefle, ac yn drydanol yn ei effeithiau ar galonau ei rieni a'i chwaer. Efe ydoedd eu llawenydd a'u gogoniant. Ond yn awr yr oedd ei wyneb wedi ei ordoi â chywilydd; ac er ei fod yn cael croesaw a'r caredigrwydd mwyaf didwyll, bradychai ei wedd anesmwythder poenus ac euogrwydd oedd yn bwyta ei galon. Ni cheisiai gelu dim ar ei afradlonedd, eithr yn hytrach dangosai awydd cryf am ddadguddio y cwbl.

O herwydd ei fod yn wanaidd iawn, cymerodd iddo hir amser i adrodd ei ystori. Gŵyr y darllenydd eisoes fel y darfu i Robert Pugh fenthyca arian gan Tom Jenkins i'w gario drosodd i'r Gorllewin. Cychwynodd oddicartref, meddai, gyda phenderfyniad cadarn i droi dalen newydd. Pan gyrhaeddodd i'r America, meddyliodd y mynai gael gweled ychydig ar y wlad cyn ymaflyd mewn unrhyw orchwyl. Cyn iddo ychwanegu nemawr at ei wybodaeth ddaearyddol, gorchfygwyd ef gan ei hen chwant. Afradlonodd mewn byr amser yr ychydig arian oedd ganddo, gyda'r hwn orchwyl y cafodd gymdeithion cymwynasgar

i'w gynnorthwyo. Wedi gwario y swllt olaf, gadawodd ei holl gymdeithion ef i fwynhâu hyny o gysur a allai ei gael wrth synfyfyrio ar ei bwrs gwag. Meddyliodd ei fod, o'r diwedd, wedi gweled ei ffolineb, a thrachefn gwnaeth benderfyniad i ddiwygio. Wedi dyoddef newyn a chaledi mawr, llwyddodd i gael lle i ennill bywioliaeth gysurus. Yn fuan cafodd godiad i sefyllfa a'i galluogai i roddi arian o'r neilldu. Yr oedd ei ragolygon erbyn hyn yn ddysglaer, a gofidiai yn fynych na fuasai ei rieni a'i chwaer yn gwybod fel yr oedd yn dyfod ymlaen yn y byd; ond nid oedd ganddo ddigon o ymddiried ynddo ei hun i'w hysbysu o hyny. "Rhyfedd," meddai, "er fod Môr y Werydd rhyngom, pan fyddwn yn fachgen drwg credwn bob amser eich bod yn gwybod y cwbl am danaf, a'ch bod weithiau yn edrych arnaf gyda dirmyg, bryd arall gyda thosturi; ond pan yr oeddwn yn dyfod ymlaen yn dda, ac yn byw yn lled agos i fy lle, meddyliwn na wyddech ddim am danaf." Byr fu parhâd ei lwyddiant. Yr oedd wedi rhoi o'r neilldu ymron ddigon o arian i dalu yn ol yr hyn a fenthyciodd gan Tom Jenkins, pryd yr ymosododd yr hen demtasiwn arno gyda mwy o nerth nag erioed. Ymollyngodd yntau iddi gyda'r fath awch, fel pe buasai yn ceisio gwneyd i fyny i'r diafol am yr holl amser yr oedd wedi bod yn sobr. Yfodd yn ddidòr, a phan oedd yn estyn y geiniog olaf i'r tafarnwr, yr oedd ymron wedi dyrysu yn ei synwyrau; a chredai pe buasai yn ei feddiant bumswllt yn rhagor, y buasai ei reswm wedi ei adael am byth. Wrth gwrs collodd ymddiried ei feistr, ac yn ddilynol ei le.

Wedi hyn bu raid iddo fyned trwy gwrs o galedi mawr; a dechreuodd feddwl fod bai yn bod yn rhywle ar y wlad, ac nad oedd yn bosibl iddo fyw yn sobr yn yr America. Credai pe cawsai unwaith fyned adref y gallasai ddechreu bywyd o'r newydd. Hyd yn hyn yr oedd yn iach a chryf. Ymhen y rhawg, daeth yn ddamweiniol i gydnabyddiaeth â chapten llong, yr hwn wedi iddo glywed ei ystori, a roes gynnygiad iddo i weithio ei fordaith gartref. Derbyniodd y cynnygiad yn llawen. Tra bu ar fwrdd y llong, gweith-

iodd mor egnïol a chalonog nes ennill ffafr y capten, yr hwn, pan gyrhaeddasant Loegr, a ddywedodd wrtho, "Pugh, os na chewch groesaw gartref, deuwch yn ol ataf fi, a gwnaf longwr o honoch," a rhoddodd ychydig arian iddo. Ni ddysgwyliodd Robert Pugh y buasai yn gweled wyneb y capten byth ond hyny. Fel yr oedd yn nesâu i'r Dreflan, daeth mil o adgofion i'w feddwl. Meddyliai am yr amser pan oedd yn wych ei wisg, ac yn barchus a chariadus gan bawb. Mor wahanol yr oedd yn dychwelyd i'w gartref! Yr oedd yn dda ganddo fod y noswaith yn dywyll a dryghinog, ac nad oedd berygl i neb ei adnabod. "Pan oeddwn ymhell oddicartref," adroddai, "tybiwn mai gwaith hawdd a fuasai i mi syrthio wrth eich traed ac erfyn eich maddeuant; ond pan ddaethum at y Cartrefle y noson hono, diflanodd fy holl nerth, ac nis gallaswn am yr holl fyd roddi cnoc ar y drws, ac ymddangos ger eich bron yn y cyflwr yr oeddwn ynddo. Wedi i mi edrych drwy y ffenestr, a'ch gweled oll yn hapus a llawen, meddyliais mai creulondeb ynof a fuasai eich gwneyd yn anhapus; a phenderfynais fyned yn ol wedi i mi yn gyntaf gael gweled Ismael." Mae y darllenydd o bosibl yn cofio beth a ddygwyddodd y noswaith hono yn Muarth Jenkins. Wedi i Robert Pugh ymadael âg Ismael, trodd ei wyneb i'r cyfeiriad yr oedd ei gefn ato awr yn ol. Ar y ffordd ni welodd neb a adwaenai o bobl y Dreflan oddigerth Fox yr heddgeidwad, yr hwn oedd ar y pryd yn cellwair yn nrws rhyw dafarndŷ. Pan yn troi ei gefn unwaith yn rhagor ar ei gartref, penderfynodd na dychwelai byth yn ol nes ennill sefyllfa a'i galluogai i wneyd hyny heb orfod plygu ei ben o flaen ei deulu. Yr oedd yn ieuanc a chryf, a chyda chynnorthwy ei gyfaill y capten nid oedd yn gweled dim anhawsder iddo allu gwneyd hyny yn fuan. "Dyn a'm helpio," meddai, "yr oeddwn yn gallu gwneyd penderfyniadau da gystal ag undyn, a'u tori yn hwylusach na neb a welais erioed. Yr oedd morio yn waith caletach nag a ddychymygais ei fod, ac yr oeddwn wedi llwyr flino arno erbyn i mi gyrhaedd yr America. Wedi i mi gael rhoi fy nhroed ar dir sych, cefnais ar y capten caredig, ac ni

welais mo hono mwy. Syrthiais yn fuan i fy hen ffyrdd, weithiau yn gweithio ac weithiau yn meddwi, a phob amser yn yslotian gyda'r ddiod hyd y daliai yr arian. Bum yn y cyflwr hwn yn hir; a hwn ydyw y cyfnod duaf a mwyaf truenus yn fy hanes. Laweroedd o weithiau cefais fy hun ganol nos yn gorwedd mewn conglau a chwterydd, ac yn cael fy nghicio yn fy ystlysau gan yr heddgeidwad pan yn ceisio fy neffro. Ond goddefwch i mi ddyweyd hyn: yn fy holl ddrygioni ni bum yn euog o un pechod rhyfygus arall ond meddwdod, ac y mae hyny yn ormod o lawer. Edrychid arnaf yn y dref lle yr oeddwn fel un hollol anobeithiol, a gwyddwn innau hyny yn burion. Pan yn gweithio, gwnawn hyny, nid er mwyn cael ymborth, ond i gael diod. Gwirod oedd yn fy meddwl yn nghwsg ac yn effro. Yr oedd wedi myned yn glefyd arnaf; yr oeddwn yn llosgi am dano. Pan fethwn yn glir ei gael, byddai rhyw euogrwydd a phruddglwyf llethol yn dyfod drosof nad allaf ei ddesgrifio. Yr oeddwn yn dlawd a llwm ond ni ofalwn am hyny. O'r diwedd ciliodd fy iechyd, yr hyn ar y dechreu a barodd i mi ddychrynu; ond deuais i gynnefino â hyny yn fuan; ac os yr un, yr oeddwn yn fwy awyddus am wirod na phan oeddwn yn iach. Yn raddol aethum yn rhy wan i allu gweithio, a bu raid i mi droi i gardota. Do, bum yn cardota am wythnosau. Un bore yr oeddwn newydd dderbyn cardod, ac yn ol fy arfer wedi ei gwario am wydriad, pryd y teimlais fath o lesmair yn dyfod drosof, ac y syrthiais ar yr heol.

"Mae blanc yn fy hanes ar ol hyn, ac nid blanc ychwaith, oblegid dyma y cyfnod hapusaf ar fy mywyd tra fum oddicartref. Meddyliwn fy mod yn y Dreflan. Gwelwn fy hun yn chware yn hapus gyda Tom Jenkins ac eraill o gwmpas y Cartrefle. Ar un adeg gwelwn fy hun am yspaid maith yn gorwedd yn fy ngwely gartref, a Kit yn gweini arnaf yn barhâus; ac yr oeddwn yn methu deall paham y gwnai hi hyny, a minnau yn teimlo yn berffaith iach a hapus. Bryd arall, byddwn yn yr ysgol, neu ar gefn y ferlen yn difyru fy hun, ac yn gwneyd campau, ac yn llawn iechyd ac ysbryd. Yr unig beth

a'm blinai oedd fy mod yn clywed llais Jeremiah Jenkins yn fy nilyn i bob man. Càn gynted ag y dechreuai Tom a minnau chware, clywem ei dad yn gwaeddi yn chwerw arno. Ond nid oedd Tom na minnau yn gofalu dim am dano, ac yr oeddem yn hollol ddedwydd. Ond och fi! breuddwyd oedd. Deffroais un diwrnod, a gwelwn fy hun mewn lle ac yn nghanol pobl ddyeithr. Yr oeddwn yn yr *hospital*, ac wedi bod yno, fel y dywedai y *nurse* wrthyf, er ys naw niwrnod. Meddyliais ei bod yn y pen arnaf; a rhwng argyhoeddiadau cydwybod euog a llesgedd mawr, yr oedd fy nghyflwr yn hollol druenus. Nis gallaf byth adrodd yr hyn a aeth drwy fy meddwl tra bum yno yn gorwedd yn fy ngwendid. Ymddygai y doctor a'r *nurse* yn garedig iawn ataf, ac o dipyn i beth dechreuais gryfhâu. Nid oedd ond un claf arall yn y *ward* lle yr oeddwn i, ac yr oedd hwnw yn cwyno yn barhâus; a thybiwn ar adegau oddiwrth ei swn ei fod yn rhegu ac yn melldithio. "Poor old man, he won't live long," ebe y *nurse* wrthyf un diwrnod. Teimlwn yn ddiolchgar wrth feddwl fy mod i, oedd yn bechadur mor fawr, yn gwella bob dydd; ac yr oeddwn yn awyddus iawn am gael cyfodi a gadael fy ngwely, ond ni chaniatâi y meddyg i mi wneyd hyny.

"Un noswaith methwn a chysgu, gan fel yr oedd fy nghydymaith yn y pen arall i'r *ward* yn gruddfan. Yr oedd ei lamp yn oleu, ac ofnwn y gallai fod y creadur truan yn marw. Penderfynais gyfodi a myned ato. Yr oedd yn orchwyl caled, ond trwy fawr drafferth aethum at ei wely. Gorweddai â'i wyneb oddiwrthyf. Pan glywodd fi yn nesâu, trodd i edrych arnaf. Pan welais ei wyneb bu agos i mi syrthio yn farw. 'Pwy —— ydych chwi?' ebe fe, yn groes ei dymher 'Robert Pugh, o'r Cartrefle, Mr. Jenkins,' atebais. Edrychodd arnaf yn syn, a dechreuodd grynu nes oedd y gwely yn ysgwyd odditano. 'Bob,' ebe efe yn y man, 'wyt ti yn gwybod fy hanes?' 'Yr wyf yn gwybod eich hanes, Mr. Jenkins, yn y Dreflan,' ebe fi, 'ond ni wyddwn eich bod yn y wlad hon.' Yr oedd Ismael wedi anfon ei hanes



Gwely Angeu Jeremiah Jenkins.

t.d. 224

i mi. 'Wel,' ebe efe, 'dydi o ddim *ods;* mae'r *game* yn y pen; ond paid a son wrth y bobl yma.' Cedwais ei hanes oddiwrth bawb. Parhëais i wella; ond bu y doctor yn ddigon gonest i ddyweyd wrthyf na byddwn byth yn iach, ac mai goreu po gyntaf yr awn adref. Hawdd iawn oedd iddo ef son am i mi fyned gartref, a minnau heb un geiniog ar fy helw. Meddyliais nad oedd genyf fi, yn anad neb, le i fod yn ddig wrth Jeremiah Jenkins am ei ddrygioni, a gwnaethum fy ngoreu iddo mewn ffordd o weini arno. Gwyddai, druan, ei fod yn marw yn gyflym; ac ni welais ac ni chlywais am neb mewn cyflwr mor ofnadwy. Yr oedd yn hollol anedifeiriol, ac yn cynddeiriogi wrth feddwl fod yn rhaid iddo farw. Ar adegau methwn ag aros wrth ei ochr; ac eto pan adawn i ef gwaeddai yn ddidòr am danaf. Eisteddwn wrth ochr ei wely y noswaith cyn iddo farw. Teimlwn fy ngwallt yn sefyll ar fy mhen wrth ei glywed yn siarad am y drychiolaethau a ymrithient o flaen ei lygaid. Yn y man trodd ataf yn sydyn, a dywedodd, 'Bob, f'aset ti'n leicio cael myn'd adref?' 'Yn fy nghalon,' ebe fi. 'Estyn y papyr llwyd sydd tan y matras,' ebe fe. Wedi chwilio tipyn, deuais o hyd iddo. 'Agor o,' ebe fe. Agorais ef, ac ynddo yr oedd pwrs llawn. 'Dal o i fyny,' gwaeddai Jenkins. Deliais ef o flaen ei lygaid. 'Edrych arno,' ebe efe yn gyffrous; 'dyna fy ninystr, fy melldith, fy namnedigaeth! Aur oedd fy nuw, aur oedd fy mhobpeth ar hyd fy oes. Gwerthais fy nghorff a fy enaid, gorthrymais y tlawd, y weddw, a'r amddifad, er ei fwyn. Cymerais gochl crefydd i gario allan fy nghynlluniau melldigedig; ac yn y diwedd methais yn fy amcan! Casäwyd fi gan fy ngwraig, fy machgen, a fy nghymydogion; a beth pe buaset yn gwybod y cwbl am danaf? ïe, y cwbl! Wedi dyfod drosodd i'r wlad hon, ceisiais wneyd ffortun wrth *gamblo,* ond methais; mae'r *game* drosodd! 'Rwyf yn taflu fy nghardiau i lawr—nid oes genyf un *trump* yn fy llaw, na gobaith am gael *double,* os gwyddost beth ydyw hyny. Mae angeu yn well chwareuwr na fi; mae yn fy

nhagu y fynyd yma!' Wrth ei glywed yn siarad mor ddychrynllyd, gollyngais y pwrs o fy llaw yn frawychus. 'Ffŵl,' ebe fe yn ddigofus, 'rho fo yn dy boced.' Gwrthodais wneyd hyny am amser; ond wrth ei weled yn cynhyrfu ac yn gwylltio, cyfodais y pwrs drachefn. ''Dydi o dda i ddim i mi,' meddai; 'ac heblaw hyny, yr wyf wedi twyllo dy dad am fwy na'i werth. Mae ynddo fwy nag a dâl am dy gario adref, a gelli roddi y gweddill i Tom os dewisi.' Rhaid i mi addef fod y gobaith am gael myned adref wedi fy ngorchfygu, a rhoddais y pwrs yn fy mhoced. Y fynyd y gwneis hyn, ymdawelodd Jeremiah, a syrthiodd i ystâd o anymwybyddiaeth. Drannoeth bu farw yn y pangfeydd a'r dychrynfeydd mwyaf arswydus. Ar ol claddu Jenkins, agorais y pwrs, a chefais ynddo werth hanner cant o bunnoedd. Arswydwn ddechre defnyddio yr arian, rhag ofn y buaswn yn syrthio i fy hen ffyrdd drygionus; a chan gynted ag y teimlais fy hun yn ddigon cryf, cymerais long am Loegr. Yr wyf yn teimlo yn rhy flinedig heno i adrodd ychwaneg o fy hanes. Mae Mr. Rees, yr hwn sydd wedi bod yn hynod garedig ataf heddyw, yn gwybod fy hanes neithiwr, fel y daethum at y Cartrefle ganol nos, ac fel y darfu i mi ddychrynu Kit a'r hogyn —fel yr aethum wedi hyny i dŷ Ismael, ac yn y blaen. Gwna Mr. Rees adrodd y gweddill i chwi."

Yn union deg syrthiodd Robert Pugh i gysgu, aethum innau gartref, gan adael Noah yn y Cartrefle.

## PENNOD XXV.

### DIWEDDGLO.

BU Robert Pugh yn dihoeni am wythnosau. Ar adegau tybid ei fod yn gwellâu, ond buan y syrthiai yn ol drachefn. Yn ystod yr wythnosau blinion

hyn, yr oedd un nas gadawodd ef ddydd na nos, oddigerth am ychydig oriau. Byddai hi yn wastad wrth ei ochr yn ceisio lliniaru ei boenau a chadw ei ysbryd i fyny. Tra yr oedd ei chalon fel plwm yn ei mynwes, cadwai wyneb siriol a llawen. Synai pawb sut yr oedd hi yn gallu dal allan cyhyd, a mynych y dywedai Robert Pugh, "O Kit, nid oes dy fath yn y byd." Treuliodd Noah lawer o amser gydag ef, ac nid yn ofer; oblegid y mae yn credu hyd y dydd hwn ei fod wedi cael y fraint o arwain ei feddwl i ymddiried yn Nhad yr holl afradloniaid. Chwith oedd gweled Mr. Pugh yn edrych mor brudd a phryderus. Hwyr a bore a chanol dydd byddai y fam wrth ochr ei bachgen yn dehongli ei ddymuniadau, y rhai na fedrai ef roddi mynegiad iddynt. Ond er yr holl weini a'r gwylio, ac er holl ymdrechion diflino Dr. Ellis, yn hollol sydyn un diwrnod ehedodd ysbryd y bachgen ieuanc ymaith tra nad oedd ond ei chwaer gydag ef yn yr ystafell. Nid oedd y dygwyddiad ond yr hyn oeddid yn ei ddysgwyl er ys dyddiau; ac eto pan ddaeth, nid oedd ei chwerwder ronyn llai. Daliodd Mrs. Pugh y brofedigaeth gyda'r tawelwch a'r ymostyngiad prydferth hwnw sydd yn nodweddu pobl o gynneddfau cryfion ac o argyhoeddiadau dwfn. Effeithiodd yr amgylchiad yn wahanol ar natur unplyg ac *impulsive* Mr. Pugh. Crymodd ei gefn a suddodd ei ysbryd o dan y ddyrnod. Pan adgofiwyf mor ieuanc a thyner oedd Miss Pugh, ac mor angerddol y carai hi ei brawd, nid rhyfedd genyf, erbyn hyn, ei bod wedi cymeryd ei farwolaeth mor fawr at ei chalon. Y rhawg ar ol hyn, sylwai wrth Noah a minnau, "Wrth fy ngweled mor drist, chydymdeimlai Jim â fi yn fawr, ac aeth dros yr un ymresymiad yn gymhwys ag a ddefnyddiais i gydag ef pan fu farw ei fam. Cofiai bob gair o hono. Ond mor rhyfedd! er fy mod yn teimlo yn ddwys dros Jim pan oedd yn y brofedigaeth, ni ddeallais ei ofid a'i hiraeth nes i mi ddyfod i'r un amgylchiad fy hun."

Aeth misoedd lawer heibio. Darfu i'r meddyg mawr

Amser, fel y mae o drugaredd yn arferol â gwneyd, liniaru cryn lawer os nad llwyr iachâu y clwyf a achoswyd gan farwolaeth Robert Pugh. Gwelwyd Mr. Pugh unwaith yn rhagor yn siriol a llawen; ond serch hyny yr oedd rhywbeth yn ȯd ynddo. Dywedai Dr Ellis fod yr hen foneddwr wedi cael *slight stroke.* Pan elai allan i roddi tro, gwaghâi Mrs. Pugh ei logellau, onidê byddai wedi cyfranu hyny o arian a fyddai ar ei berson cyn iddo ddychwelyd. Gadawsai Susan y Cartrefle er ys amser, gyda'r amcan clodwiw o edrych ar ol tŷ, amgylchiadau, a chysur gŵr gweddw o grydd, yr hwn na fynai ei wrthod. Nid oedd Jim ychwaith yno mwyach; oblegid yr oedd ei noddwr caredig wedi sicrhâu sefyllfa dda iddo gyda masnachwr parchus mewn tref gyfagos, ymha le yr oedd yn dyfod ymlaen yn rhagorol.

Un bore, tra yr oedd Ismael Price yn ol ei arfer yn sefyll yn nrws ei dŷ yn mwynhâu ei getyn, tynwyd ei sylw gan ddwy iar Siân Jones. Yr oedd yr iar ddu yn pigo y drws, ac yn ymwrandaw yn ddyfal am atebiad; a'r iâr frêch wedi hedeg ar lintel y ffenestr, gan geisio yspïo yn gywrain i'r gegin. Gan fod Siân yn arfer boregodi, deallodd Ismael fod rhywbeth heb fod yn iawn, ac aeth at y tŷ Yr oedd gorchudd ar y ffenestr, fel nad allai efe, mwy na'r iâr frêch, weled i mewn i'r tŷ. Curodd Ismael y drws, ond nid oedd ateb. Curodd yn drymach, gyda'r un canlyniad. Wedi galw ato un o'r cymydogion, torwyd y drws yn agored. Yr oedd y tân wedi llosgi allan yn lludw gwỳn, yr oedd y Bibl mawr â'r hoelion pres ar ei gonglau yn agored ar yr ystôl fawr a'r ysmotiau duon arni; a'r hen Siân â'i hyspectol ar ei gwyneb wedi taflu ei phen yn ol ar gefn y gader ddwyfraich ac yn berffaith lonydd. Pan agorwyd y drws, aeth y ddwy iâr i mewn i'r tŷ fel y gwnaethent gannoedd o weithiau, gan droi eu penau yn gam mewn agwedd ddysgwylgar am eu brecwast, ond gan nad oedd neb yn cymeryd sylw o honynt, dechreuodd y ddwy bigo ffedog stwff cartref yr hen Siân i alw ei sylw at eu hanghenion Ond nid ystyriai Siân, oblegid yr oedd ei

hysbryd wedi hedeg i wlad nad oedd raid iddi ymddibynu ar y ddwy iâr, nac ar drugaredd y *relieving officer.* Cafodd farw yn ol ei dymuniad—heb roddi trafferth i neb.

Mae yr olygfa yn newid. Nid ydyw masnach lawn mor fywiog yn y *White Horse* ag ydoedd pan arweiniais y darllenydd yno y tro cyntaf. Er fod Mrs. Morris yn gofalu am fod tân mawr a chysurus yn y gegin, nid oedd yno brinder lle erbyn hyn i eistedd y cwsmeriaid. Nid ydyw y glöwr yn gallu gwario deg swllt yn yr wythnos am gwrw, fel yr arferai wneyd; ac y mae Mrs. Morris yn methu yn glir a deall sut mae pobl yn meddwl i dafarnwyr allu byw, yn enwedig ar ol codiad yn mhris y drwydded. Yn ngwyneb holl galedi yr amseroedd, mae gan Mrs. Morris, serch hyny, ychydig gwsmeriaid ffyddlawn ymhlith y glöwyr, er nad ellir dysgwyl iddynt wario llawer, gan nad ydyw eu cyflog ond rhyw bedwar swllt ar ddeg yr wythnos yn lle bod yn ddwy bunt a chweigien fel yr oedd er ys talm. Mae tipyn o gyfnewidiad hefyd yn yr ystafell oreu. Mae yr hen ffarmwr methedig erbyn hyn wedi myned i ffordd yr holl ddaear, ac felly hefyd y gwagsymerwr; ond parhâ yr hen filwr i ddyfod yno yn gyson. Mae gan y milwr adgofion parchus am ei gydymaith y ffarmwr; a mynych y dyfyna ei *noble sentiment*, fel y geilw ef, sef, "na byddai byth yn myned i gysgu yn feddw nac yn sobr, heb ddyweyd ei bader," ac hefyd "na feddwodd erioed heb fod yn edifar ganddo am hyny fore drannoeth." Yn y gader yr arferai Ismael ei llenwi, eisteddai gŵr lled gorffol, yn gwisgo het fawr a gwallt llaes. Dengys arwynebedd y dynsawd hwn na fu yn ymweled â'i deiliwr na'i grydd er ys blynyddau. Efe ydyw y newydd-ddyfodiad y cefais achlysur i son am dano o'r blaen. Dywedir ei fod ef yn fardd o fri, ond ei fod heb gyhoeddi ei gyfansoddiadau. Yr ochr arall i'r tân eisteddai bardd arall, yr hwn a gyferchir gan y newydd-ddyfodiad wrth yr enw "Ffrochwyllt." Gŵr gweddol ieuanc, teneu, a blaen ei drwyn yn dechre cochi, ydyw efe. Dywed gwyddonwr enwog o'r Dreflan mai "mynych oragosrwydd y trwyn at wlybwr rhuddboethol ac adlewyrchiadol o ran ei natur ydyw y

rheswm anianyddol am y cochni." Fel y dywedwyd, y mae'r *Ffrochwyllt* hwn yn fardd ; ond protestia y rhai a'i hadwaenant oreu y gallai yfed baril o gwrw mewn llawer llai o amser nag a gymerai iddo i gyfansoddi englyn. Gall fod o ddyddordeb i'r darllenydd wybod nad ydyw *Ffrochwyllt* yn neb amgen na'n hen gydnabod *John Aelod Jones!* Gan fod bywyd ac ymddygiadau *Aelod* yn rhedeg yn groes i reolau eglwys yr Hen Gapel, tybiwyd yn ddoeth ei *ddiaelodi.* Yn ganlynol gwelodd Aelod Jones yn eglur nad priodol oedd iddo ef wisgo yr enw *aelod* ac yntau *heb fod* yn aelod Yr oedd yr un mor eglur iddo ef nad oedd yn bosibl byw heb ffugenw; ac wedi dwy noswaith o gydymgynghoriad pwyllog gyda'r newydd-ddyfodiad, penderfynwyd ar yr enw *Ffrochwyllt*, yr hwn a wisga Jones hyd y dydd hwn.

Nid ydyw amser nac amgylchiadau yn effeithio nemawr ar Mr. a Miss Rogers o'r *London House.* Byddai yn orchwyl mor anhawdd gweled gwahaniaeth rhwng y naill ddiwrnod a'r llall yn eu bywyd ag a fyddai canfod hyny ar wyneb cloc rheolaidd. Derbyniai Mr Rogers lythyr yn achlysurol oddiwrth Walter Wynn, yr hwn sydd yn awr yn y coleg yn ymbarotoi at fyned yn glerigwr. Barn onest Mr. Rogers ydyw y gwna Walter berson rhagorol, ond na wnaethai frethynwr byth—am nad oedd digon yn ei ben.

Oddiar yr amser y daeth Noah Rees i'r Dreflan, mae eglwys yr Hen Gapel wedi ychwanegu llawer at nifer ei haelodau, ac nid y lleiaf ymhlith y dychweledigion ydyw Ismael. Tipyn yn stoicaidd ydyw efe, a lled hoff o ddadl, serch hyny nid oes neb yn ammheu nad ydyw wedi cael tro. Mae yr eglwys a'r bugail yn awyddus am gael rhagor o flaenoriaid, ond barn Mr Smart ydyw, fel y gŵyr Mr. Bevan, nad ydyw pethau yn addfed i hyny eto. Cydymdeimlir yn fawr â Mr Smart yn wyneb y brofedigaeth lem a'i cyfarfyddodd yn ddiweddar. Tra yr oedd efe a'i briod hawddgar yr haf diweddaf yn mwynhâu pythefnos yn Llandrindod, yn hollol ddiarwybod iddynt priododd eu merch fab y clochydd. Tarawodd Miss Smart ar y

gŵr ieuanc hwn wrth fyned yn achlysurol i eglwys y plwyf, am nad oedd hi, wrth gwrs, yn deall y bregeth Gymraeg yn y capel. Heblaw fod ei ferch wedi priodi gŵr ieuanc tlawd, gofidai Mr. Smart yn fawr wrth feddwl fod *French* a *German* Miss Smart, a'r *piano* a'r cwbl, erbyn hyn yn hollol ddiwerth iddi. Mae Fred ganddo eto; ac er ei fod dipyn yn hurt, mae yn berffaith ufudd i'w dad.

Edrycha Becca Prŷs yn rhagorol, ac y mae ei dillad càn dyned ag y buont erioed. Pan fyddaf yn ei chyfarfod, dywed wrthyf na bydd hi byth yn hapus nes y caiff ail gyfarfod â "hwnacw."

Mae Mrs. Enoch Jones wedi colli ei llettŷwr. Nid oedd hyn ond peth i'w ddysgwyl, oblegid yr oedd Enoch Jones yn wastad yn dyweyd nad ellid ynddiried i arosiad llettŷwr a fyddai yn ŵr ieuanc. Daw y rheswn am gyflawniad prophwydoliaeth Enoch Jones i'r golwg yn y paragraph nesaf.

Yr oedd yn hirddydd haf, a'r tywydd yn deg ac adfywiol. Un o'r diwrnodau hyny ydoedd ag sydd yn gyru y pruddglwyf ymaith, ac yn temtio gweiniaid a chleifion o'u hystafelloedd pruddaidd i fwynhâu awyr iach. Safai y masnachwr yn nrws ei *shop* â gwên ar ei wyneb fel pe buasai yn dysgwyl gwneyd diwrnod da. Chwibianai yr hogiau hyd yr heolydd. Ymddangosai pawb yn hynod gyfeillgar a digenfigen. Yma ac acw ar gonglau yr ystrydoedd yr oedd twr o bobl yn ymgomio yn llawen. Ceisiai Noah a minnau gyfeirio yn ddirgel tua'r Hen Gapel, ond rywfodd yr oedd pawb yn ein gweled ac yn gwenu arnom. Aethom i'r *vestry-room*. Yr oedd un boneddwr yno o'n blaenau, â llyfr coch o dan ei gesail; yspïais gyda chil y drws, a gwelwn fod y capel yn llawn o bobl, er nad oedd hi yn ddydd Sabboth. Ceisiai Noah fod yn llawen, ond dangosai ei wyneb llwyd lawer o bryder. Yn y man clywem sŵn cerbydau. Maent yn sefyll wrth y capel; ac yn union deg mae boneddigesau a boneddigion yn dyfod i'r *vestry-room*. Yn eu plith mae dau ŵr parchedig a phatrïarchaidd yr olwg yn gwisgo cadachau gwynion. Nid ydynt i bregethu, ond yr wyf yn

deall fod un i "gynnorthwyo" y llall gyda rhywbeth. Yn ebrwydd yr ydym yn sefyll yn gylch yn y sêdd fawr. Mae rhywun yn darllen ardystiad neu ddau yn uchel a hunanfeddiannol, a rhyw ddau yn eu dyweyd ar ei ol yn wanaidd a chrynedig, yn nghanol dystawrwydd fel y bedd. Yr ydym eilwaith yn y *vestry-room*, a rhyw nifer yn *signio* eu henwau yn y llyfr coch. Ni welais Noah erioed yn ysgrifenu ei enw mor wael. Yn union drachefn yr ydym yn yr heol, lle mae tyrfa fawr yn ein dysgwyl. Mae yno ddau gerbyd hefyd a'r ceffylau sydd yn eu tynu yn gwisgo clustiau gwynion. Pan ydym yn chwyrnellu trwy y Dreflan, mae agos i bawb yn sefyll yn eu drysau ac yn chwyfio cadachau. Yr ydym yn y Cartrefle, ac y mae'r tŷ yn hanner llawn o bobl; a phe cawsai Mr. Pugh ei ffordd, buasai yno gymaint arall. Yr wyf yn adnabod pawb sydd yno. Dacw Cadwaladr Rees o'r Tyddyn Bach, yn ei glôs pen glîn llwyd. Dacw Marged Rees ei wraig yn gwisgo bonet anferth o fawr—mor fawr nes peri i Mr. Pugh, yr hwn sydd yn siarad â Mrs. Rees, ymddangos mor bell oddiwrthi ag ydyw oddiwrth y *clerk* pan fydd yn ceisio *railway ticket!* Mae Noah yn siarad â phawb, er mai prin, yr wyf yn ofni, y gŵyr pa beth y mae yn ei ddywedyd. Mae yn anterth ei ddedwyddwch; a buasai cwpan ei lawenydd yn rhedeg drosodd oni bae am fonet fawr ei fam. Mae yno un arall, yr hon sydd wedi ymwisgo yn brydferth; ond pwy sydd yn edrych ar ei gwisg tra y mae ei hwyneb yn arddangos y fath gyfuniad rhyfedd o lawenydd a difrifwch? Y fath ddiwrnod hapus ydyw! Fel y mae pawb yn mwynhâu eu hunain yn y wledd ardderchog! Ni chafodd plant Ysgol Sul yr Hen Gapel, y rhai sydd yn chware yn hoenus mewn cae cyfagos, erioed y fath ddifyrwch. Mae y cerbyd a'r ceffylau â'r clustiau gwynion wrth ddrws y Cartrefle. Nid oes ond dau yn unig yn myned i mewn iddo. Mae Noah yn un o'r ddau, a phawb yn rhoddi bonllef iddo ef a'r "eneth oreu yn y byd," tra y cychwynant yn llawen i dreulio eu mis mêl.